Y dichon y Salamander (Pryf tebyg i'r Genaugoeg) aros a byw ennyd yn tan, y mae St *Auguſtin* ag eraill yn coelio y creadûr hwn oer iawn yw, a'r cafodydd ſy 'n ei fagû: Haul a ſychdwr Angeû ynt iddo: yn ol *Plini* gau hynny aros a wna fe yn y fflam yn gyffelyb i Bibonwy. O'i groen efyr ydys yn gwneûthûr goleſiadaû i lampaû a lyſg yn *Dragwyddol.* Duw yr hwn a wnaeth y Salamander o ddaear ag o glai, a ddarfu iddo o'i addwynder ſtirfio dyn, er o'r unrhyw ddefnydd, eto o naturiaeth mwy hynod a rhagorol. *(b) efe a'i gwnaeth ef ychydig îs na'r Angylion.* Fe ddarfu idduw bennodi iddo a'r ôl y bywyd hwn gyfeillach yr unrhyw deyrnas a'r Angylion. *Eithr dyn yn ei Anrhydedd oedd hŷ ddeall a chyffelybwyd ef i anifeiliaid a ddifethir.* Efe a wnaeth ei hun yn gyfryw Salamander trwy ei falais, ac y bo yn rhaid iddo fyw bob amſer, neu farw bob amſer mewn Tragywyddol flammau. Tragywyddol yw bob peth yngharchardai tanllyd uffern; eithr yn enwedigy chwe pheth hyn.

BEN.

BEN. I.

Y Bennod gyntaf yma ſydd yn dangos, Pa bethau ynt Dragywyddol yn uffern.

1. MAc'r damnedig ei hun yn Dragywyddol, a marw ni wna; nid âll nêb wneuthur a'm dano ei hun, nac a'm arall. (*a*) *byddant yn ceiſio marwolaeth, ac nis cânt.* Ië y deiſyfiad am farwolaeth yn unig, yn gymmaint ag na's gellir rhoddi iddynt eu deiſyfiad, a chwanega eu poenau hwy yn ddifeſur.

2. Y mae 'r carchardy yntef yn Dragywyddol; ni adfeilia byth: fe'i caued i fynu â chreigiau ac â mynyddoedd: y mae ei gloiau a'i farrau mor ſicr a chadarn, nas dichon neb ddyfod allan. Os oes trwy genhadiad Duw i'r un o'r damnedig ddyfod oddi yno allan o flaen dydd farn: fe ddygei uffern er hynny o'i amgylch yn waſtadol, ac ni ddiangei byth rhag poenau.

3 Y mae 'r Tan yno yn Dragy-

wyddol. Criſt ei hun ſyd yn dywedyd yn eglur ym Mathew gymmaint a hynny; *Ewch oddi wrthif rai melldigedig i'r Tan tragywyddol. ydwyt ti yn clywed y gair hwn Tragywyddol*? digofaint yr Arglwydd ſydd yn ennyn y Tan yma, ac ni ddiffydd byth i'r hyn y mae Eſay yn dyſt, gan ddywedyd. (c) *Anadl yr Arglwydd megis afon o frwmſtan, ſydd yn ei enyn ef; rhaid iddo loſgi nos a dydd*, (d) *ac ni ddiffydd: ei fwg ef ſyd yn myned i fyny yn oeſoeſoedd.* Coſpedigaeth tragywyddol a bywyd tragywyddol ynt bethau cyfattebawl, megis y mae St *Auguſtin* yn dywedyd, a'r pethau a font yn gyfattebawl, fyddant o gyffelyb barhâad: gan hynny i ddywedyd ni ddiwedda 'r bywyd Tragywyddol, ac i goſpedigaeth Tragywyddol ddibennu, anghyſſon iawn yw. Am hynny pwy a oedai ei ymchweliad oddi wrth i bechodau.

4. Megis y mae 'r pethau a grybwyllwyd am danynt o'r blaen yn dragywyddol, felly y mae 'r Pryf, a'r poenus gydwybod gan ddwys anobaith, o herwydd y fuchedd a fu. *Eu Pryf ni bydd marw*: felly y mae Eſay yn Prophwydo. Y Poetau neu 'r

Beirdd

Beirdd gynt a droſglwyddodd, o'r yſcrythur ſanctaidd hyn yma i'r chwedlau yr oeddynt hwy eu hunain yn eu gwneuthur: Canys Pa beth yw'r Tityus hwnnw am yr hwn y mae Virgil yn dychymmyg, fod aderyn rheipus yn cnoi ac yn dryllio ei Afu ef bob dydd, yr hon a adferyd ac a wneid o newydd drachefn bob nos, ſel y byddei i'r Aderyn gael beunydd ychwaneg o yſclyfaeth i'w amgnoi? Pa beth yw 'r vultur, ond y Pryf yr ydym ni yn ſon am dano? A pha beth yw 'r Afu, ond y *Gydwybod* gnofaus, a phoenus bob amſer.

5. I'r Tragywyddoldeb hwno eiddo uſtern y mae 'r *farn ddiweddaf* hefyd yn perthynu, a'r Ordinhâad ddiweddaf a barablwyd trwy Griſt yr Uſtus; Ordinhâad (yſywaeth!) *analwedig, anghyfnewidiol, Tragywyddol.* Os trwy enau yr uſtus hwn y Parablir y farn unwaith: Nid oes mor Appelio oddi wrtho, ſefyll a wna hi yn analwedig yn dragywyddol. Yn uſtern nid oes neb ryw, na math yn y byd ar bridwerth am rydddid; ond *anobaith Tragywyddol.* Gwaed Griſt pan oedd ef yn newydd dywallt ar fryn Golgatha, er ei fod ef o rym an-

feidrol

feidrol i wneuthur iawn, er hynny ni chyrhaeddodd ef y damnedig: Os yw iau yr Arglwydd, medd St *Bernard*, yn sau o edifeirwch, yr ydych chwi yn meddwl nad yw hi ynddi ei hun yn felus: eithr rhaid i chwi wybod hyn yma, i bod hi yn felus iawn, os hi a gymmharir i'r Tan hwnnw, am yr hwn yr ydys yn dywedyd, (*a*) *Ewch oddi wrthif rai melldigedig i'r tan Tragywyddol.*

6. Dialedd neu *benyd y golled* (megis y maent yn ei alw) sy 'n Dragywyddol, o blegid ni cheir gweled Duw byth yno: O herwydd na ddichon fod yno le i wneuthur iawn. Canys er bod i'r dialeddau hyn barhau nyiddiwnau aneirif o flynyddoedd, er hynny ni bydd yno un diwrnod, Ie, nac un awr, na chymmaint ag un munud o esmwythdra, na chysfrwng gwedi ei ganiattau. Bydd yno amryw gyfnewidiad ar arteithiau, ethr i fwyhau eu poen a'i gofid: Crist a ragddywedodd hynny yn fynych mewn geiriau eglur trwy Fathew, (*a*) *Plant y deyrnas a deflir i'r tywyllwch eithaf*; *yno y bydd wylofain a rhincian dannedd*: yn wylofain o ran gwres, yn rhin-

rhingcian o ran oerni. Gan hynny pa fodd a dichon dyn fod mor anfeddylgar am dano ei hun a Duw? pa fodd a gallei ddirywio felly yn debyg i anifail? ſe, yn hyttrach pa fodd y dicnon ef fyned yn gyffelyb i graig, neu faen mor ſynnwyr; ac pan fyddo yn myfyrio ar anoddef boenau annhraethadwy uffern, y rhai ni chant byth ddibennu, na Dychryno a chrynu y pryd hynny: *a dywedyd pwrtho ei hun fel hyn, yr wyfi yn ddiammeu ar y ffordd i Dragywyddoldeb, ac nis gwn ni pa cyn gynted y gallaſi ddyſod i ben fy ſiwrnai: Eiſtedd yr wyfi ar riſiau Tragywyddoldeb, a phob gwth bychan ſydd yn barod i'm taro i tan ddwfr y pwll diwaelod?* Eithr os ymddengys hyn mor ofidus nas gellir ei oddef i wr orwedd ped fai ond tros un noſwaith ar wely plu eſmwyth, heb gyſgu na chau mo'i lygaid un amſer ond ucheneidio a thuchan o rhan dolur o'i ben, neu o ryw aelod arall; o ran y ddannoedd neu r garreg: os ymddengys y nos yn hir, a llawer rhyngddi a dydd a chodiad Haul, ac etto fel y dywedais i, yn gorwedd ar wely plu da, a pha cymmeſei ond ychydig ymmynedd, eſe allei

allei obeithio cael esmwythdra pan ele hi yn ddydd, a help oddi wrth y Pysygwr. Och! Och! pa faint mwy annioddefadwy a fyddei hyn i ec. wedd yn tân ddydd a nos, tros fil, a mil; a thrachefn meddaf, mil o flynyddoedd? Mor anwiw ei oddefa fyddei hyn, i wilio yno, i newynu, i sychedu, i losgi, i gael ei arteithio i'r eithaf ym mhob rhan, heb obaith un math ar esmwythdra, na chymmaint a defnyn o ddwfr oerteithr bod mewn anobaith bob amser, ac felly i ffrio ag i gael ei arteithio tros fyrddiwnau aneirif o oesau: ac i fod cyn bell oddiwrth gael neb ryw ddiben, ac na ddichon ef obeithio am neb ryw ddiben byth! Yno Medd *Thomas a Kempys*, ybydd cospedigaeth un awr yn fwy gofidus, na dialedd cant yma o'r blynyddoedd trachwerwaf a allei fod: ni bydd dim esmwythdra, dim cysur i'r damnedig. *O Arglwydd na cherydda fi yn dy lidiawgrwydd, ac na chospa fi yn dy lid. Na chofia bechodau fy ieuengctid, na'm camweddau. Oddieithr iti O ddaw drugarhau, fe dderfydd am danaf yn ddiammeu.*

Ben,

BEN. II.

Yr ail bennod yma ſydd yn dangos, Paham y mae uffern yn Dragywyddol.

YMa y mae qweſtiwn yn cyfodi yr hwn ſydd yn rhyglyddu dyfod i wybodaeth pawb. Pa fodd y dichon hyn fod, y byddei i ddûw yr hwn ſydd yn dda, ac yn drugarog (*Trugaredd yr hwn ſydd oddi ar ei boll weithredoedd*;) goſpi er hynny i gyd, Ie, un pechod marwol, yſgatfydd, gwedi ei wneûthûr mewn munûd, ac yn unig yn y meddwl: Pa fodd a byddei iddo fe meddaf, goſpi y cyfryw bechod, tros Dragywyddoldeb oll? a'i goſpi felly, ag nu choſpir mono efe fyth ddigon; ac er i fyrddiwn o flynyddoedd fyned heibio, er hynny nid ellir byth ddywedyd, *fe goſpwyd digon ar y pechod yma.*

A ddarfû i ddûw am un pechod, a hwnnw yn unig yn y meddwl, ordeinio coſpedigaeth o dan *tragywyddol?* Pa gymmheſſûrdra ſydd yn hyn yma, am bechod a wnaed mewn munûd, *appwyntio Tragywyddol goſpedigaeth?*

pedigaeth? pa ham ynteu y mae Dafydd fendigedig yn llefain, *Clodforwch yr Arglwydd canys da yw: O herwydd ei drugaredd a bery yn dragywydd?* A pha ham y mae Dafydd yn ail adrodd hyn chwegwaith ar hugain, os ydyw Duw mor dost a hynny? I hyn y mae St *Augustin*, *Gregori* a *Thomas Aquinas* ac eraill yn Atteb, 1. ym mhob pechod marwol fod y bai a'i Naturiaeth ei hun yn anfeidrol: o herwydd i fol yn gamwedd yn erbyn mawrhydi anfeidrol Duw. 2. Drachefn yr hwn sydd yn marw yn euog o bechod marwol heb edifeirwch sydd yn gwneuthur cynnmaint a phe buase yn pechu yn *Dragywyddol: canys pe gallasei fyw yn Dragywyddol, pechu a wnaethei yn dragywyddol: ni chollodd ef ewyllys i bechu, ond bywyd i bechu ynddo; gan i fod yn barod, i bechu yn wastadol, pe gal'asei fyw yn wastadol: felly nid yw ef yn peidio a phechu, eithr peidio a byw y mae ef.* 3. Mae hyn i'w ystyrio ym mhellach, nas dichon y dyn damnedig wneuthur iawn byth, er iddo dalu mwy na mwy: canys gan i fod ef yn *Elyn*, ac allan o flafr a Duw, nid yw

o

ei *daledigaeth ef* gymmeradwy: gan weled nad yw *ef ei hun* gidag ef yn gymmeradwy. Ië, i ddywedyd y gwirionedd, nis gellir adrodd am dano dalu o honaw ef ddim: O herwydd nad yd;w yn gwneuthur dim, ond dioddef cospedigaeth, a hynny yn erbyn ei ewyllys. Ni a wnawn y matter etto yn eglurach trwy esanipl gartrefol. Bwrw pa benthygiei wr gan ei gymydog fil o goronau, a gwneuthur ardreth ei dy iddo yn Dragywyddol i dalu 'r llog: byddei yn y modd yma iddo (ysgatfydd) dalu yn ol mewn ugain mlhynedd cymmaint o arian ag a fenthygiaei: eithr beth gwedi bynny? A ryddhawyd ef yn gwbl o'i holl ddyledd? Oes dim yn ol i'w dalu? Mae corph yr hawl etto mor ddyledus i'w dalu, a phed fuasei heb dalu dim un amser. Canys Natur y cyfryw echwynion yw hyn yma, mai er darfod talu 'r llog bob blwyddyn, fod corph yr hawl yn wastadol yn aros yn gyfan, ac yn ddyledus i'w dalu: felly y mae gida 'r damnedig: Canys er iddynt dalu mwy na mwy:

er

er hynny nid allant fyth fyned allan o ddyled, dyledwyr yn wastadol ydynt, a rhaid iddynt fod byth. (a) *Y cadarn a fydd fel carth, a'i weithûdd fel gwreichionen: a hwy losgant ill daû ynghyd, ac ni bydd a'i diffodo.* *Suetonius* syd yn rhoi allan am *Tiberius Cæsar*, yr hwn wedi i ryw droseddwr wneûthûr dymûned atto i brysûro ei gospedigaeth, ac i ganiattaû iddo ddibendod yn fûan, roddi o honaw yr Atteb hwn iddo, *Arhowch syr, nid ydych chwi a minneû etto yn garedigion.* Barnwr thachyfiawn yw Crist, nid Gormesdeyrn, nid *Tiberius*, ac er hynny os byddei i'r un o'r damnedig ar ol llosgi yn uffern fil o flynyddoedd, yn ymbil ag yn deisyf yn daer am farwolaeth yn fûan: efe a attebei yn yr un modd, *Arhowch syr, nid ydych chwi a minneû etto yn garedigion.* Os ar ol mil o flynyddoedd y chwaneg y gofynnei yr un peth iddo: yr un atteb a gae y pryd hynny, *Arhowch syr'nid ydych chwi a minneû etto yn garedigion*: Os byddei iddo ofyn drachefn ar ol ran mîl o flynyddoed etto ym mhellach; ie, myrddiwn o flynyddoedd, yr un atteb a gae y pryd hynny hefyd, *Arhowch syr, nid ydych*

ydych chwi a minnû etto yn garedigion. Bû 'r Amſer a darfû i mi gynnyg bod yn gar i't, ac ni fynnit: ie yn Dad ac ni fynnit. Mi a gynnhygiais i't ſy ngras fil a mil o weithiaû; ond di a'i gwrthodaiſt. Mi a wyddwn hyn yn ddigon da, ac mi a dewais, a diſgwyliais ym mhellach; ddeugain, deg a deugain, trîgain o flynyddoedd i edrych a newidit ti dy feddwl a threfn dy fuchedd: Ond ni' chanlynodd gwir a difrifol edifeir, wch. (*a*) *Diyſtyraiſt ſy holl gyngor i-ac ni fynnit ddim o'm cerydd. Chaſeaiſt adydyſg, a th flaiſt fy ngeiriau i'th ôl. Am hynny ymbortha ar ffrwyth dy lwybraû dy hun a digoned dy gyhorion dy hûn di. Mi a chwarddaf yn dy ddiniſtr yn Dragywyddol:* Ni bydd fy ngh y fiawnder iychwaith ar ol oeſau aneirif iti un atteb ond hwn, *Awhowch ſyr nid ydych chwi a minneû etto ya garedigion.* Oh Dduw yr hwn wyt yn y nefoedd! Oh bechod yr hwn wyt yn taflu dynion yn wyſg eu pennau i uffern! uffern o arteithiau, ac i'r pwll diwaelod o dragywyddol boen! *ond yr ydwy ti yn gyfiawn, ô Arglwydd, a'th farnedigaethau yn uniawn.* Cyfiawn ac uniawn

y-

yw, i'r hwn ni fynnei trwy edifeirwch dderbyn trugaredd pan ei cynhygwyd, gael trwy gospedigaeth ei ddirboni, a chyfiawnder heb *drugaredd byth.*

BEN. III.

Y bennod yma sydd yn cynhwyso, cynnhyrfiadau eraill i'r ystyriaeth ar Dragwyddoldeb gwedi eu tynnu allan o Naturiaeth.

EIthr mi e ddychwelaf yn ol i'r ysgol Naturiaeth i ystyrio ymhellach ar Dragwyddoldeb. Ffynnhonnau brydion ennaint a gafwyd mewn rhyw fynyddoedd, a chreigiau dyfroedd y rhai wrth redeg sydd yn gwneuthur y cyfryw drwst a murmur, mal os y dynion clwyfus a fyddei yn cyrchu yno am adferiad, a wnaeth ond tybio yn eu meddyliau ar eu mynediad i mewn i'r ennaint, i bob hwy yn clywed offerau cerdd, a melys gan cyd gerdd, nhwy a gaent o Clustiau o ran eu gwastadol drwst mor bwl, mal y byddei y gerdd yn hor

hon oedd ar y cyntaf yn felus iddynt, yn prifio o'r diwedd, trwy fod tyb eu meddyliau yn gweithio ar hynny yn ffaidd jawn, ac yn boen eiddynt, eithr oes tybient yn eu meddyliau, bod yn clywed Tympan, neu ryw offer uchelfain arall, nhwy acnt agos yn ynfyd o'r diwedd gan y trwft hwn bob dydd yn eu blino, ac yn eu trallodi. Oddi yma yr ydys hefyd yn ein tywys ni megis gerfydd llaw i yſtyrio ar Dragywyddoldeb. Yr wylofain a'r cwynofain, yr ubain a'r nad yr hyn a glywir yn y mynediadi mewn i enau uffern tan y mynyddoedd uffernol hynny ni pheidia byth: eithr a fydd yn dirboeni 'r damnedig yn ddiddiwedd; ac ni bydd i amſer nac i hir ddioddefgarwch liniaru un gronyn arno. Either yn y gwrthwyneb i hynny y benigedig yn ddi ludded a gaiff glywed y Gan driphlyg, ſanctaidd *Sanct, Sanct, Sanct:* ac er mynyched a clywant hi, je, eu difyrrwch hwy a fydd fwy fwy yn ei ſain hi Criſt yn ei ymddiddan a'r wraig o Samaria, ſydd yn fynych yn ſôn am *dragywyddoldeb*, a *bywyd Tragywyddol.* (a) *Pwy bynag a yfo o'r dwfr a roddwifi*

iddo

iddo ni sycheda yn dragywydd: eithr y dwsr a roddwysi iddo, a fydd yndd yn ffynnon o ddwsr, yn târdddu i fywyd tragywyddol. Mi a ddymunwn pe sychedem ninneu gidâ 'r wraig o Samaria ar ol y dyfroedd hynny, a gweddio yn ddifrifol am danynt. *(a) O Arglwydd dyro i mi y dwsr hwn, fel na sychedwyf.* Dyro i mi, *O Crîst, ped fae ond un defnyn o'r dwsr hwn:* (yr hyn yw) peth sychedd a chwant ar ol bywyd *trogywyddol.* Yn y flwyddyn yn ol genedigaeth ein harglwydd pedwar ugain ac un,) (mal y mae *Suetonius, Dion* a *Plinius* yr ail yn adrodd o'r helaethaf) (ar y dydd cyntaf o fis Tachwedd, ynghylch saith ar y gloch) ruthro o dan allan yn erwyn, yn y mynydd a *Elwir Vesuuius* o fewn campania: o flaen yr hyn. Y buasei gwres dieithrol, a daear grynfaoedd gofidus. Trwst hefyd a glywed tan y ddadar, fel pe gwnaethei daranau. Y mor a ruodd ac a wnaeth dwrwf: y Nefoedd a daranodd sel ped fuasei 'r mynyddoedd gwedi ymgyfarfod ynghyd yn taro a'i gilydd: meini mawr a welwyd yn syrthio: mwg a than yn gymmysgedig oedd yn llen-

wi

wi 'r awyr;a darfuasei i'r Haul ym guddio. Ar hyn se fyddyliodd llawer fod y byd agos ar ddiben, a dyfod o'r dydd diweddaf, yn yr hwn a byddei i bob peth gael ei yſlu a than: Canys yr oedd y fath amldra o ludw gwedi ei danu i fynu ac i wared rhyd fôr a thîr, ac yn yr Awyr, mal y bu iddo wneuthur mawrddrwg ym myſg dynion ac anifeiliaid, ac yn y maeſydd: ac y bu iddo ddiniſtrio 'r pyſgod a'r Adar, llwyr adfeilio dwy ddinas, Herculanum, a *Phompeii*. Y rhain a chaudodau eraill yn y ddaear, a'r cyffelyb, gidâ daear dorriadau, a mynyddoedd tanllyd yn rſlammio yn waſtadol heb ddiffoddi byth, ynt eſamplau eglur gwedi eu rhoi i ni gan dduw, i ddwyn ar gof i ni dan uſtern: yn yr hwn y bydd cyrph y rhai mell. digedig yn lloſgi yn waſtadol, eithr heb loſgi byth yn gwbl. Ynghylch hyn chwi a ellwch ddarllain, *Tertullian*, *Minucius*, a *Phacian*. Dal ſulw o ddyn, ie, mor ddarbodus y mae naturiaeth ei hun yn myned o'th flaen di, ac megis yn dy dywys gerfydd dy law i ddwys fyfyrio ar Dragywyddoldeb.

I ddibennû, mae 'r amſer yma o'n heiddo yn dwyn gidâ hi beth o arwydd a llûn Tragywyddoldeb. Mae naturiaeth yn ceiſio gennim ni yn awyddus ddyſgu gan yr arwydd, pa beth y mae yn ei arwyddoccau, ac i gymmeryd doſparthiad o Dragywyddoldeb wrth y maentioli bychan a'r medr o'r amſer. Gair St *Aiguſtin* yw, mai dymma 'r rhagor ſydd rhwng pethau amſerol a Thragywyddol: yn bod ni yn carû pethau amſerol yn fawr cyn eû cael, a chwedi eû cael nid ydym ni yn gwneûthûr cymmaint cyfri o honynt: Canys ni ddichon yr enaid gael ei ddigoni ond a'r gwir a'r diogel Dragywyddoldeb, ac âr llawenydd yr hwn ſydd yn dragywyddol, ac yn anllygredig. Eithr y pethau Tragywyddol pan arferir eû meddiannu a fyddant yn gûach o lawer nac oeddynt o'r blaen pan oeddyd yn unig yn eû deiſyfû, ac yn gobeithio am danynt: Canys ni ddichon ffydd gredû, na gobaith ddiſgwyl chwaith; gymmaint ag a gaffo ſerch a chariad perffaith pan dde-bynnir ni unwaith i feddiant. Gan hynny, pa ham nad yw 'r ddaear yn ymddangos yn ſhaidd yn ei golwg

golwg ni, yn enwedig o herwydd fod yn rhaid i ni ar fyrder ei gadel? A Pha ham nad ydym ni a gwresowglym ddeisyfiad yn codi i fynu yn golygon tu ar Nefoedd, lle cawn ni etifeddu *Teyrnas, a honno yn Dragywyddol.*

D Y

Y Trydydd ystyriaeth
AR
Dragywyddoldeb.

Sydd yn hyspysu ym mha beth yr oedd yr hên Ruseiniaid yn cysleû eû Tragywyddoldeb yn bennaf.

P*Linius* yr Ail oedd yn tybied ygwyr hynny yn ddedwydd, y rhai a wnaethent bethau yn rhyglyddû eû hyscrifennu, neû a yscrifennasent bethau yn rhyglyddû eû darllain: eithr yn ddedwyddaf o'r cwbl y gwyr hynny yrhai a fedrant wneûthûr y ddaû. Y Rhufeiniaid oedd yn tybied y gallent dragywyddoli eû clôd dair math ar ffordd, a throsglywyddo eû hûrddad, i'r byd a ddoe ar ol. Yn gyn-

taf nhwy yscrifennasant lawer o bethau godidog, o bethau godidog yn ficer, either nid y cwbl oll, nac yn ddiwair oll, nac yn sanctaidd oll: Byddent yu yscrifennu i lawr eu beiau eu hunain, eu cariad anoneſt, a'i trachwant dybryd; either nid oedd hon yma ffordd fawr freiniol oneſt i Dragywyddoldeb. 4 a sawl un o lyfrau y ddarfu am danynt a flaen eu Hawdwyr, a buont (yn ol Plato) yn gyffelyb i erddi Adonis yn darfod am danynt cyn gynted ag y torrasant allan! nid *oeddynt hwy yn rhyngu bodd yn bir, a rynged fodd yn fuan.* Either bwrw pa biddei holl lyfrau y Rhûfeiniaid fyw ar ol amser, a'i bòd yn aros yn wastadol, a chwedi eû cytan roddi yngolwg pawb: er hynny nid allent fòd yn abl i roi bywiolaeth i'w hawdwyr.

Drachefn nid oedd y Rhufeiniaid yn unig yn yscrifennu, either yr oeddynt hefyd yn gwneûthûr llawer o weithiau teg yn rhyglyddû eu rhoi mewn llyfrau trwy binnau yscrifennû gwyr hyawdl a dyfgedig: a'r Gweithiau hyn oeddo amryw rywiau. Ceisio yr oeddynt Dragywyddoleb mewn llawer

llawer o bethau, eithr megis yr ydys yn ein athrawiethu i 'w gredû, ni chowsant ef mewn dim Yr oeddynt yn fawreddûs (nid ydym ni yn gwadû) mewn trafferthion dinasaidd a milwriaeth, gartref ac oddi gartref: o ran eu cyforwyddyd mewn celfyddygarwch a gwybodaeth rhyfeddol oeddynt: yn fawreddog ac yn drahael yn rhoddi rhoddion, ac am rhoi allan olwg teg ar chwareûon: o ran eu mawrwych adail, eû gwych adail uwch beddrodaû, eû cellaû o feddrodau tan y ddaear, eû gweithredoedd ardderchog o goffadwriaeth; ac o ran portreiadaû o goffadwriaeth, sef cerfddelwaû eû rhai ardderchog, yn rhyfeddol, ie i beri synnu: fel y gellwch chwi fwrw am can wrth yr ychydig bethaû gwahanredol hyn a redafi t.ostynt ar fyr eiriaû. *Angustus* yn ei enw ei hun, ac ar ei gost briodol ei hun, a osodedd allan bedair gwaith ar hugain chwareuon a champau chwareyfeydd, a thair gwaith ar hugain ar gost y trysor cyffredinol: *Ac* nid oedd yr un or rhain yn costio iddo ddim llai na dau fyrddiwn, a ffum

can

can mil o goronaû; ac efe a warriodd meddaf swm mor fawr a hyn yma oll o arian ar un chwareyddiaeth. A'r rhattaf, a'r salaf a roes *Augûstus* erioed allan oedd yn cyrraedd myrddiwn, daû cant a deng mil a deûgain o goronau.

Nero a oreurodd y Theatr trosto ei gyd, yr hwn oedd adail fawrwych oruchel ar waith hanner lleuad, i'r bobl i eistedd i edrych a'r v chwareyfeydd, ac a wnaeth ty ei wisgoedd, ac offerau ei chwareyddion o aur i gyd: geilwch anchwanegu at hyn yma dippynnau o goed pedwar ochrog, neu goelbrennau a deflyd yn giprys ym mysg y bobl, titul, y rhain fyddei, deiau cyfan, meusydd, tiroedd ffermau, caethweision, gweison, anifeiliaid, swmpiau mawr o arian, a llawer gwaith nifer mawr o dlysau: yngoelbren pwy bynnag a digwyddei 'r un o'r rhain byddei iddo yn ddioed dderbyn yn ol ei Ditul.

Yr unrhyw *Nero* am Ymmeraw hael rodd i filwr cyffredin a archodd gyfrif iddo ddau canr a deng mil a deugain o goronau.

Agrippina Mam Nero a barodd roi yr un faint o arian ar swrdd i'w argyo.

argyoeddi ef yn guddiedig trwy hynny, i attal afrad'onrwydd ei *Mab. Nero* ar hyn yn deall ei dymmhigo a barodd roi atto ſwm arall cymmaint a hwnnw, ac a ddywedodd fel hyn, *Nid oeddwn ni yn adnabod fy hun pan roddais i cyn leied.*

Yr unrhyw *Nero* a groeſawodd frenin Teridates tros naw mis tunty yn Rhufain, ac a dreuliodd bob dydd arno ugain mil o goronau, yr hyn oedd yn dyfod yn y nawmis i bum Myrddiwn a deugain mil o goronau, ac wrth ei ymadawiad ef, am goſymdaith, neu i dreulio ar y ffordd, rhoes iddo ddau fyrddiwn a hanner. I Ba beth a crybwyllaf am eu mawrwych otuchel adail?

Caligula yr ymmerawdr a wnaeth Bont tros gainge o for, yn dair milldir o hyd.

Yr oedd pedair cant a phedair ar hugain o demlau yn Rhufain, ar rhan fwyaf o honynt yn fawrwych iawn.

Domitian a dreuliodd yn goreuro Cabidylby Rhufain yn unig faith myrddiwn.

Yr Amphitheatr, yr hwn oedd addail crwn lle byddei 'r bobl yn ym-

gasglû i edrych ar y chwareyfeydd ar risiaû yr hwn Adail a wnaethpwyd o gerrig i gyd, y gallei pedwar ugain a saith mil o edrychwyr eistedd oddiarnodd yn gynnwys jawn; a deuddeg mil sefyll o'i amgylch ef: pedwar ugain, ac am yn un ugain mil i gyd.

Yr ymmerawdr a wnaeth ddeudeg o olchfeydd cyffredinol heb law llawer o rai eraill, lle cae dynion ymdrochi yn rhad.

Yr oedd yngolchfeydd brydion ennaint Antonius un mil a chwechant o eisteddleoedd ngabolfeini: a chymmaint a hynny o wyr ar unwaith a ymdrochei yno yn gynnwys jawn.

Yngolchfa Hetruscus, megis y mae Plini yn dywedyd, ffroenau y dwfr, ymmylau'r olchfa, ac hyd yn oed y llawr yntef oedd oll o arian: eithr nyned a wnaf at bethaû eraill.

Yr oedd yn Rhufain safddelwau o goffadwriaeth am wyr Arddderchog a'i gweithredoedd cyn amled agos ar dynion yno, o arian ac Aûr: heb law aneirif eraill o bres, Meini Mynor, Dannedd Oliphant, neu Ifori.

Yr

Yr oedd gan Domitian yngabidyldy Rhyfain un o aur a bwyſau gant pwys.

Yr oedd gan Gommodus a Chlaudiûs hefyd rai o aſûr, pob un o honynt yn pwyſo mil o bwyſau. Yr oedd gan Claudius un arall hefyd o arian yn y fan a elwyd Roſtra yn Rhufain (dadleudy cyffredinol yn yr hwn yr oedd Pulpyd yn llawn corneiau, pob un o agwedd pen blaen llong, lle byddei ymadroddwyr yn ſefyll i areithio) math ar ſwyddog oedd gwedi ei oſod ar y ſafddelwau yma, yr hwn a elwyd Jarll Rhufain: ar yr hwn yr oedd llawer iawn o filwyr yn gwilied yn waſtadol, i amddiffyn ac i fwrw golwg ar y nifer mawr o ſafddelwaû.

Y ffordd a elwir Appia a roe waith, i'w wneûthur i redegwn hyan i'w thedeg or naill ben i'r llall mewn pûm diwrnod, yr oedd hi yn cyrreedd O Rufain o hyd i Gapua: mor llydan ag y gallei ddau gerbyd gyfarfod heb attal dim ar eu gilydd; mor gadarngryf ac mor gyfangwbl a phed ſaſei hi gwedi ei gwneuthur i gyd o un garreg: mewn un man yn unlle yn hydd, neu yn codi i fynu hefyd yr oed

ychwaneg

ychwaneg o ffyrdd eraill o'r un fath â hon. *Mae* yn anghredadwy yr hyn y mae 'r ysgrifennyddion da yn ei roi ar lawr ynghylch twyfiad eu dyfroedd a'i dwfr leoedd.

Claudius yr Ymmerawdr a warriodd ynghylch un dwfrle, faith myrddiwn a hanner o aur, ac yr oedd yn maentumio chwechant o wyr yn unig, i gadw ac i fwrw golwg ar y dyfroedd. Yr oedd yr rhain yn ddiamheu yn weithiau mawr, eithr yr oedd y rhai oedd yn dwyn y draul mewn rhan yn haeddu eu Hargyoeddi am eu rhydraul difefur. Yr oedd un peth yn Rhufain yn rhagori ar eu mawrwych adail hwy, ac i arbed eich cluftiau, peth enllibaidd anghymswys yw i'w henwi. Yr oedd ganddynt fath ar ogofeydd tan y ddaear gwedi eu hadeiladu â bwâau meini, chwi a ellwch eu galw hwy ffoſydd budreddi 'r ddinas (nhwythau a'i galwent hwy cloacas) o ddwfr yn rhedeg i ddwyn ym maith holl fudreddi 'r ddinas! O'r rhain yr oedd cymmaint, mor helaeth ac mor hir, ac y gellyd eu cyfri hwy ym mhlith rhyfeddodau 'r byd. Nid rhaid i mi roddi o eſamplau ond hynny:

Mae

Mae 'r hyn a henwais i yn ddigon, yr hwn a dreiglodd beth ar Hiſtoriau, neu a glybu ſôn am gadernid a chyfoeth mawr y Rhufeiniaid yn yr oeſoedd gynt, a goelia yn rhwydd fy adroddiad: Os eſe ni'm coelia, coelied *Dyſtiolaeth Suetonius*, *Dion Caſſius*, *Plini*, *Livi*, ac craill a yſcrifenna ſant ynghylch gweithredoedd ar dderchog y Rhufiniaid.

Y Pethau yma y rhai aethym i troſtynt, ynt yn ganmoladwy iawn ynddynt eu hunain. Eithr yr oeddynt yn llywio eu gwladwriaeth mor gall, ac y byddent mewn rhyfel yr rhan fynychaf yn anorchfygol, am gelfyddau a gwybodaeth yn rhagorol, am rinwedd yn enwog; yn gymmaint ac i *Cyneas Prif* gennad a ddanfonesyd oddi wrth Pyrrhus, gwr hyawdl a deallus, pan ddarfuaſei iddo yn gwbl oferddirio ar y Dref am wneuthur gyngrair â'i Arglwydd â'i feiſter, yr hwn gyngrair nid allei fod yn ſafadwy gidag anrhydedd y Rhufeiniaid, ar ei ddychweliad yn ol a ddywedodd wrth ei frenin; i fod ef yn ſyhied mai Teml oedd y Dref, a'r holl ſeneddwyr yn frenhinoedd. Yn hyn yr oedd y Rhufeiniaid i'w can-

mol

mol yn fawr, eithr yr oeddynt hwy yn cam-gymmeryd ym mhell yn hyn yma (er cu bod hwy ffordd arall yn wyr call iawn) gyfleu eu *Tragywyddoldeb* yn y cyfryw bethau, nid allei roddi iddynt, na chanddynt chwaith ynddynt eû hûnain Dragywyddoldeb. Pe dewisasei 'r Rhufeiniaid St *Augustin* yn arweinudd iddynt yn y ffordd i Dragywyddoldeb fe ddangosasei iddynt ffordd siccrach a rhwyddach o lawer. Canys pa beth ymae yn ei ddywedyd? *Nid ydym ni yn cyfrif, medd ef, yr ymmerawdwyr hynny a hir deyrnasodd neû y rhai a ddarfû iddynt aml orfoleddû fel gorfodaugwyr ar eu gelynion, neu yr rheini a dryfwodd i fynu lawer o olud yn ddedwydd mynych a digwydda 'r pethau yma i'r rheini nid oes ganddynt na chyfiawnder, na hawl i'r deyrnas fydd yn dragywyddol.* Pa rai ynt i'w cyfri yn wir ddedwydd gan hynny yn nhyb St *Augustin*? *Y rhai a ddilynant y rheolau hyn fydd yn canlyn*; Oh! chwi ymmerawdwyr, oh chwi frenhinoedd! Oh chwi Dywysogion, llywodraethwyr a fwyddogion byddei i chwi (yn ol fynwyr St *Augustin*) gael gwir a thragywyddol ddedwyddwch trwy ddal fulw arnynt.

Rheol.

1. *Rheol cyfiawnder.* Trwy lywodraethu yn uniawn, gan gasau hyd yn oed y llun a'r lliw o Anghyfawnder.

2. *Rheol Lledneisrwydd.* Trwy fod heb falchio o herwydd gwag gan moliaeth y bobl, a'i cydlef o'i bod eich hoffi; nac och henwau o anrhydedd: eithr yn cofio nad *yd ych eich hûnain ond dynion.*

3. *Rheol ofn a chariad Dûw.* Trwy amlhau ym mhob modd y gwir addoliad ar Duw; trwy ddaroſtwng pob dynol nerth i'w ddwywawl fawrhydi; trwy ei wasanaethu mewn ofn a chariad.

4 Y *deisyfiad or Nef.* Trwy oſod eich cariad a'ch serch ar deyrnas ſydd Dragywyddol, lle na byddo 'r naill yn cenfigennu cadernid y llall.

5 *Rheol hynawſedd a Pharodrwydd i faddeû.* *Trwy fod yn ſywiog i faddeû, ac yn brwyſ rydig i gospi,* ond panfo gogoniant Dum a chyfraid y wladwriaeth yn gofyn hynny.

6. *Trugaredd ac addwynder.* Gan dymmheru toſter y gyfraith ag olew trugaredd, ac arogl peraidd cymmwynasgarwch.

7 *Diweirdeb.*

7. *Diweirdeb.* Nid trwy adel i drythyllwch gael ei ben yn rhydd, ond trwy ffrwyno eich chwanogrwydd a'ch trachwantau, er maint a fo gennych o ryddid.

8. *Cymmedrolder gwynniau.* Trwy ddewis cael y fuddugoliaeth ar wynniau drwg, yn hyttrach na chael argl. wyddiaethu ar bobloedd.

9. *Astudrwydd o ufuddod a gweddi.* Trwy gyflawni rhain i gyd, nid er mwyn gwag ogoniant, eithr er mwyn gogoniant Duw, a chael gwynfyd Tragywyddol: heb esceuluso un amser yr offrwm tra hynod hwnnw o ufudd-dod a gweddi.

Y Rheolau hyn a'r cyfreithiau y scrifennodd *St Augustin* ar ddrysau y byd yn ddrych addas i dywysogion, Llywodraethwyr a swyddogion i edrych ynddo. Eithr, o chwi, Rufeiniaid mor bell a darfu i chwi grwydro o'r ffordd oedd yn arwain at y drysau yr oedd y cyfreithiau hyn gwedi eu siccrhau arnynt! am bethau eraill ni sonniaf darfu i chwi yn lle un ac unig wir Dduw ddyfod ag aneirif o rai eraill i mewn i'w addoli, *rhai nid oeddynt dduwiau.* Canys Rhufain oedd, debygid, yn gwneu-

thur

thur hyn yn faſnach, mawr o gre-fydd, wrthod geudeb yn y byd: A phan oedd hi yn llywodraethu agos ar yr holl genhedloedd, gwaſanaethei a dilynei amryfuſedd yr holl genhedloedd.

Eithr i adel hyn hefyd heibio: mor ofer iw watwar oedd hyn iddynt adel eu *Tragywyddoldeb* oll yn ol mewn memrwn a phapir, mewn Mynor a meini eraill, mewn Theatrau ſef chwareudai; a Thyrau fel clochdai, mewn gweithredoedd ardderchog o goſtadwriaeth, ac mewn adail uwch ben beddrodau! Pa beth a ddoeth yr awrhon o'i *Tragywyddoldeb* hwy? yr hwn oedd gwedi ei drychnaddu ryw amſer mewn cerrig? yr un peth hefyd a ddigwyddodd i *Rufain*, ac a ddigwyddodd i Gaerſalem. Y dyſcyblion yn dangos adeiladau 'r deml yn Gaerſalem, a ddywedaſant wrth ein hachubwr Criſt, (a) *Athro edryh pa ryw feini, a pha faith adeiladau ſy yma*? Ac hynny ſe attebodd Criſt, gan ddywedyd, (a) *Oni welwch chwi hyn oll? ya wir meddaf i chwi, ni adewir carreg ar garreg, ar ni ddatiodir. Felly nid oes dim yn Dragywyddol yn y byd hwn.* Ac os gofynnyd yr

(a) Mar. 13. 1.

(a) Mat 24. 2.

yr awrhon y qweſtiwn yma. Pa le mae 'r hen Rufain? gallei hyn yma fod yn atteb, *dyna lle 'r oedd hi.* Pa le mae y rhai a'i hadeiladodd? *Bu. ant feirw ac aethant ymmaith: nid oes o honynt wedi ei adel, cymmaint a'i lludw.* A rhaid i ninnau cyn y bo hir, fyned yr un ffordd, bod yn cyffelyb i gyſgod, dychwelyd i'r llwch, ac ymddattodi yn ddiddim. Oh! druaned a ſaled cyflwr dynion marwol, ie, o'r mwyaf! Oh ſerſyllrwydd a breuoldery dynion cryfaf, ie ym mlodau eu cryfder! Canys pa beth a ddoeth yr awrhon o'r pethau hyn oll, neu ym mha le maent? difangolli ymmaith a wnaethant yn llwyr. Pa le mae eu harlan a bentyrraſant ynghyd allan o grediniaeth? Fo'i chwalwyd hwynt ar led. Pa le mae eu mawrwych adeiladau uchel? Nid ydynt i'w gweled. Felly y mae 'r pethau oll gida hynny er maint a ſo eu maentioli i ni yn ymddangos, nid ydynt ddim ond gwir gyſgod a breuddwyd, os cyffelybir hwynt i *Dragywyddoldeb*; ac i'r pethau hynny yn Dragywyddol. Y ſail ar yr hon y mae holl waithgarwch gogoniant diflanneding wedi ei oſod i fynu, ſydd

yn

yn rhy wan; ac yn malurio yn llwch, gwedi ei wneuthur ond o glai. Nid ellir trychnaddu ar gerrig a meini Mynor ddull ac Argraph Tragywyddoldeb. Da y dywedodd Lactantius, *Fod gweithredoedd dynion marwol yn farwol.* Yr ydym ni yn credu fod Babilon, Troia, Carthage, a Rhufain: Eithr nid oes agos un math ar furddunnau o honynt yn ymaros i beri i ni goelio fod y cyfryw ddinasoedd. Felly nid oes o faith ryfeddod y byd, felly nid oes o Lys euraid Nero, o olchfeydd brydion ennaint Diocle-sian, o olchfeydd Antonius, o'r adail fawrwych a elwyd faithwal Severus, o ddelw uchel anfeidrol Julius, o chwareudy Pompey, ddim ol nac arwydd: ac yn brin yrhoid nhwy ar lawr mewn cof hyfrau, neu draethawd. Ac o pa faint y mae rhain oll yn fyr i *Dragywyddoldeb.*

BEN.

BEN. I:

Y bennod gyntaf yma sydd yn dangos, mor bell yr oedd y Rhufeiniaid yn crwydro oddi wrth wir Dragywyddoldeb.

MEwn man or tu fewn i ryw ystafell ysgafala yn Nazareth, enwedig erbyn henw y fendigedig Forwyn, y mae crybwyll a'm Frenhiniaeth; (a) *Er yr hon frenhiniaeth ni bydd diwedd.* Nid oedd Brenhiniaeth *Solomon* yn gyfryw: Canys ni pharhâodd honno ond Pedwar cant o flynyddoedd; ie, *hyd at y caeth gludiad i Babilon.* Nid oedd Brenhiniaeth y Rhufeiniaid, na'r Perfiaid chwaith, nac etto yr Groegiaid. Yn gyfryw. Canys Pa le yr awrhon y mae y Brenhiniaethau hynny oedd fwyaf llwyddiannus yn yr Amferau gynt? Pa le mae yr Archdeirnaethau hen iawn hynny? Mor fawr oedd *Nabuchodonosor* Y nghaldea a *Syria*, ac ar ei ol ef *Belfazzar*? y deirnwialen a drofglwyddwyd oddi wrthynt hwy i'r Mediaid a'r Perfiaid, i Cyrus a Darius? ac yno chwaith ni hir arhoes hi. Trofglwyddwyd hi oddi yno î Roeg, i *Alexander*

(a) Luc. 1. 33.

ander Fawr, Brenin Macedon, Tros hir amſer llwyddiannus iawn. Eithr Megis yr oedd dewrder milwraidd yn Pallu, felly llwyddiant oedd yn methu. Ac felly y deirnwialen a droſglwyddwyd i'r Ital, i *Julius Cæſar*, Ac i *Octavius Auguſtus*. Pa beth a ddoeth o'r holl Frenhinoedd hyn, ym mha le maent? Eithr di, ô ddyn Criſtianus, cais y fenhiniaeth honno, *ar yr hon frenhiniaeth ni bydd diwedd*. Brenhiniaethau Numantia, Athens, Carthage, Sparta a ddiweddaſant oll: Darfu yn llwyr am danynt eithr am y Brenhiniaeth ſydd uchod, *ni bydd diwedd ar honno*. Y Brenin ſydd yn Treyrnaſu yno, *Tragywyddol yw*: A'r rheini ſydd yn byw yn y deyrnas honno, *Tragywyddol ynt. Yr Arglwydd a deyrnaſa byth*, *ac yn dragywydd*. Medd Origen ar yr hyn eiriau, *wyt ti yn tybied y teyrnaſa 'r Arglwydd byth, ac yn dragywydd: ie, efe a deyrnaſa byth, ac yn dragywydd; a chidâ hyn o'r tu hwnt i hynny. Dywed y ellyth, byddi yn waſtadol yn ol o gyrraedd parhâd yſrenhiniaeth ef*: fe ddywyd y Prophwyd yn waſtadol; eithr ngwa *haneg*. Ac hefyd *medd Iſidore*, er bod ei *frenhiniaeth ef yn dra-*

gywyddol,

gwyddol, er ei bod hi yn anfeidrol, er ei bod hi ym mhob sût yn ffindigedig, er ei bod hi gwedi ei haddaw i ni; am hynny ni sonniaf. Canys pa wr o sil sydd yn treulio y rhan leiaf o ddiwrnod yn mysyrio ar hyn? Ac sydd un amser yn son am hynny? sydd un amser yn athrawiaethu ei wraig, ei blant, ai weision ynghylch hynny? ni a rôwn lawer am bob peth arall; either am y nefoedd, prin y sonniwn ni ddim am dani: Neu os crybwyll a fydd, yn wir bydd hynny yn anfynych iawn. Yn nganmoliaeth ei wlad ei hun, pob gwr sydd arferthiwr trybelydr ei dafod: Either am honno, yr hon yw ein gwir wlad ni yn sicer; yr ydym ni yn cwilyddio ynghanmoliaeth honno. Canys fe ddigwyddodd yn y dyddiau hyn trwy fod heb arfer cydymddiddan crefyddus, fod dynion yn meddwl nad ydynt yn synhwyrol, nac yn arabeddus iawn, oddi either iddynt siarad ofer ac anfuddiol eiriau, a digrifwch ffol: Nid y cwbl mo hyn, oni bydd eu bochau yn chwyddo, a'i gweflau yn llenwi trosodd o ymadroddion diflas bryntion; oh! hyn yma yw i ni grwydro yn llwyr allan o'r ffordd! yn hytrach llannwn ni ein calonnau a'n geneuau a chlodforedd ac â deisyfiad Pethau

Dragywyddol; rheded ein meddyliau a'n geiriau bob amſer ar eu hol hwynt, nid oes gennem ni un ffordd arall, ond hon, i'r gwir ogoniant; ac nid oes un gwir Ogoniant, ond yr hyn ſydd wir *Dragywyddol*.

Yr Arch offeiriaid a'r Phariſeaid ym mhyſg yr Iddewon i dorri lawr gadernid Criſt (ſel yr oeddynt hwy yn meddwl) ac i dragywyddoli eu llywodraeth dyneſig, *a ymgynnullaſant ynghyd i ymgynghori*: a thrwy eu doethineb ffol (ſel i prifiodd) nhwy a wnaethant ordiniadau i'w niweid eu hunain. Yn hyawdl iawn y mae St *Auguſtin* yn crybwyll am eu gwaith hwy yn ymgynghori ynghyd, ac yn cymmeryd cyngor mewn eiſteddfod oſlawn Lys: Yr Archoffeiriaid, medd ef a'r Phariſeaid a ymgynghoraſant ynghyd, pa beth a ſyddei iddynt hwy i'w wneuthur er eu lles eu hunain, ac eto nid oeddynt hwy yn ſon am ddywedyd; *Gadewch i ni gredu*. Y gwyr drygionus annuwiol hyn oeddynt yn ceiſio yn ddyfalach y modd i ddinistrio rhai eraill; Nar modd i ragddarparu ynghyfair eu diogelwch eu hũain; negis y byddo iddynt gael eu gwared. Ac er hynny yr oeddent hwy mewn

ofn,

ofn, ac ar eu cyngor: canys hwy a ddywedasant, a *Pa beth yr ydym ni yn ei wneuthur? Canys y mae y dyn yma yn gwneuthur llawer o arwyddion. Os gadawn ni ef fel hyn, pawb a gredant iddo, ac fe ddaw y Rhufeiniaid, ac a ddifetha ein lle ni, a'n cenedl hefyd.* Yr oeddynt yn ofni colli pethau amserol, ac nid oeddent un amser yn ystyried y pethau oedd *dragywyddol:* Ac felly nhwy a gollasant y ddau. Y cyfryw yw gorwagedd a hygar wawd eiriau ein meddyliau ynfyd. *Pa* beth ydym ni? pha beth yw 'r ewbl a henwom ni yn eiddom? Heddyw yn ein blodau yn gyffelyb i lysieuyn, yn cacl dywedyd yn dda am danom, yn rhyngu bodd, ac mewn ffafor gidâ dynion: *Eithr*, och! ein blodeuyn ni a wywa y foru, dywedir yn ddrwg am danom! ac â duw a dyn ni a fyddwn allan o ffafor: a dyn, yr hwn a ryngasom ei fodd hyd yn hyn: a Duw, yr hwn ni ddarfu i ni erioed roi ein bryd a'r ryngu ei fodd ef yr ydym yn esceulusso 'r Nefoedd, a dal ar y ddaear nis gallwn: Nid ydym yn ynnill ffafor Duw, a colli yr ydym ffafor y byd. Ac felly ydym tra-anobeithiol

(a) Ioa. 11. 47. 48.

chiola diymgeledd o'r ddeuty. Ped ar-
bedei marwolaeth yr rheini ſydd
ddedwydd ddynion y byd hwn, nhwy
allent (yſgatfydd) gael yma beth
gogoniant: peth, meddaf, y cyfryw ag
ydyw; canys nid oes yr un gwir, ond
hwnnw ſydd yn y Nefoedd, ac yn
Dragywyddol. Eithr, och! nid yw
marwolaeth yn arbed neb, canfod y
mae hi yn y tywyll, ac nis canfyd-
dir: ac yn diſgwyl ei hamſer y pryd
y dichon oſod arnom, pan fyddom ni
heb feddwl am dani: pa beth a ddaw
o honom? i ba le a dwg hi ni, os bu-
an yma ddrwg ein buchedd? ger
bron brawdle Criſt, ac oddi yno i
bwll uffern: ac nid oes pridwerth am
neddid oddi yno, nid all bonedd oll-
ng oddi yno neb yn rhydd: nerth
ni wareda un dyn. Y canmoliaeth a
gafodd gwyr gynt, ni ddyru yno ddim
oſur. Gadewch i ni ymageiſio ffafr
Duw a'i ogoniant, hwn yw 'r gwir
ogoniant, yr un a ynnillir trwy o-
chel y gwag ogoniant: ac nid oes un
gwir ogoniant, ond yr un ſydd Dragy-
wyddol.

Solomon yn y diharebion ſydd yn
portreiadu Doethineb yn gyffelyb i
benhines a dwy Lawforwyn yn ſe-

fyll

fyll gida hi, Tragywyddoldeb a gogoniant: (*a*) y gyntaf ar ei llaw ddeheu, yr ail ar ei llaw asswy: Ni thal gogoniant ddim oni bydd Tragywyddoldeb gwedi ei gysylltu wrthi; yr hyn yr ydym ni yr Cristonogion oll yn ei ddisgwyl. (*b*) Canys nid oes i ni yma ddinas barhaus, eithr un i ddyfod, (*c*) Tragywyddol yn y Nefoedd. (*d*) Y cyfiawn a fydd byth mewn coffadwriaeth. I roddi eluſen i ddyn tlawd, i gymhedroli gwangc chwant, i wrthladd gelyn diweirdeb, ni chym y gweithredoedd hyn mor llawer o boen, nac amser i'w gwneuthur: ac er hynny bydd y coffadwriaeth o'r rhain ynghyd a'i gobrwyad yn dragywyddol. Mor ſalw ydoedd y peth a roddodd Mari Magdalen i draed ein iachawdwr! Oh! leied yr Amser y by hi yn gwneuthur hynny! Ac ar hynny (*e*) fe ai cyhoeddir drwy'r holl fyd. Rhai eraill (ysgatfydd) a fuasei yn rhyfedd ganddynt bethau eraill oedd ynddi, ei gwrid coch, ei hwyneb pryd hardd, bloslau hyfryd lwys ei hieuengctid, ei hawddgarwch anaml ei fath, ei chyfoeth mawr, e mwynder a'i chymmwynasgarwch, a'r cyffelyb. Nid y rhain oedd y peth

a *Diha.* 3.16.
b *Hebr.* 13. 14.
d *Psal.* 112.6.
e 2 *Cor.* 5.1.
e *Matth.* 26.13.

a

a ganmolodd Criſt ynddi: eithr y gwaſanaeth a gyflawnodd hi yw dra-d ef oedd y peth. Nid ydoedd y peth o honaw ei hûn yn fawr: ac er hynny modd ydoedd ef iddi hi i gael gogoniant Tragywyddol, a byth anfarfol urddas. Hyn yw Tyſtiólaeth Chriſt: Fe a'i pregethir trwy 'r holl fyd. Ni Argraphwyd y weithred hon o'i heiddo mewn maen mynor, ni fwriwyd moni mewn pres, ni yrrwyd y ſon am dani ar led yn y farchnadle, ni chyhoeddwyd moni a Thympan, ac ag udcorn: Ac er hynny yn parhau yn goffadwriaeth am dani hyd y dydd heddyw; ac felly bydd byth, ac fe a'i pregethir trwy 'r holl fyd. Os yſtyriwch chwi y weithred ei hun; Judas yſcariot y Bancwr chwannog a feiodd arni; y Phariſead uchel falch gan Simon a'i anghanmolodd hi: Os y beth, nid ydoedd ond ennaint, ni thalei o'r mwyaf ddim uwch law deg darn ar hugain o aur bychain: Os y lle, dirgel oedd: os y tyſtion preſennol, ychydig oeddynt: Os y Perſon; gwraig ydoedd, ac un anenwog: Ac eto er hyn i gyd, fe ai pregethir trwy holl fyd. Pa Sawl Ymmerawdr

a ddyrchafasant eu Lummanau, ac a danasant allan eu buddugawl a'i gorfoleddus eryrog fanerau, ac a'i gosodasant i fynu yngwersyll eu gelynnion. Pa fawl Penciwdawd milwraidd a arwainasant fyddinoedd o'r gwerin, ac a'i rheolasant yn rhyglyddus! Pa fawl llywiawdr rhagddarbodus a lywodraethasant eu pobl yn synhwyrgall jawn! Pa fawl Brenin a osodasant i fynu weithiau a safddelwau yn gosfadwriaeth am weithredoedd ardderchog, ac adeiladasant gestyll a dinasoedd anaml eu math! Pa fawl gwr dyscedig a dreuliasant eu ymmynnyddiau mewn dychymmygion newyddion, ac yn gyffelyb i ddistyllwyr a'i diferasant hwy i'w cadw i bapirau! Ac i ba ddiben hyn oll? ond i gadw eu henwau mewn cofladwriaeth yn wastadol, ac i gael eu rhoi ym mysg y gwyr teilyngaf a gwiwgofaf mewn cofleifrau. Ac er hynny i gyd maent hwy yn gorwedd yngwely distawrwydd, a chwedi eu claddu ym medd angof. Eithr yr un weithred dda a wnelo'r cyfiawn a fydd mewn cofladwriaeth yn dragywyddol: Ni ddichon Amser na chenfigen ei dileu byth a'i chelu

chelu: Y gwyr ſynhwyrolaf, Penciwdawdwyr, Preladiad, a Brenhinoedd nhwythau gidag anrhydedd a'i darllenna, ac a'i gwrendu. Fe ai pregethir trwy 'r holl fyd.

Gan hynny yr unig ſtordd i anfarwoldeb a gwir Dragywyddoldeb yw, bucheddu yn dda, ac fellv matw yn dda. Iddo yn awr chwi Rufeiniaid, os chwi a geiſiwch dragywyddoldeb mewn ſafddelwau, a meini mynor o goffadwriaeth am weithredoed ardderchog! Ni bydd i chwi eingael efgbyth yno. Myſi yn hyttrach a ewyll ſſiwn o'm rhan i, fod o feddwl St Hierome, yr hwn yn yſcrifennu ar fuchedd *Paul* y Meudwy, a ddywedodd fel hyn: Oh; coſia *Hierome* y pechadur, yr hwn pe rhoeſei Duw iddo ei ddewis; a fuaſei yn cyfri 'n well fantell dlawd Paul gida ei weithredoedd da, na mantellau porphorliw Brenhinoedd gidâ ei teyrnaſoedd. Gadewch i ni Griſtionogion tra caſſom ni amſer wneuthur ein cyſoeth yma oddiwrthym, rhag i ni eu colli hwynt; bydded i ni eu danſon hwy o'r blaen i fyd arall: y mae 'r Nef yn ſefyll yn agored yn barod i'w derbyn hwy. Nid rhaid i ni ammeu na chludir

hwy yn ddiogel, y cludwyr ynt gwir a ffyddlon ddigon: oblegid y clawd a'r anghenus o'r byd hwn ydynt. Yr ydym ni yma yn gwneuthur oddi wrthym iddynt hwy mewn dull cyfnewidiad ychydig bethau o bris bychan: o ran cin bod ni i dderbyn yn y Nefoedd Ragorol, Tragywyddol bwys o ogoniant. Felly yr addawodd Christ ar y cyflawniad o'i orchymmyn, Ac yr wyf yn dywedyd i chwi gwnewch i chwi gyfeillion o'r Mammon anghyfiawn: fel pan fo eisieu arnoch, ich derbynniant i'r Tragywyddol Bebyll. Eithr awn oddi wrth hyn at bethau eraill.

2 Cor. 4. 17. Luc. 19. 9.

BEN. II.

Yr ail beunod yma fydd yn dangos ffordd well i Dragywyddoldeb, *nâ'r gyntaf yr oedd y Rhufeiniaid yn ei dilyn.*

DArius Brenin y Persiaid, tra nodedig am ei gyflafn, ganddo yn Fyddin byddei dengmil o Bersiaid, am hynny rhoes yr henw hwn arnis Anfarwol: (megis y mae Celin Rho-

Rhodiginus yn deongl hynny) nid o herwydd y byddei yn meddwl na ddarfyddei byth am dani, (canys pa le mae neb un o'r cyffelyb?) ond oblegid fel y lleiheuid dim ar y nifer mwy gleddef neu glefyd, fe'i gwneid i fynu yn y man: felly yn wastadol ni byddei na mwy na llai na dengmil. Fel hyn Darius a thurfiodd iddo ei hun fath ar anfarwoldeb a Thragywyddoldeb: Eithr, (och!) nid oedd ef ond un byr jawn; canys fe ddarfu yn llwyr am dano ef a'r holl fyddin mewn Amser bychan. Y Rhaglawiaid a'r Tywysogion, a aethant ynghydat y Brenin ac a ddywedasant wrtho fel hyn; *Darius* Frenin, bydd fyw byth. Och! mor ofer oedd y dymuniad hwn, ac mor fyr y Tragywyddoldeb yma! Nid ydym yn byw ond deg a thrugain, neu bedwar ngain o flynyddoedd o'r mwyaf: Nid ydym ni ond breuddwydio os meddyliwn ni fyw byth. Gan hynny nid heb achos Xerxes (pan aeth i oresgyn a doroftwng Groeg (megis y mae *Herodotus* yn rhoi allan) y dygodd gydag ef rhyd for a thir ddwy fyddin fawr allan o Asia yn drychant mil ar hugain, dwy fil ar bymtheg, a *Daniel* 6.6.

o nifer, heb law rhai eraill oedd yn gwasanaethu ar y milwyr) a ymollyngodd i wylo ar ddiwrnod yn tremmio ym mhen mynydd, ac yn golygu ei filwyr: A chwedi gofyn iddo, am ba'r achos, efe a ddywedodd, am mai o herwydd ar ol matter deg a deugain, neu drugain o flynyddoedd; prin un a fydd i'w gaffael yn syw o gymmaint a hyn o gantoedd o filoedd o wyr mor ddewlsol a chryfion.

Ni a allwn freuddwydio a llunio i ni ein hunain nis gwn i pa Tragywyddoldeiau eu sut: Eithr ynghy
a 8am. frwng hynny rhaid i ni farw, ac
14.14. ydym fel dyfroedd wedi eu tywallt ar y ddaiar.

Ffigur arall ac un gwell o Dragywyddoldeb a graff ddychymygwyd *Yn Constantinopl*; yn y flwyddyn o oedran ein Harglwydd pedwar cant deg a deugain a naw. Eglwys *Constantinopl*, yn yr amser pan oedd Gennadius yn Esgob, a chwanegwyd a seiliad Mynachlogaidd newydd a hynod o Acæmiaid, sef rhyw fath ar synachod cyssegredig i St *Joan Fedyddiwr*. Eu galw hwy yn Acæmiaid yr oeddid am nad oeddynt yn cysgu:

cyſgu: Oblegid nid oedd iddynt un amſer gyſgu i gyd ar unwaith, ond i ſod yn eu trefn ar waith yn waſtadol nos a dydd yn canu mawl i dduw. Yr Acæmiaid hyn oeddynt gwedi eu rhãnu yn dair cynnulleidfa yn y mold ymma, pan orphennei y gynnulleifa gyntaf ganu dwywawl fawl, byddei yr ail yn dechreu; a phan Orphennei yr ail, byddei ir trydydd ddechreu. Trwy Achos yr Ordinhaad duwiol hwn y dref oedd ar Nefoedd o'i mewn, yn rhyw fodd bob amſer yn ſwnnio o fawl i dduw: Neu o'r lleiaf yn ffigur neu yn Atgynnyrcholdeb o'r Tragywyddoldeb yn y Nefoedd, lle bydd i dduw gael ei foliannu tros bob Tragywyddoldeb, a diſyrrweb mawr a gorawen, heb ludded yn y byd. Am hynny yr oedd i'r pſalmudd achos i leſain, Gwynſyd preſwylwyr dy dy: yn waſtad ith foliannant. Yno bydd i'r rhai bendigedig oll ddywedyd fel a darfu i Petr ar y mynydd, Da yw i ni fod yma. Canys gwir gyſoeth diſeſur yw Tragywyddoldeb, fel y mae St *Bernard* yn dywedyd: eithr y mae ef yn angwhanegu hyn yma gida hynny igyd, nid ydyw i'w gael oni pharheuir i'w

Pſal. 84.4.

Matth. 17.4.

geiſioz

geisio. Eithr pa fodd y mae i ni felly ei geisio, megis a gallom ni ei gaffael? Gwrando beth y mae yr hen Dad da yn ei ddywedyd: trwy dlodi, trwy addfwynder, a thrwy ddagrau yr ydys yn adnewyddu yn yr enaid lun a delw *Tragywyddoldeb*, yr hwn sydd yn amgyffred yr amserau oll. Yn gyntaf tlodi yw 'r ffordd i Dragywyddoldeb. *Matth.* 5.3. Gwyn eu byd y tlodion yn yr yspryd; canys eiddynt yw teyrnas Nefoedd. Lle byddys yn diystyru dynion tlodion, y mae 'r galon a'r arian yna gwedi eu cloi ynghyd yn y gist: lle byddys yn treulio arian yn ol rheolau cy bydd-dod, yno ni bydd na serch na chariad i dlodi; yno ni bydd na chwant na chariad i Dragywyddoldeb. Yn ail trwy addfwynder yr ydym ni yn gwneuthur ein hunain yn ddiofal am y pethau presennol: ac yn cael siccrwydd am y pethau *Matth.* 5.5. sydd i ddyfod. Gwyn eu byd y rhai addfwyn: Canys hwy a eitifeddant y ddaiar. Os gofyn un dyn pa beth a ddywedwn ni am dano ef yr hwn sydd yn wâg o addfwynder ac o ammynedd, yr hwn ni feidr ddywedyd agos un amser air addfwyn? Pa beth y mae ef yn ei ynnill wrth ei

anny-

annyhuddol anniddegarwch! Pa les iddo ynfydu ac ymddigio o lidiowgrwydd, i wneuthur y ſcarmiau a therfyſgau, i ddangos ei ewyllys i wneuthur diſtryw, er nad allei wneuthur yr hyn a ewyllyſſei: i ddibennu, neu na dywedyd wrth neb yn foeſawl dydd da i'wch, fel ped fai yn dlyn i bob boneddigeidd-dra a mwynder ymadrodd? Pa beth a ddywedwn ni am y cyfryw wr? os oes yr un o'r cyfryw; ſe ſydd yn ſiccr o ſod mewn colled am ei dda, neu am ei enw da, neu am y ddau. Canys nid yw ef yn meddiannu y cyfoedd ſydd yn ei eiddo, eithr eu cadw hwynt y mae fel y ei, Priod i hwn yw dal cyfarth iddyn, i rûthro iddo ac i'w frathu: eithr am ei enw da ef, os oes iddo yr un, ni bydd iddo ei gynnyddu trwy yr enw o anniddegarwch: ac am y Nef ſe a'i collodd cyn iddo gymmeryd y meddiant o honi. Yn drydyd, *Dagrau.* Canys trwy wylo a galaru, yr ydym ni yn prynu yn ol yr amſer aeth heibio, yr ydym ni yn ynnill yn ol yr hyn a dreuliaſom yn afradlon yn pechu. Eithr rhaid i'r galar ac i'r triſtwch hwn barhau yn hwy na thros awr yn unig, neu tros ddiwrnod:

Canys nid yw hyn yma ddim ond gwneuthur fel yr hwn ar farwolaeth e. fam a ym wisgodd mewn galarwisg, cymmhellodd tros yr amser y chydig ddagrau, ac felly fe aeth o hyd i'w chynhebrwng, ac efe nis gadawodd hi, nes iddo ei gweled gwedi ei chladdu: Eithr y diwrnod hwnnw neu 'r ail, fe sychodd ymmaith y dagrau oll oddi wrth ei lygaid, fe droes ei wylofain yn chwerthin: bwriodd ymmaith ei alarwisg, ac am dano rhoes liwiau. Nid galaru yn wir ddifri yw hyn, i wneuthur o alar ddiben mor fuan. Eithr yr ydym ninnau yn gwneuthur hyn (ysywaeth) yn rhyfynych. Heddyw ni a wnawn gyfaddefiad cyhoedd o'n pechodau i dduw, ac a wrandawn yr Absolusion; ni a edifarhawn o'n pechodau, ac a dderbynniwn y Cymmun Sanctaidd: a thrannoeth ni a bechwn drachefn gida d.fyrrwch, ac yn ddiofn, ac yn fynych yn fwy gorthrwm nag o'r blaen. Ni a sheiddiwn y drefn ddrygionus o'n buchedd aeth heibio tros yr amser presennol: a thrachefn ni a ddychwelwn i'r un treigl; ni a rown ddiofryd y pechodau a wnaethom ni o'r blaen; a thrachefn yn yr un diwrnod;

nod, ni a wnawn yr un rhai. Felly ni a gyhoeddwn Jesu Grist yn ddieuog, ac a'i croesholiwn ef o newydd a'r un tafod: fel ped faem ni wir frodyr *Pontius Pilat*, yr hwn a'r gan a'r unrhyw enau a'i barnodd ef yn euog ac yn ddieuog; gan gyfaddef na chowsei ddim achos marwolaeth ynddo, ac er hynny efe ai barnodd ef iw groesholio. Yr ydym ni yn ansafadwy ac yn anwadal iawn, eithr mewn dim mor ddianwadal, ac yn ail redeg trefn ein buchedd ddrygionus. Och! Och! dwyn yr ydym ni ormod o'r lleuad, hynny yw anwadalwch, yn ein dwyfronnau. Yr ydym ni weithiau cymmaint ein zêl, ac mor sanctaidd, ac na chymmeradwyem wynebpryd hoenus; rhag ofn y byddei i hynny rwystro ein sancteiddrwydd a'n defosiwn: Ni a edrychwn yn ysiwil, gan daflu ein golygon i lawr tu ar ddaiar, ac a guchiwn fel ped faem ni yn ddigllon wrthym ein hunain, Pan gaffom ni ynom y llaesiad neu 'r difraw-wch lleiaf mewn dyledswyddau sanctaidd: Eithr nid yw y sancteiddrwydd a'r defosiwn hwn un amser yn parhau yn hir. A'r ôl ychydig amser ni a ddechreuwn *Luc:* 23. 22. 24.

chreuwn gasau ie duwioldeb ei hun, a chan i'r angerdd newidio, ninnau drachefn a ddychwelwn i'n rhyfedd a'n anardymheruſiwydd a fu o'r blaen. ac yr ydym ni mor barod i ollwng yn rhydd y cwlm o gymmeithas a wnaed rhyngom â Duw, ac yr oeddym ni ar y cyntaf yn anfodlon i gaffael ei glymmu O'r diwedd mae Duwioldeb gidâ thriſtwch ac edifeirwch yn ei ddilyn yn ei gyndrychioli ei hun i ni drachefn, ac yn gyrru rhyfedd i ffoi, nes y delo'r amſer y dechreuwn ni edifarhau o'n hedifeirwch. Felly anfynych yr ydym ni yn gwneuthur hir aros mewn neb rhyw oneſt a duwiol dreigl Canys efe a ymddengys i ni yn rhy boenus: Ac ni a rwyfwn ar bob amnaid bychan gidâ'r ſtrwd o'n aſſendid a fu o'r blaen. Anwadalwch ein buchedd ni ſydd yn gyfriw, a'i fod ef yn cyndrychioli i'n meddyliau bob math a'r ddiſyrrwch a phechodau. Yr ydym ni yn cymmeryd arnom anrhydeddu rhinwedd: eithr yr ydym ni yn y galon a'r meddwl yn ymoſtwng ac yn addoli pechod; math ar wasanaeth poenus jawn! Nid hon yw'r ffordd i dragywyddolbeb, oddieithr ei bod o ddialeddau a phoenau yrhai

ni chant fyth ddiwedd.

Neilldwyn allan o lawer un dyn Chriſtianus, ac yn enwedig y cyfryw un ac y ſo yn ymroi fwyaf i ddifyrrwch, a dygwn ef o hyd gidâ ni at enau ffwrn wynias fflamlyd: *Ac* yno ymddinanwn ag ef, yn y modd yma; pa faint o ddifyrrwch a ofynnit am aros i loſgi yn y ffwrn hon tros un diwrnod? Yn ddiammeu, i hyn ſe attebei; ni fynnwn ni mo'm arteithio yn y fflamnau hyn tros un diwrnod er ynnill y byd yn gyfan a'r diſyrrwch oll ſydd yndo. Eithr cyn hygiwn iddo ammod arall, Pa wobr a fynni di er dioddef y tan hwn tros hanner diwrnod yn unig? cynnhygiwch y gwobr a fynnoch, nid oes dim mor felus, mor werthfawr, mor anwyl gennif, a brynwn ni o'm bodd mor ddrud ei bris, ar arteithian hyn. Eithr i brofi un waith etto, pa wobr a difyrrwch a fynnit er myned ſi'r ffwrn hon, ac i aros yno ond tros un awr? Ei atteb ef yn ddiammeu a fyddei hyn, goſynned y gwr ehwannogaſa digywilyddiafyn y byd cymmaint ag allei, nid ydyw hynny i'w gyffelybu ag anhraethawl, ac anniodd. fudwy loſgfeydd ac arteithiau

y tan hwn, er

er na pharhaent ond tros un awr. Os da yw 'r attebion hyn, ac yn cytuno ag jawn reſwm: pa fodd y mae yn digwyddo, O dduw, fod am elw bychan, a hwnnw ond yn wael; am urddas twyllodrus, a hwnnw yn ddiflannedig; am ddifyrrwch brwnt, a hwnnw yn fyr; gymmaint o ddynion yn gwneuthur cyn lleied cyfrif o dragywyddol goſpedigaethau yn nhân uffern? Nid ellir ein hannog ni a neb ryw wobr, na, er bod hynny am gael byd cyfan yn facl, i aros ond tros un awr mewn tân amſerol: ac er hynny, os naill ai mael a'n gwahodd ni un amſer, neu os anrhydedd a wena arnom ni, neu ddifyrrwch a'n huda, ni bydd arnom ni un amſer ofn uffern a thân Tragywyddol. Eithr dydi a ddywedi, gobeithio yr wyfi am well; mae Duw yn drugarog: ac ni ddioddefa ei addwynder ef i mi anobeithio, ac i gael fy nychrynu ag ofn y drwg ſydd i ddyfod. Mewn gwirionedd ni a fyddwn yn arfer o ddywedyd felly: A'r geiriau hyn nid ynt ddrygionus ynddynt eu hunain, o byddei ein gweithredoedd ni yn ddiwiol. Eithr ein gweithredoedd y rhan fynychaf ynt yn gyfryw, os jawn

ystyrir

ystyrrir hwy, bychan yw 'r Achos i ni obeithio am drugaredd. Rhan ynfyd ac enbydus iawn yw i wr fyw yn ddianwadal yn nhrefn anuwioldeb: ac i obeithio am dragwyddoldeb ymmysg y bendigedig. Och! digon yw un pechod i'n barnu ni yn euog. Oni wyddoſt ti pa beth a fygythiodd Criſt yn yr Efengyl? Pwy bynnag a ddywedo, ô ynfyd, a fydd yn euog o dân uffern. Oni wyddoſt ti pa beth a warafunodd Chriſt? fod pob un ſydd yn edrych ar wraig, i'w chwennychu hi, gwedi gwneuthur euſus odineb â hi yn ei galon. Oni wyddoſt ti pa beth a ragrybuddiodd Criſt? Nid pob un ſydd yn dywedyd wrthif Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas Nefoedd: ond yr hwn ſydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhad, yr hwn ſydd yn y Nefoedd. Oni wyddoſt ti fod Criſt yn cau 'r drws rhag llawer? Yr hwn ſydd yn caru Tâd neu fam yn fwy na myfi, nid yw deilwng o honofi: Ar hwn nid yw yn cymmeryd ei Groes, ac yn ganlyn ar fy ol i, nid yw deilwng o honofi. Oni wyddoſt ti pa beth a ddywedodd Criſt yn amlwg ac yn eglur, ac a'i hail adro-

Matth. 5.22. 28

Matth. 7.21.

Matth. 10.37. 38

adroddodd drachefn ? llawer sydd
Matth. 20.16, 22,14. gwedi eu galw, ac ychydig wedi eu
dewis : ychydig yn sicer, le, ychy-
dig iawn. Oni wyddost ti fynyched
Matth. 18.3. yr anghorodd Crist ni i newydd deb
buchedd ? Oddieithr eich troi
chwi, ach gwneuthur fel plant by-
chain, nid ewch chwi ddim i mewn i
deyrnas Nefoedd. Os dy law
neu dy droed a'th rwystra, torr hwynt
8 ymmaith, a thafl oddiwrthit : gwell
yw i ti syned i mewn i'r bywyd yn
gloff neu yn anafus, nag a chennit
ddwy law neu ddau droed dy daflu i'r
Luc. 13 3. tan Tragywyddol. Eithr onid
edifarhewch; chwi a ddifethir ell yn
yr un modd. Ac yn y man a'r ol hyn-
ny, Ymdrechwch am fynd i mewn
24 trwy 'r porth cyfyng : canys llawer,
meddaf i chwi, a geisiant fyned i
mewn, ac nis gallant. Oni wydost
ti mor eglur y mae *St Paul* yn dat-
gan y pethau hynny oll sydd yn ein
rhwystro ni i fyned i mewn i'r Tra-
Gal 5. 19,20, 21, gywyddoldeb bendigedig ? Am-
lwg yw gweithredoedd y cnawd, y
rhai yw, Tor-briodas, Godineb, A-
flendid, Anlladrwydd, Delw addoli-
aeth, Swyn-gyfaredd, casineb, Cyn
hennau, Gwynfydau, llid, ymrysonau,
ymbleidio,

vmbleidio, Hereſiau, cenſigennau, Llofruddiaeth, Meddwdod, Cyfeddach; a cyffelyb i'r rhai hyn: Am yr rhai yr wyſi yn rhagddywedyd wrthych, megis ac y rhag-ddywedais, na chaiff y rhai ſydd yn gwneurhur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Ddûw. Yn awr od oes neb ynddo ei hun yn eûog o'r un o'r holl bechodaû hyn a henwyd, ac nad yw cynddrwg ganddo o'i herwydd a'r fod ef yn ceiſio trwy bob modd poſſibl eu gochelyd rhag llaw: ſe ddichon ddatgan iddo ei hun, os myn, yr Spero ofer hwn, gobeithio yr wyſi, a gobeithio yr wyſi; ond yn wir nid ydyw gobaith y dyn hwn fath yn y byd ar un, eithr gwir ehudrwydd a rhyfyg. I ddyn anturio enbydrwydd ffrewyllau a ffonnodiau, drwg yw a ellir ei oddef. Colli ar chwareu gant neu fil o ſtloringod ſydd fawr ddrwg ddaniwain; eithr ſe ellir ei oddef Rhoi ei Ben ar ergid, ac i ddwyn ei fywyd mewn enbydrwydd, ſy anturiaeth goeg: Eithr i fwrw 'r gwaethaf nid yw hi ond colled a'm fywyd, a'r golled honno nid yw 'r fwyaf o'r lleill oll. Eithr i ollwng ymmaith dragywyddol

iechy-

jechydwriaeth yr enaid a'r corph mewn enbydrwydd, trwy fucheddu wrth anſiccrwydd, trwy obeithio mewn geiriau, ac anobeithio mewn gweithredoedd, gan ddiddymmu gobaith wrth ſuchedd ddrygionus ac annuwiol; o'ſy gwaethaf yw o'r holl anwireddau: y dryglam mwya gofidûs a ddichon ddigwyddo i wr: Ehûdrwydd a hyfder tra anghenol yw:y mae fe yn ffolineb ac yn wallgof o'r mwyaf. Deellwch hyn yn awr, y rhai ydych yn anghofio Duw, rhag i mi eich rhwygo, ac na byddo gwaredudd.

Pſal. 50.22.

BEN. III.

Y drydydd bennod yma ſydd yn dangos fod yn rhaid ymofyn am ffordd Tragywyddoldeb yn ddyfal ac yn ofalus.

GAn hynny bydded i bob dyn Chriſtianus ofyn iddo ei hun, ac i eraill ſy yn lle dûw, y qweſtiwn hwn, beth a wnafi fel y gallwyf gael y Tragywyddoldeb bendigedig, neu wynfyd Tragywyddol? Wyfi yn y ffordd

ſoedd union ſy 'n tywys i Dragywyddoldeb? yr wyſi yn gwneuthur rhyw beth yn ficer, eithr bychan iawn yw hynny, ac ni thal ſon am dano. Yr wyf yn ſychedu ac yn awyddu ar ol y llawen ddydd yn anſarwol ac yn Dragywyddol: Eithr ſy ngweithredoedd y chydig ynt, ac pan ſont ar y goreu, yn oerion ac yn ammherffaith: ac i gyd oll yn anheilwng o wobr Tragywyddol. Yr wyſi yn rybied yr amſer yn hir hyd oni ddelwyf i'r Porthladd: Eithr y mae arnaf ofn y tonnau cythryblus a'r temmheſtloedd rhyd y ſtordd: pan ac etto er hynny i gyd y ſtordd oreſa'r ddiogelaf i'r Neſoedd yw 'r arwaf a'r gulaf. Dymma 'r uniawn wirionedd wedi ei barablu o enau Duw, a Chriſt yn ei gyhoeddi; gan ddywedyd, Ewch i mewn trwy 'r porth cyfyng: Canys Eliang yw 'r ſtordd ſydd yn arwain i ddiſtryw, a llawer yw y rhai, (ie gormod yſywaeth) ſydd yn mynedi mewn trwyddi. O blegid cyfyng yw 'r porth a chul yw 'r ſtordd ſydd yn arwain ir bywyd, ac ychydig yw y rhai, (ie ychydig iawn yſywaeth) ſydd yn ei chaiel hi. Dracheſn, yn drechwch

Matth. 7.13.

14

Luc. 13.24.

wch am fyned i mewn i'r porth cyfyng: canys llawer, meddaf i chwi, *Luc.* 13 *24.* a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant. Oh! mor ofnadwy yw 'r gair hwn, *Llawer*, a hwn yma, *Ychydig* fel y dylent hwy beri i ni grynû! Eithr nyni ddynion truain ydym yn ein twyllo ein hunain, gan addaw yn dhud i ni ein hunain Dragywyddoldeb: Ac er hynny ni fedrafi ddywedyd pa 'r un hawsaf y gellyd iawn ddywedyd am danom a'i yn bod ni yn gobeithio, a'i yn bod ni yn breudddwydio y cawn ni ein cyfri ymmysg yr ychydig hynny a soniwyd am danynt o'r blaen. Mi a ddymunwn ar Dduw, yn awr, ie yn awr tra bo hi yn amser cymmeradwy, ac yn ddydd yr hiecydwriaeth, a fyddei i ni ddal sulw yn feddylgar, ac yn ddyfal ar Dragywyddoldeb, ac ymresymmu â ni ein hunain fel hyn: Och! Pa beth yw hyn oll yr wyfi yn ei ddioddef, neu yr hyn yr wyf yn ei weled fod eraill yn ei ddioddef? Os cymmharir ef a Thragywyddoldeb, nid yw ddim. Beth pa gallwn ni henwi cymmaint o flinderau ac o beryglon ag y ddarfu i St *Paul* fyned tanynt, megis y

maent

maent ganddo gwedi eu rhoi ar lawr yn ail Epyſtl *Paul* at y Corinthiaid, a'r un bennod ar ddeg? Pa byddei i mi ddioddef newyn a ſyched, digaſedd a cham, dolur a thlodi? ie mwy na hyn, Beth pa llabyddyd ſi gida St *Paul*, a'm curo i â gwiail? Beth pa dioddefwn dorriad llong? Hyn oll nid ynt ddim wrth goſpodigaethau Tragywyddol. Gan hynny mae yn anghenraid i nii ym mhob adfydwch feddwl rhyngof a mi fy hun, fy mod yn gweled diwedd ar y cwbl. *2 Cor.* 11. 27. *Pſ.* 119 96.

Y Prophwyd *Dæuiel* gwedi iddo henwi llawer o adfydwch, anchwanegodd y geiriau hyn, Hyd amſer y diwedd: canys y mae etto tros amſer nodedig. Deuwch yma, deuwch yma chwi oll ac ſydd mewn blinderau, mewn triſtwch, anghennion, dolur; neu ryw adfydwch arall. Pa ham yr ydych yn boddi eich hunain yn eich dagrau? Pa ham yr ydych yn gwneuthur eich oes 'iwch yn chwerw mewn annioddefgarwch a chwyn? y mae i chwi gyſur yma, mawr gyſur wedi ei ſugno o amſer y dioddefgarwch hwn. Oes amryw flinderau arnoch? na ymollwngwch i lawr, cymmerwch ga- *Daniel.* 12. 35.

lon: tros

tros amser yn unig y parhaant. Ydych chwi yn dioddef ammharch ac enllyb? Ydys yn eich blino chwi â chammau? oes trallodau eraill gwedi eu hamlhau arnoch? peidiwch a galaru: y rhain oll ni pharhâant ond tros amser; tros byth ni chant barhau; ar eich ucheneidiau bydd diwedd.

Dichon dagrau distyllio oddi wrth eich llygaid tros amser: eithr ni bydd i ucheneidiau a griddfanau yn dragywyddol ddyrchafu o'ch calonnau. Y mae 'r amser ger llaw, y pryd y bydd i chwi gael eich gwaredu oddi wrth bob gofid: ac y caffoch eich trosglwyddo i ddedwyddyd tragywyddol. Amlwg iawn yw hynny yn ol hyn o Ecclesiasticus: y dyn dioddefgar y ddioddefa tros amser, a chwedi hynny blagura llawenydd iddo ef. Eithr chwi hefyd y rhai ydych yn tybied eich hunain yn unig ddedwyddyd ar y ddaiar, ac yn enaid ac anrhaith y byd, gwybyddwch cymmaint a hyn, ac nafal chiwch, na dyrchafu i fynu eich corn chwaith: Nid ocs ich tebygol ddedwyddyd (canys nid yw ef ond hynny a bwrw 'r goreu) ond cymmaint

Eccluſ. 1.23.

au a therfynau cwttogion a chyfyng, a buan yr ydys yn myned o'i tu hwnt hwy. Eich gorfoleddiad chwi nid yw ond tros amſer: eich breuddwydion prydferth chwi ni pharhânt ond tros amſer. Ar ôl yr amſer a hynny ar fyrder, marwolaeth a orchymmyn i chwi dynnu ymmaith wyneb lledrithiog dedwyddyd, a ſefyll ym mhlith y thowter. Yno y bydd i chwi wir ymddangos o gymmaint a hynny yn fwy anedwydd, ac o ba gymmaint bynag mwy dedwydd iawn yr oed. dych chwi yn ymddangos i chwi eich hunain o'r blaen, yn nhyb eich meddyliau ynfyd. Gan hynny pa 'r un bynnag a'i triſtwch a'i llawenydd, nid yw ôll ond tros amſer yn y byd hwn, Tragywyddoldeb yn unig y dyw yr hyn nid ellir ei warchau o fewn neb ryw derfynau amſer. Gan hynny pa 'r un bynnag a'i 'r corph a'i 'r meddwl a fydd yn dioddef; Pa 'r un bynnag a'i colli cyfoeth a'i anrhydedd a wnawn; Pa 'r un bynnag a wna ein anmynedd ni a'i bod gwedi ei gynnefino mewn triſtwch neu ofid, gofalon neu rwy gyſtudd au eraill, oddi fewn, neu oddi allan; nid ynt oll ond lledrithiog a thrang-

cedig

cedig os ystyriwn ni gospedigaethau tragywyddol. Canys pan elo ar ol dydd farn ddegmil a deugain o flynyddoedd heibio, bydd yn ol ddengmil a deugain o fyrddiwnau o flywyddoedd etto; a chwedi i rheini fyned heibio, bydd yn yr un modd mwy fwy yn ol yn ddidor ac yn wastadol myrddiwnau o flynyddoedd yngwhaneg, a'r diwedd ni bydd byth. Eithr pwy fydd yn mysyrio ar y pethau hyn? pwy fydd yn eu hystyried, ac yn eu craffsynnied hwy yn? dda rhyngddo ag ef ei hun? Ni a ddangoswn weithiau fod gennem ni arwynt ar bethau tragywyddol: Eithr yr ydys yn ein taflu ni i fynu ac i wared a chynnhyrfiadau, ac a meddyliau am bethau aeth heibio, ac am bethau i ddyfod: ein calon ni fydd yn bwhwmman, ac yn llawn o wagedd. Pwya'i sefydla hi, ac a'i gesyd hi mewn lle diogel, fel a gallo hi sefyll ennyd, ac yn sefyll ryfeddu; ac yn rhyfeddu synnu o herwydd disgleirdeb Tragywyddoldeb; yr hwn a saif yn wastadol, ac nid a ymmaith byth? Myrogenes a wnaeth yn dda pan ddanfonodd Eustachius Archesgob Caersalem iddo roddion, meddaf, fe

wnaeth

wnaeth yn dda eû gwrthod hwynt; gan ddywedyd Gwnewch ond un peth, er fy mwyn i, yn unig gweddiotroſof; fel y byddo i mi gael ſy ngwaredu rhag poenau trayywyddol. Ac mâ oedd *Tullius* chwaith allan o'r ffordd pan dywedodd ef, ni ddichon un peth dynol ymddangos yn fawr i wr doeth; yt hwn ſydd ar gwybodaeth ganddo o Dragywyddoldeb, ac o fawredd y byd i gyd. Eithr gan *Ffrancis Awdûr* trefn y Ffranciſganiaid yr oedd araith, well o lawer na hon o eiddo *Tullius:* Nid yw 'r difyrrwch ſydd yma, medd ef, ond byr; eithr y goſpedigaeth a ſydd yn ol hyn annnerfynedig yw: Nid yw 'r boen ſyddyma ond bychan; eithr y gogoniant a fydd yn ol hyn Tragywyddol yw. Cymmerwch eich dewis, llawer ſydd gwedi eu galw, ychydig gwedi eu dewis, eithr pawb ſydd gwedi eu gwobrwyo yn ol eu gweithredoedd.

Gan hynny bydded ein hedifeirwch ni yn ebrwydd tra caffom ni amſer. Gwell (yw medd *Gwerricus,*) i ni gael ein puro trwy ddwfr nâ thuwy dan, a eſmwythach i ni o lawer. Yr awrhon y mae 'r amſer i

edifarhau: Gan hynny bydded i'n prydlawn editeirwch ragflaenu ein coſpedigaethau. Pwy bynnag ſydd yn ofni y llwydrew, yr eira a ruthra arno: yr hwn ſydd yn ofni y niweid lleiaf, a gaitf ddioddef a ſo mwy: yr hwn nid a tan yſgafn bwys edifeirwch, rhaid iddo ſyned tan arthrwm bwys coſpedigaethau tragofidus uffern. Gan St *Gregori* y mae Araith o'r un meddwl; rhai, medd ef, tra bont yn arſwydo coſpedigaethau amſerol, yn yn rhedeg eu hunain i coſpedigaethau *Tragywyddol*. Gallwn gyſyllu yma hyn o eiddo *Pacian*; Coſia medd ef, nad oes yn uffern un lle i gyfaddefiad pechodau, un lle i edifeirwch: Canys y mae hi y pryd hynny yn rhy ddiweddar i edifarhau, a'r amſer wedi myned heibio: pryſurwch gan hynny tra byddoch chwi ar y fforddd. Ni a ofnwn dân amſerol a llaw y dihenyddwr: Eithr pa beth yw y rhain i grafangau arteithwyr o ddiawleid, ac i dân Tragywyddol uffern. Cyngor St *Ambros* i forwyn a dripiaſei ſydd gymmheſſur jawn yn y fan yma.

Ni ddylei gwir edifeirwch, medd ef, fod mewn gair yn unig, eithr mewn gwei-

gweithred; a dynna mewn gwirionedd wir edeifeirwch, o gofodi ger bron dy lygaid oddi wrth pa ogoniant y ſyrthiaſt; ac wyt yn yſtyrio rhyngot a'th di dy hûn allan o ba lyfr y dileuwyd dy henw: ac yn credu dy ſôd yr awrhon yn agos i lwyr dywyllwch, lle mae wylofain a rhingcian dannedd yn ddiddiwedd. A phan ddygir ar ddeall i ti yn ſiecr, ſod y pêthau hyn yn wîr, fel mewn gwirionedd y maent; gan weled ſôd yr enaid a becho yn mherigl tân uffern, ac nad oes moddion yn y byd gwedieu gadel ar ôl y bedydd i ddiangc; oud edifeirwch yn unig bydd ſodion i ddioddef pob math ar boen, ac i ſyned tan bob math ar gyſtuddian, i ſod yn ddiangol oddi wrth boenau *Tragywyddol*. Clefydau 'r corph a gynnhyrfa 'r gwr clâf i gymmeryd cyfog boly o byſygwriaeth: Cynhyrfed clefydau ein henaidiau ni hefyd i gymmeryd Cyfog boly o edifeirwch: Cynhyrfed y deiſyfiad o'n iechydwriaeth ni: Cynhyrfed otn marwolaeth *Dragywyddol* a phoenau *Tragywyddol* ni: Cynhyrfed y gobaith o gyfrardd bywyd *Tragywyddol* a gogoniant *Tragywyddol* ni. Gwnawn yn fawr o'r

hyn sydd yn carthu yr enaid yn lân; a gochelwn yr hyn sydd yn ei wneûthûr yn aflan: Ac nid oes dim yn drewi cymmaint ar yr enaid, nag y mae 'r corph aflan. Ffyddlon yw 'r cyngor hwn o eiddo St *Ambros*, ac yn rhyglyddu arnom wneûthur yn fawr o honaw.

O Jesu Christ caniatta i ni gael perchennogi felly bethau trangcedig ac Amserol: Megis na byddo i ni yn y diwedd golli yr pethau yn *Dragywyddol*. A dyro i ni râs i rodio ynghamrau y rhai y mae St *Augustin* yn sôn am danynt, ac i ddilyn eu esamplau da hwy; Llawer sydd, medd ef, a ddaw yn ewyllysgar tan yr iaû, ac o wyr beilch sythion yn dyfod yn ddifeilch ac yn ostyngedig, ac yn deisyfû eû bôd yr hyn oeddynt o'r blaen yn ei ddirmygû, ac yn casaû i fôd yr hyn oeddynt o'r blaen: Yn mysned heibio i bethau presennol, fel dieithriaid; ac yn brysio gidâg awydd ar o'l pethau i ddyfod. Yn dyheû yn eû gyrfa rû a'i gwlâd *Tragywyddol*: Yn cyfri dirwest o flaen digonoldeb: Gwrliadwriaeth o flaen cwsg: Tlodi o flaen cysoeth: Yn cystrif y boen

yn

yn goreſgyn pechodaû yn ddifyr-wch; yn caru eû gelynnion; yn gollwng tros gof ganmaû; a'r cwbl o ran y gobaith am wobrwy *Tragywyddol.* A pha rai na ddioddefai gan hynny eitha pethaû, a phob mâth ar boen i bwrcaſû iddynt eſû bûnain y gwobrwy *Tragywyddol.*

Y Pedwaredd Ystyriaeth.

AR

Dragywyddoldeb.

Sydd yn yspysu pa fodd yr oedd Dafydd Sanctaidd yn myfyrio ar Dragywyddoldeb, *a pha fodd y dylem ni ei ddilyn ef.*

IDduw gospi yr Angylion gwrthgiliedig, a dynion gwedi eu barnu yn euog ar y dydd diweddaf â dialeddau *Tragywyddol*, a ymddangosodd mor ddieithr i rai, ac mor amgredadwy, a darfod i *Origen* ei hun, gwrthond am hynny, o synwyr rhyfeddol, ac o ddysgeidiaeth rhagorol, o gyfarwyddyd da jawn yn yr yscrythur, fod mor hyf ag athrawiaethu

thû fòd y cythreûliaid a'r damnedig ar ôl rhyw amſer, gwedi iddynt gael eû pûro yn ddigonol trwy dân o'i pechodau: yn cael o'r diwedd eû hedfryd i râs. Eithr St *Auguſtin* ac eraill a'i hargyoeddaſant ei, ac a'i barnaſant yn eſtog o'i hamryfûſedd yma. Er hynny i gyd yr amryfûſedd hwn, a gafodd yn y byd lawer a'i carodd. Rhyw Hereticciaid Enwedig *Anitiaid*, a'i hafiodd ei yma a thraw, ac a'i tanodd rhyd holl *Yſpaen* trwy amryw ddeongliadau o'i heiddo: Rhai feddyliau mai 'r holl rai damnedig eraill Criſtonogion yn unig, eraill rhai o'r Papiſtiaid yn unig, eraill y rheini yn unig a fûaſe yn haelach nag eraill yn rhoi elûſenau, gaent eû gwaredû o'r diwedd allan o dân uffern. Er na ddarfu i St *Auguſtin* wrth broſi yr amryfuſeddau hyn o'i heiddo, er hynny yr yſcrythur ſanctaidd a'i gwnaeth yn eglur ac yn amlwg. *Ewch eddi wrthif rai melldigedig i'r tân Tragywyddol:* A thrachefn; *Y rhai hyn a ânt i goſpedigaeth Tragywyddol; ond y rhai cyfiawn i fywyd Tragywyddol.* Ni ddichon un eglurhâad neu ddeongliad waſanaethu eu tro hwynt yma,

Math 41. 46

yma, i amddiffyn eu amryfuseddau. Gan hynny y *Psalmudd* sanctaidd y Brenin *Dafydd*, er ei fod ef yn ymhyfrydu yn fawr yn yr ystyriaeth o bob un o'r amserau, sef yr hyn aethei heibio, a'r hyn oedd i ddyfod: Etto yn ysbysol iawn ei lygaid ef oedd ar yr hyn oedd i ddyfod. *Fy llygaid*, medd ef, *a achubasant flaen gwiliadwriaethau y nôs*: A thracheſn mewn man arall, *Deliaist fy llygaid yn effro*, *synnodd arnaf, fel na allaf lefaru.* Pa beth, Brophwyd bendigedig, a dorrodd ar dy hun? Pa fasnach oedd i ti i'w wneuthur nior foreu cyn ei goleuo hi yn ddydd? Pa beth a barodd i ti ddistewi felly, a thrallodi dy feddwl? Gwrandewch beth y mae fe yn ei ddywedyd. *Ystyriais y dyddiau gynt, blynyddoedd yr hen oesoedd, a blynyddoedd Tragywyddoldeb oedd gennif yn fy meddwl.* Wele, pan gymmharodd ef y blynyddoedd aethant heibio, a'r blynyddoedd oedd i ddyfod, ac â *Thragywyddoldeb*, hynny oedd y peth a dorrasei ar ei hun ef. Nid oedd ef chwaith yn gwneuthur fellv y dydd yn unig, Eithr *cofio yr adwyf fynghân*, medd ef, *ynôs, yr adwyf yn ymddiddan â'm calonfy yspryd sydd yn chwilio yn ddyfal.* A

Psal. 119. 148.

Psal. 77. 4.

Psal. 77. 5.

Psalm. 77. 6.

A pha beth a'i cynnhyrfodd i arferu hynny bob nos? ond hyn, *Ai yn dragywydd y bwrw 'r Arglwydd heibio, ac oni bydd efe bodlon mwy? A*
8 *ddarfu ei drugaredd ef tros byth?* Edrych fel y mae ef yn ofni ac yn crynu yn unig wrth ystyriaeth ar *Dragywyddoldeb*, fel y mae ef yn ofni barnedigaethau Duw, rhag fyddei i Dduw ei gospi ef a dialeddau *Tragywyddol*. A pha beth yw gweithrediad a diben yFyfyrdod hon? ond hyn, A *dywedais dymma fy ngwendid: etto*
Psa.77. *cofiaf &c.* neu, 'r *awrhon y dechreuaf.*
10. Felly mewn diddim amser, yn y gwir unrhyw funud, efe a brisiodd yn well nag oedd, ac nid oedodd; nid oedodd ef chwaith ei edifeirwch, na'i fwrw heibio tan flynyddoedd a fyddei gwaeth. Eithr, medd ef, *yr awrhon y dechreuaf*, yr awrhon mi a fyddaf fyw yn dduwiolach nag a bum. Nid yw ef yn dywedyd ar ol y cyfryw awr, neu ar ol y cyfryw ddiwrnod; eithr, *yr awrhon ie yr awrhon.* Myfi, medd rhyw ddyn, ped fawn i fel yr oedd *Dasydd*, os medrwn i fyfyrio ar *Dragywyddoldeb* fel yr oedd *Dasydd* fendigedig a ddywedwn agatfydd, y pryd hynny gidâ

Dasydd yn

yn ddioed ac a hoen, yr *awrhon y dechreuaf*: Eithr rhywſtrwyd ſi felly â gofalon beunyddiol, rhwydwyd ſi felly â maſnach bydol, trawſdynnwyd ſi felly i amryw barthau ſfordd yma, ſfordd accw mal nas gallaf. Yr wyf yn byw ym myſg dynion, yr ydwyf yn gweled ac yn clywed llawer o ddrwg: Nid wyf yn cael nag amſer na hamdden i gymmeryd yn ſy nghalon feddwl cyſtadl a'r meddwl am *Dragywyddoldeb*. Pan ymgyfarfyddom ynghyd yn gwmpeini i wneuthur yn llawen, nid ydym ni un amſer yn ymchwedleua ym-myſg ein diſyrrwch na rhwng ein cwppaneidiau am y cyfryw bynciau Pwyllog: Ein meddyliau ni ynt yn gwibio i ſynu ac i wared am lawer o bethau, ac nis gallant y pryd hynny ſefydlu eu hunain ar yſtyriaeth *Tragywyddoldeb*. Yr ydym ni yn ein gwleddoedd a'n ymgyfarfod llawen yn cymmeryd ein cwppaneidiau, ac yn rhyngu ein bodd ein hunain yn dywedyd chwedlau digrif: Y mae y meddyliau am *Dragywyddoldeb* yn rhy ddwys, yn rhy drymrwion ac yn ſelancholi'n gael eu croeſawu gennym; ni a ddeolwn y cyfryw allan o'n cymdeithas,

deithas. Ni a ymofynnwn pa newydd o'r *Ital*, neu o *Ffraingc*, neu ei *Yspaen*. Mae yr hyn yr ydych chwi yn ei adrodd i ni mor fynych ynghylch y nefoedd ac ustern gwedi hir sefyll bellach, a myned yn hen.

Ni a wyddom hyn yn barod yn ddigon da: Pa raid i chwi ei ail adrodd eyn fynyched, hyd onid ydym yn distlasu arno? felly nid oes trwy'r moddion hyn un lle nac amser wedi ei adel i feddwl unwaith am *Dragywyddoldeb*. Oh! frawd Cristianus! Gwir yw yn siccr yr hyn yr ydwyt ti yn ei ddywedyd, nid allaf ei wadu: ond mi a ddymunwn dy fôd di mor barod ac mor gyflyn i wellhau dy fai, ac yr ydwyt ti i'w gyfaddef. Rhy eglur ac Amlwg yw, yr ydym ni yn gweled hynny â'n llygaid, nad oes ond ychydig neu ddim gofal yn y byd am *Dragywyddoldeldeb*: er bod rhyw beth neu ei gilydd bob dydd yn wastadol yn ei ddwyn ef ar gof i ni.

Y llyfr o hen Arferion a Defolau Eglwys *Rhufain* ar gyffegriad eu Hesgobion Appwyntiodd i'w darganygeiriau hyn, *Annos Æternos in mente habe, cadw yn wastadol yn dy gof flynyddoedd Tragywyddoldb*, neu, *feddwl am Dragywyddoldeb*: Canys cyn

gynted ac y dewiſir y Pab newydd ei ddwyn ef o hyd yr ydys mewn modd parchedig *i eglwys* St *Petr*; yno mae un yn cerdded o'i flaen ef, a chanddo yn ei law lin yn lloſgi, ac yn ei yſgwyd yn adrodd deirgwaith y geiriau hyn, *Pater ſanctæ, ſic tranſit gloria mundi*, Y Tad ſanctaidd, fel hyn yr a gogoniant y byd ymmaith. Arfer dduwiol a defoſionol a fyddei hyn', pettem ninnau bob dydd wrth ddechreu a diwedd ein holl weithredoedd, yn dywedyd wrthym ein hunain y geiriau hynny, *Annos Æternos in mente habe; Meddwl am Dragywyddoldeb.* Eithr yn yſpyſol pan demptir ni i neb rhyw bechod, pan fo 'r cythrael yn dwyn ar gôf i ni, ac yn goſod yn ein calonnau feddyliau drwg, a phan fo ein cydwybodau mewn perigl o gael eu harcholli: Oh! *Meddyliwn y pryd hynny am Dragywyddoldeb.*

BEN. I.

Y bennod gyntafyma ſydd yn cynnhwyſo amryw rybudddion i feddwl am Dragywyddoldeb.

PHilip Brenin *Macedon* a appwyntiodd ryw wr ievange enwog i'w gyfarch ef bob bore dair gwaith yn y modd yma, *Philippe, homo es*; Cofia,

Philip, nad ydwyt ti ond dyn. Mal gan gofio iddo ei farwolder beunydd, y byddei iddo ymddwyn tu ag at ddynion marwol yn gyffelyb i ddyn marwoll. *Mwy* o lawer y dylei pob dyn Christanus, a gwir aelod o'r Eglwys Gatholic fod yn rhybuddiwr iddo ei hûn, ac a dyledus ystyriaeth ddywedyd bob bore o'r lleiaf dairgwaith wrtho ei hun, *Tragywyddoldeb, Tragywyddoldeb, Tragywyddoldeb!* pam hynny? *Trefna dy dy* (medd y Proph. wyd wrth y Brenin *Hezekiah*) *Canys marw fyddi, ac ni byddi byw.* Yn ddiammeu y prydnhawn a ddaw, ar ol yr hwn ni chei di weled un bore: neu 'r bore a ddaw ar ol yr hwn ni chei di weled un prydnhawn. Am hynny bydded gennit ti ofal yspysol yn dy holl weithredoedd, na archollych di dy gydwybod: ac na ymddiriedych yn ormodd yn y pethau hynny a dderfydd am danynt; rhag ofn darfod am danat tithau dy hun gidâ hwynt yn yr un modd, a cholli o'r diwedd y pethau ynt. *Dragywyddol.*

Esay 38. 1.

Germany. Arfer sydd * yngwlad yr *Ellmyn*, ac nid yw hi i'w anghanmol, pan oleuir, yn y cyfnos ganwyll, neu pan ddelir

ddelir â hi i mewn gyntaf i yſtafell, oddywedyd; *Deus det nobis lucem Æternam, Duw a roddo i ni oleuni Tragywyddol.* Byddei i ninneu wneuthur yn dda ddilyn yr *Ellmyn* yn yr Arfer hon: Neu yn hyttrach, yr ydys yn arfer hynny yn barod, ac a arferwyd er yſtalm o'r blaen mewn llawer o fannau o'r deytnas hon o ddywedyd; *Duw a roddo i ni oleuni teyrnas* Neſoedd. Da jawn yw hyn i ddwyn ar gof i ni *Dragywyddoldeb* beunydd.

Je, mae math ar *Dragywyddoldeb* mewn caethiwed a charchar, eithr yn anenwog ac yn erchyll. Coſpedigaeth greulon yw, neu waeth ymmarn rhai dynion na marwolaeth ei hun, i un fod gwedi ei farnu i garchar *Tragywyddol*, neu i fod byth yn gaeth-wâs i rwyfo mewn llongau.

Hefyd y rhai y mae clefyd neu ryw ofidiau eraill yn eu gorthrymmu, ynt yn bwrw yn eu meddyliau rhyngddynt a hwy eu hunain, ie fod yn ei dioddefiadau hwy ryw fath ar *Dragywyddoldeb*! o hyn yma mae yn digwyddo yn bod ni yn eu clywed hwy yn fynych yn adrodd y cyfryw eiriau afreolus a rhain. A fydd i hyn

bara

bara yn wastadol? A fydd i mi fod byth bob amser ynglyn yn sy ngwely? A fydd i mi ddioddef y poenau a'r gofidiau hyn byth? A fydd i mi gael fy mhoeni am blino fel hyn beunydd? Och! nid yw y *Tragywyddolderau* hyn ond byrrion, buan i dibennant. Eithr os ydyw mwy o fidus i gig a gwaed ddioddef caethiwed a charchar yma ar y ddaiar pe rhon ond tros funud (canys nid yw ein heinioes ni hwy na hynny, yn ol mesur *Dafydd* ond rhychwant yr hyn sydd fyriawn) pa ofal a dyfalwch, a pha graffter a ddylem ni ei arfer, fel na byddei i ni gael ein taflu i garchar uffern, ac i'r pwll diseisiedig, lle mae caethiwed a charchar, poen ac artaith i'w dioddef trwy 'r oesoedd ôll, wedi yr hôll amserau, ie hyd bob *Tragywyddoldeb.*

BEN.

BEN. II.

Tr ail bennod yma ſydd yn danges fôd Tragywyddoldeb yn wyned o'r tu hwnt i bob niſer o gyſriſyddiaeth.

MAe 'r Cyfriſyddiaeth gyffredinol iawn, ac yn gydnabyddus ddigon yr hon a ddyſgir i blant pan elant gyntaf i'r yſgol a hyn yma ydyw. Bwrw fod mynydd o dyfod man iawn cymmaint a'r holl ddaiar neu yn hyttrach yn fwy o lawer. Yno bwrw pa byddei i Angel bob blwyddyn gymmeryd un, ac ond un graienyn o dyfod o'r mynydd hwn. Pa ſawl mil, a mil a thrachefn, meddaf, mil; ie, pa ſawl can mil; ac etto angwaneg, pa ſawl mil o fyrddiwnau o flynyddoedd a fyddei yn angenrhaid iddynt fyned heibio, cyn y gellyt deall fôd y mynydd yn lleihau, neu i ddim fôd gwedi ei dynnu ymmaith? Eiſtedded gwr i lawr a fo tefarwydd mewn cyfriſyddiaeth? A dechreued fwrw pa ſawl blwyddyn a ſyddei yn angenrhaid iddynt fyned heibio cyn i'r mynydd, neu i hanner

hanner y mynydd gael ei ddwyn ymmaith gan yr Angel? Yn wir nid allafi ddeall y dichon ef fwrw byth y nifer yn gwbl o'r tyfod. Eithr yr ydym ni yn camgymmeryd yn hyn; canys er nad allwn ni ddeall fod yn possibl ei wneuthur; er hynny fe ellir ei wneuthur: Eithr y mae yn ddigon diammeu, fod *Tragywyddoldeb* yn rhagori ar y nifer hwn o flynyddoedd allan o bob cymmhariaeth: Canys nid oes rhwng y peth terfynedig a'r peth annherfynedig ddim cymmhariaeth na chyfladdrwydd: Nid oes nag eithafon, na therfynau, na chyffinniau i *Dragywyddoldeb*, nag oes yr un. Bwrw pa na byddei i'r damnedig ddim yn hwy losgi yn uffern, ond tra byddei Angel yn dwyn ymmaith yn llwyr y mynydd o fesur graienin yn y flwyddyn: Er hynny pa nifer aneirif o flynyddoedd fyddei raid iddynt fyned heibio, cyn a gallant hwy ddisgwyl gweled dydd eu hymwared! Eithr, och! nid oes un cyfryw ddiwrnod i'w ddisgwyl; ni bydd diben ar eu poenau ar ol y nifer aneirif hwnnw o flynyddoedd, fe ddywedir yn ddiammeu, yr awrhon y mae eu *Tragywyddoldeb* hwy yn dechreu, nid yw eu *Tragywyddoldeb* hwy mewn

neb ryw barth yn darfod, y maent eyn belled oddi wrth ddibennu eu poenau, ac yr oeddynt yn y dechreuad. Ar ol mil o flynyddoedd, ie ar ol can mil o flynyddoedd ni bydd na diwedd na chanol, na dechreuad o *Dragywyddoldeb*. Canys y medr o *Dragywyddoldeb* fydd bob amſer. Y mae Diſeinyddia fu yn ddiweddar yn athrawiaethu yr unrhyw gelfyddyd o gyfrifyddiaeth ynghylch y mſnaeh o *Dragywyddoldeb*, mewn geiriau yn amrywio peth; Eithr o'r un meddwl a'r rhai cyntaf: Am hynny mi a'i hangwhanegaf hwy, o herwydd na ddichon gwr fyth feddwl, neu ddywedyd digon am dano. Yſtyria, medd ef, pa beth yw *Tragywyddoldeb*? Pa hyd y teyrnaſa Duw a'i Seinctiau? Pa hyd a bydd y damnedig yn lloſgi yn uffern? *Yn oes oeſoedd*. Pa hyd yw hynny? Bwrw yn dy feddwl mai can mil o flynyddoedd. Och! nid yw hynny ddim mewn herwydd i *Dragywyddoldeb*. Bwrw yn dy feddwl ddeg can mil o flynyddoedd, ie cymmaint a hynny o oeſau: Etto nid yw hynny ddim. Y mae *Tragywyddoldeb* yn gyhyd ag yr oedd. Bwrw yn dy feddwl fil o fyrdiwnau

o flynyddoedd. Ac etto nid yw hynny ddim. Ni fyrhâed un tippyn ar *Dragywyddoldeb*. Bwrw yn dy feddwl etto fwy, 100000000 00000000:00000:0000000, Mil, mîl,mîl,mîl,mîl,mîl,mîl,mîl,Ofyrddiwnau o flynyddoedd : Bwrw yn dy feddwl meddaf, fod i'r damnedig loſgi yn uffern hynny o flynyddoedd: Ac etto ni chefaiſt di wir ddechreuad *Tragywyddoldeb*. Bwrw yn dy feddwl cymmaint a hynny o fyrddiwn o fyrddiwnau o flynyddoedd ac ſydd o ddefnynnau yn y môr : Ac etto ni ddaethoſt ti i ddechruad *Tragywyddoldeb*. Y cyfryw am baihaad yw y *Tragywyddoldeb* O Lawenydd yr hwn a fydd i'r bendigedig fyned i mewn,a'r *Tragywyddoldeb* o boenau a ddioddefa 'r damnedig. O Jeſu arbed ni, arbed ni O Jeſu,O Jeſu achubni,cymmer drugaredd arnom ni O Jeſu daionus, ac na chynnwys i ni gael ein taro tan ddwfr yn wyſg ein pennau yn y pwll diwaelod,i gael ein poeni gida 't damnedig tros holl *Dragywyddoldeb*.

Eithr etto pa gwnae Duw ond dywedyd wrth y damnedig, gorchcuddiwch y ddaiar a thyfod nian iawn, a llennwch y byd o honaw, a

phentyrrwchie fi fynu cyfuwch ar neoedd, ac yno doed Angel unwaith bob mîl o flynyddoedd, a chymmered un graienyn o dyfod allan o'r pentwr; y pryd, ar ol cymmaint o filoedd o flynyddoedd a hynny, ac oedd o ronynnau o'r tyfod, y dygei 'r Angel ymmaith yr hôll bentwr, y pryd hynny mi a'ch gwaredaf chwi allan o dan uffern! Oh fel y gorfoleddei 'r damnedig gan lemmain o lawenydd! ac ni feddylient eu bod yn ddamnedig! Eithr, (och) ar ôl cymmaint o filoedd o flynyddoedd a hynny, bydd etto chwaneg yn ymaros, a chwaneg, ac aneirif chwaneg hyd *Tragywyddoldeb* oll; ie byth ac yn oes oesoedd. Dyna'r trwm bwys hwnnw fydd felly yn gwasgu ar y damnedig! Bob un gan hynny ac fydd yn pechu, ystyried rhynggdo ag ef ei hun, a thrachefn, meddaf, ystyried y caiff onid edifarha ei wasgu a'i falurio tan drwm bwys *Tragywyddoldeb*. Mae gan *William Peraldus* Esgob *Lion* gwr dysgedid a chrefyddol iawn, gyfrifyddiaeth o fath arall, yn mysyrio ar y nifer aneirif o flynyddoedd rhyd y rhai oll y cac 'r damnedig eu poeni. Pa distylliau

'r damned'g, medd ef, bob dydd o'i llygaid ond un deigryn bychan, ac i'r dagrau hyn gael eu rhoi at eu gilydd o ddydd i ddydd, rhagorent lawer o'r diwedd ar ddefnynnau yr mor mawr: Canys y mae i'r rhain nifer a mesur; a hawdd gidâ Duw ydyw dywedyd, hyn a hyn ſydd, ac nid oes yr un yngwhaneg o ddefnynnau yn y mor mawr. Eithr y mae dagrau'r damned'g yn rhagori ar bob nifer a mesur. Och Och! leied yr ydym yn meddwl am y pethau hyn! Mor rhwydd ac mor chud yr ydym yn pechu, ac yn gwneuthur ein hunain yn euog o goſpêdigaeth *Trugywyddol*, a hynny yn ſynych er mwyn difyrwch brwnt, byr, a bychan jawn.

Y mae etto yn ymaros un ffordd yngwhaneg i ſwrw y nifer arneirif yma o flynyddoedd: Bwrw fod dalennig o femrwn yn rhychwant o led, eithr cyhyd ac yr amgylchau acy cylchynau y Globyn ſef y ddaiar oll: A bwrw i bod hi i gyd rhyd-ddi o'r naill ben i'r llall yn yſcrifenenig a'r ſligur naw yn agos jawn at ei gilydd: Pwy un mor gyfarwydd ynghelfyddyd yſcrifyddiaeth a fedrei ddywedyd eu rhyfedi? Pa fynydd ſydd cymmain,

maint, a bo yn genni ynddo cymmaint a hynny o runynnau o lwch neu dyfod? Pa for mor anfeidrol o faint, ac y gweddei ynddo cymmaint a hynny o ddefnynnau o ddwfr? Ac etto nid yw hyn ddim i *Dragywyddoldeb*; y mae ef yn ymyſtyn ymmhellach na hynny; ni wyr ef oddi wrth gyffiniau yn y byd; efe a yſtynnwyd allan o bob meſur. Eithr hyd yni mhu le 'r yſtynnwyd ef? Efe yſtynnwyd yn anfeidrol, ac yn ddiddiben. Oni bredd dy galon di (O ddyn Chriſtianus) yn garreg, ni ddichon hi na thoddo wrth yr yſtyriaeth o'r pethau hyn; a'r yſtyriaeth yn unig ar y pwll diwaelod, a dialedd *Tragywyddol* a wna i ti ofni a chrynu? Od oes ynot ddim ymwrandawiad, efe ymddengys ei hûn yma. Eithr megis y dywedais i o'r blaen, y mae rhy fychan yn yſtyrio ar y pethau hyn, a gormod yn byw mor ddiofal am eu hiechydwriaeth, fel pa na bai na nefoedd, na Duw, nac uffern, na *Thragywyddoldeb*. Y maent bob dydd yn pentyrru pechod ar bechod, fel ped faent yn llafurio ac yn aſtudio i beri i'w dydd diweddaf ragori ar y cyntaf, am y medr a'r nifer o'i pechodau:

dau: Ac felly y maent yn myned i *Dragywyddoldeb* tan gellwair a chwareu, fel pe'd faent ond myned i garchar tros ychydig wythnosau, neu ddyddiau. Y cyfryw ddynion a'r rhain, medd St *Gregori*, pan ddylent fod yn galarau am eu pechodau, fyddant yn dawnsio am eu difyrrwch: a phan ddylent fod yn mysyrrio yn ddifrifol ar farwolaeth, hwy a fyddant yn rhedeg tan chwerthin i'w dihenyddfa. Dallineb yn siccr yw hyn yma, ynfydrwydd anghofus ydyw. Yr ydym ni am y bywyd byr yma, yr hwn nid yw ond cysgod *Tragywyddoldeb* tyn llafurio allan o fesur; Eithr am y bywyd yr hwn fyddyn Dragywyddol, ac yn ddedwyddaf o'r cwbl, nid ydym ni agos yn cymmeryd neb ryw boen un amser: Ac etto mae palliant y gyfiaeliad o'r bywyd hwn yn cyrchu i ni farwolaeth *Tragywyddol*; yr hyn megis ag y mae yn boen mwy gofidus, na holl boenau 'r bywyd hwn; felly yn hyn yma mae fe yn ofidus jawn, am nad oes dim llonyddwch neu esmwythaad o boen, nac oes un awr fach o fewn holl yspaid Anfeidrol *Tragywyddoldeb*.

BEN.

BEN. III.

Y drydydd beunod yma ſydd yn dangos par affaith a ffrwyth ſydd yn tyfu allan o'r yſtyriaeth ar Dragywyddoldeb.

AHyn yw'r peth a barodd i gymmaint o Griſtionogion da, ac i gymmaint o Ferthyron ſanctaidd bod mor gwair a pharod i ddioddef pob math ar arteithiau neu farwolaeth a fynnid, megis ac y byddent yn eu poenau mwyaf, ie pan fyddent yn ymdrabaeddu yn eu gwaed, yn ddewraf ac yn waſgwychaf o gwbl, ac yn gorfoleddu â golwg dianwadal, ac â wynebpryd cyſurus ar eu harteithwyr. *Blynyddoedd Tragywyddoldeb oedd gandynt hwy yn eu meddwl.* Dymma 'r peth a barodd i'r byd ymddangos yn ddiflas, ac yn anhyfryd i lawer, yn gymmaint a darfod iddynt hwy gymmeryd eu cennad gan bob diſyrrwch, a chyfleidio a chroeſawu duſing a chaeth dreſn buchedd, gan ymroddi eu hunain yn gyfan i ddarllain, i fyfyrio, ac i weddio, a'r cyfryw ddyledſwyddau ſanct-

aidd, gan roi eu fryd ar y nesoedd, a phethau nefol. *Blynyddoedd Tragywyddoldeb ocdd ganddynt hwy yn eu meddwl.* Meddwl am *Dragywyddoldeb* a bar i bob peth yn y bywyd hwn ymddangos yn esmwyth ac yn hyfryd: Er eu bod hwy i gig a gwaed yn ymddangos yn ofidus jawn ac yn anhyfryd. Y mae ef yn peri i'r holl helbulon ymddangos yn ysgafn ac yn fyrrion jawn. Y mae ef yn rhoi mewn ymddiried i ni weddio, astudio, gwilio, a'r cyfryw ddyledswyddau sanctaidd, ac yn peri iddynt ymddangos yn hygar. Y mae ef yn tymheru ac yn pereiddio newyn a syched. Y mae ef yn esmwythau yr ymwrandawiad o wasg-tlodi. Y mae ef yn gwneuthur pob math ar wrthwynebion yn y bywyd hwn, nid yn unig yn oddefadwy, ond hefyd yn gymmeradwy, ac yn gonsforddus. Gan bwy bynnag y mae blynyddoedd *Tragywyddoldeb* mewn cof, ac sydd yn eu hargraphu hwy o'i fewn ddwfnach ddwfnach trwy fyfyrdod beunyddiol, ni ochela hwnnw helbulon yn y byd: Ac nis dychrynir ef chwaith â nâth yn y byd ar gollediau. Cynnyg iddo deyrnas, Cynnyg iddo y digrifwch a'r difyrrwch oll sydd yn

y byd; ac efe ni newid am danynt ei gyllwr a'i ystâd dlawd. Ni achwyn y cyfryw wr a hwn un amser: Dioddef pob peth y wna, y mae yn ymddarostwng ei hun i'r cwbl. Canys y mae yn meddwl rhyngddo ag ef ei hun yn y modd yma, leied peth yw hyn yma, neu hyn accw; hyn accw, neu hyn yma, a byrred eu parhâad! Am hynny mi a'i dioddefaf yn ddioddefgar; ni pharhan bob amser Nid yw ond tros awr (o honno yn un fer jawn) y gorthrymma fy ngelynnion fi ymma. Wele, iddo yn awr, chwi absenwyr drwg; cnowch fi yn wastadol os mynnwch, chwi rai cenfigennus; ni redaf oddi wrthych. Dynima eich awr chwi a nerth y tywyllwch: Eithr yr wyfi yn disgwyl dydd yr Arglwydd, a'r dydd o *Dragywyddoldeb*; a pha ham y rhaid i mi flino a phoeni fy hun a thristweh a galar? Nid yw'r hall fywyd hn ond marwolaeth o un awr; Nid yw 'r fuddugoliaeth yn galed, Eithr mae 'r gorfoleddiad yn *Dragywyddol*. Pa ham y rhaid i mi ofni tonnau cynddeiriog y byd trallodus hwn? Y mae r porth'add gennif mewn golwg yn barôd. Y mae hi yr awrhon yn taranu ac yn glawio

am ben y rhai da a duwiol, end y dymmhestl a chwyth ymmaith ar fyrder. Eithr Duw a lawia am ben ei elynnion bob amser dân a brwmstan, ystorm, a themmhestl: dyna ran eu phiol hwynt. *A llawer o'r rhai ſydd*
Dan. 12. 2. *yn cyſgu yn llwch y ddaiar* (megis y prophwydodd *Daniel*) *a ddeffroant rhai i ſywyd tragywyddol, a rhai i warth a dirmyg tragywyddol.* Duw a orchymynnodd yn yr hen gyfraith i *Moſes*, gan ddywedyd. *Gwna it ddau*
Num. 10. 2. *ud-corn arian: yn gyfanwaith y gwnei hwynt. Ond os ag un y canant, yna*
4 *y Tywyſogion, ſef Pennaethiaid miloedd Iſrael a ymgaſglant. Pan ganoch al-*
5 *arwm, yna y gwerſyllocdd a gychwynnant.* Ni allwn gyffelybu 'r ddau ud-corn hyn i'r dau air yma, YR AWRHON A PHOB AMSER. Dymma gyfraith y byd, llawenhawn YR AWRHON, gorfoleddwn YR AWRHON, mwynhawn YR AWRHON ein daoedd tra bont ar ein helw, deuwch, coronwn ein hunain YR AWRHON â rôs cyn iddynt wywo; gadawn YR AWRHON arwyddion ac olion ym mhob man o'n llawenydd Y rhai ynt yn diſgwyl yn unig wrth lais yr ud-corn hon,

y

y rhai nid oes ganddynt gluſtiau i glywed dim ond YR AWRHON yma, ynt yn treulio y rhan fwyaf o'i hoes telly, fel pa na bai yr un FOB AMSER i ddyfod ar ôl. Am hynny nid ydynt hwy yn ſymmud y gweſyll; ynghanol eu difyrrwch anghofio y maent o'i gwirfodd nad ydynt hwy yma ond Pererinnion a dieithriaid: I ba le bynnag a gwahodda 'r cnawd trythyll hwy, hwy a ânt yn unchwant: Y maent hwy oll yn ymdrafferthu ynghyd yn pentyrru golud, ac yn dilyn difyrrwch: YR AWRHON yma a'i dwrwſ ſydd yn ſyfrdanu ac yn pyluo eu cluſtiau hwy telly, megis y maent yn fyddar tu ag at bob cynghorion da ac athrawiaethau; ac ni wnant hwy cymmaint a rhoi benthyg eu cluſtiau i'r BOB AMSER hwnnw ſydd yn rhaid iddo ganlyn. Eithr hwy y rhai ſydd yn agoryd eu cluſtiau i wrando, a'i calonnau i ddeall; pan gano yr Eglwys y ddau ud-corn (megis y mae hi yn ſynych yn gwneuthur) ac ar hynny yn yſtyrio yn ddifrifol rhyngddynt â hwy eu hunain, ac yn cymmharu ai gilydd YR AWRHON byr yma, a'r anfeidrol

a thragywyddol BOB AMSER hwnnw; nid ydynt yn arfer o vedi dim, eithr yn bryfur maent yn fymmud y gwerfyllimaent yn byw fel Pererinnion a dieithriaid, eu lwynau fydd ganddynt gwedi eu gwregyfu; cofio y maent ew bod ar eu taith; maent yn danfon eu cyfoeth a'i difyrrwch o'r blaen i'w gwlad yr hon fydd uwch ben; dewis y maent yn hyttrach eu mwynhau BOB AMSER yn y nef, nac YR AWRHON tros yehydig amfer arsy ddaiar. Diammeu ydyw, pwy bynnag fydd yn gwrando yn ddyfal, ac yn dal yn ddaifrifol yn ei gof Alarwm yr ud-cyrn hyn, ac a'r hyn-ny fydd yn cymmharu a'i gilydd bethau preſennol a phethau i ddyfod, a phethau tragcedig a phethau *Tragwyddol*, efe a wna ei hunan yn bryfur yn barod i ymadel, paratoi a wna ef iddo ei hun feddrod, rhydd allan ei liain Anido, denfyn am ei Elor, ac a ddiwalla ei hun a phob peth angenrheidiol i'w daith; gan gofio yn wafiadol ymmhob lle i fod ef yn cerdded y ffordd i *Dragywyddoldeb*; a chan ymchwedleua bob dydd ag ef ei hun yn y modd yma: Pa fut a byddaf o'r gallu i roddi cyfrif i Dduw am fy holl

holl feddyliau, geiriau a gweithredoedd? ac, pa bryd y mae yn rhaid i mi roi fy nghyfrif i fynu? A pha farn a gerdd arnaf? YR AWRHON, gan hynny mi a fyddaf farw i mi fy hun, fel y gallwyf BOB AMSER fyw i mi fy hun ac i Dduw. Y gwr hwnnw gwyn ei fyd, yr hwn fydd mewn amser, a phob dydd yn ystyrio fel hyn ar *Dragywyddoldeb*. Beth bynnag a wnelom ni, cerdded ein ffordd yr ydym, ac ni wyddom ni fyned ydyw, i'r drws fydd yn arwain i *Dragywyddoldeb*. Marwolaeth a'n dwg ni ar yr awr ddiweddaf o'n bywyd i'r drws hwn, ac a'n har'in ni fyned i mewn. Gan hynny bucheddwn felly, fel ped fae'm bob amser yn disgwyl marwolaeth, megis os rhyngai bodd i Dduw un amser ein gofwyo ni a chlefyd rhagredwr marwolaeth, y gallom ni ei chroesawu yn gyffurus, a'i ddioddef yn ymmyneddus, gan godi i fynu ein golygon at Grist yn ghrog ar y Groes, y gwir gynddelw berffaith o ymmynedd, a phan nesao amser ein ymddattodiad gweddio fel hyn; O Arglwydd Jesu fa yn fy ymyl, a chyffura fi; Arglwydd Jesu bydd bresennol gidâ dy was, yr hwn

fydd yn ymddiried i not; Arglwydd Jesu gwna fi yn gyfrannog o'th fuddugoliaeth; Arglwydd Jesu derbyn fy yspryd, ac arwain fi trwy ddyfnfyny rywyllwch a chysgod Angeu; tywys fi ac na âd fi nes i ti ddwyn fy enaid i dir y rhai byw, tydi O Alluogcaf Gwngcwerwr angeu, O tydi yr hwn wyt fy ngoleuni, fy mywyd a'm Hiechydwriaeth.

Y Pummed yſtyriaeth.

AR

Dragywyddoldeb.

Sydd yn byſpyſu y mŏdd y darfu i eraill, ie gwyr drygionus eu hunain ſyfyrio ar Dragywyddoldeb.

HEn hiſtori y Tadau ſydd yn adrodd am wr crefyddol, yr hwn yn darllain ar y ddegfed Pſalm a phedwar ugain ddaeth o'r diwedd heb feddwl am hynny, i'r geiriau yma, *Canys mil o flynyddoedd ydynt yn dy olwg di ſel doe, wedi 'r el heibio,* ac yno fe ſafodd: Canys ni fedrei ddeall y rheſwm, pa ham y byddei i fil o flynyddoedd, ac un diwrnod gael eu cymmharu a'i gilydd Ar hynny, meddant hwy danfonwyd aderyn baeh trwy Ddŭw, yr hwn a'i ſelus gân a ſynnodd y

gwr, ac er i fod yn ei glywed ef yspaid fawr jawn tunty, er hynny yr oedd ef, yn bwrw yr amser yn fyr iawn, yn brin cyhyd ag awr fer. *Y mae 'r gwynt yn chwythu lle y mynno.* Ni ddarfu i wyr da yn unig gidâ *Dafydd* fyfyrio ar *Dragywyddoldeb*, eithr dynion drygionus hefyd yn unwedd, a rheini yn fynych yn erbyn eu hewyllys.

Joan 3. 8.

Benedictus Rhenanus sydd yn son am ddyn anuwiol ofer, gwir lwth a bydolddyn pur, yr hwn ni arferei o ymprydio nag o wilio un amser, un ni fedrei ddioddef un math ar eisiau ond cwfg yn yspysol: Ar ryw nos, debygwn, y dyn hwn ni fedrei gysgu fel yr oedd yn arfer, o herwydd fod breuddwydion anarferol yn ei flino yn fawr: am hynny ymdroi yr oedd ef yn ei wely o'r naill ystlys i'r llall, ac ni fedrei gael dim esmwythdra mewn modd yn y byd; yno fe ddymunei i bod hi yn ddydd. Eithr Gwynt yr Arglwydd a ddechreuodd chwythu yma, er i fod mewn gwlad ddieithr: Canys anaml iawn y byddei meddyliau da yn y dyn hwn. Yn flinedig gan anhunedd, ac heb gaffael dim esmwythdra neu orphywysdra un

amser,

amser, efe a deechreuodd feddwl rhyngddo ag ef ei hun fel hyn: a gymmerei un dyn gyflog ar neb ryw ammodau er gorwedd yn y modd yma ddwy flynedd neu dair tunty, mewn rywyllwch heb gymdeithas eu garedigion, er na byddei eu glefyd yn ofidus iawn? a fyddei efe fodlon i fod heb ei ddifyrrwch a'i ddigrifwch cyhyd? A fyddei efe fodlon i fod yn rhwym i'w wely, ped fai wele o blu, neu o fanblu adar gwylltion, na fi flyd i fyned allan an amser i weled rhwysc a rhialti chwareuon neu chwarwyddfeydd, neu i wneuthur yn llawen gidâ ei garedigion; Yr hyn ni wna un dyn yr wyf yn meddwl, A c a fwynhafi yn unig ym mysg y dynion oll esmwythdra a difyrrwch trwy ragorfraint yl ysol heb gael o ofid a thristwch bwys yn y byd? yn ddiammeu, ni wnaf. Y mae yn angenrhaid i mi, o'm bodd, neu o'm hanfodd orwedd i lawr ar fy nghlaf wely ryw amser neu ei gilydd, oni cbymmerir fi ymmaith trwy farwolaeth ddifwmmwth, yr hyn na atto Duw. (Da oedd y gwynt yma, meddyliau da oedd yr rhain.) Eithr pa wely a gafi nessa, pan fwrio marwolaeth fi

allan

allan o hwn? Rhaid i'm corphori bydru gan y ddaiar: Canys hyn yw cyflwr pob dyn ar ol marwolaeth. Eithr pa beth a ddaw o'm henaid i mewn byd arall? Diammeu yw, nad a pawb i'r un man ar ol marwolaeth. Onid ydyw rhai yn myned y naill ffordd, a'r lleill ffordd arall? Onid oes cyſtadl uſtern a nefoedd? Gwae; ac ochl Pa fath wely a gaiff y damnedig yn uſtern? Pa ſawl blwyddyn a gorweddant yno? Ym mha flwyddyn ar ol eu mynediad i mewn y gorphwyſa'r fflammau ac i difloddant? Yn ddiammeu nid mewn gair yn unig y mae Chriſt yn bygwth bwrw'r drygionus i dân tragywyddol, eithr hefyd eu bwrw hwynt y wna ſe yn ſecr. Yr hyn beth gwir yw ac amlwg jawn. Am hynny yr damnedig yn uſtern a dyſg yn dragywyddol. Gan hynny nid yw mil, a mil, a thrachefn, meddaf, mil o flynyddoedd yn ddigon i olchi ymmaith bechodau y bywyd byr hwn. Am hynny ni chant weled yr haul byth ond hynny, na'r nefoedd na Duw, gan eu bod yn dragywyddol o'r cwbl yn *Dragywyddol* ac yn ddi-ddiwedd. A chidâ'r cyfryw

ſeddyliau ar rhain daeth i'r dyn hwn ſod mor ofalus a gwiliadwrus ac y bu ddo fyned rhagddo cyn belled, ſel na fedrei na nos na dydd gael eſmwythdra, na byddei *Dragywyddoldeb* yn rhedeg yn ei feddwl ef yn waſtadol. Yn ſicr ſe fyddei yn chwennych yſgwyd ymmaith y meddyliau o hyn yma, megis y byddir y pryfed a yſſa, eithr nis gallei. *Am* hynny efe a ddilynodd ddigrifweh a difyrrwch, efe aeth i bob mgyfarfod llawen, efe a dynnodd allan gymdeithion tebyg iddo ei hun; *Ac* efe y eiſtoddai yn ſynych o weithiau yn ghyd a'i gwppaneidiau cyhyd, neſ rhoddi o honaw or diwedd ei gydwybod i gyſgu, ac yr oedd ef debygai yn eael pethe ſmwythdra felly. Eithr pan ddaeth ef drachefn atto ei hun, ei gydwybod a ddeſtrodd ac achwynodd arno yn y man, ac a ddygodd ar gof iddo o newydd feddyliau trymion am *Dragywyddoldeb*. Nid oedd ef yn eael dim eſmwythdra fel hyn, yntef a gymmerodd yn ei feddwl lawnfryd o'r diwedd i wellhau ei foeſau, ac i ymroddi i ſuchedd o dreſn well. *Ac* efe a

ddechreuodd

ddechreuodd ymresymmu ag ef ei hun fel hyn, yn ddyn truan fel yr wyfi, pa beth yr ydwyf yn ei wneuthur yma; mwynhau yr wyf y byd felly, megis nid yn ei fwynhau ef mewn gwirionedd; yr ydwyf yn dioddef llawer o bethau nismynnwn; diffyg llawer o bethau sydd arnaf y chwenychwn eu cael, yr wyf yn gwasanaethu megis caeth-was; eithr pwy a dal i mi fy nghyflog? Yr ydwyf yn gweled yn hydda pa fodd y mae 'r byd yn gwobrwyo rheini a'i carant ef, ac heb wneuthur dim arall yn eu bywyd oll ond ei wasanaethu. Eithr bwrw fod gennif fwyniant yr holl dd grifwch a'r difyrrwch sydd yn y byd a fedrei fy nghalon eu dymuno: pa siccrwydd a allwn i gael pa hyd a parhant? Nid wyf yn siccr pa 'r un a wnafi a'i byw tan y fotu, a'i peidio? Y mae c addedigaethau beunyddiol yn profi hyn yma yn hydda: Oh, *Tragywyddoldeb* er na byddit! Oh, *Tragywyddoldeb* er na byddei dy le yn y nefoedd, ped fae mai ar wely efmwyth o fanblu y byddei: nid ellit ti fod ond yn flindost ac yn anhyfryd. Gwir yw yn siccr marpeth

anhawdd

anhawdd i ni yw dynnu ein hunain ymmaith oddi wrth y perthau hynny yr arferwyd ni ynddynt, pa 'r run bynnag fyddent a'i gwledda a'i cyfeddach, a'i cadw cymdeithas a'r cyfeillib: Eithr tra byddom ni yn oedi ac yn gohirio yr amser, dichon marwolaeth ein rhagflaenu, a chymmeryd yrhain oll oddi wrthym. Pa ham gan hynny yr wyt ti yn oedi? Pa ham na ofodi di arnad dy hun ddinam a dedwydd angenrhaid? Pa ham nad wyt ti yn cymmeryd llawnfryd yn ddioed felly ynot ty hun? Wele, mi a fyddaf yn amgen gwr nag y fum os rhynga bodd i Dduw i mi fyw. Ni bydd i'r bywyd hwn hir barhau: Eithr y *Tragywyddoldeb* a barhaâ yn dragywyddol. Rhaid i mi rodio mewn ffordd newydd bellach, ni a gymmerais lawnfryd ar 'hynny, ac yn awr mi a ddechreuaf. Yn mha le yr wyt ti y *Tragywyddoldeb* bendigedig? yr ydwyf yn ymofyn am danat, yr wyf yn teithio tu ag attat.

I ddibennu, efe a wnaeth megis y dywedodd, fe a gymmerodd ei gennad gan y byd, fe newidiodd drefn ei fuchedd, ac felly fe fucheddodd, ac a fu farw yn wr oneſt duwiol.

Oht

Oh! *Tragywyddoldeb*, mor anaml yw yr rheini ſydd yn myfyrio arnat mor ddifrifol a hyn. Yn ddiammeu y chydig iawn ynt; neb agos ac ſydd yn yſtyrio ac yn ambwyllo yn dda â nhwy eu hunain, pa beth ydwyt: *Ac* ſydd yn aros, ac yn parhau felly yn yr yſtyriaeth hon. Ni a ymofynnwn am bethau eraill yn ddifrifol, *Tragywyddoldeb* yn unig ſydd yn ymddangos i ni yn wael, ac heb dalu ymofyn am dano. Ein meddyliau ynt yn rhedeg ar ol cyfoeth, ac er hynny y meddiant o honynt yn ddigon anſicr: Nis gwyddom ni pa gynted y bydd uddynt hwy yn gadel ni, neu ni hwy. Yr ydym yn drachwannog i urddas: ac er hynny y mae ef yn llithrig, ac yn ymlithro ymmaith oddi wrthym yn fuan. Yr ydym mewn cariad a dyfyrrwch: ac mae yn ei ben diweddaf driſtwch a chwerwedd. Yr ydym yn chwennych eſmwythdra, eithr nid oes ynddo bara yn y byd: Ni a glymmwn gwlm cymdeithas ag eraill: Eithr y cyfryw yw ac y dichon marwolaeth ei ddattod ef yn fuan. Nid ydym ni un amſer wrth ein bodd, end pan ſo'm ni yn ym-

ymarwedd ymmyſg eraill: Eithr nid yw ein ymarweddiad ni yn y nefoedd un amſer, lle dylei fod. Yr ydym yn ymgais am amlder: Eithr yno, lle mae ef yn fuan yn paſiu. Ond pettem ni yn ſynychach, ac yn ddifrifach yn yſtyried ar *Dragywyddoldeb*, ni byddei gennym ni yn ddiammeu y cyfryw drachwant ar ol pethau mor ſyr eu para. Yr ydwyf yn galw St *Bernard* yn dyſt, ſydd yn dywedyd fel hyn. *Yr hwn ſydd yn hiraethu ar ol pethau Tragywyddol, ni ddichon ond ffieiddio pethau trangcedig.*

Rhai ſydd yn ſynych ganddynt yn eu ſafnau ni wn i pa *Dragywyddoldeb* ei ſut, ſawl a addawant, ac a addunant, ac a ffurfiant reſolufionau da o wellhad, gan ddywedyd fel hyn; mi a echelaf tra bwyfi byw, y cyfryw le, a'r cyfryw le, lle tentiwyd fi o'r blaen i bechod: Nid af byth yn agos at y cyfryw wr, neu 'r cyfryw wraig, neu 'r cyfryw un a fu fy nghydymmaith i mewn drwg, nid af byth tra bwyf byw yn agos atto. Nid af byth tra bwyf byw i'r cyfryw ar cyfryw ymgyfarfod, lle bydd glothined a meddwdod, dawnſio, cydorwedd,

ac

ac anlladrwydd, ar cyffelyb i'r rhai hyn. Y mae yn ddigon gennif fy mod unwaith, ac eilwaith yno, ac yſgatfyddyn fynychach; ddarfod i mi wneuthur fel y gwnaeth y cymdeithion, ddarfod i mi bechu gydâ 'r cyfryw a'r cyfryw. Y reſoluſionau hyn da ydynt: Yr ydwyf yn dy ganmol, ô ddyn, yn hyn yna; oblegid y mae yn rhaid arſwydo pechod, da yr ydwyt ti yn gwneuthur fwriadu gochelyd yr achlûſur i bechu: Mi a ddymunwn ped fait ti mor grefyddol yn dal ar yr hyn a addewaiſt, ac yr ydwyt ti yn barod i addaw. Eithr, och, ar ol diwrnod neu ddau, ie awr neu ddwy yn rhy anghofus o'th addewid, a'th reſoluſionau da, di a wnei yr unrhyw beth drachefn, ſef yr hyn yr oeddit ti gynne yn ei ddygn gaſſau, yn ei ſheiddio, ac yn rhoi ei ddiofryd. Gan hynny cyn i ti wneuthur addunedneu addewid i Dduw, y mae yn dda i ti arfer dyledus yſtyriaeth a rhagweliad: a phan wnelech di addunedneu addewid i Dduw, y mae yn angenrhaid i ti rhag llaw arferu gofal a glewder Chriſtianus yn y cyflawniad. Rhaid i ti na addawech ddim i Dduw yn fyrbwyll ac

mewn

mewn gwall gyngor: Eithr yr hyn a addewaist y mae yn rhaid iti ei gyflawni yn gref, ddol ac yn ddianwadal, a gwilied arno. Mor erwin y mae Duw yn cospi y cyf. yw a dorrant eu haddunedau a'i haddewidion, dysgasom yn hydda trwy braw gresynus ac esampl alaethus rhai eraill.

BEN. I.

Y bennod gyntaf yma sydd yn cynhwyso cymmhariaeth ll-fur dyn a phryf coppyn a'i gilydd.

Y Mae *Tragywyddoldeb* arall, a hwnnw yn waethaf o'r cwbl, yr hwn y mae 'r dynion hynny yn ei addaw iddynt eu hunain, y rhai synnant wneuthur heb amgen iddynt eu hunain nefoedd o'r nefoedd, a bod yn fendigedig cyn iddynt farw. *Am hynny gwrandewch air yr Arglwydd, ddynion gwatwarus,* medd y Prophwyd *Esay, Am i chwi ddywedyd gwnaethom ammod ag Angeu, ac ag uffern y gwnaethom gyngrair.* O chwi

Esa. 28 14, 15.

chwi ddynion ynfyd! Mor ofer, ac nid i'w henwi yn un, yw hwn yma eich *Tragywyddoldeb* chwi: Nid oes dim yn barhaus ac yn dragywyddol yn y carchar hwn. Y Prophwyd Brenhinol ſydd yn datgan hyn yma yn hyawdl iawn: *Treuliaſom ein blynyddoedd* (medd ef) *fel chwedl &c. Treuliaſom ein blynyddoedd yn ymſynnied, fel y gryſ-coppyn.* (Canys rhai a'i darllennant felly. Nid allei ſe ei ddatgan yn well nag mewn llai o eiriau. Canys pa beth yw ein holl flynyddoedd ni ond gwaſtadol ymſynnied a blin weithrediad? Trafferthion ofer, llawer o ofid, amryw ofn, Aml ddiwg-dyb, a thrallodau anciriſ y rhai a dreuliant ac a ddifrodant holl amſer ein bywyd ni yn llwyr: yn yr un modd ac y mae y pryſ-coppyn yn y gweuad o'i we yn treulio ei hunain. Y mae ein trafferthion ni ynghenglyn yn eu gilydd, y maill gwedi ei gadwyno yn y llall, ein uchenaidion a'n griſdſanau yn yn ddigyfrwng, rhai yn y dilynniad o'n budd a'n diſyrrwch, rhai yn y bwriad heibio o'r gochelïad a'r pethau hynny yr ydym yn

Pſal. 90. 9.

yn eu cyfrif yn ddrwg. Yr ydym yn gwneuthur llawer o bethau, yr ydym yn myned tan lawer o drafferthion trallodus a gofidus eu goddef: ac nid ydym ynghyfrwng hynny (ysywaeth! y cyfryw yw ein ffolineb!) yn deall nad ydym ond gweu gwe 'r pryfcoppyn, trwy gymmeryd llawer iawn a boen gydag ychydig lwyddiant, i amcan neu i ddiben yn y byd. *Treuliasom ein blynyddoedd ys ymsynnied fel y pryf-coppyn.* Poen fawr a gofal yw yr hyn a gymmer y pryfcoppyn yn gweu ei we, y mae fe yn rhedeg llawer ac yn fynych i fynu ac i wared, y mae yn cyrchu cwmpas ffordd yma a ffordd accw, a mynych y mae yn dychwelyd i'r unrhyw bennod, y mae yn treulio ei hunan yn lliaws o edafedd main ei nyddiad, i wneuthur iddo ei hun gaban ei wn: Y mae fe yn ei ddiberfeddu ei hunan, ac yn gweithio ei ymysgaroedd ei hun allan, i wneuthur darn o fanwl-waith celfydd, yr hwn pan ei gwneir, sydd yn addas i gael ei chwythu ymmaith gan bob chwyth gwynt; y

mae

mae fe yn ei grogi yn uchel, y mae yn ei siecrhau wrth nen y ty, y mae yn ei giyfhau a llawer o dafedd, gan chwyldroi yn fynych o amgylch heb arbed ei ymysgaroedd ei hun: Eithr eu treulio hwy yn ewyllysgar ar ei waith. A chwedi iddo wneuthur hyn oll, nyddu ei edafedd main, eu gweu hwynt yn eu gilydd, gweithio i ddo ei hun ynogor fyw, ei grogi ef i fynu, a thybied y cwbl yn ddiogel: Yn ddiattreg mewn troad llygad, gidag ysgubiad ysgafn ysgub, y cwbl y fyith i'r ddaear, ac felly derfydd am ei lafur. Eithr nid hyn mo'r cwbl: Y pryfcoppyn truan! y mae naill a'i yn cael ei ladd yn ei we ei hun, neu onid yw hynny, y mae yn cael ei ddal yn ei fagl ei hun, ei lusgo i farwolaeth, a'i fathru tan draed. Felly fe ellir dywedyd am y milyn truan, ddarfod iddo naill a'i gweu iddo ei hun amdo, neu iddo wneuthur magl i'w grogi ei hun. Felly yn union y mae llawer o ddynion, yn treulio ac yn difrodi eu hunain fel y pryfcoppyn er mwyn ynnill goruchafiaeth, mwynhau dyfyrwch, cafgu cyfoeth, eu cadw, au chwantegu hwy. Y maent yn treulio eu holl

fynwyr

ſynwyr yn y cyſtrywio rag-fwriadau, ac yn ſynych iechyd eu cyrph yn rhedegfain i tynu ac i wared, yn llafurio ac yn chwyſu, mewn cur a gofal, yn blino eu hunain, ac yn gwanhau eu cyrphs; fel yr oedd y pryſcoppyn yn gwneuthur trwy nyddu ei ymyſgaroedd ei hun allan. A chwedi iddynt wneuthur hyn yma oll, ni wnaethont ond gweu gwe 'r pryſcoppyn i ddal gwybed. Je, yr ydys yn ſynych yn eu dal hwy eu hunain yn eu rhwydau eu hun; y maent yn offerau o ddrwg iddynt eu hunain. Y dyddiau o lawenydd y rhai y maent yn eu haddaw iddynt eu hunain, ynt yn prifio yn ſynych yn ddyddiau o alar: Yr hyn y maent hwy yn eu alw eu pallas a biſia yn lle i'w cladду. *Felly treuliaſom ein blynyddoedd yn ymſyniad fel y pryſcoppyn*; meddaf, *yn ymſyniad*, y rhan ſynychaf. Canys ni a amcanwn wneuthur llawer o bethau, ac ni wnawn ni monynt. Yr hyn yr ydym yn ei wneuthur, gwell fyddei y rhan ſynychaf i fod heb ei wneuthur. Y pethau hynny y rhai yr ydym yn eu herlyn a'r fath awydd, a ſfoant y rhan ſynychaf oddi wrthym: A'r pethau hynny yr ydym yn ymryſſon

ryſſon am danynt a'r cyfryw ddifri-
ſwch, odid o amſer i ni cael hwy.
Eithr bwrw ddaifod i ni eu cael, och!
nid oes iddynt hir bara yn y byd.
Eſay 28.18. *Felly diddymmir eich Ammod ag Angeu, a'ch cyngrair ag uffern ni ſaif.*
Yr ydym ni oll yn treulio ymmaith
a'g yn niarw: A hyn ſydd waeth
na r cwbl, yr ydym yn rhedeg a'n
llygaid yn gaead yn wyſg ein
pennau i uffern, lle nad oes o'r ana-
nn hwnnw un modd i ddychwe-
lyd.

Gueiricus yn clywed yn nhy
Dduw ddarllain y geiriau hyn allan o
Gen. 5. 5. Lyfr *Geneſis, A holl ddyddiau Adda y*
rhai y bu efe byw. oedd naw can mlyn-
edd, a degmlynedd ar hugain: Ac efe a fu
8 *farw. A holl ddyddiau Seth oedd dau-*
ddengmlynedd, a naw can mlynedd;
11 *Ac efe a fu farw. A holl ddyddiau Enos*
oedd bum mlynedd a naw can mlyn-
27 *nedd: Ac efe a fu farw. A holl dy-*
ddiau Methuſalah oedd naw mlynedd
a thrugain a naw can mlynedd: Ac
efe a fu farw &c. Yn clywed, med-
daf, ddarllain y geiriau hyn, gwir ſed-
dwl a gymmerodd am farwolaeth, yr
hwn a weithiodd mor gryf gydag ef,

ſel

hwn a weithiodd mor gryf gyd ag ef, fel y gwnaeth ef y cyfryw ymwaſg [illegible]n yn ei feddwl, ac a barodd iddo [illegible]cilio oddiwrth y byd, ac ymroddi ei hunan yn gwbl i ddwywolder, megis y byddei iddo felly farw marwolaeth y duwiol, a dyfod yn ddiogelach i borth-ladd gwynfyd *Tragywyddol*, yr hwn nid yw i'w gael yn unlle yn y byd hwn.

BEN. II.

Yr ail bennod yma ſydd yn hyſpyſil pa un yw 'r qweſtiwn goreu yn y byd.

YMae St *Matthew* yn datgan i ni am wr ieuangc a ddaeth at ein Jachawdwr, ac a roddodd y qweſtiwn hwn ger ei fron ef. Ac y mae St *Marc* yn portreiadu y ſut o'i ddyfodiad ef at ein Jachawdwr, a'i ymddygiad da. Ganys, medd ef *Rhe-dodd un atto a goſtyngodd iddo, ac a ofynnodd iddo, Athro da, pa beth a wnâf fel yr etiſeddwyf ſywyd Tragywyddol.* Ac atteb ein Jachawdwr

Matth. 19.16.

Marc. 10.17.

19 oedd, *Ti a wyddost y gorchymynnion,*
Matth. 19. 17. *Act.* 16. 12. 29 *ond os ewyllysi fyned i mewn i'r bywyd, cadw 'r gorchymynnion. Yn Philippi dinas o Macedonia cerwad y carchar a ruthrodd i mewn yn ddyciwynedig, ag a syrthiodd i lawr ger bron Paul a Silas,* ac a'i crybwyllodd hwy a'r qweſtiwn yma, *O feiſtred, beth fydd raid i mi ei wneuthur, fel y byddwyf gadwedig?* 30 Qweſtiwn da iawn oedd hwn yma; ac nid ellyd eu gry. bwyll ag un gwell a mwy buddiol. Eithr, ô Dduw daionus, ym mha le yn y byd y mae 'r qweſtiwn hwn yr awrhon? Y mae 'r byd yn llawn o gweſtiwnau eraill: Eithr nid oes mo hwn agos yn unlle i'w glywed. Y mae y rhan fwyaf o ddynion yn y dyddiau hyn yn bradychu eu hunain trwy eu qweſtiwnau eu hûn, trwy ddyfod a hwyne i oleuni: ac felly yn gweneuthur eraill yn dyſtion o'i lled-wiriondeb, neu o'i manwlrwydd, neu o ryw glwyf meddwl cuddiedig o'r cyffelyb. Yr hwn ſydd yn chwilio yn fanwl, ac yn ymofyn ym mha le y mae 'r gwîn goreu i'w gael ar werth, ſydd yn dangos yn hyſpys pa beth y mae ei garu fwyaf, ac ym mha beth y mae ei ofal pennaf.

Un

ûn arall a ofyn y cyfryw gweſtiwnau, ac y bareu i ledneiſ ddyn wrido eu dywed: A dangos y mae 'r dyn hwn fôd ei galon yn llawn, ac mai allan o'i helaethrwydd hi y mae 'r genau yn lleſaru. Safnau pawb ymmhob man ynt yn llawn o'r cyfryw gweſtiwnau ar rhain: Eithr yn anaml iawn y clywir y naill yn gofyn i'r llall y gweſtiwn hwn. Ydych chwi yn tybied mai hon yw'r ffordd i'r nefoedd? Bai cyffredinol ar bob dyn pechadurus yw hyn, Eithr yn fwy priodol a'r hwn a ddilyno ei wyn gnawdol, ar trachwannog; ac ar yr wtreſwr a'r rhyſeddwr, er ei daro tan ddwfr yn y dyſnder, ac yn dechreu ſuddo, a'i droi din dros ben, er hynny yn anaml neu yn un amſer y daw arno ef yſtyrio yn ddifrifol rhyngddo ag ef ei hun; ac a chalon bûr gofyn iddo ei hun y gweſtiwn hwn; a fydd i mi dybied y gallaſi fyth gael trwy 'r dreſn yma ar ſuchedd wynfyd *Dragywyddol?* Ai dymma 'r ffordd i'r nefoedd? Eithr yn yſtyſol y rheini a feddyliant leiaſ o'r holl ddynion am y cyfryw gweſtiwnau a rhain, y rhein, meddaf, y rhai ſydd yn byw yn fwythus, yn ymborthi ar ddanteith-

fwyd; ac yn ymdreiglo mewn difyrrwch; yrhai nis gwyddant ond oddiwrth ychydig, neu oddiwrth ddim tristwch a blinfyd, neu os ar ryw amser y gwybuont oddiwrth beth cyn lleied ag allei fyth fôd, hwy a ymegniant eu goreu i fod o honaw yn ddisynniol. Y maent yn cyfri dioddefgarwch yn fwyaf o'r holl ddrygau. Ni ofalant os hwy fyddant wrth eu bodd, pa fodd y mae eraill yn byw. Ni chymmerant ddim gofal, os byddant wrth eu bodd tros yr amser presennol, am yr hyn a ddaw gwedi. Nid ydynt yn meddwl unwaith un amser am *Dragywyddoldeb*. Dymma eu cerdd beunyddiol hwy. *Eiddo'r Arglwydd y nefoedd, eithr yddaiar a roddodd ef i feibion dynion.* Nid oes arnynt eisiau na grym corph na meddwl, i ddiangc trwy hynny rhag dwylo dynion. Eithr gan Dduw y mae dwylo hirion, efe a'i cyrraedd hwy yn ddiammeu, rhaid iddynt ddyfod o'i flaen ef, yr hwn yw barnwr yr holl fyd, gochelyd eu farnedigaeth ef nis gallant; dioddefant yn ddiammeu boenau *Tragywyddol* am eu drygioni a'i cammweddau. Eithr os Duw yn ei fam gyfrinachol a fwrw neb ryw un ymmaith

maith mal yn wrthodedig, ac y ddio-ddefa iddo dreulio ei oes yn ol ei drachwant a'i dd.fyrrwch ei hun, rhoddi iddo y mae ei gvfran o hawddfyd a gwynfyd yn y byd hwn, ei arbed ef yma y mae, fel y gallo ei gospi yn ol hyn. Ac os efe a wna ar ryw amser un rhyw beth a fo da, y mae yn derbyn ei wobrwy yn ddioed. Y Prophwyd brenhinol sydd yn dywedyd fel hyn, am y cyfryw wyr dedwydd annedwyddol. *Nid ydynt mewn blinder fel dynion eraill: Ac ni ddia-leddir arnynt hwy gyd â dynion eraill.* Psal. 73.5. *Putteiniasant gyd a'r dychymmygion.* Psal. 106 39 A hwn sydd, od oes yr un, yn-fywyd o dragresynus gyflwr ac ystâd. Canys yr hwn a ragluniodd Duw i'w ddwyn i lwybr dedwyddwch *Tragywyddol*, hwnnw yma ni arbeda ef yn hyn o fywyd: Eithr efe a'i ftlangella beunydd. Gallwn ddyfod ag aneirif o esamplau i brofi hyn, ond ni ddygaf ond un, eithr yr ydwyf yn meddwl, na welwyd ac na chlybuwyd ei gyffelyb, mewn llawer o oesau.

BEN. III.

Y drydydd bennod ymaſydd yn dangos ſel y mae Duw yn coſpi yma, mal y dichon ef arbed yn ôl hyn: Eſampl ryfedd o hynny ſydd yn canlyn, ni chlybuwyd un amſer agos ſôn am ei chyffelyb.

YN y flwyddyn o oedran ein Hargl-wydd un mil un cant pedwar u-gain a phump, *Andronicus* Ymmerawdr y Dwyrain gwedi i *Iſaac Angelo* ei orchfygu, a'i ddal yn garchar-or, rhoed am ei wddwf ddwy o gad-wyni trymmlon o haiarn, llwythed ef a gefynnau ac a hualau, a thrin-wyd ef yn greulon ac yn ddibris: Ac or diwedd yn yr agwedd hon fe a ddygwyd o flaen y rhag-ddywedig *Iſaac*. Yn achwyn o flaen hwn ga-letted y trineſyd ef, traddodwyd ef i'r fyddin i'w ddirmygu fel a ſynnent. Hwy gwedi eu henyn nu gan ddigo-faint, a dybiaſant hyn yn beth gwych gael ymddial ar eu gelyn: ac hwy a'i trinaſant ef fel hyn. Cernodiaſant ef, ffonnodiaſant ef, lluſgaſant ef ger fydd ei fan, plicciaſant wallt ei ben, tor-

torraſant ei ddannedd, lluſgaſant ef ar gyhoedd, cymmeraſant ef yn wawd, cynnwyſſaſant i wragedd i gu-ro a'i dyrnau Yno torraſant ymmaith ei law ddehau, ac fel hyn yn anafus, hwy a'i gwthiaſant ef i garchardy lladron ac yſpeilwyr, heb na bwyd na diod, na dim arall a fyddei yn angenrhaid, na neb i edrych am dano. Ym mhen ychydig ddyddiau ar ol hynny hwy a dynnaſant allan un o'i lygaid: Gwedi iddynt yn gywilyddus ei ddifynnio fel hyn, yn unllygeidiog, ac yn un-llawiog, rhoeſant am dano hugan ferr ſalw iawn, eilliaſant ei ben, goſodaſant ef ar Gamel crachlyd a'i wyneb tua 'r gynffon, rhoddaſant ar ei ben Goron o arlleg, gwnaethant iddo ddal yn ei law yn lle teirnwialen gynffon y Camel; ac felly dygaſant ef yn araf deg gyd â mawr rwyſg a gorfoledd trwy 'r farchnadle. Ac yno y rhai digywilyddiaf, divſtyraf a gwaelaf ymyſg y bobl a ruthraſant arno yn anhirion fel milod gwllton, heb yſtyried dim un amſer mai nad oedd nwch law tri diwrnod gwedi myned heibio er pan nad oedd ef ddim llai nag Ymmerawdr, gwedi ei goroni

a choronbleth deirnaidd, yn hyglod, yn anrhydeddus, ie, a phawb yn ymstwng iddo: Nid oeddynt yn prisio eu llw o ufudd-dod i'w Tywysog, gollwng eu cynddeiriogrwydd a'i cyndaredd arno yr oeddynt, a'i cynddeiriogrwydd a'i cynddaredd a gymmhwysau bob un o honynt ag ofterau tu chinebi'w erbyn. Trawodd rhai ef ar ei ben a chlwppaiod, rhai a lanwasant ei ffroenau â dom, eraill â chwistrellau yn chwistrellu yn ei wyneb sugn tom dynion ac anifeiliaid; eraill yn gwanu ei ystlysau â berau: Rhai yn ei daflu â cherrig; eraill yn taflu dom arno: Rhai yn ei alw cî cynddeiriog, eraill yn ei alw hurtyn a phenbwl. Gwraig ddigywilydd yn rhedeg allan o gegin, a phadelled o ddwfr berwedig rhwng ei dwylaw a'i tywallt odd am ei ben, ac ef yn myned heibio. Nid oedd nêb na wnaeth ryw ddrwg neu ci gilydd iddo. O'r diwedd hwy a'i dygasant i'r Theatr (sef y chwareudy) i'w gymmeryd yn wawd, tynnasant ef i lawr oddi ar y Camel, a chrogasant ef gerfydd ei draed rhwng dwy Golofn. Gwedi i'r Ymmerawdr truan ddioddef fel hyn lawer

wer o arteithiau, er bynny fe a'i diod. defodd yn ymmneddus, gan ymddwyn fel gwr ac ymdrechwr gwir Gristianus. Ni chlybuwyd monaw rhyd yr holl amser unwaith yn cwynfan, nac yn gweiddi o herwydd ei ddamwain galed: Canys ni buasei hynny iddo i berwyl yn y byd. Bwrw ei gyfrif yr oedd rhyd yr amser, yr hyn oedd iddo i'w wneuthur i Dduw, a chreu am faddeuant o'i bechodau. Ni chlybuwyd monaw yn dywedyd dim, ond hyn yma yn unig, a hyn yma yr oedd yn ei ddywedyd yn fynych, *Domine miserere, Domine miserere*, Arglwydd trugarha, Arglwydd trugarha.

Andronicus annedwydd yr hwn a orfu i't ddioddef y cyfryw bethau! Eithr yn hyn yma yn ddedwydd, ddarfod i't eu dioddef mor ymmyneddus, megis yn iawn wobrwy am bechod. Pan grogid ef i fynu fe (debygei un) ddarfod eu malais: Eithr ni ddarfu iddynt moi arbed tra bu ef byw: Canys rhwygasant ei hugan oddi am ei gorph: Ac a'i taflasant ef a'i dwylo draw ac yma, gan ei rwygo yn dippynnau a'i ewinedd: Un oedd greulonach na'r lleill a'i gwanodd

ynghreg a'i gleddyf trwy ei ſol a'i berfeddd. Dau eraill i broſi pa'r un oi cleddyfau oedd flaen llymmaf, a'i brathaſant trwy ei gefn, gan wthio eu cleddyfau â'i dwylaw. Yno yr Ymmerawdr annedwydd tragreſynus a gododd i fynu trwy fawr boen ei law ana lus at ei ſafn (degygei un) i fugno allan y gwaed o'r briw gwaedlyd newydd friwo, ac felly yn reſynus dibennodd ei fywyd. Ac ar ol ychydig ddyddiau ſe ai cymmerwyd i lawr oddiwrth y crogpren, ac a'i taflwyd ſel anifail tan un o fwau maen y Theatr (ſef y chwareu dy) nis darfod i ryw rai oedd a mwy hynawſeddynddynt na'r lleill, ei ſymmud: Etto er hynny i gyd ni chymmwyllaſant iddo gael ei gladdu. O *Andronicus*! O Ymmerawdr y Dwyrain! mor fawr yr oeddit yn rhwymedig i Ddnw, ewyllys yr hwn oedd a byddei i'r ddioddef y cyfryw bethau tros ychydig ddyddiau, mal na ddarfyddei am danat yn dragywyddol: Buoſt i'th reſynu tros amſer bychan fel na byddit i'th reſymu tros *Dragywyddoldeb* oll. Nid wyf yn ammeu nad oedd blynyddoedd *Tragywyddoldeb* yn dy feddwl, gan ddioddef o honot y cyfryw bethau

bethau mor ddianwadal ac mor galonnog.

Nicetas Coniales yw fy Athro, gan yr hwn y benthygiais yr hiſtori alaethus hon, ac yr oedd ef yn byw ynghylch yr un amſer a'r pryd y digwyddodd hyn yma.

Bydded i ni y Chriſtionogion gadw yn ein cof bob amſer flynyddoedd *Tragywyddoldeb.* Felly pa adfydwch bynnag neu gyſtuddiau a ddigwyddei, fe fyddei yn hawſach i ni eu dioddef. Byr yw pob peth os cymmharwn ef â *Thragywyddoldeb. Canys ein byr yſgafn guſtudd ni, ſydd yn odidog ragorol yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni.* Llefain a gweddio yn ddifrifol wrth hyn mae St *Auguſtin. Domine hic ure, hic ſeca, modo in æternum parcas,* Arglwyddlloſg ſiyma, *haccia fi yma drwy i ti fy arbed i yn ol hyn. Fulgentius* er ei fod yn wr duwiol jawn, yn neſau at ei farwolaeth y glybuwyd ddengniwrnod a thrugain cyn iddo farw, yn llefain yn ſynych; *Domine, da mihi modo patientiam, & poſtea indulgentiam, O Arglwydd, Caniatta i mi yma ymmynedd yn fy nghyſtudd, ac oſmwythdra yn ol hyn.* Y rhai hyn oedd ei eiriau a'i weddiau

2 Cor. 4.17.

au ef,tra bu ei anadl ynddo. Diam-meu yw,mai lleiaf o'r cwbl yr arbed Duw hwy, y rhai y bennodd ef i'w cymmeryd arto ei hun i breſſwylio gyd ag ef trwy hyd *Tragywyddoldeb* oll.

Y chweched Ystyriaeth.

AR

Dragywyddoldeb.

Sydd yn hyspysu i ni fel y mae 'r ysgrythur sanctaidd yn ein dysgu ni mewn llawer o fannau i fyfyrio ar Dragywyddoldeb.

YProphwyd brenhinol yn son am y drygionus, sydd yn dywedyd *y rhodiant o amgylch*, neu *mewn Amgyrch*. Dymma sut eu buchedd: Myned y maent o wledd i wledd; o ddigrifwch i ddigrifwch, o ddrygioni, i ddrygioni, Dyna eu *hamgyrch*. A phan dybiant ddarfod iddynt agor orphen eu *hamgyrch* o ddrygioni, a phan elont tros y rhod o'i trachwant: dechreu *Psal.* 12. 8.

dechreu y maent drachefn, gan ddychwelyd yn wastadol i'w trefn cyntaf, nis dysod o farwolaeth yn lladradedd arnynt yn annisgwyl.

Plant *Job* yn eu mysg eu hunain wnaent y gyfraith hon, i wledda eu gilydd o amgylch bob un yn ei drefn. Y gwr da eu Tad a ddaliodd ar hynny, ac a wybu yn ddigon da, nad allei eu gwledda yma hwy o amgylch fod heb bechod: Ac am hynny *Ese a ansonei, ac a'i sancteiddiei hwynt, ac a gyfode 'n foreu, ac a offrymmei boeth offrymmau yn ol eu rhifedi hwynt oll.* Gan hynny megis ac y mae y rhai drygionus yn ymhyfrydu ac yn ymlawenychu yn cerdded yr amgyrch o i difyrrwch: Felly Duw a appwyntia iddynt amgyrch i'w cherdded; Eithr rhaid iddi fod yn amgyrch o boenau, a hynny yn gyfan ddigyfwng ac yn *Dragywyddol. Dafydd* fendigedig a ragwelodd hyn yn yr un modd: canys, medd ef, *Dy saethau a gerddasant: Twrf dy daran a glywyd o amgylch.* Newyn, Rhyfel, Haint, Tristwch, clefydau, dinistr, marwolaeth hitheu, pob adfydwch, a pha beth bynnag a ddigwyddo o flaen y farwolaeth gyntaf, saethau

Iob. 1. 5

Psal. 77. 17. 18.

yr

yr Arglwydd ydynt; Eithr y maent yn ehedeg trosodd: adenydd ſydd iddynt, a hwy a hedant o'r naill i'r llall yn ddiattreg. Eithr twrf ei daran, twrf ei ddigofaint a'i gynddaredd a rua yn waſtadol yngharchardy uffern, ac yn debyg i droell ni threulia, y drudd tros *Dragywyddoldeb* oll. Y droell hon a lanwyd fel ped fai â phowdr gwnn, pan ddarfyddo iddi unwaith gymmeryd tân, llyſg byth ac yn dragywyddol. *Tân a gynneuwyd yn fy nig, ac a lyſg hyd uffern iſod.* Y mae *Amgyrch* arall hefyd, a honno yn yr un modd yn *Dragywyddol:* O oerfel annraethadwy, i wres annioddefadwy, o wres drachefn yn ol i oerfel. *Sychdwr a gwres ſydd yn cipio dyfroedd eira,* (dyna fel y mae *Job* yn dywedyd) ac *felly y bedd y rhai a bechaſant.* Y mae St *Matthew* yn eglurach yn arwyddocau hynny trwy y *rhingcian gan ddanedd, a'r wylofain* gan lygaid. Ac megis y gallom ni oſod allan yn gyflawnach y droell aruthr hon (nid ellir ei amgyffred) trefn a fyn gennem ddangos pa fodd y mae'r Eglwys yn cyttuno yn hyn yma a'r yſcrythur ſanctaidd: Ac fel y mae'r Tadau ſanctaidd yn cyttuno a'r

Deut. 32.24.

Iob. 24 19.

Matth. 22.13.

a'r Eglwys, Y mae gennem ni amryw gynghorion da oddiwrth y rhain yma oll: os clust ymwrandawn a hwynt, nid allwn ni adel yn rhwydd i *Dragywyddoldeb* ddiangc allan o'n côf.

BEN. I.

Y bennod gyntaf yma ſydd yn cynhwyſo Attebion y Tadau ſanctaidd a'r Eglwys ynghylch hyn yma.

O'R holl Dadau ſanctaidd a fucheddaſant mewn anrydedd oeſau; ni a wnaen yn dda gluſt-ynnwrando a phump yn yſpyſol, *Auguſtin, Chryſoſtom, Gregori, Bernard, Laurentius, Juſtinianus.*

Y qweſtiwn cyntaf yn y fan yma (er y dichon ef ymddangos yn un ofer ynfyd) yw, Pa'r un hawſaf a mwya goddefadwy yw, dioddef dolur o ben neu o lygaid, y ddannoedd, clefyd y maen toſtedd, cnoſa'r colic gwynt, neu gnoſa yn y glas goludd, neu ryw ddolur certh arall; neu fod heb gyſgu na nos na dydd, eithr yn poeni

ni yn waſtadol tros dri diwrnod tunty yn ddigyfrwng: Y qweſtiwn, meddaf, yr awrhon ydyw, pa 'r un hawſaf, a'i dioddef y doluriau a ſonniwyd am danynt yr awrhon, neu ynteu bwytta darn o byſgodyn a chwerwaſei trwy dorriad ei fuſtl: Gallei 'r qweſtiwn hwn ymddangos yn wir yſgafala i'w watwar. Canys pa faint melyſach yn hyttrach ydyw, bwytta 'r cyfryw byſgodyn i gyd,na dioddef poenau mor ofidus ar rhain, petre ond tros un diwrnod! Ni pherygla buſtledd y pyſgodyn fywyd gwr, na'i wneuthur yn glaf, eithr yn unig gadel a wna archwaith chwerw yn ei ſafn, yr hwn ni byddei flaſus ganddo. Fe attebed iddo yn uniawn. Ac er hynny pa fawl mil o ddynion a ddewiſaſant yn hyttrach y rhai cyntaf! Canys mor fynych y mae 'r pregethwr yn athrawiaethu ac yn cynghori, yn llefain ac yn llefaru yn eglur: Frodyr Chriſtianus, yſtyriwch yn dda ynoch eich hunain, ac edrychwch o'ch amgylch, y mae *Tragywyddol* iechydwriaeth eich eneidiau chwi mewn qweſtiwn; os rhodiwch y ffordd hon, rhaid i chwi yn ddiammeu ddiſgwyl poenau *Tragywyddol*:

wyddol: fe ddangosodd Christ i chwi ffordd arall trwy ei fuchedd a'i athrawiaeth ar unwaith. Dychwelwch gan hynny ac ed farheweh, chwi a fuoch yn ddigon ei hyd yn myned ar ddidro. Chwi a ellwch os mynnwch gael y ddyfodfa i mewn i'r nefoedd; os chwi a gauir allan, eich bai chwi eich hunain ydyw: Ni bydd y rheini ynt ewyllysgar heb help Duw. Gwir yw yn siccr, fod peth chwerwedd yn yr arferiad o ddirweſt ac ymprydio, yn y cyfaddefiad o bechodau, yn naliad y corph yn isel, yngholodiad gwiliadwriath gaeth ar ein synhwyrau, yn naroſtyngiad un ei hûn, yn nrheuliad oes yn ddiwair ac yn sniattalus. Nid yw hon dasg hawdd: Eithr bydded yr hyn a fynno, fe ddei raid i ni ei dioddef. *Ond oedd raid i Grist ddioddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant?* Luc. 24, 26. Na ſydded i lafur byr bach ein dychrynu: Ni bydd ond tros ychydig flynyddoedd, neu, ysgatſydd, ni bydd ond tros ychydig ddyddiau i ni weithio a dioddef yn ddewrwych; eithr ein llawenydd a'n gorphywyſdra ni a fydd yn *Dragwyddol.* Efe ſydd yn gorchſygu 'r cwbl, pwy bynnag

nag a gaffo y gorfodaeth a'r fuddugoliaeth arno ei hûn, a anno ynddo ei hun, ac a wrthfao ei wynniau angeuddol drygionus: a hyn oll am Grift, am y nef, ac am y *Dragywyddoldeb* bendigedig. Chrift ar ol ei adgyfodiad a gafodd ei ddyfcyblion yn bwytta pyfgod gwedi eu rhoftio ar y marwor: I ddyfgu iddynt pa bethau mawr fyddei yn rhaid iddynt eu dioddef yn ol hynny, ac nad oedd iddynt feddwl am fuchedd fwythus efmwyth, eithr y caent eu llabyddio a meini, eu fflangellu, eu crocfhoëlio, blingo eu crwyn tros eu pennau, ac mai dyna 'r ffordd i'r adgyfodiad llawen, ac i'r rhangymmeriad a'r gyfeillach o *Dragywyddoldeb* gyda 'r bendigedig: A bod pob peth arall yn falw ac yn ddibris mewn cymmhariaeth i anfarwoldeb, ac i'r gwynfydedigrwydd, yr hwn ni welodd llygad erioed etto. Yr ydys yn crybwyll am y pethau hyn yn fynych, eithr nid oes fawr gyfrif o honynt. Y pyfgodyn hwn yn chwerw o ran torriad y buftl, hyn yma yw, gwrthwynebion bydol, a dioddefiadau 'r bywyd hwn, y rhai a ofodir o'n blaen ni yn fynych: Eithr y maent yn

treul.o

treulio yn wrthwynebus i'n cylla, nid allwn ni aros eu brofi. *Tragywyddoldeb* yw 'r peth yr ydym yn clywed son am dano yn fynych, yr ydym yn darllain am dano yn fynych, yr ydys yn ei bregethu i ni yn wastadol, ac yn ei ail adrodd yn fynych: Ond naill nid ydym yn c'ywed, neu nid ydym yn credu, neu ni waeth gennem pa 'r un, neu os gwaeth tros amser, y mae gofalon y byd yn ei droi allan o'n meddyliau yn y man, ac ni a'i claddwn mewn angof. Eithr drachefn, y mae 'r Gydwybod yn chwareu 'r Pregethwr yn fynych, ac yn atcofio i ni y gwersi iachus hynny, yn daer arnom, yn ein cyng hori i'r gwrthwyneb, yn ein hargyoeddi; eithr ni thyccia iddo. Ofer yw 'r cwbl. Canys mae llawer mor gyndyn ac mor bengaled, ac nas dichon y Pregethwr, na'i cydwybod eu hunain chwaith weithio arnynt. Eithr mae rhai mor ddigywilydd, ac yr ymwnant i wrthwynebu, gan atteb fel hyn: *Bydded i ni fód yma wrth ein bodd ein hunain, ac ni waeth gennem ni, nid ydym ni yn gwybod ac ni waeth gennem ni pa beth a ddaw yn ol hyn, chwareu yr ydym ni oll am fudd a di-*

fyrrwch

fyrrwch preſennol, ni ddychwela neb yn ol drachefn oddiwrth y meirw, ni wybuwyd erioed chwaith ddyfod o neb ryw ddyn drachefn yn ol o'r lan o uffern. Deuwch gan hynny, bwyttawn, yfwn, a byddwn lawen, meddiannwn ein dacoedd, a chymmerwn ein diſyrrwch. Dyna 'r gerdd ſydd gan y bydol ddynion: Eithr terfyned St *Auguſtin* y qweſtiwn hwn; *Melius eſt, Modica amaritudo in faucibus, quam Æternum tormentum in viſceribus.* *Gwell yw*, medd ef, *dioddef peth chwerwedd yn y genau, na phoenau tragywyddol yn yr ymyſgaroedd.* Gwell o lawer yw dioddef am ein camweddau yn y byd hwn, nac yn y byd a ddaw. Gwell o lawer ini yn waſtadol tros ddeng mlhynedd a thrugain tunty gael ein coſpi a'r dialeddau trymma yma ar y ddaiar, na dioddef poenau uffern tros un diwrnod, ie, tros un awr yn ol hyn. Eithr gwrandawn pa beth y mae un arall o'r Tadau yn ei ddywedyd.

St *Chryſoſtom* ſydd yn goſod yr ail qweſtiwn ger bron fel hyn; Bwrw y byddei i ddyn gael hyfryd freuddwyd melus un nos mewn can mlhynedd, a chwedi hyn iddo gael ei goſpi

goſpi am hynny gant o ſlynyddoedd, a feddyliau ſe ddeiſyfu y cyfryw freuddwyd? Ac etto medd yr Athro, megis y mae breuddwyd i gant o ſlynyddoedd, felly y mae y bywyd preſennol hwn, i'r hwn a ddaw, ie, yn hytrach llai yw o lawer: Ac megis y mae defnyn i'r môr mawr, felly y mae mil o ſlynyddoedd i *Dragywyddoldeb.* Ac, medd ef, mewn man arall, pa beth a gymmharir i *Dragywyddoldeb?* Pa beth yw mil o ſlynyddoedd mewn cymmhariaeth i'r oeſau aneirif ynt i ddyfod? Onid ydynt yn gyffelyb i ddefnyn lleiaf yſtwcc o'i cymmharu i ffynnon ddi, waelod? Na ddiſgwyl ddiwedd ar boenau or ol y bywyd yma, oddieithr i't edifarhau cyn i ti ymadel a'r bywyd hwn: Canys nid oes un amſer edifeirwch ar ol marwolaeth, ac ni wna wylo i't unrhyw les na daioni. Pe byddei yn uſtern i wr ringcian ei ddannedd a thoddi yn llwyr o'i dafod rhoſt, ni chae ef cymmaint ag un defnyn o ddwfr oer. Am hynny caniadha i wr fwynhau diſyrrwch hyd ei holl fywyd, pa beth yw hynny i'r oeſau aneirif ynt etto i ddyfod? Y mae 'r perthau oll ſydd yn y bywyd hwn,

hwn, da a drwg yn terfynu o'r diwedd; eithr y mae y poenau sydd ini i'w dioddef yn ol hyn yn ddiddiwedd. Gosod ynta dân ar y corph, ac ymadel a wna 'r enaid yn y man: Eithr ar ol yr adgyfodiad, pan fyddo i'r corph o hynny allan fod yn anfarwol, ac yn anllygradwy, llyig enaid y damnedig bob amser, ac nid yssa tân uffern ef. Hwy a adgyfodir drachefn, yn anllygradwy yn siccr: eithr pa fodd? Nid i dderbyn coron o ogoniant anllygradwy, ond i ddioddef poenau *Tragywyddol*. Eithr gwrandawn pa heth y mae un arall or Tadau yn ei ddywedyd.

Gwneuthur atteb y mae St *Gregori* i r qwestiwn cyffredinol yma; oni ladratta meddwdod, (medd ef) ar wr yn gynt yn y seler win, yn sefyll with y baril, nag yn y neuadd yn eisteddfa ar y bwrdd? Gorfoleddu y mae priodserch Christ yngeiriau *Salomon*, *Efe a'm dug i r gwindy*, (neu megis y darllain rhai ef, *efe a'm dug i'w seler win*) *a'i faner trosof ydoedd gariad*, neu, *efe a furiodd drosof faner ei gariad*. St *Gregori* yn ymddiddan ar yr hyn eiriau, sydd yn dywedyd fel hyn; Pa beth cymmhwys fach a gwell a ddealCan. 2. 4.

lwn

lwn wrth *y ſcler win*, na'r dirgel ddwys fyfyrdod ar *Dragywyddoldeb*? Canys mewn gwirionedd pwy bynnag ſydd yn yſtyrio yn ddifrifol ar *Dragywyddoldeb* rhyngddo ag ef ei hun, ac yn gadel i'r yſtyriaeth yma ddwfn-ſoddi i'w feddwl, a ddichon laweny-chu a gorfoleddu yn jawn gyd a'i briodferch, gan ddywedyd, *Efe a furiodd droſof fanerau ei gariad*: Canys efe a geidw well trefn yn ei gariad, gan garu ei hûn yn llai, Duw yn fwy, ac hyd yn oed ei elynnion hefyd er mwyn Duw. Eithr y mae natur yr yſtyriaeth ddwfn ddwys yma yn gyfryw, fel y mae yn gwneuthur dyn yn y man yn feddw. Ei wneu-thur ef yn feddw? Pa fodd? A meddwdod y deiſyfiadau goreu, y cy-fryw ac ai tywys ef i newydd-deb bu-chedd, a'i dwg ef i'w wlad nefol, ag a ddaw ag ef o'r diwedd i lawenydd *Tragywyddol*. Hyn a edliwiwd i'r Apoſtolion, eu bod yn feddwon gan win: Ac yr oeddynt hwy felly yn ſicr, eithr gan win o'r *Scler* hon y bu hynny. Y mae gan St *Gregori* lawer o yſtyriaethau rhagorol, ac y-madroddion ar *Dragywyddoldeb*: Ym myſg rhai eraill y mae hwn yma ganddo,

ganddo, yr hwn un byr iawn yw, ac un gwir, *Momentaneum quod delectat, Æternum quod cruciat, Trangcedig yw yr hyn fydd yn difyrru; eithr yr hyn fydd yn poeni Tragywyddol yw.* Yma i gallwn ni ddymuno gyda *Job*, *Oh nad ſcrifennid fy ngeiriau yn awr!* *Iob.* 19. *ó nad argyphid hwynt mewn llyfr!* 23, 24. *Nad ſcrifennid hwynt a phin o haiarn!* Y geiriau hyn, meddaf, *Trangcedig yw'r hyn fydd yn difyrru, eithr yr hyn fydd yn poeni Tragywyddol yw!* Y *llyfr* yn yr hwn y dylei hyn fod wedi ei argraphu, yw *calon* dyn; y *pin o haiarn* a'r hwn a dylyd ei yſcrifennu, yw difriſol *ſyfyrdod*; y *du yſgrifennu*, a'r hwn y dylyd ei lythyru, yw *gwaed Chriſt*. A'r geiriau hyn gwedi eu harphraphu a'i hyſcrifennu felly yn y ddwyfron, ynt i'w galw mewn coſ yn yſpyſol y pryd hyn, ac i'w hail adrodd yn fynych, pan ſo dif,rrwch yn gwenieithio, pan ſo trachwant yn annog, pan ſo trythyllwch yn gwahodd, pan wrthryfelo 'r cnawd, a phallu or yſpryd; pan ſo 'r achlyſur i bechu gwedi ei gynnyg, ac enbydrwydd o ſyrthio mewn pechod. Eithr gwrandawn pa beth y mae un arall o'r Tadau yn ei ddyweḋ,d.

Yn y pedwaredd lle y mae St *Bernard* yn dyfod: efe a ettyb i'r qweſtiwn hwn ſydd i'w roddi ger bron. Y mae y fath ragor rhwng dynion yn eu bucheddau, a bod eu ſynnied hwy am drallodau yr awrhon agos mor aml ar pennau.

Y mae rhai i'w cael a drallodwyd yn waſtadol cyn doſted, ai bod hwynt yn barod i ſyrthio i lawr tan y groes; fel ped fai hi yn rhy-drom iddynt i'w dwyn. Un ſydd yn orthrymmedig gan dlodi, y llall ſydd yn ofidus gan ddolur, y mae ar un arall fwy na baich ei gefn o ddyled cyfrinachol, y llall ſydd yn poeni gan ofalon, y mae un arall yn ofid-lawn ac yn aflonydd o herwydd cammau ac enllibs. Y mae pob dyn yn tybied mai 'r hyn y mae fe yr awrhon yn ei ddioddef yw 'r trallod mwyaf: a digwyddo y mae lawer amſer fod y cyfryw ac ynt wan galon ac anniodddefus yn rhedeg i ddyfroedd, ac yn pryſuro i'r cebyſt, gan feddwl trwy hynny gael diben o i holl drallod a'i trymfryd, pan nad yw y diben tebygus hwn iddynt, ond y dechreuad o'i trymſtyd, a'r cyfryw driſtwch ni ddiwedda byth. Eithr nid felly y mae

gyda

gyd a'r duwiol, a'r da: y maent hwy yn ſynnied y cwbl yn ddioddefgar; gan ddaroſtwng eu hunain ym mhob peth i ewyllys da Duw a'i arfaeth. Nid ydynt hwy nac yn deiſyfu marw yn fuan, nac etto chwaith byw yn hir. A'i ewyllys Duw ydyw iddynt farw? hwythau hefyd ynt fodlon. A fyn ef iddynt farw yn fuan? Bodlon ydynt i hynny hefyd? A fyn ef iddynt fyw yn hwy etto? Nid ynt yn erbyn hynny. Y peth a ewyllyſio Duw, a ewyllyſiant hwythau; yr hyn ni ewyllyſio Duw, ni ewyllyſiant hwythau chwaith. Heb law y ddau ryw hyn ar ddynion, y mae trydedd, a hwnnw yw y rhan fwyaf o ddynion, ſef, y rhai ynt yn deiſyfu byw yn hir: Ac nid oes ages un gwr cyn hyned a'e na obeithiei, ac na ddeiſyfei fyw etto flwyddyn arall. Ni chlywir y dynion hyn yn dywedyd un amſer, ddarfod iddynt fyw yn ddigon o hyd: Y mae 'r angeu gyd a hwy yn gwneuthur gormod brys, y mae fe yn dyfod yn rhy fuan attynt, ie, cyn ei amſer. Yma yn awr y gellir rhoddi 'r qweſtiwn ger bron, Pwy a fydd byw, neu pwy a fydd

fyw hwyaf. St *Bernard* yn ei ddwyfed bregeth ar bymtheg, ar y pedwar ugeinfed ar unfed Psalm ar ddeg, ar yr hyn eiriau, *Digonaf ef â hîr ddyddiau*, sydd yn torri allan i'r aruthredd yma, pa beth sydd cyhyd a'r hyn sydd yn *Dragywyddol?* Pa beth sydd cyhyd a'r hyn nid oes iddo ddiwedd? Y diwedd da yw y bywyd *Tragywyddol*, at yr hwn y mae i ni eu gyd gyfeirio, a diddiwedd yw 'r diwedd hwn. A chydâ hynny y mae se yn dywedyd ymmhellach, mai hwnnw mewn gwirionedd yw 'r gwir ddiwrnod yr hwn nid oes ar ei ôl un nos yn canlyn, lle mae gwirionedd *Tragywyddol*, a gwîr *Dragywyddoldeb*, ac am hynny gwir a *Thragywyddol* ddigonoldeb. Felly gan hynny se ellir terfynu y qweſtiwn ſel hyn, mai y rheini yn unig y fyddant fyw yn hîr, a alwyd yn wir ddiau felly, y ſawl bynnag ni chânt farw byth, eithr byw yn y nef yn waſtadol: a thrachefn, bydd y rheini yn marw o farwolaeth ddifrys (och o farwolaeth ry ddifrys) y ſawl bynnag a fydd yn marw bob amſer, eithr nid yn byw yn uffern un amſer: Canys byw yn unig a gânt yno i'w poeni yn waſtadol.

gwrandawn

gwrandawn un ettо ac yno dibennu.

Laurentius Juſtinianus a geiſſ ddeongli i ni y qweſtiwn olaf. Y mae, medd ef, yn y byd hwn lawer o bethau rhai ddarfu i natur eu arfaethu a'i priodoli felly i rywun man, mal nad ydynt hwy i'w cael mewn man arall, oddieithr eu cael o ran. O rai llyſſiau ſydd yn tyfu yngwlêdydd dieithr a gaed allan yn ddiweddar, yr hâd yn unig a gawn ni: O rai o'r creaduriaid byw eu crwyn yn unig a ddygir troſodd i ni. Yr awrhon y mae *Tragywyddoldeb* yn beth mor briodol i ſyd arall, mal nad yw ef i'w gael yn hwnw yn unig ei hâd ef a allwn ni eu gael yn y byd hwn. A pha beth yw hadau *Tragywyddoldeb?* Hyn ydynt, medd *Laurentius*, *I ddyn ei ddiyſtyru ei hûn*, *Dawn cariad perffaith*, *A'r blâs ar weithredoedd Chriſt*. *Diyſtyru eraill*, pren yw, yr hwn ſydd yn ymwaſgaru tros yr holl fyd, coed yr hwn tanwydd yw i dân uſſern. I ddyn ei *ddiſtyru* ei hun, hedyn bychan iawn yw, prin yn gydnabyddus

yn

yn y byd: Christ a'i dug gyd âg ef
i lawr o'r nefoedd, yr hwn *a ddybrisi-*
Philip. 2.7. *odd* ei hun gan gymmeryd arno ag-
wedd gwâs *a chan sôd yn usudd*, nid
yn unig i'r beudy, neu i'r preseb, ond
8 hefyd i fynydd *Calvari, hyd angeu, ie*
angeu 'r Groes; hyd y bedd, îe hefyd
9 hyd uffern. *O herwydd pa ham Duw*
a'i tra-dderchafodd yntef. Wele, yr
hedyn hwn a gynnyddodd ac ym-
wasgarodd ar led, ac a brisiodd yn u-
chaf o'r holl brennau, Yr un Athro
yn adrodd am *Gariad perffaith*, sydd
yn dywedyd fel hyn, y mesur o'n
gogoniant a'n *Tragywyddol* wobrwy,
a gaiff fod yn ol y mesur o'n *Cariad*
perffaith. Canys *y neb y maddeuer*
Luc. 7. 47. *ychydig iddo, a gar ychydig.* Pwy
bynnag nid oes ganddo ond ychydig
Gariad perffaith, nid yw yn cael ond
ychydig *râs*: Alle bo ychydig *râs*,
yno y bydd ychydig *ogoniant* hefyd.
Felly gan hynny gwir jawn yw, mai
pa mwyaf y ceri di Dduw, mai mwyaf
o wobrwyon *Tragywyddol* a ben-
tyrri di i fynu i ti dy hun. Yr holl
gyfraith *Cariad* yw, ond y mae yn
rhaid iddi fod yn bur, yn ddiwair ac
yn sanctaidd. fe ddarfu i mi a'r ail,
yr hwn yw *Cariad perffaith*, dy fod
yr wyf at y trydydd, yr hwn yw y

blás ar weithredoedd Christ. Dywediad doeth a chyffredinol yn ysgolion Araithyddiaeth ydyw, *a meddylir ſôd hwnnw yn myned rhagddo, yr hwn a ſedro ſynnied gwaith i'wllins yr Araithwr:* Ninnau a aliwn yn Ysgol cref, dd Christ dd wedyd cymmaint a hynny, *Ffe aeth rhagddo yn dda mewn creſydd a rhinweddau, yr hwn a fedro ſynnied gwaith Christ,* yr hwn ſydd yn hoffi blás athrawiaeth Christ a'i eſampl. Pwy bynnag nid yw yn gael agos ddim blás un amſer, dim ſynnied yngeiriau a gwaith Christ; Pwy bynnag nid yw yn ymgynhyrfu, yn ymſerchu, ac yn ymhyfrydu yn y pethau hynny ſydd yn perthynu i'r enaid a duwioldeb Christianus; i'r Neſoedd a gwynfydedigrwydd *Tragywyddol*, eithr ſydd yn cael yn y gwrthwyneb felyſtra lawer yn bwytta, yn yfed, yn rhodio, yn chwerthyn yn cellwair ac yn chwaeu: y dyn hwnnw a ddichon ddywedyd yn rhy wir gyd â digon o driſtwch, *O ſy Nirw leied ſydd genniſ o had Tragywyddoldeb!* Neu yn hyttrach *ni feddaſ yr un.* Canys pan ddeſcynnwyf imi fy hun, yr wyf yn gweled yn amlwg pa yſpryd ſydd o'm mewn,

ac i ba le y mae fy amcannion yn fy nwyn. I dreulio noſweithiau cyfan yn dawnſio, yn gwledda, yn gloddeſt, yn daryfed, yn chwareu diſſiau a chardiau, yn gwrando ynfyd ac ofer chwedlau, yn darllain llyfrau halogedig yn galw am ganiadau ſerchog, ac yn chwerthyn am ben cu pennau, yn chwarcu yr cydymmaith da, yn gwneuthur fel y gwnele'r cymdeithion; O nid oedd hynny yn fy anfoddhau i un amſer, hyfryd a llawn ddigrifwch oedd hynny gennif. Eithr i glywed ſôn am Griſt a'i fuchedd ef, i glywed ſôn am y gwyr ſanctaidd a fuchedda ſanct gynt, y rhai a ymroddaſant yn llwyr i wilio, i ympryd io, ac i weddio, neu i ddarllain ynghylch eu buchedd, nid yw hynny gerddwriaeth yn fy nglufiau, y mae hynny yn ddolurus i'm llygaid: Nid allaf na gwrando nag edrych chwaith: yr ydwyf yn llenwi yn dynn fy nghlufiau, ac o ran ofn yn cau fy llygaid, rhag y byddei i mi eu hanfoddhau hwynt. I mi wrando pregeth o awr o hyd, marwolaeth yw hynny, ac am hynny anfynych yr ydwyf yn dyfod i'r eglwys: neu os y fi a ddaw

weithiau,

weithiau, mi a fyddaf yn bwrw yr amſer heibio; naill a'i yn cyſgu neu yn ſiarad. Gormod ſydd o'r cyfryw ddynion yn y byd: Either yn ddiammeu gellir dywedyd am y cyfryw, nad oes ganddynt hwy ddim blas na dim ſynnied yngwaith Chriſt. Eithr bellach gwrandawn farn yr Eglwys am *Dragywyddoldeb.*

Y mae 'r coffadwriaeth am *Dragywyddoldeb* mor werthfawr ym mri yr Eglwys, ac nad oes un *Pſalm*, na *Gweddi*, na *Hymn*, na chyſyllttodd hi wrthi, *Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glan; megis yr oedd yn y dechreu y mae yr awrhon, ac y bydd yn waſtad yn oes oeſoedd. Amen. Megis yr oedd yn y dechreu*, hynny yw cyn pob dechreuad, o bob *Tragywyddoldeb*, heb un dechreuad iddo: *Y mae yr awrhon, ac y bydd yn waſtad, yn oes oeſoedd.* Hynny yw, rhyd yr hôll oeſoedd; annherfynedig, aneirif oeſoedd nid ellir eu amgyffred; hyd holl *Dragywyddoldeb.* Eithr gadawn yr aberoedd bychain a phryſurwn i'r ſtynnon.

BEN. II.

Yr ail bennod yma ſydd yn rhoi Tyſtiolaethau eglur o'r yſcrythur ſanctaidd ynghylch Triagywyddoldeb.

TRi yn unig a ddygaf allan o dyſtion, Prophwyd, Apoſtl, ac Efengylwr.

Pa ſawl un ac mor fawr yw ucheneidiau a griddfanau dynion tlodion digarad a dirmygus! gallwn eu clywed bob dydd yma a thraw yn achwyn; gwae fi ddyn tlawd, nid oes gennif fawr garedigion, od oes yr un; nid oes gyfrif o honof; y mae pawb agos yn fy niyſtyru, ac yn fy ſathru. O ddyn! bydd ymmyneddus dippin bach, bydd ddioddefgar tros amſer; er bod hyn ar y cyntaf yn ymddangos i't yn hîr, ſe wawria i't o'r diwedd ddydd o gyſur. Coſia addewid Duw ym mhrophwydoliaeth Baruch. *Gwiſg am danat wiſg ddau ddyblic, y cyſtawnder ſydd o Dduw, a goſod ar dy ben Goron gogoniant y Tragywyddol.* Baruch 5. 2.

Y mae eraill ac ſydd yn beio ar nam

natur gan achwyn yn wastadol rodd i o honi einioes rhy hir i'r Gigfran, a rhy-fyro beth aruthr i ddyn. Gwrandewch gymmaint a hyn, chwi y rhai ydych yn achwyn yn wastadol fyrred yw einioes dyn; byr yw 'r einioes hon yn siccr. Eithr pan ddiweddo 'r einioes fer orwag yma, bydd yn ymaros einioes arall yr hon ni ddibenna byth. Oni choeliwch chwi fi, etto coeliwch St *Paul*, *Canys ni a wyddom os ein daiarol dy o'r babell hon a ddattodir, fod i ni adeilad gan Ddiuw, sef ty nid o waith llaw, tragywyddol yn y Nefoedd*. 2 Cor. 5. 1. Gan hynny nid mawr golled yw, os dattodir y babell ddaiarol hon o'n cyrph, gan fod prisiys brenhinol wedi ei ddarparu i ni, yr hwn nid yw yn ddarostyngedig i ymddattodiad? Angwanegwn at dystiolaeth y *Prophwyd* a'r *Apostl*, dystiolaeth yr *Efengylwr* St *Matthew*; Yn esengyl yr hwn gallwn ddarllain y geiriau hyn o eiddo ein Jachawdwr, *Os dy law neu dy droed a th rwystra, tor hwynt ymmaith, a thafl oddiwrthit: Gwell yw i ti fyned i mewn i'r bywyd yn gléff neu yn anafus, nag â chennit ddwy law neu ddau droed, dy daflu i'r* Math. 18. 8.

tân

tân tragywyddol: Ac os dy lygad a'th
9 *rwystra, tynn ef allan, a thafl oddi*
wrthit: Gwell yw i ti yn un llygeidiog
fyned i mewn i'r bywyd, nag â dau ly-
gad gennit, dy daflu i dân uffern.
O dân! O uffern! O Dragywyddoldeb!
nid yw *Amser* ddim, os cymmharir
ef a *Thragywyddoldeb*; byrder eini-
oes, ac felly colled amser, nid yw gol-
led yn y byd, eithr ynnill mawr yw,
os ynnillwn ni trwy hynny *Dragy-*
wyddoldeb. Christ a'i gaddawodd,
a St. *Mathew* a'i rhoes ar lawr, ac a'i
seliodd yn y geiriau hyn o eiddo ein
Math. 19.29. Jachawdwr, *Pob un a'r adawodd*
dai, neu frodyr, neu chwiorydd, neu
Dâd, neu fam, neu wraig, neu blant, neu
diroedd er mwyn fy enw i, a ddcrbyn y
can cymmaint, a bywyd tragywyddol a
etifedda ese. Onid ydyw 'r addewid y-
ma am *Dragywyddoldeb* bendigedig
yn ddigon eglur, gan fod gennem ni
sicerwydd y derbynniwn gann cym-
maint gwobr. Drachefn Christ yn
ôl yr unrhyw *Esengylwr* sy 'n ein rhag-
rybuddio ni o'r farn ddiweddaf, gan
grybwyll deirgwaith yn eglur am
Dragywyddoldeb yn y geiriau hyn,
Math. 25.41, 46. *Tân tragywyddol, Cospedigaeth tragy-*
wyddol, Bywyd tragywyddol.
Am hynnny gan weled fôd y Ta-

deu ſanctaidd, Yr Eglwys, a'r yſgrythur gyſlegredig yn rhoi y difrifol yſtyriaeth ar *Dragywyddoldeb* ger ein bron trwy gymmaint o ſyrdd; ein rhan an dyled ydyw, cymmaint un ae ſydd o honom yn diſgwyl bywyd *Tragywyddol* yn y Nefoedd, ein rhan an dyled ni bob un ydyw yſtyrio yn ddifrifol rhyngom a'n hunain fel hyn: O fy Nuw! Mor anfynych a darfu i mi o'r blaen hyd yn hyn feddwl am *Dragywyddoldeb*! Neu os darfu i mi feddwl am dano, a pha agwedd ddiſraw ac eſceulus y gwneuthym i hynny, er hynny i gyd yr ydwyf bob dydd, ie bob awr a munud yn neſau nes nes i *Dragywyddoldeb*? Eithr trwy gymmorth dy ras mi a amcanaf wneuthur hynny o hyn allan yn fwy gofalus, nag y darfu i mi o'r blaen hyd yn hyn; ac os trwy dy haelioni di y cynydda golud un amſer, ni roddaf fy nghalon arno: Er bod y byd yn gwenu arnaf, er na byddei arnaf ddiffyg un peth amſerol a fedrei fy nghalon ddymuno, er fy mod i (debygwn) yn llenwi o gymmaint o ãl. der ag allei fyth fod, er hynny cofiaf *Dragywyddoldeb* yn waſtadol. Y rhain a fydd fy meddyliau ynghanol fy hawddfyd? Eithr

Eithr pa hyd y parhâ hyn, a ddeil hi yn deg bob amser? A dywynna yr haul cyssurus hwn hob amser arnaf? Neu o byddei i mi fyw mewn hawddfyd holl ddyddiau fy mywyd, pa fudd yn ol marwolaeth a fyddei hynni i mi? Ar ol y melus yma, eithr byr; hyfryd, eithr enbydus; anedwydd wynfyd, y canlyna *Tragwyddoldeb*, ie *Tragwyddoldeb* ar fyrder. Eithr os try 'r byd yn fy erbyn, os ei wg a fydd arnaf, os cyfarfyddaf â llawer o wrthwynebion, trallodau a blinderau, os aml anffawd a ddigwydda i mi, os ymwthiant arnaf fel tonnau y naill ar war y llall, os cythryblir fi, a dyfod o heldrin arnaf, y pryd hynny y rhain a fydd fy meddyliau beunyddiol; gadewch iddo, cymmered y byd ei rod, yr wyfi yn fodlon i'w ddioddef, ewyllys Duw a wnelir: Terfysged y mor, rhued ei donnau, chwythed gwyntoedd blinderau, rhuthred dyfroedd cyfyngderau arnaf, bygythied cymmylau profedigaethau law a tharanau, amgylched tywyllwch tristwch a thrymder fi, ie, er i seiliau 'r byd grynu (debygwn) er hynny nid ofnaf. Yr ystormiau hyn a chwyth trosodd, y gwyntoedd hyn a ostega, y tonnau

yma

yma a dawela, ni ddichon y tymmheſtloedd byn barhau yn hir, a gwaſgerir y cymmylau yma. Beth bynnag a ddioddefaf yma, fe ddibenna yn y man, nid rhaid imi ddioddef yn *Dragywyddol*. Doed y gwaethaf i'r eithaf marwolaeth a ddibenna fy hòll ofid am tueni. Eithr nid oes nn yſtorm yn debyg i'r yſtorm honno o dân a brwmſtan, yr hyn a ddioddefa 'r damnedig yn uffern yn *Dragywyddol* ac yn ddiddiwedd. Bydd yma ddiben ar bob beth, eithr ni bydd yno ddiben yn y byd ar boenau. Beth bynnag ſydd nad yw o ſewn amgyichiad *Tragywyddeldeb*, y mae fe yn fyr, yn fuan ei gyrch, ac yn drangcedig, nid yw ond cyſgod, ond breuddwyd, felly y mae St *Chryſoſtom* yn dywedyd: Nid yw ond *ychydig*, neu *beth diddim*, *bychan*, *bychan iawn*; *tros ennyd fechan*, ie, *ennyd fechan jawn*. Y mae ein Jachawdwr yn taro ar hynny yn fynych, with fiarad a'i Ddyſgyblion. Nid yw ef yn galw ei ddioddefiadau ei hun oll, ie, ei farwolaeth drachwerw ar y Groes ond *ychydig*: Hôll ddioddefiadau, dialeddau, a marwolaethau angerddol yr Apoſtolion, y cwbl ond *ychydig*:

A

A pha ham a byddei i minnau na feddyliaf hyn yma hefyd yn *ychydig*, beth bynnag a ddioddefwyf yma, pe byddei i mi ei ddioddef gant o flynyddoedd tuntu? *Oblegid ychydig bach igyn etto, a'r hwn ſydd yn dyfod a ddaw, ac nid oeda.*

Hebr. 10. 37.

Gan hynny mi a ddioddefaf yn ymmyneddus beth bynnag a ddigwydda, ac a gyfrifaf un peth yn unig yn angenrheidiol, a hynny yw, na wnelwyf ddim yn erbyn fy nghydwybod, a dwyn anfodd Duw. Canys y mae pob peth yn ddiangol ac yn ddiogel gyd ag ef yr hwn ſyd yn ddinam ac yn ſicer o'r *Tragywyddoldeb* bendigedig.

BEN.

BEN. III.

Y dryddydd benaod yma ſydd yn dangos, nad yw 'r bywyd yma mewn golygiad i'r hwn ſydd i ddyfod onid fel Ddefnyn *wrth y* Mor mawr, graienyn *wrth y* tyfod *ar lan y mor*, Canolbwynt *wrth y* Cylch, *ychydid amſer bychan, bychan igyn*, Munud *wrth* Dragywyddoldeb. *A dioddefiadau 'r bywyd hwnynt gyffelyb mewn golygiad i'r llawenydd ſydd i ddyfod.*

GWir iawn ydyw, pa boen bynnag neu ofid a ddioddefwn ni yn y bywyd hwn, nad yw ond *ychydig*, neu *tros ennyd fechan*. Dywediad St *Auguſtin* yw, *y mae 'r ychydig neu 'r ennyd fechan yma yn ymddangos yn hir i ni, oblegid nad aeth hi etto heibio ôll: Eithr pan ddelo 'r diben o honi, yno y bydd i ni wybod a deall pa ennyl fechan yw 'r ychydig yma.* Y doethaf o'r gwyr yr hwn oedd i egluro gwagedd, a hyrder y bywyd preſennol hwn, ped yſtynnid i gant o flynyddoedd, yr hyn nis dichon nemmawr ei gyrraedd

ſydd

ſydd yn dewis y pethau trangcediecaf yn y byd i'w egluro, ac i'w oſod allan trwyddynt mewn gwedd o gyffe. 1. brwydd. Canys yr ydym ni yn darllain yn Eccleſiaſticus fel hyn yn
Eccle. 18.9. eglur, *Rhifedi dyddiau dyn ydynt gan milynedd o'r mwyaf. Fel defnyn o ddwfr wrth y mor, ac fel graienyn wrth y tyfod yw mil o flynyddoedd wrth ddyddiau Tragywyddoldeb.* A pha ham gan hynny yr ydych chwi (hir oeſwyr) yn ymlawenychu yn hyn yma, fyw o honoch gant o flynyddoedd? Ein holl flynyddoedd ni ydynt, Pa beth ydynt? maent fel *defnyn o ddwfr wrth y mór, ac fel graienyn wrth y tyfod.* A pha beth yw graienyn wrth y mynyddoedd trauchell hynny o dyfod? A pha beth yw defnyn bychan o ddwfr wrth y mor mawr difeiſiedig. Nid yw deg a deugain, trugain, neu gant o flynyddoedd ddim amgen (gwrandewch hyn yma chwi hynafgwyr) nid ydynt ond *ychydig*; ennyd fechan iawn, ond *Munud* o amſer, mewn gwirionedd yn ddiddim oll, wrth ddyddiau *Tragywyddoldeb.* Ac er hynny (ni yn. tyd a greſynus ddynion) ydym yn tra ymlawenychu yn y graienyn hwn o dyfod,

dyfod, yn y defnyn bychan yma. Ein bywyd ni yn ficcr *graienyn o dyfod yw*, eithr nid Gemm na maen gwerthfawr; nis gwnaed efo ddim gwell defnydd na thyfod. *Defnyn* yw ein bywyd ni, eithr nid dwfr melus a chroiw, eithr halk a chwerw yw, fel dwfr y mor. *Canys ei holl ddyddiau fy orthrymder, a'i lafur yn ofid: ie ni chymmer ei galon esmwythdra y nos*: felly a dywed y *Pregethwr*. Cyngor St *Augustin* yw hyn, Galw i'th gof (medd ef) y blynyddoedd aethant heibio, er pan fu *Adda* hyd y dydd presennol hwn; dos tros yr ysgrythyrau i gyd: Nid yw hi agos ond doe er pan gwympodd ef, ac pan fwriwyd allan o *Baradwys*. Canys pa le y mae 'r amserau hyny aeth heibio? Yn ddiammeu ped fuasit yn byw yr amser oll er pan fwriwyd *Adda* allan o *Baradwys*, ie hyd yn hyn, ti a fuasit yn deall, ac yn cyfaddef nad oedd dy oes di hir, yr hon a hedodd ymmaith nior fuan. Canys pa beth yw bywyd neb ryw wr? Bwrw atto gymmaint ag y fynnych di o flynyddoedd, bwrw yn dy feddwl yr henaint hynaf: Pa beth ydyw? Onid cyffelyb i fellden foreuddydd ydyw? hyn oll

Prege. 2.23.

ôll sydd yn ddigon gwir. Yn rhodd a ddywedwch chwi i mi, ym mha le y mae *Adda* 'r awrhon? Ym mha le y mae *Cain*? Ym mha le y mae *Methuselah* yr hir oeswr? Ym mha le y mae *Noah*? Ym mha le y mae *Sem*? Ym mha le y mae *Heber*? Ym mha le y mae *Abraham* drafudd? Ym mha le y mae *Jacob*? Ym mha le y mae *Joseph*? buant feirw ac aethant ymmaith, a'i hamser aeth heibio; gallwn ddywedyd am danynt; *Vixerunt, fuerunt Troes, Hwy a fuont unwaith, yn awr nid ydynt.* Dyna fel y mae ein bywyd ni yn myned ymmaith; dyna fel y mae gogoniant y byd yn myned ymmaith. O foreuwlith! O wir wageddi pa beth yw 'r hyn a fyddei yma a chwenychem ni felly? Pa beth sydd yma cyhyd ac y bydddei i ni ei obeithio a'i ddymuno? Pyr ydyw, *ychydig* ydyw, beth bynnag a genfydd dy lygaid yma nid yw ond mymryn bach, gwael yw, ac ni thal ddim. Gwir yw 'r yma. drodd hwn o eiddo *Gregori* fawr; Nid yw 'r mesur mwyaf o'n hoedl ond mymryn, neu linell fer yw, yr hon sydd yn dechreu, yn parhau, ac yn diwedd ar y mymryn-

Mewn.

Mewn moment, ar daraiad llygad a 1 Co. 15.
bydd diwedd ar bob peth: *Yr ydwyf* 51.
(medd y *Psalmudd*) *yn gweled di-* Psal.
wedd ar bob perffeithrwydd, ond dy 119.96
orchymmyn di ſydd dra ehang. Pa ham gan hynny yr ydym yn cyfrif amſer yn y byd yn hir? Ganys yr hyn aeth heibio, nid yw yr awrhon; yr hyn ſydd i ddyfod, nid yw etto: A pha beth yw 'r hyn ſydd yn breſennol? y mae 'r awr wydr yn rhedeg yn waſtadol, ac nid yw 'r cloc yn ſefyll un amſer, a munudiau hedegog cerdd yr awr ymmaith. Yr hyn a hedodd heibio a fu ac aeth ymmaith: yr hyn ſydd etto yn ol, ſydd etto i ddyfod: Eithr ym mha le y mae 'r amſer a byddwn yn arfer o'i galw yn hir? St *Bernard* ſydd yn ſon am ymadrodd godidog gwir jawn St *Hierom* (di ddarlevdd, hi a dal ddal ſulw arni) *Ni ddylei llaſur yn y byd*, medd ef, *ymddangos i ni yn hir, nac un amſer yn y byd yn hir, y byddwn ni yndo yn ymgais am ogoniant Tragywyddol.*

Ac etto er nad yw bywyd gwr ond byr iawn mewn cymmhariaeth i *Dragywyddoldeb*, er hynny nid oes yr un o'r damnedig a ddichon iawn farnu

farnu ar Dduw am na chaniatta efe fywyd hwy iddo. Rhaid iddynt eu barnu eu hunain yn euog am na fucheddaſant yn well. *Nid oes cyfrif yn y bedd* (medd *Siracides*) *pa un bynnag ai deg, ai cant, ai mil o flynyddoedd y buoſt ti fyw.*

Eccluſ. 41.4.

Nid yr amſer moni i achwyn yn uffern ar fyrder cinioes. Fe fu pob dyn yn fyw yn ddigon ei hyd, os bu efe yn byw yn ddigon duwiol.

Rwy'n chwennych yma (frawd Chriſtianus ymddiddan â thi yn hyfach ac yn fwy amlycach; ac agori y matter felly, mal y caffech di ei weled yn eglur gwedi ei gyndrychioli o flaen dy lygaid. Dywedyd yr wyt, dy fod yn meddwl yn fynych am y nefoedd, a bod gennit awyddfryd difrifol a hiraethog i *Dragwyddoldeb*. A ddywedaiſt ti felly? Yr ydwyf yn dy glywed, ond nid ydwyf yn dy goelio: Ac ni fynnwn i tithau chwaith fy nghoelio innau, pa dywedwn i't felly am danafy hun. Canys pa fodd y dichon hynny fod, O frawd da Chriſtianus, Pa fodd y dichon hynny fod y byddei i ti neu i minnau feddwl cyn fynyched, ac mor ddifrifol am y nef, a bod gennem y

fath

fâth awyddfryd hiraethog (Ac yr ydym yn dywedyd fod gennem) i *Dragywyddoldeb*; ac er hynny bod mor glaiar, ie, yn farwfyth mewn materion crefydd. mor hwyrfrydig ac anhyfforddi'r hyn fydd dda, mor hyblyg a hyfforddi'r hyn fydd ddrwg, mor barod ac ewyllysgar i bob math ar drythyllwch, mor gwynfanus ac achwyngar, mor ddiowgfwrth ac eſceulus? Ac lle dylem ni fod yn ddîg, yno yr ydym yn rhy-ymmyneddus; ac lle dylem ni fod yn ymmyneddus ac yn ddewrwych, yno yr ydym yn rhy ddigalon ac yn llwfr. Y mae ein ymmynedd ni yn toddi ac yn treulio ymmaith ym mhoethineb pob yſgafn gyſtudd: Nage, fo'n bwrrir ni â gair i lawr yn fynych. anadl genau gwr a'n chwyth ni lawr. Eithr nid ydym ni yn frochus ac yn ffromwyllt iawn un amſer, ond y pryd y gwrthwynebir ein hewyllys. Gallwn ſon yma am Boſtwm gwreſog, trachwant yr hwn ſydd yn brydio ac yn chwyddo ein calonnau yn fynych; ac hefyd am Caner yſſol, cenfigen yr yr hwn a yſſa i mewn i'n dwyfronnau yn amſ, ac a bair i'n cnawd ddarfod: Ond mi af heibio iddynt. Er hyn

i

i gyd a ddywetpwyd, ni ddynion da a duwiol, (megis yr ydym yn proffessu ein hunain, ac a fynnem i eraill feddwl ein bod) ydym yn rhy ofnog lle dylem fod yn hy, ac yn rhy hy lle dylem fod yn ofnog, ni ymogonoddwn ni mewn dim yn fwy, nag yn hyn yma; fod gennem yn ein meddyliau, a'n hawyddfryd difrifol lawenydd *Tragywyddoldeb* yn fynych. Credwch hyn, mai peth anghredadwy yw y dichon meddyliau am y nef a *Thragywyddoldeb* fod yn ein calonnau cyn fynyched, ac yr ydym yn dywedyd; ac etto ynghyfrwng hynny na byddem ni yn bucheddu yn well nag ydym. A ddywedais i mai peth anghredadwy yw? Nage, yr wyfi yn dywedyd mai amhosfibl yw, Ac fel hyn mi a'i datganaf.

Y Padriarch *Jacob* a wasanaethodd *Laban* ei ewythr saith mlhynedd am ei ferch *Rahel*, ac *yr oeddynt yn ei olwg effel ychydig ddyddyau, am fod yn hoff ganddo efe hi.* A glywi di, pwy bynnag wyt, ac fydd yn achwyn felly? Nid ydwyt yn gwasanaethu un twyllwr neu fionimwr cyffelyb i *Laban*, eithr Duw dy wneuthurwr, a'r hwn a geidw ei gyfammod a'i

Geneses 29.20.

a'i addewid yn ddiammeu. Nid ydwyt yn gwaſanaethu am wraig, eithr am deyrnas nefoed: Nid am bryd a gwedd gwraig, ac am gael bod yn ei golwg, eithr am y gwynfydedig weledigaeth a'r *Tragywyddol* olwg ar Dduw: Nid am ddiſyrrwch a diddanwch gwraig, eithr am nefol a *Thragywyddol* ddiſyrrwch a diddanwch: Ac er hynny trallod un gauaf ddydd a bar i ti ymollwng yn fynych felly, mal y byddo dy holl ſerch tu ag at Dduw, a'th ddeiſyfiad tu ag at y nefoedd yn dechreu priſio yn ddiwres ynot yn ddiſwmmwth. Torri a wnei allan i gwynfan yn drachwerw, cyn gynted ag y dechreuo 'r yſtorm o adfydwch; galw a wnei y nefoedd ar ddaiar yn dyſtion, ni anedli ddim ond dialedd, ie, yr wyf yn credu, na arbedi mo Duw ei hun, eithr byddi yn galw ei gyfiawnder ef mewn dadl. Ac amſeraŭ eraill pan ddarfyddo i ddiffyrrwch dy dwyllo a'i hudoliaethau gwenheithus unwaith, y maeſe yn dy lygattynu ac yn dwyn ymmaith dy got felly, mal y llwyr anghoſi waſanaethu Duw: A rhedeg a wnei yn y modd yma yn wyſg dy ben i ddyryſni pechod, yr hwn

ſydd a dyfodfa teg i ddyfod i mewn iddo, or lleiaf mewn golwg; eithr y mae yn dy arwain y ffordd neſaf i ddiniſtr. A'i dyna 'r dyfalwch yr oeddit yn ſiarad cymmaint am dano? A'i dyna dy wroldeb arwraidd a'th ſerch tu ag at *Dduw*? Pa ſut y gwaſanaethi di *Dduw* fel y gwnaeth *Jacob Laban*, Pan (yſywaeth) nas gelli ddioddef poen a gofid un diwrnod?

Marc. 14.37. *Simon, Simon, a'i cyſgu yr wyt ti? Oni allit wilio un awr* gyda dy Arglwydd a'th Feiſtr? Eithr gwrandewch ychwaneg ynghylch y Padriarch *Jacob*. Efe gwedi ei ſiommi gan ei ewythr *Laban*, yr hwn a roddodd iddo ſe *Leah* lygad-wlyb yn lle *Rahel* brydweddol, a'i gwaſanaethodd ef etto ſaith mlhynedd yngwaneg am ei ſerch *Rahel*, yr hon oedd hoff iawn ganddo ef: A diammeu nad oedd ef yn gweled, y ſaith mlhynedd hynny hefyd, ond megis ychydig ddyddiau o ran mawredd ei ſerch ef tu ag atti. Ac y mae yn debyg jawn pan fyddei yn lluddedig wrth ei waith fod ei lygad ef yn fynych tu ag at ei *Rahel* a'i thegwch, a chan ddywedyd, hi a haeddai o ran ei thegwch yn ddiammeu fod

i

i mi ddioddef gwaſanaeth caled ſaith mlhynedd am dani; ac os byddei raid, ni phriſſiwn i waſanaethu ſaith mlhynedd yngwaneg etto. Dwyn yr oedd ef y ſâth ſerch yw *Rahel*, mal nad oedd ef agos yn ymwrando â phoen yn y byd.

A glywi di hyn yma, yr hwn ydwyt yn myned am ſilwr Chriſt? wyt ti yn amgyffred hyn yma? ydwyt ti yn deall hyn yma? Pa fodd gan hynny a gelli rwgnach etto yn erbyn Duw? yr ydys yn dy orchymmyn i waſanaethu Duw er mwyn Duw, megis y gallech di felly o'r diwedd fyned i mewn i orphywyſſa *Tragywyddol* Duw; Yr ydys yn dy gynghoti i ddioddefgarwch ac ymmynedd yma, megis y gallech di gael dy wneuthur felly yn gyfrannog o anfarwoldeb gydâ'r bendigedig yn ôl hyn: Ac er hynny cyſgu yr wyt ti, O ddiogyn? Onid oes gennit gluſt i wrando? Wyt ti etto yn achwyn? Gwna ond bwrw i fynu y blynyddoedd a dreuliaiſt yngwaſaneth Duw, a dal ſulw a waſanaethaiſt ti Dduw yn ffyddlon ac yn boenus ugain mlhynedd, fel y darfu i *Jacob Laban*. Y mae arnaf ofn y byddei

fyrr o'th gyfrif: A wasanaethaist ti Duw cymmaint a hynny o fisoedd? Meddaf i't, y mae hynny yn ddadl gennif. Rhifa y nosweithiau a dreuliaist yn gwilio ac yn gweddio, Rhifa drachefn y dyddiau a dreuliaist mewn arferion sanctaidd, ac edrych a ellech di ddywedyd y gwirionedd i Dduw mal y darfu i *Jacob* i *Laban*; *Bûm y dydd, y gwres a'm treuliodd, a rhew y nos, a'm cwsg a giliodd oddi wrth fy llygaid. Felly y bûm i ugain mlhynedd yn dy dy di: pedair blynedd ar ddeg y gwasanaethais di am dy ddwy ferched, a chwe blynedd am dy braidd.* Dywed i mi, (ddyn Christianus) a ddarfu i ti wasanaethu Duw yn y modd hwn ugain mlhynedd: Os wyt yn gwasanaethu Duw, di a wyddost dy gyflog: Nid merched *Laban*, nid Praidd o ddefaid; Duw ei hun a fydd gwobr dy wasanaeth: Bendigedig fyddi mewn enaid a chorph; bydd hynny i't yn ddaioni o bob tu; meddienni bob math ar ddifyrrwch; difyrrwch mawr heb na difyg na diflasdod, ac yn ddidd iwedd. Cei ymrwyfo yn y mor mawr diwaelod o hyfrydwch: Ac er hynny wele

Gene. 31.40, 41.

lc dy ddwylo yn fuſgrell i bod gweithred dda: Dy draed yn ddi-frys i fyned i'r Eglwys; dy galon yn darfod gan genſigen; yn ennynnugan ddigofaint a dial, yn amlhau o'r pryfed o feddyliau bryntion, ac yn farw fyth o ran ſyrthni ac anniddefgarwch. A'i dyna dy waſanaethiad di ar Dduw? A'i dyna 'r ffordd yn dy yſtyriaeth di i'r nefoedd, i anfarwol fywyd, i wynfydedigrwydd *Tragywyddol?* Yn wir nidê. Pam nad wyt yn hytrach yn gwneuthur fel yr oedd *Jacob?* Pan fyddych di yn lluddedig gan neb ryw boen a gymmeraiſt arnat yngwaſanaeth Duw, Pan fo 'r byd yn myned yn dy erbyn, pan fo adfydwch yn dy orthrymmu, pan fo hawddfyd yn dy hudo, a blinderau yn pwyſo arnat; dyrchafa dy olygonetu ar nefoedd, cenſydd *Rahel*, yr hon a addawyd i ti; ac yn y modd yma cyſſura dy hun. Na fydd drallodus (o fy enaid) cenfydd dy *Rahel* yr hon ſydd yn y nefoedd, *Rahel* lan, *Rahel* hawddgar, *Rahel* brydweddol oll heb un brycheuyn arni yn unlle! Cenſydd y nefoedd a'r ey

o'th orphywyſdra a'th hyfrydwch *Tragywyddol*! Bydd fodlon i ddioddef tros ennyd, ychydig driſtwch a pheth poen: Canys cei fôd ar fyrder yn y fan lle mae dy *Rabel*; Ac yno cei fod yn llawenach ac yn wynfyde. diccach, yn fwy o gymmaint a hynny ac y buoſt ti yma wylofus a thrallcdus: Bydd yno i'th orphywyſdra fod yn hyfrydach ac yn llawenach yn. fwy o gymmaint a hynny, ac y bu dy fywyd yma yn orthrwm ac yn boenus. Ow gan hynny, bydd o gyſ. ſur da, dangos wroldeb ac ymmynedd Chriſtianus! *Tragywyddoldeb*, y *Tragywyddoldeb* bendigedig a dal fwy, tal fwy o beth anfeidrol, na'r cwbl a allwn ei wneuthur neu ei ddioddef, Pa rhoit ti, (O frawd Chriſtianus) galon a chyſſur fel hyn ynot dy hûn, ped edrychit yn fynychach a'r cyfryw lygaid tu ar Nefoedd, pa meddylit a'r cyfryw ſerch beunydd am *Dragywyddoldeb:* Cred hyn, na ymdangoſei dy ddyddiau o waſanaeth ôll yma ar y ddaiar ond ychydig, o ran y mawrſerch a fyddei gennit i *Dragywyddoldeb:* Eſmyth a bwrrit bob poen, pob trallod yn groeſawus, pob colled yn clw. Hyn

a

a ddywedafi, ac ar hynny mi ddibennaf, pa mwyaf y meddylio dyn am y *Tragywyddoldeb* o'r byd a ddaw, mwyaf a fydd y gofal a gymmer ef i arwain buchedd dduwiol yma yn y byd presennol.

Y ſeithfed yſtyriaeth

AR

Dragywyddoldeb.

Sydd yn hyſpyſu pa ſodd y mae Chriſtionogion yn paentio Tragywyddoldeb.

YNeb a fo i fyned rhyd y ty mewn tywyllwch rhaid iddo gerdded yn ymogelus ac yn araf, o feſur cam a cham: A rhaid iddo balfalu am y pared. Os dalldwriaeth dyn a ſylla i *Dragywyddoldeb*, os meddylia ef yn y byd hwn fyned iddo i'w gerdded o'i fewn, y mae ef yn canigymmeryd ym mhell:

y mae 'r ffordd yn dywyll ac yn llawn anhawſder. Efe a ddichon trwo ei hun ar y ffordd, ond ni bydd iddo yma byth gyrhaeddyd yno. Yn ſicr nid yw 'r ffordd yno ond berr: ond pan elo dyni mewn yno unwaith, nid oes dim dyfod allan drachefn: Ac etto er na ddichon un dyn marwol ddeall felly am Dragywyddoldeb, y meidr ddywedyd yn ſicr pa beth ydyw: er hynny gwaſgodwyd allan eiſoes ei anfeidrolder ef, trwy fâth ar baentiadau a thybygoliaethau, yn y cyfryw fodd ac y dichon pob dyn gael gweled ei wawr ef. Beth bynnag a lefarom, neu yſcrifennom yngh ylch *Dragywyddoldeb*, A pha ſut bynnag yr ydym yn ei oſod allan mewn lliwiau; nid yw'r cwbl ond cyſgod, ie, cyſgod cyſgodau. Nid oes un Areithiwr yn y byd a ddichon a'i holl Araithyddiaeth ei ddigonoſ egluro; Ni ddichon un paentiwr a'i fanwl gelfyddyd a'i gwreinrwydd oll ei oſod allan, hyd at yr affwys. Pa rhoid yngh yd yr holl anſerau y fu erioed ac y ſydd byth, ni chyrhaeddent *Dragywyddoldeb* o beth anfeidrol: Nid ellir meſuro moi led, nac wrth orriau, na dyddiau,

nac

nac wythnoſau, na miſoedd, na blynyddoedd, na'r Luſtrau, (o yſpaid pum mlhynedd) na'r Olympiau, (o yſpaid pedair blynedd) na'r Indictionau, (o yſpaid pymtheg mlhynedd) na'r Jubiliau, (o yſpaid deg mlhynedd a deugain) nac oeſoedd, na blynyddoedd *Plato*. (bob un o yſpaid un mil ar bymtheg ar hugain o flynyddoedd) nac wrth ſynmudiad aniben yr wythfed wybren, yr hon ni orphenna ei chylch priodol ei hun, ond unwaith mewn un mil ar bymtheg ar hugain o flynyddoedd, a'r yſpaid yma o amſer yw un o flynyddoedd yr un rhyw *Plato*'er lliof-ddyblygu yr rhain trwy fil, neu fyrddiwn, neu trwy 'r lliofddyblwr, ſef y rhif yn dyblu mwyaf a ellyt ei ddychymmyg: A'i feſur ychwaith nis gellir trwy unrhwy rif rhifedig, megis trwy ſer y nefoedd, tyfod y mor, gwellt y maes, defnynnau yr afonydd a'r cyffelyb: Y Nifer o *Dragywyddoldeb* ſydd tros ben ei gael allan.

Y mae hwylwyr longau yn arfer o feiſio dyfnder y mor wrth blwni a llinyn: Gollyngwn ninnau hefyd i lawr y plwm a'r llinyn o'n hufudd

an

an parchedig feddyliau, i feiſio dyſnder *Tragywyddoldeb*, yr hwn ſydd tros ben ei gael allan er hynny. Ond os canlynwn ni y Mapp hwn, os hwyliwn ni wrth y Cerdyn yma, os golygwn yn dda y paentiad hwn, (ni a fyddwn yn nes o lawer i'w gael allan nac y fyddem ni ffordd arall yn y byd) ſef hyn ſydd yn canlyn.

Chriſt megis dyn bach, wedi ei gymmeryd fel ped ſae o'r preſeb, ac o'r cryd agos yn noethlummyn, ac heb ddillad, ſydd yn ſefyll yn y cymmylau: Ar ei yſgwyddau y mae yn dwyn Croes: yn y cymmylau y mae yr yſcrifen hon *TRAGYWYDDOLDEB*. Is law traed Chriſt, i wared ar y ddaiar y mae Eſgyrngwlm dyn, neu ddim ond eſgyrn dyn heb na blew na chroen, barf yn unig ſydd iddo i gael ei adnabod: y mae yn dal yn ei law aſſwy ddarn o femrwn, yn yr hwn y mae 'r geiriau hyn yn yſcrifennedig, *Momentaneum quod delectat.* *Yr hyn ſydd yn diſyrru Trangcedig yw:* Y mae yn dal i ſynu yn ei law ddehau *Afal.* Y mae yn agos atto yn ſefyll Gigfran yn pigo crogen, gydâ 'r yſcrifen hon

Cras,

Cras, Cras, yforu. Y ddaiar ſydd yn agoryd ei ſafn, a fflammau tân yn torri allan ac yn dyrchafu, yn yr hyn y mae y geiriau hyn yn yſcrifenedig *Æternum quod cruciat, yw hyn ſydd yn poeni Tragywyddol yw*, Chriſt yn dyfod i lawr o'r cymmylau y mae dau yn addoli â glinniau plygedig o ami yw ſectau, yn lle holl ddynol ryw. Y mae o'r tu ol iddynt awr wydr yn cerdded, neu ddeiol yn meſur orriau wrth rediad dwfr (enwedig) y Clepſydra; a llyfr yn llydan agored. Ar y naill du i'r ddalen y mae hyn yn yſcrifenedig, *Treuliant 1,b.21. eu dyddiau mewn daioni, ac mewn 13. moment y deſcynnant i'r bêdd.* Ar y tu arall i'r ddalen, *Pwy am gwared oddiwrth gorph y farwolaeth hon? Rhuf. 7.24.* O'i blaen hwynt y mae dau Angel nefol yn ſefyll, yr rhai ynt yn eu cofleidio hwynt yn eu breichiau, ac yn eſtyn eu byſedd ar Griſt gan erchi iddynt ddyrchafu i fynu eu golygon tu ag atto ef. Dyna 'r paentiad; y mae 'r meddwl yn canlyn.

BEN.

BEN. I.

Y bennod gyntaf yma ſydd yn cynhwyſo gwahoddiad Chriſt.

CHriſt y *Tragywyddol* fâb o'r *Tragywyddol* Dduw a ddaeth i'r byd hwn, heb un wiſg am dano, mwy na ninnau, hynny yw yn noethlumniyn. Y 'wiſg o anfarwoldeb a diniweidrwydd ni a'i collaſom trwy anufudd-dod *Adda*. Ac, (och) mor druan ein diwyg yr ydym ni yn dyfod yr awrhon i'r byd hwn! Chriſt ynghyd gydâ ni, ie, er en mwyn ni ſydd yn dioddef coſpedigaeth, ac er hynny nid oedd ef yn euog o neb ryw bechod. Eithr pa beth yw deongliad y Groes hon ſydd ar yſgwyddau Mab Duw? Gwely yw hi, yn yr hwn y cyſgodd ef yn angeu, Golgotha oedd ei yſtafell; y drain ei obeiniydd; a'r Groes ei wely. Llawer o'r gwyr crefyddol o'r amſerau gynt yn yſtyried hyn rhyngddynt â hwy eu hunain, a ddewiſaſant yn rhwydd o'i gwirfodd orwedd yn aneſmyth, a chymmeryd y chydig eſmwythâra,

thdra, megis y gallent yn llawen ar ddydd ys adgyfodiad gyfodi i ef. mwythdra *Tragywyddol*. Rhâi, megis y gallwn ddarllain, y wnaethant y ddaiar eu gwely, fachliain eu cynfas, a maen eu gobennydd. Ac y mae llawer o'r rhai ac fydd yn gwneuthur felly yn waftadol hyd y dydd heddyw. Eithr mi a ymadawaf â hwynt ac a ddychwelaf at Grift. Efe a ddioddefodd *angeu*, *Philip.* îe trachwerw a gwradwyddus *Angeu* 2.8. *'r Groes:* i ba ddiben? fel y gallei ein hachub rhag yr Angeu *Tragywyddol*. Rhaid i ni farw i gyd oll, ac ni bydd angeu ond tros amfer byr yn gwneuthur hynny. Mewn moment, mewn tarawiad llygad y cippir yr enaid o'r corph, a dyna 'r cwbl yr ydym ni yn ei alw *marwolaeth*. Eithr nid felly y mae yn uffern gyda hwy: ymae eu poenau hwy yn rhagori ym mhell holl ofidiau ac ingderau marwolaeth, nid yn unig oblegid i bod hwy yn fwy gofidus o herwydd eu cynneddf, ond oblegid i bod hwy hefyd allan o bob cymhariaeth o barhad: canys *Tragywyddol* ydynt. Felly gan hynny eu poenau hwy ynt, caeleu poeni bob amfer ai marwolaeth

yw

yw i farw bob aniſer. A Chriſt Mab Duw an gwaredodd ni oddiwrth y farwolaeth hon, y dyn bach a welſom ei bortreiadu yn rhodio ynghanol y cymmylau. Tan ei draed y mae eſgyrngwlm neu eſgyrn llymmion dyn, yr hyn a allwn ni ei gaſglu trwy lawer o arwyddion mai ein Tad *Adda* yw. Chwi blant gwrandewch, a chwi blant plant cluſt-ymwrandewch â geiriau eich cyndad *Adda* yn lleſaru wrthych fel hyn.

BEN. II.

Yr ail bennod yma ſydd yn cynhwyſo galarnad Adda.

O Fy Mhlant, y prd hynny yn ſicer gwyn eich byd, ped ſuaſei ei ch cyndad yn adnabod ei wynfyd ei hun, eithr yn awr yn reſynol, ic, a hynny yn hŷn yma, oblegid fy eiddo i yw. Trwyddoſi y diniſtrwyd chwi cyn eich cael; trwyddoſi y damniwyd chwi cyn eich geni. Yr oeddwn yn chwennych bod fel Duw, a thrwy 'r moddion hynny prin y gadawyd

dawyd ſi yn ddyn. Cyn y gellech chwi golli, collwyd chwi oll ynoſi. Nis gwn ni pa 'r un jawnaf a gellwch chwi ſy ngalw i Tad a'i Gormeſdeyrn a Llofrudd. Nid allaf ryfeddu neu jawn achwyn eich bod chwi mor anwireddus, ac mor bechadurus: canys gennifi y dyſgaſoch. Y mae yn ddrwg gennif eich bod chwi mor anufudd: Eithr gennifi y dyſgaſoch chwi hynny hefyd. Myfi a ſum gyntaf yn anufudd i'm Duw a'm gwnaeth. Y mae 'r Angylion yn y Nefoedd yn gwrido ac yn cywilyddio weled eich glothineb ach anardymheruſtwydd: Eithr eich Tad oedd ar y bai am hynny. Eich balchder a'ch gwnaeth chwi yn gas ac yn ffiaidd o flaen Duw: Ond yr anghenfil hwn a'm gorchfygodd innau, ac y orfoleddodd yn gyntaf arnaſi, ac felly aeth balchder yn falchach nag oedd ef o'r blaen. Dymma 'r etifeddiaeth yr ydych yn ei gael gennifi, dim amgen na phenttwr o drueni. Duw yn wir o'i ewyllys da a roddodd yn rhwydd i mi trwy addewid ſicer y nefoedd am etifeddiaeth, ac fe a'i yntacliodd hi arnoch chwi: Eithr feddarfu i mi eich yſpeiliochwi

oll,

oll, torrais ymmaith yr yntael, ac yn afradlon mi a'i gwneuthym hi oddiwrthych am un tammaid. Mi a briſſiais fy ngwraig ag Afal yn fwy na chwi oll, yn fwy na'r nefoedd, yn fwy na Duw. Anedwydd ginniaw melldigedig, am yr hwn i'r haeddais i ſwpperu yn uffern lawer mil o flynyddoedd gwedi hynny. Yr oeddwn yn byw ym *Mharadwys*, gardd yn llawn o bob difyrrwch ac hyfrydwch allan o bob dychymmyg: Duw a roddodd i mi yn rhad fwyniant y pethau oll oedd yno; yn unig ffrwyth un pren oedd yn waharddedig i mi. Yr oeddwn yn Arglwydd y creaduriaid oll, yr oeddwn yn ddoeth ac yn brydweddol, yn gryf ac yn bybyr. Yr oeddwn yn cael fy ngwala o bob math ar ddifyrrwch. Yr oedd yr Awyr mor dymherus ac y gellyt ei dymuno; yr oedd y cymmylau gwedi eu gwiſgo yn loiwlas; yr oedd y Nefoedd yn gwenu arnom; yr oedd yr haul yn tywynnu cyn felyned ag allei fyth fod. Pob peth oedd megis yn gymmwynaſedd i ni yn newydd briodi. Nid allei ein llygaid ni ganfod dim, ond yr hyn fyddei yn brydferth, ac yn rhyngu bodd iddynt; ein

cluſtiau

cluſtiau oedd yn llawn a felyſ-gerdd yn waſtadol; Yr Adar y cantorion hymydr hynny o'r awyr oeddynt yn pwngcio allan yn waſtadol eu caniadau hyfryd. Yr oedd y ddaiar yn dwyn o honi ei hun Sinamwn arogl. ber a ſaffrwm. Yr oeddwm gwedi fy anigylchu o bob tu â hyfrydwch. Yr oeddwn yn tywyn rhydd ac ymmhell oddiwrth bob gofal, Triſtwch, Ofn, Llafur, clefyd a Marwolaeth. Yr oeddwn megis Duw ar y ddaiar. Yr oedd yr Angylion yn llawenychu yn y nefoedd weled fy nedwyddwch: Nid oedd neb yn fy nghenſigennu, ond myfi fy hun. Eithr am na efuddhâis i lais Duw, y drygau hyn oll a ſyrthiodd arnaf. Gyrrwyd fi allan o *Baradwys*, didirwyd fi o olwg Duw, ac o achos cywilydd cuddiais fy wyneb. Llafur, triſtwch, galar ofn, dagrau, blinfyd, a milo afflwyddau a'm goddiweddaſant, ac am blinaſant yn llwyr hollhawl: yr ydych chwi oll yn ymwrando a hyn cynmaint ac ſydd o'm teulu: A'r hyn ſydd yn ymddangos yn ddiben o'r holl afflwydd a'r triſtwch amſerol, yw r dechreuad yn fynych o'r *Tragywyddol*. O fy mhlant, dyſgwch

wrth

wrth eich profiad galarus eich hunain, dyſgwch wrth eich golled eich humain a'm heiddo innau, dyſgwch (meddaf) ſod yn ddoeth o'r diwedd. Ni roddaf i chwi ond un wers, a honno mewn dau air, gwnaech yn dda ei dyſgu ar eich tafod leferydd, yr hyn yw, caſau pechod. Wele oni welwch chwi fflam orthrwm yn torri allan yn fy ymyl? Y mae hi yn lloſgi yn waſtadol er pan ddaeth pechod i'r byd gyntaf, ac nis diffydd byth. Nid yw 'r holl goſpedigaethau eraill ond yſgafn; a byr ddiwedd ſydd iddynt: Eithr y damnedig a boenir yn y fflam hon yn oes oeſoedd. Yr awrhon galliwn os mynnwn ei gochelyd. Y mae y nef yn agored i bawb, eithr nid oes un ddyfodfa iddi, ond trwy 'r ffordd o edifeirwch, a phorth y Groes. Yr hwn a rodia yn y ffordd yma, ac ſydd yn myned i mewn i'r Porth hwn, dichon ſod yn ſicr o'i jechydwriaeth ag o lawenydd *Tragywyddol* yn nheyrnas nefoedd, lle bydd iddo gael trigle *Tragywyddol*. Dyna gyngor *Adda* i'w blant, meddaf, cyngor *Adda* yw.

Yr

Yr hwn gan ſyrthio unwaith,
Y wnaeth ei biant yſywaith;
Yn euog óll o'i ddialedd caeth,
A'i gwymp o fawr yſtyriaeth.

BEN. III.

Y drydydd bennod yma ſydd yn cynhwyſo crewciad y Gigfran.

YN agos at Eſgyrngwlm y Protoplaſt, ſef yr hwn a wnaed ac y lunniwyd gyntaf, neu eſgyrn llymmion y dyn cyntaf a wnaeth Duw, y mae lle 'r Gigfran yn y paentiad: yr hyn ſydd yn helpu llawer ar gynnyrcholi *Tragywyddoldeb* hyd at yr affwys. Ymadrodd hydda wy byddus yw hyn o eiddo St *Auguſtin*, *Cras*, *Cras*, hynny yw, *y foru*, *y foru*, *yw crewciad y Gigfran: Gan bynny galara fel y golommen, a chur dy ddwyfron.* Yr achos pennaf yr wyf yn ei ddeall, pa ham y mae y rhan fwyaf o ddynion yn colli eu rhan a'i cyfran o'r *Tragywyddoldeb* bendigedig, yw, o herwydd nad ydynt yn ei geiſio heddyw; eithr

oedi

oedi ei geiſio tan y foru. Canys pa beth ſydd mor aml a chyſtredinol na'r oediad o edifeirwch tan *y foru, y foru*, O'r hyn Duw a wyr yn bod ni yn an. ſicer pa 'run a wnawn a'i byw i'w weled a'i peidio. Eithr fel na ymddangoſom yn bod ſi yn ei oedi heb ragfwriad teg, gwnawn i Dduw lawer o addewidion teg.

Y foru mae i'm bryd ei wneuthur,
Y foru gwnaſi hynny yn ſiccur:
I't y daeth, ag aeth y fory;
Ac etto arnat wneuthur hynny:
Felly yn waſtad oedi byddant,
O ddydd i ddydd edifeiriant:
Nes i ddydd yr Angeu ddyfod,
Ar llall o farn heb allu ei orfod.

Eithr y mae yr addewid cyhyd yn dyfod, ac y bydd dydd marwolaeth yn fynych yn ei rhagflaenu, ac ni a gippir ymmaith yn ddiſwmmwth, a'llyngcir ni gan *Dragwyddoldeb*: Ac felly gwedi ein taro tros ein pennau yn yr anoddyn, dyrnion greſynus a fyddwn, yn yr anoddyn o erwindeb ac anobaith tragywyddol. Dymma'r peth ſydd yn torri llawer, medd St *Auguſtin*, tra bydd ant yn dywedyd

wedyd, *Cras, Cras, y foru, y foru*, ceuir yn ddiſwmmwth y porth yn eu herbyn hwy: Am hynny i'r amcan hwn y mae Mab *Sirach* yn galw arnom, *Na fydd buyrſrydig i dvoi at yr Arglwydd, ac na oeda o ddydd i ddydd: Oblegid yn ddiſwmmwth y daw digofaint yr Arglwydd, a thra byddych diyn ddifraw i'th ddryllir, a thi a ddiſethir yn amſer dialedd.* Ecclſ. 5.7. Gwir a ddywedodd y Philoſophydd *Seneca* y Rhufeinydd, yr ydym yn treulio rhan fawr o'n hoes yn gwneuthur drwg; y rhan fwyaf heb wneuthur dim; eithr y cwbl yn gwneuthur peth arall yn hytrach na'r hyn a ddylem ei wneuthur: Nid yn annnhebyg i *Archimedes*, yr hwn pan gymmerwyd y Dref Syracuſa, oedd yn eiſtedd yn ddiofal gartref; ac yn tynnu a i gwmpas gylchiadau yn y llwch. Canys oni welwn ninnau y rhan fwyaf o ddynion, pan fo iechydwriaeth *Tragywyddol* eu eneidiau mewn dadl, yn trin eu llwch, ac yn eu ymeſtyn eu hunain i eithaf eu cyrraedd, fel ped fai ar y daintur; a chwedi eu trawſdynnu ag achoſlion cyfraith, materion arian, bydol faſnach, a thraffer-hion ni wnant iddynt ddim lles yn

y

y pen diweddaf? Peth yw *Tragywydd-oldeb* nid ydynt hwy unwaith yn meddwl un amſer am dano, neu onid yw hynny, yn anfynych iawn, a'r pryd hynny ond yn yſgafn a'r gais ag i ffordd, megis y dywedir am gwn a fyddant yn lleppian yn yr afon *Nilus*. *Martha Martha, gofalus, a*
Luc. 10.41. *thrafferthus wyt ynghylch llawer o bethau: Eithr un peth ſydd angenrheidiol*, a hynny yw *Dedwyddyd* neu wynfydedigrwydd: nid hwnnw ſydd ar y ddaiar, yn gyfryw ag ydyw, yr hwn nid yw ond byr er hynny; eithr hwnnw ſydd yn y nefoedd, yr hwn ſydd yn *Dragywyddol*.

Cyn i ni gymmeryd maſnach yn y byd mewn llaw, yn gyſtredinol ni a'i holwn wrth y rheol gydnabyddus ddigon yma, gan ddywedyd, *a dal hi ſy mhoen i? a ynnillaſi ſy mara wrthi?* Oni ddylei dyn Chriſtianus yn hytrach yn y dechreuad o bob gwaith eiſtedd i lawr a dywedyd rhyngddo ag ef ei hun, *A gaſi ynnill y nef wrthi hi? a hyfforddia hi ddim arnaf yn y ffordd i'r Tragywyddoldeb bendigedig?* Nid ydym yn caru trallodi mo'n pennau â'r cyfryw ymoſynnion a'r rhain, yr ydym yn bwrw heibio eu gwran-

gwrandawiad tan amſer arall : yr ydym yn eu hoedi o'r naill amſer i'r llall, ac etto i un arall, ac yn waſtadol i un arall. Ac ar y dydd diweddaf o'r Term caniattawn wrandawiad. (Ynfydion) Or diwedd pan nad allom gymmeryd poen, y pryd hynny yr ydym yn meddwl gyntaf am ddechreu cymmeryd poen. Pan ſo yn rhaid heb amgen i ni ymadael a'r byd hwn, y pryd hynny ni a feddyliwn am y byd arall. Pan nas gallom ni yma fyw yn hwy, dechreuwn y pryd hynny feddwl am y bywyd ſydd i ddyfod. Pan ddarfyddo i awrwydr ein hamſer gerdded oll, meddyliwn y pryd hynny am *Dragywyddoldeb*. Pan na bo amſer gwedi ei adel i edifeirwch, edifarhawn y pryd hynny yn ddioed. Pan ſo'r porth gwedi ei gau, curwn y pryd hynny. A dymma fai y pechaduriaid oll yn gyffred. nol, oedio ddydd i ddydd yn waſtadol eu hedifeirwch. Pared yw pob pechadur i ddywedyd (medd St *Auguſtin*, *nid allif yr awrhon, mi a'i gwnaf amſer arall.* Och! Och! *Os amſer arall, pa ham nad yr awrhon.*

Dionyſius Brenin *Sicili* gwedi iddo ddioſg *Apollo* o'i trethyn aur, a ddywedodd fel hyn, *Nec æſtati, nec hyemi veſtis hæc convenit, nad oedd gymmwys gwiſgo na haf, na gauaf y fâl* rhy drwm oedd ef yr haf, a rhy oer y gauaf. Felly (medd St *Ambros*) y mae llawer yn chwareu â Duw, ac yn ſionmi eu heneidiau eu hunain. Dywedant, buchedded gwr ievange yn ol arfer y byd; yfed a dawnſied; âed i yrfa y rhedeg feirch, ac at y campwyr; rheded â milgwn yn y mae ſydd gyda ei gymdeithion. I't henwyr y mae aros gartref ac nid i ſyflyd o'r ty allan oddieithr i't Eglwys: I wyr ievange buchedd rhy felancholi yw hynny. Eithr pan heneiddiant hwythau, pa beth a wnant hwy y pryd hynny? Y pryd hynny byddant hwythau yn hen ac yn afiachus, yn ddirym ac yn egwan, nid eliwch ddiſgwyl y perthau hynny ganddynt hwythau yn yr oedran hwnnw, ni ddioddefa eu grym iddynt. Nid yw hi gydâ hwy fel y bu o'r blaen; rhaid i chwi roi cennad iddynt hwy gymmeryd eu heſmwythdra; ac i cymmeryd gofal am eu hiechyd: Dyna'r cwbl ſydd iddynt hwy i'w

wneu-

wneuthur. Felhyn yr ydym yn gadel i hâf a gauaf ein hoedran fyned ymmaith; ac byth nid ydym yn nieddwl unwaith am y gwanwyn *Dragywyddol*. Eithr meddyliwn am danom ein hunain, *Ac ira ydym yn cael amſer cyfaddas gwnawn dda*. Eithr na chrewciwn ond hynny gydâ'r Gigfran ddu *Cras, Cras, Y foru, Y foru*, ac felly gadel i *beddyw* ac i *foru*, ac i drannoeth, ac felly i'n bywyd oll fyned ymmaith, ac i *Dragywyddoldeb* ein gorddiwes yn anniſgwyl. Nid *Y foru*, either *Heddyw* yn unig ſydd eiddom ni. Felly y mae St *Jago* yn dywedyd, *Iddo yn awr, y rhai ydych yn dywedyd, heddyw neu foru ni awn i gyfryw ddinas, ac a arhoſwn yno flwyddyn, ac a farchnattawn, ac a ymillwn: y rhai ni wyddoch beth a fydd y foru: Canys beth ydyw eich einioes chwi? Canys tarth ydyw, yr hwn ſydd tros ychydig yn ymddangos, ac wedy hynny yn diflanau.* Atteb da jawn a roes *Meſſodamus* i un a'i gwahoddodd ef i fod drannoeth mewn gwledd (megis y mae ef gwedi ei roi allan gan *Guido Bituricenſis*) ſy nghyfaill, eb efe, *Pa ham yr ydwyt yn fy nghwahodd erbyn y foru, ni laſaſes i er*

Galat. 6.10.

Iago. 4.13, 14.

ys llawer o fynyddoedd ddiogelu mo-no fy hun y cawn fyw un diwrnod; Canys yr oeddwn bob awr yn disgwyl marwolaeth. Nid oes'r un yn gyflawn arfog yn erbyn marwolaeth, ond yr hwn sydd yn barod i'w chroesawu hi bob amser. *Pa beth ynteu yw hyn ond tradewrdeb ac ynfydrwydd, a gorphwyll, ac mewn gwirionedd gwir ddirmyg ar Dragywyddoldeb*, i wr orwedd i lawr mewn esmwythdra ar wely plu i gysgu yn ddiofal tan chwyrnu a chwyrnolad, ac i lettyu gelyn gelyn marwol, sef pechod yn ei fynwes rhyd yr amser? Marwolaethau disymmwth ydynt yn gyffredinol, ac yn arferol o fod yn ein plith ni. Am ba sawl un a clywsom ni son, eu myned yn iach i'w gwelau ddechreunos a wyddei neb, y gafwyd yn farw drannoeth? Ni ddywedaf gwedi eu dwyn ymmaith o'i gwelau, eu taflu i dân uffern; pa'r un a wna hynny a'i bod felly, a'i nad yw, Duw a'i gwyr. Oni welsom, ac oni adwaenom ni rai y darawyd yn ddisymmwth, y syrthiasant yn glaf, ac a fuant feirw mewn yspaid awr? Je o fewn llai nag awr yn iach ac

yn

yn glaf, yn fyw ac yn farw. Ac er hynny yr ydym ni (ddynion ynfyd ac ehud) yn bwrw 'r dydd tros ben o foru i foru (nid yw hynny ddim) yr ydym o flwyddyn i flwyddyn yn oedi ein hedifeirwch, a newydd-deb ein bucheddau, ac ynghanol hynny marwolaeth a'n deil ni yn anniſgwyl, ac a'n traddoda ni i fynu i *Dragywyddoldeb*. St *Auguſtin* yn dywygio ynddo ei hun y cyfryw ymaros, a'r oediad enbydus, y cyfryw hwyrfrydigrwydd, ac annhuedd meddwl ac ewyllys i edifarhau, ſydd yn dywedyd fel hyn, ymwrandewais a chefais fel yr oeddyd yn fynal i ynglyn, a mi adroddais y cyfryw a. lar gwynion a'r rhain? *Pa hyd yr oedaf ac y dywedaf ya waſtadol, y foru, y foru?* Pa ham na ddechreuaf yr awr hon, ie yr wir awr breſennol yma? Pa ham nad wyf yn torri ymmaith fy nhrefn bechadurus, ac yn dechreu gwellhau fy muchedd? felly yllefarais, a daeth wylo arnaf o ran gwir gyſtudd calon.

Antoni fawr (megis y mae St *Hierom* yn tyſtiolaethu) pan fyddei yn cynghori'r bobl i dduwiodeb a rhinwedd dda,

yn arfer o ddymuno arnynt ddal yn eu côf, a myfyrio yn fynych ar yr ymadrodd hon o'eiddo 'r Apostol,
Eph. 4. 26. *Na fachluded yr haul ar eich digofaint chwi.* Ac nid oedd ef yn caethiwo y gwaharddiad hwn yn unig wrth ddigofaint, eithr yr oedd yn ei wneuthur yn gystredinol; na fachluded yr haul ar eich digofaint, neu ar eich eas malais, cenfigen, trachwant neu neb ryw bechod arall; rhag iddo ymadel â chwi megis tyst i'ch herbyn.

Rhyw ymrafael oedd rhwng *Joan Padriarch Alexandria* ac un *Nicetas*, Pennaeth o'r ddinas honno. Y matter oedd i'w deimlo wrth y gyfraith. *Joan* oedd tros y tlawd, *Nicetas* tros ei arian. Eithr er mwyn heddwch fe appwyntiwyd ymgyfarfod dirgel a gwrandawiad, i edrych a ddoent hwy i ryw gyttundeb. Cyfarfod a wnaethant, syrthiasant i siarad, daliasant witho yn frwd iawn; dangoswyd o'r ddeutu lawer iawn o lidnaws a dewrder: ni ymroe 'r un ronyn, ni ymadawei 'run fodfedd o'i gysiawnder. Ymrafael mawr oedd rhyngddynt, llawer o arian y dreuliasant i ychydig bwrpas:

pas: O'r diweddd hwy aethant ymmhellach oddiwrth gyttundeb nac oeddynt o'r blaen: Canys ni ymroe 'r un i'r ammodau a roe y llall. Gadewch iddo, hi a hwyrhaodd, hwythau ymadawsant yn galon ddiccach ac yn anfodlonach i'w gilydd nâg oeddynt hwy ar y cyntaf, ac felly gadel yr achos y wnaethant i ymddibennu. *Nicetas* oedd yn ystyried hyn yn fatter tost iddo ymadel a'i arian, a'r *Padriarch* yntef oedd yn gweled ei fod ar yr jawn, ac mai dal allan yr oedd ef yn achos Duw a'r tlawd. Ond er hynny pan aeth *Nicetas* ymmaith, yr *Esgob daionus* a ystyriodd y matter rhyngddo ag efe ei hun yn well: ac a anghanmolodd ei hun am ei gyndynrwydd, ac er i fôd ef ar achos da, ac yn gwybod hynny hefyd, er hynny efe a ddywedodd; a feddyliai y rhyngir bôdd Duw yn dda â'r llidiowgrwydd annyhuddol, a'r anllywodraethus dynder hwn? Y mae 'r nos yn nesau: Ac a adawaf i'r haul fachludo ar fy nigofaint? anwireddus yw hynny, ac nid yn ol cyngor yr Apostol. Felly nid allei y Prelad daionus fôd yn esmwyth nis danfon o honaw at *Ni-*

cetas: Am hynny danfonodd allan o law genadon cymmeradwy iawn, gan roddi iddynt y gorchymmyn hwn, na ddywedent wrtho ddim ond hyn yma yn unig, *Syr y mae 'r baul yn ymachludo.* Ar wrandawiad y gennadwri hon, gweithiwyd yn ddi attreg y cyfryw gyfnewid yn *Nicetas*, ac y llareiddiodd ei ddewrder mawr ef yn y man, dechreuodd ymddattod, gwelid eu lygaid ef yn llenwi yn llawn o ddagrau, ac yn cael ei lawnſwydd yn eu cadw hwy i mewn. *Rhe*. dodd allan yn ddioed ar ol y cennadon (canys myned ar frys yr oedd ef i ſiarad ar *Padriarch*) ar ei ddyfodiad atto ef, mewn dull oſtyngedig efe a gyfarchodd well iddo fel hyn, *Y Tâd parchedig cewch fy rheoli yn hyn yma; ac mewn pob peth arall.* Y *Padriarch* ar hyn a wnaeth iddo iawn groeſaw: felly coſleidiaſant eu gilydd yn garedig iawn, a phriſiaſant yn gyfeillion addwynion. Yn ddiammeu mawr oedd rinwedd, a phryſur oedd weithrediad yr ychydig eiriau hyn, *Y mae 'r haul yn ymachludo*: Canys ar y gwrandawiad o hyn yma y gwnaed yn ddioed heddwch rhyngddynt; yr hwn a geiſiaſyt o'r blaen

a

a lliaws o eiriau; eithr nid ellyd ei wneuthur. Gwna dithau felly, pwy bynnag wyt ti, ac ſydd yn cydnabod dy fod yn euog o neb ryw bechod gorthrwm, onid cyn hynny tu ag at y prydnhawn o'r eithaf galw i'th gof y geiriau nerthol hyn, *Y mae 'r haul yn ymachludo.* Canys pa fodd a gwyddoſt ti, pa 'r un a wnei di, a'i codi drachefn gyd a 'r haul, a'i nas gwnei? Ac os dy di a fyddi farw o fewn y nos heb edifeirwch, dadl yw ym mha *Dragywyddoldeb* y bydd dy ran, pa 'r un a'i o'r bendigedig, neu a'i o'r melldigedig. Gan hynny gwna yn fuan yr hyn ſydd i't i'w wneuthur, *Y mae 'r haul yn ymachludo.* Eithr cymmer ofal, na ymachludo ar dy drachwant neu dy ryfedd, cenfigen neu gabledd, abſennair neu ladrad, neu ar ryw bechod gorthrwm arall heb edifarhau o'i herwydd. Duw daionus! pa beth yw hyn yma? os bydd ond amliw mewn gwiſg, brych mewn wyneb, ticcyn o amliw mewn cap, yn ddioed arferwn ryw fodd i'w gael oddi yno, neu i'w olchi ymaith. Ydyw yr rhain mor ddolurus a hynny i'n llygaid ni?

Ac ydym ni ynom ein hunain mor ddeillion, fel nad allwn weled ein haml lygredigaethau a'n haflendid, Neu ydym ni yn eu gweled ac yn eu goddef. A allwn ni eu goddef, ac ne byddo flin gennem ni hwy? ydym hwy yn ein blino ni, ac er hynny yn ceisio moddion yn y byd i'w glanhau, ac i'w carthu hwy ymmaith. Pan ddwynir ni un amser âg am liw pechod, ni a ddylem yn ddioed lafurio i'w gael ef ymmaith. Pan gyn. taf ei gwneir, gwell a haws yw. Am hynny medd *St Ambros* ni a ddylem fod yn ofalus am ed. farhau: Eithr nid hynny nio'r cwbl; hefyd rhaid i'n hedifeirwch ni fod a'r frys; rag ofn i'r llafurwr nefol yn yr Efengyl, y blannodd y ffigysbren yn ei winllan, ddyfod i geisio ffrwyth arno, ac heb gael dim; iddo fe ddywedyd wrth y gwinllannudd: *Tor ef i lawr.* Os rhoir y farn unwaith, nid oes un modd i ochelyd y dyrnod anghenol: y mae yn rhaid ei dorri ef i lawr. Gan hynny o's cawn ni unwaith ein hunain yn friwedig gan bechod, edrychwn am help mewn amser. Yr anifeiliaid direswm a dysg i ni gymmaint a hynny o ragweliad, yr

rhai

rhai nid oes ganddynt ddim deall. Ceirw *Candi*, cyn gynted ag a tarewir hwy, a redant yn ddioed at eu dittani: Y Gwennoliaid i iachau dallineb llygaid eu rhai ievenge, ehedant i gyrchu eu llyſſiau eu hun, ſef llyſſiau 'r wennol neu llym y llygaid: y ci pan fyddo yn glaf, a bryſura at ei welltglas i gaffael cyfog: Y llyſſiant du yn ymladd a'r Pryfcoppyn, cyn gynted ag a clywo efei hun yn dechreu chwyddo, ymluſga at ei erllyriad neu lydan y ffordd, ac felly adferir ef, Yr rhain drwy gael yſprydoliaeth natur, ynt yn adnabod eu meddyginniaeth priodol eu hunain, Ac a wnant ddadrediad atynt yn ddioed ar bob achoſſion. Eithr ni ddynion truain greſynus, diddeall, anrheſwmmolach na'r anifeiliaid, gan weled ein bod yn cael ein clwyfo bob dydd gan bechod, a hynny lawer gwaith i farwolaeth ni ymofynnwn er hynny i gyd am byſygwrriaeth i iachau ein clefydau yſprydol. Ni a arferwn yr un bwyd a'r ddiod, ac y byddem ni gynnefin o'i harfer; ni a fiaradwn mor hydraethus, ac mor arabeddus ac y buom ni creu erioed; ni a awn i'n gwelau ar ein hawr cynnefinol:

neſinol: a chyſgwn yn ol ein hen ſefur. Eithr Eidfeirwch ydyw 'r Pyſygwtriaeth, yr hwn ſydd yn wrthwynebus i'n cylla ni, ei Gyſtudd ef ſydd yn ein clwyfo ni hyd at y galon, y mae ei Gyfaddefiad ef i'w glywed yn chwerw yn ein geneuau: Gwell gennem ni yn hyttrach aros yn glâf, na'n jachau trwy hynny. Dyna ein cyflwr grefynus ni: yr ydym mor ynfyd a hynny, ac yn wag o ddalldwriaeth, naill a'i nid yn adnabod, neu o'r lleiaf nid yn coſteidio yr hyn a weithiau allan ein daioni *Tragywyddol*.

Pa cluſt-ymwrandawem ni â chyngor yr *Angylion* nefol, y thai ſydd yn ymddangos yn y paentiad yn ol y portreiad, eu bod yn rho i ni gyfarwyddyd, ac maent hwy mewn gwirionedd gwedi eu appwyntio gan Dduw megis yn yſprydion gwaſanaethgar ar ein lles ni: Pettem ni, meddaf, yn cluſt-ymwrando a'i cyngor hwy, yn ddiammeu ni adawem ni y pryd hynny, nac i'n llygaid gyſgu, nac i'n amrantau huno, nac chwaith i'n arleiſiau gymmeryd dim eſmwithdra tan na wneid ein heddwch a'n cymmod ni a Duw. Y maent hwy yn co-

ſio

fio i ni yn wastadol fod ein diwrnod ni agos a darfod, fôd y nôs yn nesâu, fod ein hawr-wydr ymmron rhedeg i gyd, fôd marwolaeth ger llaw, a bod barn ar ôl marwolaeth yn dyfod: Eithr rhodio yn ddiofal yr ydym ni yn ein hên ffyrdd: Gadel i'r diwrnod ddarfod, gadel i'r awrwydr redeg i gyd; doed marwolaeth; canllyned barn; ni thrallodir monom ni o'i herwydd; nid ydym yn gofalu, nid ydym yn prisio, ni wasanaetha ein tro ni un rhybudd o eiddo 'r Angylion.

"Melus jawn yr ym yn huno,
"Heb freuddwydio byth am dano.

Annedwydd ddyn pwy bynnag wyt ti!

—*Potes hoc sub casu ducere somnum?*

"Ac a fedri di gael cysgu
"Yn y cyfryw gyflwr oer ddu?

A fedri di mor llwythog a hyn o bechodau fyned i'th wely? A fedri di pan orweddych ym mherigl marwolaeth *Dragywyddol* gymmeryd dy esmwythdra? A fedri di orwedd yn yr un gwely a brawd marwolaeth, a'i groesawu ef, sef cwsg i'th fynwes? Medraf, yr ydwyf yn dywedyd i ti, y medrafi hynny, ac nid ydwyf yn cael niweid yn y byd o'i herwydd.

Na

Na fydd ry ymddiriedus: Dichon ddigwyddo mewn un awr, y: hyn ni ddigwydda mewn mil. Nid ydwyt ti allan o berigl: Canys os yſtyri rhyngot a'th di dy hun pa amſer ſydd i't i fyw; nid oes nemmawr o ffordd rhwng dy enaid a marwolaeth, uffern a *Thragwyddoldeb*. Mewn chwyth yr a ei ymmaith. Gelli yn ddigon gwir ddwedyd, yr wyfi bob awr o fewn un cam at farwolaeth, o fewn un droedfedd, ie o fewn un fodfedd: Nid rhaid i angeu warrio ei holl gawell ſaethau arnat ti: un ſaeth, ie, pen un ſaeth, a'th archolla hyd at y galon, ac a wna y cyfryw friw genau-rwth, mal y rhed allan ar unwaith yn ddioed, y gwaed, a'r yſpry. dion, a'r bywyd, ar cwbl, Naill a'i yr wyt ti yn byw tan awyr lygredig fawrddrygiog, neu onid yw hynny y mae dy frll, drwyddau yn dy ſlino, yn ſyrthio oddi wrth dy ben ar dy yſgyfaint: Neu onid yw hynny, y mae rhyw warchau ar y gwithi, neu ar yr afu: Neu onid yw hynny y mae tag ar yſprydion y bywyd: Neu onid yw hynny y mae gwaith y rhedweli yn cuo gwedi eu ragflaenu: Neu onid yw hynny y mae 'r yſprydion bywiol

wiol yn rhedeg yn ol i'w ffynhonnell, ac yno naill a'i maent yn rhewi i farwolaeth, neu onid yw hynny, yn boddi. Pryfuro yr wyt ti ryw ffordd neu eu gilydd tu a diweddfa dy fer yrfa: Ac yn ddiattreg nid ydwyt ond gwr marw gwedi dy ddwyn ymmaith i *Dragywyddoldeb* mewn troad llygad; cynygellit fyfyrio neu feddwl am hynny. Y mae mil o ffyrdd i ddyfod a dyn i'w ddiwedd, ni fonniaf am farwolaethau nychlyd, o flaen yr rhain rhyw rybudd a ddawr: Ond am farwolaethau difymmwth y rhai ynt yn ein dyfyn, ac yn ein dal, ac yn ein dwyn ni ymmaith oll mewn moment. *Y mae ef yn marw yn ddifymmwth yr hwn fydd yn marw yn amharod.* Nid yw hi farwolaeth ddifymmwth os hi a ragwelir ac a ddifgwylir bob amfer. Honno yw'r farwolaeth ddifymmgth, yr hon ni fwriadwyd ym mlaenllaw, ar farwolaeth ni fwriadwyd ym mlaenllaw yw'r waethaf o'r marwolaethau oll. A Duw a'n gwaredo ni oddiwrth y cyfryw farwolaeth ddifymmwth a honno. Cyngor da i bawb yw hyn bydded un o'r oedran a fynno; Canys ni ragorfraintir oedran yn y hyd; mwy na'i gilydd; y mae commiſſiwn, gan

angeu a gyrraedd bob mangre yn gy-
ffredinol, y bobloedd, a'r oeſau, nid
oes yr un gwedi eu dieithro. Gan
hynny, meddaf, cyngor da ydyw i bob
dyn bob amſer, ac ym mhob mangre,
ac ym mhob cwmpeini ddiſgwyl mar-
wolaeth, ac i dybied pob diwrnod,
ie pob awr yn ddiweddaf iddo. Yno
bydded iddo farw pan fynno Duw, ni
bydd iddo farw yn ddiſymmwth. Pa
fawl gwr a glywſom ni ſon am dano,
ddiffoddyd o'i ganwyll ef yn ddiſym-
mwth, ac y ddifuddiwyd o'i fywyd,
naill a'i trwy godwm, neu gebyſtr, neu
wenwyn, neu gleddyf, neu dân, neu
ddwfr, neu balfau llewod, neu ddan-
nedd baeddod, neu garnau meirch, a
mil o ffyrdd gyd a rhain: Cymmaint
ag a feddom ni o ſynhwyrau (y nifer
hwnnw nid yw ddim) Cymmaint
ac ſydd o rannau ac o aelodau i ni
(ac etto nid yw hynny ddim) cym-
maint ac ſydd o chwyſ-dyllau ym
mhob rhan o'n cyrph ni ai cyſſylltu
ynghyd, cymmaint a hynny o ſtene-
ſtri ſydd i farwolaeth i ymluſgo i
mewn iddynt, i ddyfod yn lladra-
dedd arnom, ac i dorri yn ddi-
ſymmwth withi ein gwaed ni. Ga-

nwyd

mwyd di (medd St *Auguſtin*) *bynny ſydd ſiccr: Canys di gei farw yn ſiccr. Ac o van bod dy farwolaeth yn ſiccr: y mae'r dydd heſyd o'th farwolaeth yn anſiccr.* Nid oes yr un o honom yn gwybod mor agos yr ydym yn dineſu at ein diwedd. *Nis gwn i* (medd *Job*) *pa hyd a caſi fyw, a pha gynted y dichon ſy ngwneuthurwr ſy nghymmeryd i ymmaith,* neu (megis y mae ein cyfieithiad ni) *Ni fedraf wenieithio, pe gwnawn hyn i'm cymmerei ſy ngwneuthurwr ymmaith.* Yr ydym ni ynghanol ein bywyd yn agos at angeu: Canys yn ein mynweſau yr ydym ni yn ei ddwyn ef bob amſer: A phwy a feidr ddywedyd pa'r un a wna ef a'i byw tan prydnhawn a'i nas gwna. Y mae gan y llofiudd a'r lleidr-ddyn hwn (canys felly yr wyfi yn galw angeu) fil o ffyrdd i'n niweidio ni, megis trwy daranau a mellt, yſtormiau a thymmheſtloedd, tân a dwfr &c. Y mae ganddo bob math ar offerau diſtryw; Megis Gynnau, Bwau, Saethau, Taſſffyn, Gwaiwffyn, Piccellau, Cleddyfau, pa fath nid oes: Nid rhaid i ni am eſamplau o farwolaethau diſymmwth, ſod yn

Iob. 32.22

yn rhwymedig i'r oeſau gynt: Och! mae gennem ynein dyddiau ni ormod Oni adnabuom ni lawer yn ymrodd eu hunain i lawr i gyſgu, y ſyrthiaſant yn y fath drwmgwſg, lle mal na weddynt i'w deffroi dracheſn, nis iddynt glywed ſain yr udcorn ar y dydd diweddaf? Ni ddenfyn Angeu gennad bob amſer o'i flaen i rybuddio ei fod ef yn dyfod, eithr dyfod a wna fe yn fynych yn ddirybudd arnom yn lladradedd; ac efe a'n cymmer ni fel y caffo fe ni, pa'r un bynnag a'i yn barod a'i yn ammharod.

Matth 25.13. *Gwiliwch gan hynny am na wyddoch na'r dydd na'r awr.* Y mae yn uffern yn ficcr fath a'r edifeirwch; eithr nid yw nag yn wir, na chwaith nid yw yn gwneuthur dim lles un amſer: Canys fe a'i cyſylltwyd a thragywyddol a dirboenus erwyndod ac anobaith. *Yn awr*, yn awr y mae'r amſer cymmeradwy o edifeirwch,

Hebr. 3.13. yn awr *tra gelwir hi hyddyw. Dygwch*

Matth. 3.8. *gan hynny ffrwythau addas i edifeirwch.* Y *mae y nos yn dyfod*, *Pan na*

Ioan. 9 4. *ddichon neb weithio.* Gweithiwch tra bo hi yn ddydd. Y ddydd (medd *Origen*) yw amſer y bywyd hwn: yr hyn a ddichon ymddangos i ni yn

hir:

hir: eithr mewn gwirionedd nid yw ef ond byr iawn, os cymmharir ef a *Thragywyddoldeb.* Ac ar ol y byrddydd yma o'n bywyd preſennol hwn, y dydd o *Dragywyddoldeb* a fydd yn canlyn; O ddyn! pwy bynnag wyt, meddwl am y pethau hyn: Eithr dy di yn hyſpyſol, pwy bynnag wyt ac ſydd yn cael dy hûn yn euog oneb ryw bechod gorthrwm: Edifarha ac ymadnewydda; Cofia *Dragywyddoldeb*, a meddwl am ddydd marwolaeth. Y mae yn anſicer ym mha fan y mae marwolaeth yn dy ddiſgwyl: Gan hynny diſgwyl di ym mhob man farwolaeth. Megis ag a caffo'r Arglwydd di pan alwo am danat, felly hefyd rhydd ef farn arnat.

Yr wythfed ystyriaeth
AR
Dragywyddoldeb.

Sydd yn hyspysu pa fodd y dylei Christionogion nid yn unig edrych ar luniau a phaentiadau Tragywyddoldeb, eithr dyfod adref ac edrych o'i mewn eu hunain a myfyrio yn ddifrifol ar y peth ei hun.

TRefn sydd yn gofyn bellach, gan yn bod ni yn gadel y *Psalmudd* a'r lleill y rhai y bortreiasant i ni *Dragywyddoldeb*, y dylem ni ddisgyn i ni ein hunain, dal gartref ac aros i mewn. Y mae ef ym mhell oddi cartref oddi wrtho ei hun, ac

ac oddi wrth ei iechydwriaeth, pwy bynnag sydd ai lygad ar yr hyn sydd drangcedig yn unig; ac yn anghofio yr hyn sydd *Dragywyddol.*

Gwyr y gyfraith a wyddant yn ddigon da na ollwng gwr ymmaith ei gyfiawnder a'i glaim, er na bo ond matter tair dimmai, os tragywyddoldeb y fydd, ac i'w dalu byth bob blwyddyn. Ie os y gwr a fydd yn rhwym i dalu pettei ond tair ffyrling bob blwydyn i'w Feistr tir tra parhao 'r byd, efe a'i gwelei yn ardreth mawr. Y mae *Tragywyddoldeb* yn y fath gyfrif a hynny, mewn pethau ni thal fawr, pettei ond tair puppuren. Os ydwyt ti mor daer ac mor awchus yn canlyn am dy gyfiawnder o dair dimmai; pa fodd y mae yn digwyddo, ô ddyn, dy fod mor esceulus, ac mor ddiofal yn yr ynigais am yr etifeddiaeth o Deyrnas *Tragywyddol*, yr hon a gair wrth bwrcas ychydig flynyddoedd? Syrthio yr wyt ti allan a'th frawd am dair dimmai, yr wyt ti yn myned i'r gyfraith ag ef, di a wnei o honaw hir gynghaws; ynghyfrwng hynny yr wyt ti yn gadel i rai eraill ddwyn

ymmaith

ymmaith yr ewfeddiaeth o Deyrnas nefoedd. Pa beth yw 'r achos? Ydyw hi mor iſel ei phris? Oni thal hi edrych am dani? Y mae yn debyg, dy fod di yn meddwl felly, ac oni bai hynny di a lafurit fwy am dani, nac yr ydwyt. Di ymdraferthi lawer am pethau eraill, di a feddyli bob poen yn ddigon bychan, ni ſlini di byth yn ymgais am dani nt: Eithr am *Dragywyddoldeb*, yr wyt yn meddwl ei fod ef ymmhell iawn oddi wrthit, ac am hynny prin yr wyt ti yn cael cymmaint a hyny o hamdden un amſer ac i feddwl am dano; neu os ar ryw amſer y byddi yn cael hamdden, y pryd hwnnw ni bydd gennit ewyllys yn y byd i hynny. Och! Peth gofidus a blinedig iawn yw bod yn edrych am y peth nid ellir edrych am dano yma byth yn hollawl. Pwy a gythryblïei ei ben, ac y ſlinai ei feddwl yn ei gylch ef? Am bethau preſennol yr ydym ni oll: Rhowch i ni y meddiant preſennol, dyna 'r peth yr ydym ni yn ei ddeiſyfu, dyna 'r peth yr ydym ni yn ymhyfrydu ynddo; y mae hynny yn beth bodlonrwydd.

Gwelwch ein ſfolineb a'n diffyg

pwyll!

pwyll! Pa ddallineb yw hwn, nes yn hyttrach onid ynfydrwydd yw, edrych am ficcrwydd lle nad oes yr un: ac nid i edrych am dano lle byddo un amser? Mewn masnach ynghylch ein hamserol a'n hanficcr olud ni a hoffwn fod yn ficcr, nis fynnwn ficcrwydd da, yr hyn sydd er hynny (a bwrw i'r goreu) yn anficcr jawn: Eithr yr ydym ni ynghylch *Tragywyddol* a ficcr olud yn gwneuthur ein hunain mor ddiogel, ac nad ydym yn edrych am ficcrwydd yn y byd; yr ydym mor ddiofal, nad ydym yn edrych am ddiogelwch yn y byd, yr hyn a allem ni er hynny ei gael pes mynnem yn gystadl ac y gellit ei ddymuno. A rydd neb fenthyg arian heb na bil na band, neu wystl? Y mae hyn yn ddiattreg gan bob dyn yn ei safn, da gennif fod yn ficcr; yr wyfi yn deisyfu ficcrwydd da; Rhaid i mi fyned yn ddienbyd ynghylch y gwaith; mi roddaf mo'r matter mewn enbydrwydd. Y perthau presennol a ficcr, pan elom ni i'w pwyso, fyddant bob amser yn drymmach nac anficcr bethau, a phethau i ddyfod. Gwell, meddwn ni, yw (megis y mae 'r ddi-

harch

hareb yn myned) un adeiyn mewn llaw na dau yn y coed: A gwell gennifi weled dryw yn yr adardy nag Eryr yn yr awyr. Yr ydym o'r un meddwl ag yr oedd *Plautus*, dwyn yr ydym ein llygaid yn ein dwylo: Ac ni chredwn ni ddim ond y welom. Pa ddynion ynfyd a difynwyr ydym ni, fôd yn ymgais am ficcrwydd o'r cyfryw bethau ac ynt fwyaf anficcr, yr rhai fydd yn fionmi fwyaf; pan fo'm ni yn tybied ein hunain o honynt ficcraf; yr rhai ynt yn gwneuthur adenydd iddynt eu hunain, ac yn hedeg ymmaith, tra bo'm ni yn tybied eu bôd hwynt yn ficcr ddigon yn ein dwylo. Eithr gwybydded pob dyn Chriſtianus, pa ficcrwydd a rhwymedigaeth a rydd Chriſt Brenin y Nefoedd, pa ficcrwydd, meddaf, a rydd Chriſt o fywyd *Tragywyddol* i rheini oll y ymrwymmant mewn band o gyflawniad cyfanmodau: *Ond os ewyllyſi fyned i mewn i'r bywyd; cadw 'r gorchymynion.* Cyfamnod y rhwymmedgaeth hon fydd fel hyn, mai os cedwi di 'r gorchymynion, di a gei fyned i mewn i'r bywyd, y bywyd *Tragywyddol.* Eithr os dy di a dyri *Matth.* 19.17.

y gorchymynion, yn gymmaint a'th fôd di yn eu torri hwy, y mae y rhwymmedigaeth hon ar hynny fyned yn ofer ac yn ddiffrwyth. Canys pwy bynnag a derro un o'r gorchymynion hyn, ac a oedo ei edifeirwch, ac na byddo yn yr unrhyw awr ac y darfu iddo bechu, yn ceisio cymmod a heddwch gan Dduw, y hwn a anfoddhâodd ef: Y mae efe mewn perigl o'i-golli ei hun a'i cwbl a fedd, ac yn anturio yn amlwg *Dragywyddol* iechydwriaeth ei enaid a'i gorph. Nid oes ond lled trio, neu yn hytrach ond modfedd rhyngddo ef â marwolaeth. Canys y mae ganddo ynddo gymmaint a mil o ddolurriau, ac achosion marwolaeth: Ac er hynny efe ddyn ynfyd chuda barhâa yn ffol ddiarfwyd i aros yn wastadol ynghyflwr damnedigaeth; yn yr hwn gyflwr o rhyngeu bodd i Dduw yn ddiffymmwth ei gymmeryd ef ymmaith, efe fyddei mewn perigl o ddarfod am dano yn dragywyddol. Onid peth ynfyd a rhyfygus ydyw, i wr anturio cymmaint ag a fedd ar un ergid, a rhoi 'r golled am *Dragywyddol* olud mewn enbydrwydd, pan allei eu cadw hwynt yn hawdd.

Pe

Pe byddei i ddyn ddioddef yn uffern ond cymmaint a hynny o arteithiau ac y bu ef fyw o orriau, neu ond cymmaint a hynny o arteithiau ac y wnaeth ef o bechodau yn oi holl fywyd: Gallei hynny o ryw faint ymddangos yn fwy dioddefadwy. Pa byddei hynny felly, y byddei yn uffern ryw fâth ddiben ar boenau, ar ol darfod rhyw nifer arbennig o flynyddoedd; ni wnae dynion holl ddyddiau eu bywyd ddiben yn y byd ar bechu: Fe gynnyddei gelynnion Duw fwy fwy bob dydd. Canys er eu bod yn gwybod fod yr arteithiau yn uffern yn gymmaint a hynny o nifer mal nas gellir eu cyfrif; cyhyd o ran parhâad, nas gwyddir eu niedr; mor ofidus o ran cynneddf, nas gellir eu dioddef, ond a chyfryw boen anfeidrol, ac y byddo pob munud awr i'w gweled yn flwyddyn gyfan: er hynny nid ydys yn tarfu dim ar ddynion oddi wrth bechod; Eithr rhodio ymmlaen yn hyf y maent, neu yn hytrach, rhedeg y maent yn wyllg eu pennau i'w dinistr eu hunain.

Ped fai'r holl boenau ar ellyt eu thoi, neu eu dychymmyg, gwedi eu

pentyrru ynghyd am ben dyn tu
gant o flyn yddoedd tunty: Nichyrha
ddent o lawer gospedigaethau uffe
tros un flwyddyn, ac etto tros un a
Yrholl gospedigaethau y mae lladr
yspeiliwyr, llofruddion, drwg weith
dwyr yn eu dioddef, er eu bod yn b
enus tros amser, er hynny darfydd
yn fuan, a dibennant mewn trid
neu bedwar, neu o'r mwyaf me
cylch wythnos: Eithr nid tres fl
ddyn, heu oes y mae poenau 'r da
nedig, eithr yn oes oesoedd. D
a'i cospa hwy yn wastadol, oble
nas dichon ef gospi digon arny
un amser, er iddo eu cospi hwy t
holl *Dragywyddoldeb.*

BEN

BEN. I.

Y hennod gyntaf yma ſydd yn dangos, nad yw Tragywyddoldeb *yn torri ymmaith bob cyſſur ac eſmwythdra yn unig, cithr pob gobaith yn unwedd hefyd.*

GEnnym ni y mae gobaith am ein cyſſurwr ym mhob blinfyd a chaledi yn y bywyd hwn: Yr hon ſydd a rhinwedd arbennig arni i liniaru ac i doli y poenau a'r gofidiau oll. A Duw y rhan fynychaf o'i fawr drugaredd ſydd yn gadel i ddyn yn waſtadol beth gobaith o borth a chynhorthwy ym mhob adfydwch. Tra bo 'r gwr claf *yn ſyw, y mae ef yn byw mewn gobaith* yn waſtadol. Eithr gwedi i'r bywyd hwn ddibennu, nid oes yn ymaros i'r damnedig ond hynny, obaith yn y byd o gyſſur. Gobaith, y cyſſurwr olaf o'r cwbi a hed ymmaith, ac anobaith *Tragywyddol* a gymmer afael arnynt. Y mae 'r Prophwyd *Daniel* yn ſon am Angel yn dyfod i lawr o'r nefoedd ac yn dywedyd,

Dan. 4.23. *Torrwch y pren a dinistriwch ef, ysc-*
thrwch ei wrysc ef, escydwch ei ddai
ef, gwascerwch ei ffrwyth. Er hynn
gadewch foncyff ei wraidd ef yn y ddai-
ar. Medd St *Ambros* ar y geiria
hun, y dail a'r ffrwyth a escydwy
ymmaith, eithr gadawyd y gwraidd
hynny yw, difyrrwch a gymmerwy
oddi wrthynvni yma, a chospedigae
thau a roddwyd arnom ni; ond e
hynny ni chymmerwyd gobaith odd
wrthym ni. Wele gadawyd y gwraidd
gadawyd gobaith, nid oes y
Mala. 4.1. uffern iddi le i wreiddio. *Wele*
dydd sydd yn dyfod, Medd y Prophwy
Malachi, a'i llysc hwynt, Medd Ar-
glwydd y lluoedd, fel nas gadawo i
ddynt na gwreiddyn na changen. B
Iob. 19. 10. *Job* gan alaru sydd yn dywedyd, T
ydwyf yn myned ymmaith; ac efe a sym-
mudodd fy ngobaith fel pren. Go
Diha. 10.28. *baith y drygionus a ddersydd am dan*
felly y mae *Solomon* yn dywedyd
Gan hynny tra bo i obaith amfer
lle, bydded gennym obaith; eithr go
beithiwn am y cyfryw bethau ac
dylem ni. Y mae 'r pethau daiar
ôll yn ofer ac yn ansiccr: Y Bard
digred sydd yn dywedyd i ni gym
maint a hynny yn y wawd hon.

Omni

Omnia ſunt hominum tenui pendentia filo,
Et ſubito caſu quæ valuere ruunt.

"Holl ddynol bethau ynt o hyd
Wrth edau fain ynghrog ynghyd:
" A'r hyn ſy 'n ſefyll yn gadarnaf
Sy 'n adfeilio yma yn gyntaf.

Gan hynny nid oes i ni gyfleu no'n gobaith, hyder, na'n ymddiried yn y cyfryw bethau. St *Bernard* ſydd yn dangos i ni ffordd well yn y geiriau hyn, y mae ffydd yn dywedyd, ddarfod i Dduw ddarparu i'r ffyddloniaid fawr ac anealladwy bethau daionus: Ac y mae gobaith yn dywedyd, ddarfod iddi hithau eu rhagadw hwynt a'i gofod o'r neilldu i ni: Ac yn y trydydd le y mae cariad perffaith hithau yn dywedyd, yr wyfi yn prvſuro, ac yn tybied hynny yn hir hyd oni ddelwyf attynt. Y mae gwir obaith, (megis ac y mae St *Gregori* yn gwirio,) yn cyffroi y galon i feddwl am *Dragywyddoldeb*, ac yn cymmeryd ymmaith yr ymwrandawiad a'r gwrthwynebion o'r u allan oll, a'r trallodau. Y mae

gwir obaith yn gwneuthur i ni ddeall nad yw 'r pethau bydol oll ond ofer, ond ychydig, ond tros funud. Eithr oh funud hwnnw ar yr hwn y mae y *Tragywyddoldeb* oll yn ymddibennu? Y dydd o farwolaeth, ac awr yr enbyd olaf, yn briodol yw 'r munud hwnnw, a'r tlws gwerthfawr hwnnw, i brynu yr hwn y gwerthodd y Marsiandwr call y cwbl agy feddai. Eithr ychydig a wyddan pa beth a dâl y tlws hwn. Y mae pawb (medd St *Hierom*) yn ddiofal am jechydwriaeth *Tragywyddol*. Eithr pa beth yw yr rheswm fod dynion mor ddiofal mewn perth o gymmaint pwys a hwnnw? Ni ddynion truain! llygaid lleſc gweiniaid ſydd yn cu blino; Ni a welwn yn agos gellaw yn ddigon da, ond ni fedrwn ni ganfod o hirbell agos ddim. Eithr nid ydwyf yn ſon am y cyfryw a ynt gwedi myned i oedran gwyr, neu 'r cyfryw ac ynt henafgwyr. Bechgyn a genethod pan font yn newydd ddyfod o'i crud, o flaen ido ynt fagu eu holl ddannedd, a ddyſgant yr egwyddorion o ddrygioni yn y man, hwy a ddrewant eu byſedd â budreddi cybydd-dod; ac yn mhen

mhen ychydig ar ol hynny chwant aniwall a fydd ganddynt i gyfoeth: hwy a ddysgant wneuthur marchnadon da iddynt eu hunain; os tarawant with geiniogwerth dda, hwy a gymmerant afael ynddi yn y man; eu dwylo a fydd yn eu pyrsau yn ddiattreg, naill a'i yn rhoi allan, o ran elw, neu yn derbyn i mewn elw; hwy a wyddant pa fodd i wneuthur y mwyniant a'r fantais oreu o'i harian; hwy a fynnant wybodaeth yn nirgeledigaethau amryw grefft; hwy a fyddant yn fon am farfiandiaeth; hwy a ddysgant yn dda ddifarnu gwinedd; hwy a ddywedant pa fut a pha dorriad fydd ar ddillad mewn arfer o'r tu hwynt i'r mor: *Juvenal* y bardd yn ei wawd ddychan a roes i'r rhain ffiangell er ysdyddiau.

Hyn a ddysg gwrachiod yma
I blant pan font yn sychain gynta;
A genethod a'i dysg o ddifri
Yn berwydd o flaen eu ABC.
Ac oddi yma deora,
Pob camwedd cosia.

Oddi yma y mae ein hanwybodaeth ddirfawr ni, a'n hangof am bethau *Tragywyddol* yn tarddu. Jevangc a hên, pawb ſydd yn trabriſio eu harian: Eithr am y Nef, a *Thragywyddoldeb*, nis gwyddant hwy, ac ni ddeallant ychwaith mewn gwirionedd pa beth a dal yr rheini. Eithr awn rhagom.

BEN. II.

Y bennod yma ſydd yn dangos, mai mor nen dd wſr neidr fenyw driphennog a elwyd Hydra yw Tragywyddoldeb: *Ond y mae ef befyd yn ffynnon o bob llawenydd.*

MI a ewyllyſiwn ofyn i ti, ô ddyn Chriſtianus, pwy bynnag wyt ac ſydd yn gwrando pregethau yn fynych; eithr yſgatfydd, yn anaml gyda dyfal wrandawiad a defoſiwn; gofyn i ti a ewyllyſiwn yn yſpyſol un qweſtiwn. Bwrw a byddei i ti gymmeryd mewn llaw

llaw a llwy grochan, gywain allan y dwfr i gyd ſydd yn y môr i afon a fyddei wrtho yn agos, yr hwn a fyddei yn rhedeg yn waſtadol yn ol drachefn cyn gynted ac y bwrrit ti ef allan, i'r môr Bwrw na byddei i't arfer llwy grochan i'w gywain ef allan, eithr llwy fechan bach: Dywedi mi yn awr, pa hyd debygit y byddit yn cywain i'r afon y mor i gyd? Neu drachefn bwrw a byddei i ti ei gywain ef a chelwrn cymmaint a thunnell, a'i dywallt i afon arall cyn gynted ag y darfyddei i't ei gywain allan; Atteb fi, mewn pa ſawl blwyddyn debygit y gellit ddiyſbyddu 'r mor? I'eiſtedd cymmaint a hynny o flynyddoedd yn rhoſtio ac yn ffrio yn flammau tan uffern, mi a wn y dywedi, y byddei yn boen oſidus yſgeler; Ac er hynny, ſe debygei 'r damnedig y bydient hwy yn dda pa byddei felly: hwy a fyddent yn ddigon bodlon i'r ammod, ac ni rhybient mo'r amſer yn hîr, yn unig o byddei ganddynt ddim ſiccrwydd, y darfyddei eu poenau o r diwedd, ac na pharhaent hyd holl *Dragywyddoldeb*.

Yr

Yr ydym yn darllain yn yr Athrawon digred o'r hen amser, beth mwy dicith na gwir, ynghylch rhyw ddwfr neidr fenyw a elwyd *Hydra*, yr hon oedd (megis ac yr oeddynt hwy yn dychymmyg) yn dripheniawg, a chyn gynted ac y torrid un ymmaith, fe fydde dau genddi gwedi saethu allan yn ei le ef, ond os ydyw y ddwfr-neidr-fenyw dripheniawg yma yn unlle i'w chael, yn uffern y mae hi; lle mae *Tragywyddoldeb* tridyblig, yr hwn yn debyg i'r ddwfr-neidr-fenyw dripheniog yma, sydd yn estyn ei gwdd hir allan gydâ ei thri phen, hynny yw, *Poen colled*, *Poen synhwyrau*, a *Phryf gydwybod* yr hwn ni bydd farw byth. Pa ddynion truain diddarbodus ydym ni, gan nad oes i ni ond siwrnai ferr yw ymdeithio, ond bod yr holl ffordd yn llawn peryglon, gerdded ym mlaen er hynny i gyd mor llawen, yn chware 'r gwesion digrif mal pedfae'm ni rhyd yr amser yn rhodio trwy *Baradwys*, neu ardd drahyfryd, yn rhydd oddi wrth bob arswyd gelynnion, a thybied i cawn ni yn niwedd ein rhodfa ein derbyn a'n gollwng i mewn yn

ddioed

ddiocd megis dinasyddion i'n gwlad nefol, lle o bob math ar ddiogelwch? Canys a allwn ni fod mewn anwybod? ein bai ni ydyw os ydym, Eithr nid allwn ni fod mewn anwybod na bydd i ni ddyfod o'r diwedd hyd at ddau borth *Tragywyddoldeb:* Y naill o eiddo 'r bendigedig, a'r llall o eiddo 'r damnedig. Ac y mae yn rhaid i ni fyned i mewn trwy un o honynt; hynny sydd sicer: Trwy pa un Duw a'i gwyr; yn ol fel yr ymddygom ac yr ymarweddom y bydd hynny.

Laurentius Justinianus yn rhyfeddu wrth lawen ynfydrwydd y cyfryw siwrneiwyr sydd yn gollwng allan yr ynglef hon, Oh gyflwr galarus dynion marvvol, yr rhai ynt yn myned rhagddynt tan lemmain gan lawenydd rhyd yr holl ffordd, pan nad ydynt hwy ond alldudion a gwyr deol o'i gwlad eu hunain! Na sydded i ni rhyd y ffordd tra byddom ni yn siwrneio tu a'n gwlad sefydlu ein meddyliau ar neb ryw ofer lawenydd, ac ynfyd ofregedd; Eithr rhedwn ein gyrfa felly, mal y cassom pan orphennom hi

hi ein deryn i mewn trwy 'r porth fydd yn ddyfodfa i'r gwynfydedig rwydd *Tragywyddol*. Duw yn ficer a'n creawdd ni i lawenydd a hyfrydwch, yn hytrach nac i boen a gofid, eithr nyni fydd gwedi camgymmeryd yr amser a'r lle. Nid yma y mae ef, ar ol hyn y mae hynny. Y mae llawenydd gwedi ei baratoi yn y nefoedd; eithr ni bydd i neb ond i'r gweision da a ffyddlon, gael myned i mewn iddo: A thrwy pa fodd y dichon dyn gael myned i mewn iddo? Oni wyddoft ti pa peth a ddywe-
Matth. 11, 12. dodd Chrift? *Yr ydys yn treifio trymas Nefoedd. A threifwyr fy nai chippio hi.* Myfyria yn awr fel hyn rhyngot a'th di dy hun, a'i fi yw'r treifiwr hwnnw? A'i dyna 'r drais honno yr ydys yn fon ani dani, I fwyta, i yfed, i godi i fynu i chwarau, i orwedd i lawr i gymmeryd fy efmwythdra? Yn ficer nid hynny yw. Y mae yn rhaid i ni ymdrechu, eithr rhaid iddo fod yn ymdrech dda, yn gyffelyb i ymdrechwyr Chriftianus; y mae yn rhaid i ni redeg, eithr felly, fel a gallom gael gafael; Y mae yn rhaid i ni ymryffon, eithr i fyned i mewn trwy 'r porth cyfyng:

Y

y mae yn rhaid i ni gymmeryd poen, a threiſio teymas Nefoedd, eithr rhaid i hynny fod mewn amſer a lle cyfaddas: Yn awr tra caffom ni amſer: yna, tra byddom ni ar y ffordd, tra bo bywyd a grym gennym, fel pan ddelom ni am ben marwol. aeth, ac felly myned tros derfyngylch y byd hwn, ac ymadael i un arall nid iddychwelyd byth Drachefn; Pan drofglwyddir ni o amſer i *Dragywyddoldeb*. y gallom ni y pryd hynny gael llawenydd o'r diwedd am ein buchedd a'r th heibio, a gobaith am yr hyn ſydd i ddyfod. Cymmerwn gan hynny boen; bydded i ni, meddaf, gymmeryd poen, a threiſio ein hunain gan ymdrechu yn erbyn ein anhynaws ewyllys a thueddgarwch ein meddyliau: Trwy drugaredd Duw felly ni a orddiweſwn eſmwythdra *Tragywyddol* am ein byr boen, a gogoniant *Tragywyddol* am ymdeithiad ychydig ddyddiau.

Nid yw'r gwir a'r holliach lawenydd i'w gael yma mewn gwag ddigriſwch a difyriwch, ond yn y nefoedd, lle mae llawenydd ac hyfrydwch byth yn Dragywyddol. Yr

Arglwydd

Ionah. 4.6. *Arglwydd Ddiow a ddarparodd Cicaion, ac a wnaeth iddo dyfu tros Jonah, i fod yn gysgod uweh ei ben ef, i'w waredu ef o'i ofid. A bu Jonah lawen iawn am y Cicaion.* A pha beth yw holl ddifyrrwch, neu yn hytrach gwagedd y byd presennol hwn? Onid ydyw yn debyg i *Cicaion Jonah*, yn blaen darddu tros amser, ac yn rhoddi cysgod cyfforddus? Y mae gan wyr goludog ei *Cicaion* hefyd, hynny yw, eu cyfoeth; tan gysgod yr hwn y maent yn ymlawenychu â llawenydd mawr iawn. Hefyd y mae gan feddwon a glothineb wyr hwythau eu *Cicaion*, hynny yw, byrddau mawr a hwydydd dan reithiol, tan gysgod yr rhain y maent yn llon ac yn llawen. Y mae gan y gwyr ynt yn ymroddi i ddifyrrwch, a mwythau, hwythau eu Cicaion, hynny yw, eu difyrrwch anghyfreithlon, tan gysgod yr hwn y maent yn gorwedd i lawr ac yn cymmeryd eu pleser. Eithr, Och! y mae arol y cyfryw lawenydd driftwch yn canlyn, ac yn ei orddiwes yn ddiattreg. Troir eu llawenydd hwy yn y man yn alar, a dibenna eu difyrrwch a'i digrifwch

grifwch mewn chwerwder bustl. Canys pa beth a ddaeth o'r *Cicaion Jonah*? Yr Arglwydd a barodd bryf ar godiad y wawr drannoeth, ac ef a darawodd y *Cicaion* ac yntef a wywodd. Dywed i mi yn awr *Jonah*, ym mha le y mae dy *Cicaion*? Pa beth a ddaeth o honi? Ym mha le yr awr hon y mae dy lawenydd mawr iawn. Hwy aethant i'll dau ymmaith a'r unwaith: Gwywodd dy *Cicaion*, a darfu dy lawenydd. Y cyfryw yw ein gwag ddigrifwch a'n difyrrwch, y cyfryw yw ein lawenydd, yn hytrach cyfgodau o bethau na neb ryw beth yn iawn, myned y maent ymmaith yn ddiattreg a byddant fel *Cicaion Jonah* yr hwn a wywodd yn fuan. Nid yw llawenydd y byd hwn ond tros funudzeithr llawenydd y bywyd a ddaw a fydd tros hôll *Dragywyddoldeb*. Jonah 4. 7.

BEN.

BEN. III.

Y drydydd bennod yma sydd yn datgan trwy esampl wiw iawn ei chosio; mor felus a gwerthfawr yw blas Tragywyddoldeb.

HYn a wyddei un *Tudur* yn ddigon da, yr hwn a anesyd o rieni Christionogaidd, ac efe a'i dysgasei (fel y mae yn ymddangos) mewn amser; y pryd nad oedd ef ond gwr ievange o ran blynyddoedd, eithr yn henwr o ran ystyriaeth a phwyll. Canys ar uchel-wyl mawr cadwedig trwy holl wlad yr *Aipht*, gwledd fawr oedd yn nhy ei dad ef, a llawer oedd gwedi eu gwahodd iddi; pan oedd rhai yn bwytta ac yn yfed, eraill yn chwerthin ac yn chwarau, a'r lleill yn chwarae 'r gweision digrif, ac yn dawnsio: *E*ncilio a wnaeth ef ynghanol y difyrrwch hwn i'w ystafell ddirgel, yn archolledig hyd at y galon, eithr a saeth ddiwair. Canys efe fel hyn a ddechreuodd ymliw ag efe ei hun, *Tudur* annedwydd! Pa fudd a fyddei hyn i't, ped ynillit yr holl

holl fyd? Yn ſicer y mae yn dy feddiant lawer o pethau, ond a fedri di ddywedyd pa hyd y cei eu meddu? Yr wyt ti yn awr yn byw mewn amlddra; Gelli wledda a bod yn llawen, gelli chwerthin a phelſgi, gelli ymlawenychu a llemmain o lawenydd: Eithr wyt ti yn ſicer i hyn barhau? gwelwn hynny with fy medd yn ſida, pa parhae bob anſer. Eithr pa beth a wnaſi? A ddiſuddiaf ſi fy hun o'r llawenydd hwnnw ſy 'n *Dragywyddol*, er mwyn mwynhau y diſyrrwch a'r digrifwch byr trangcedig hwn? Dywed i mi, *Tudur*, yw hyn yn ol crefydd Griſtionogaidd, i ſlurſio i ni ein hunain yma nef ar y ddaiar, a meddwl myned o ddiſyrrwch i ddiſyrrwch, o'amſerol i *Dragywyddol*? Naill a'i rwyf yn camgymmeryd ym mhell, neu ynteu fe ddangoſodd Duw i ni ſtordd arall i deyrnas nefoedd, a honno ſydd trwy lawer o helbulon. Am hynny na fydded i ti ddim a wnelech ond hynny a gwagedd bydol, eithr cyfri lawenydd *Tragywyddol* yn well nag amſerol. Fel hyn y dywedodd a daeth wylo arno Felly ar hynny efe a enciliodd i yſtafell ddirgelach, a chan ſyrthio yno i lawr

ar

ar ei wyneb, efe a weddiodd fel hyn; Duw *Tragywyddol*, y mae fy nghalon i yn noeth ac yn agored o'th flaen di: Yr ydwyf yn danfon i fynu fy ucheneidiau megis ufudd araithyddion ac eirchion attad di; nis gwn i pa beth a ofynnaf, na pha fodd! Yn unig yr un peth hwn yr wyfi yn eì erfyn ar dy law, na ddioddefych i mi farw o farwolaeth *Dragywyddol*! Di a wyddoſt, Arglwydd, fy mod yn dy garu, am bod i yn ewyllysio bod gydâ thi, fel y gallwyf ganu moliant *Tragywyddol* i ti. Arglwydd, cymmer drugaredd arnaf. Tra yr oedd ef fel hyn yn gweddio, yn ddiſymmwth ei fam ef a ddaeth i mewn, ac wrth gochder a lleithdra ei lygaid ef, hi a wybu yn y man ei fod yn wylo; Ac ar hynny hi a ddywedodd, Fy Mab, pa beth yw 'r matter gyda thi? Pa ham yr wyt ti yn wylo? Pa ham yr wyt ti yn galaru? Pa ham yr wyt ti yn ymgadw heddyw allan o'r golwg? Pa ham nad wyt ti yn dyfod i'r bwrdd? Y mae 'r lleill yno i gyd: Y mant yn deiſyfu dy gwmpeini: Tyred ymmaith. Eithr *Tudur* a attebodd ac a ddywedodd,

dodd, yr wyfi yn attolwg i chwi, fy mam, fy nghymmeryd yn eſcuſodol, yr ydwyf yn eływed fy hun yn oſiachus yn fy nghylla, dymuno yr ydwyf arnoch na annogoch monof i ſwytta nag i yfed yngwrthwyneb fy chwant. Felly fe a yrrodd ei Fam ymmaith a rhith eſcus teg. Gwedi hynny gan fod yn unig ef a ymddadleuodd a Duw ac ef ei hun yng-hylch *Tragywyddoldeb*, ac a fanwl holodd holl dreigl ei oes, trwy ymreſymmu ag ef ei hun fel hyn. Pa beth wyfi? Neu, Pa beth a fum i? Pa ſut a fu arnaf hyd yn hyn? Neu pa ſut a fydd arnaf yn ol hyn, o's collaf fy rhan, a'm cyfeillach yn nheyrnas Nefoedd, ac yn y *Tragywyddoldeb* bendigedig? Y mae amryw ffyrdd i'r Nefoedd: Rhai ſydd yn myned y naill ffordd, a'r lleill yn myned ffordd arall: Nid oes fatter pa ffordd yr elom ni am y delom ni yno. Eithr o herwydd nad yw pob ffordd fel eu gilydd, na phob anian chwaith fel eu gilydd; gan hynny pob dyn a ddylei ddewis y ffordd honno ac yw gymmheſuraf.

Y

Y mae ffordd ferr, a ffordd hir; ffordd ddiogel a ffordd enbyd. Os fyfi gan hynny a fydd yn ofni myned y ffordd hir enbyd, y mae un ſydd ferrach a diogelach, yr hon os dewiſaf mi a gaf yr Angylion yn ddiammeu yn gymdeithion ag yn cyſſurwyr imi; a hwy a ymlaweny-chant gyda mi. Eithr yſgatfydd, fy nghyfeillion a ymofidia wrth hyn ar y cyntaf: Eithr hwythau hefyd cyn pen nemmawr a ymlaennychant. Iddo yn awr, *Tudur*, oeda tros ennyd, eithr nid yn rhyhir, ac na ymro yn or-mod. Yr ydwyf yn gobeithio y pri-fiaf ryw ddydd yn wr cryf, ac yno mi a fyddaf yn ablach i drin fy nge-lynnion, canys bydd i mi daro wrth rai a fo cryfion: Beth os byddant hwy yn dyner, yn wenieithus, yn ymo-leithus, ac yn gyfryw ac y wylant o'm herwydd? Y gwirionedd yw, y cyfryw yr ydwyf yn eu hofni fwyaf. Eithr cymmer galon dda, wr, ac er dy fod di o naturiaeth yn hawdd dy droi, ac yn anſafadwy ddigon, er hyn-ny gweddia ar Griſt, ac efe a'th wna di yn ddianwadal ac yn ddiyſgog. Eithr beth os ymollwng dy Fam i wylo, a'r dagrau rhyd ei gruddiau

yn

yn treiglo i lawr? Beth os bydd hi ynglyn am dy wddf, ac yn dymuno arnat dy arbed dy hun? Beth os dengys hi i ti ei bronnau yr rhai roesant i't ſugn? Oni chynhyrta hyn oll dy di? Yn hyn cofia yr hyn y mae St. *Hierom* yn ei ddywedyd, er yr holl daerni hwn, pryſura di at ſaner croes Chriſt: Rhinwedd a chlod haeddedigol yſyw, i ti fod yn greulon yn y cyfryw gyflwr a hwn. Rhan ac etifeddiaeth dy fam yr Eglwys yw i ſefyll tan Groes Chriſt: *Mair* mam Chriſt a wnaeth hynny: Ac y mae yn rhaid i tithau wneuthur hynny, os mynni gael Duw dy dad yn y Nefoedd, ar Eglwys dy Fam ar yddaiar: Ac di a wnei hynny, os wyt ti yn wir Fab heb fod yn fab o ordderch. Eithr a'i rhaid i mi wneuthur hynny yr awrhon yn fy ieveng, ŵyd yngwir flodau fy oedran? Caled yw hynny! Yn wir felly y mae i gig a gwaed. Eithr etto y mae prawf yn dyſgu hyn, na rynga gwaſanaeth diweddar fodd Duw yn dda. Canys anaml y mae gwaſanaeth diweddar yn dda. Gan hynny da y maent hwy yn gwneut hur, y rhai ynt mewn amſer yn dechreu gwaſanaethu Duw,

ac

ac ynt yn ei foreu-geisio, ac ynt yn
ei gofio yn nyddiau eu ieuengctyd;
ac yn daroſtwng i Groes Chriſt ei
gwarrau tyner. Eithr myfi a ddy-
gwyd i fynu yn foethus, porthwyd ſ
a dainteithion: ac a allafi yr awrhon
gychwyn trefn buchedd gaeth a
thoſt, a chanu yn iach i'm holl ddi-
fyrrwch? A allafi fod yn abl i ddi-
oddef hynny? Yr ydwyf yn gobei-
thio y gallaf. Eithr, pa hyd? Tra
fiwyddyn neu ddwy? Nid yw hyn-
ny ddigon: rhaid i mi fyned ym mhe-
llach, a pharhau hyd y diwedd: ie
tra bwyfi byw. Gan hynny cyfa-
ti reſolfio, hola ac yſtyria y peth yn
dda rhyngot a'th di dy hun; naill ai
ddechreu un amſer, neu bara hyd y
diwedd. Trwy o gymmeryd o Ddaw
fy mhlaid mi a wnaf: Canys ga-
beithio 'r wyf na adewyſt Duw mo-
nof yn unig i ymdrechu a'r anhaw-
der hwn. Yr hyn nid wyf o'r gy-
flu i'w orchfygu. Eithr etto pet
anhawdd ydyw ymryſſon yn erbyn
arfer. Treuliais fy oes hyd yn hyn
yn debyg i Bendefig a gwr rhydd:
Ac yn awr a fydd i mi fyw fel gw
tlawd a chaeth-was? Neu os y gw
wnaf, pa hyd a bydd i mi fyw felly:

O

Os gwisgaf am danaf betsonoliaeth y gwr glawd, a chwarau ei ran ef yn chwareudy 'r byd hwn. Pa brydy bydd i mi ei ddiosg ef oddiam danaf? Yn niwedd y rhan ddiweddaf o'r chwarau. Pa faint sydd hyd hynny? Cymmaint ag sydd hyd y ffun ddiweddaf. Ni dderfydd i ti chwarau dy ran nes i ti ymadael allan o'r bywyd hwn. Os dy di a ddaw allan unwaith yngwisg y gwr tlawd; nid oes i ti drachefn moi diosg hi oddiam danat. Nid elli un amser seddwl am dy sidan, dy sattan, a'th felfed: Nid elli, wisgo porphor a lliain main, nes dy ddilladu a't wisg anrhydeddus o anfarwoldeb a gogoniant. *Tudur*; Pa beth yr wyt ti yn ei dybied? A elli di ddal allan i orphen chwarae dy ran? Mi a wnegniaf fy ngoreu, ac am cyssura fy hun ag esampl chwareyddion da eraill aethant o'm blaen. A phwy a ddewiswn i yn hyttrach ei ganlyn a'i ymddilyn na Christ Mab Duw: Yr hwn o'i wirfodd aeth yn dlawd, ac a wnaeth ei hun ynddiystyr; trwy ddarostwng ei hunan allan o'fesur, i wneuthur ac i ddioddef

fel gwas; ac yntef yn Arglwydd pob peth? Ac oni bydd i minneu, yn ol ei esampl ef, wneuthur a dioddef pob peth? Oni bydd i mi gymmeryd y groes a'i ddilyn ef? Ai gwell wyfi nag ef? Pa ham yr arfwydwn i canlyn, gan fod gennif y cytryw flaenor? Canys pwy yw hwn yr hwn sydd yn peri i mi ei ganlyn? Llais dyn yw, yr wyf yn ei glywed; eithr ewyllys Duw y dyw, yr hwn a ddylwn ei ufuddhau, o herwydd ei fod yn gorchymmyn. Ond etto y mae hyn yn pwngc thy uchel o philosophyddiaeth, i ddyn ymwrthod a'i gyfoeth a chofleidio tlodi! A pha beth a wnei di, *Tudur*? Resolfa thyngot a'th di dy hun pa beth sydd yw wneuthur.

Pa ham ye wyfi yn ammeu fel hyn cyhyd, ac yn ymddadleu ynof fy hun? Pa ham yr wyf fel hyn yn bwhwmman rhwng gobaith ac ofn? Onid oes gennif o flaen fy llygaid esampl fy Arglwydd? Oni ddioddefodd ef lawer o bethau antaethadwy? Oni ddarfu ei hoelio wrth y Groes, a'i drin yn ammharchus? Efe a adawodd ei dryssorau nefol, ac a ddaeth

yn

yn dlawd i'r byd hwn, y mae ei anedigaeth a'i farwolaeth yn dangos hynny. Yr oedd arno ddiffyg crud ar ei anedigaeth: nid oedd ganddo unlle i guddio ei ben yn ei fywyd: ac nid oedd ganddo ddim i orchuddio ei gorph ar ei farwolaeth! Yn noeth y daeth ef i'r byd hwn, ac yn noeth yr aeth ef allan. Pa sut y bu iddo yn y bywyd hwn? Gorfod iddo ddiange o'r naill fan i'r llall. Fe fu yn flinedig gan lafur lawer gwaith yn rhostio gan wres, ac yn dyddfu o ran syched. Yr oedd ef mor anhyflin yn gweithredu, ac yr oedd ef yn ei ddioddefaint yn ddioddefgar. A fu neb mor hyblyg i diodi, mewn blinderau mor ddioddefgar, a phan enllibir mor hynaws ac mor addfwyn? Ac a fyddei yn gywilyddus gennif y cyfryw flaenor? A fyddei arnaf gywilydd fy ngalw yn un o'i ddilynwyr? Oni byddaf yn fodlon i fod yn gyfryw ac yr ewyllyssiei fy Arglwydd a'm jachawdur i'm fod? Byddaf yn barod i ddioddef o gar.ad arno newyn, syched, anwyd, noethni, tlodi ar cyffelyb i'r rhai hyn. Byddaf er ei fwyn ef yn ewyllysgar i gymmeryd fy rhwymmo, fy llesg, a'm

 difynio,

disynio. Bytrion yw 'r dioddefiadau hyn, nid allant hwy barhau yn hir. Eithr hir iawn yw llawenydd neu boenau *Tragywyddol*: Canys ni ddiweddant byth. Am hynny mi a ganaf yn iach i'r holl fyd, ac i'r perthau ynt yndo, nid oes gennif fatter am danoch, ni wnafi gyfrif yn y byd o honoch, canaf i chwi yn iach, (meddaf.) Eithr y mae iti groeslaw, *Tragywyddoldeb*, Tyred pan fynnych: Dy di yw 'r unig peth yr wyf yn ymofyn am dano; hiraethu y mae fy enaid am danat, nid oes dim a ddesyfwn och flaen di.

A gwrês y cyfryw feddyliau ei enaid ef a gymmerodd felly dan, mal y ennynnodd cariad ar *Dragywyddoldeb* ef, yr hyn a fwynha 'r bendigedig yn y Nefoedd. Gan hynny efe a resolfiodd gymmeryd ei gennad gan ei rieni, i adel ei gyfoeth, ac i ganu yn iach yw holl ddifyrrwch byth. Ni resolfiodd ef ar frys, ond etto efe a barhaodd yn ei resolution yn ddianwadal: Nid oedd ef boeth byrbwyll, nag oer diattreg: Ni newidiwyd mono yn gwbl ddifymmwth: Nid oedd ef yn myned o'r naill eithaf i'r llall. Nid oedd ef yn ym-

drechu

drechu am y pennod pellaf with ddechreu: Eithr er hynny ef a gynnyddodd o dippin i dippin, ac aeth yn un o ysgolheigion *Pachomius*. Chwi a glywsoch y Prolog; eithr nid oes mor Interluwd yn canlyn: Canys yngwrthwyneb defod yr Interluwd, i'r hwn y mae dechreuad llawen, a diwedd creulon, y mae ef yn dechreu yn drist, eithr yn diwedd yn llawen. Yr oedd wylo o drystwch ar ei ddyfodiad ef i mewn, eithr yr oedd curo dwylo ynghyd o lawenydd, ar ei fynediad ef allan. Fel hyn chwi a glywsoch fuchedd a marwolaeth *Tudur*, enaid yr hwn oedd megis yn ymborthi ar y meddyliau am *Dragywyddoldeb*; ac yn ymhyfrydu ynddynt megis mewn mêt a brasder. Nid oedd ef o'r un meddwl a'r byd, yr hwn nid yw yn cyfri *Tragywyddoldeb* ond chwedl; Eithr efe ei hun ni wrthododd fod yn chwedl, ac yn gyfatgan i'r byd: Canys yr oedd ef yn siccr ddigon o fod *Tragywyddoldeb* bendigedig, ac yn chwenychu, ac yn sychedu yn ddifrifol am gaffael cyfran ynddo.

Frodyr Christianus, a gafi yn rhwydd lefaru gair o wir? Neu, nid fi, Ond *Tudur*? Y mae y rhan fwyaf o ddynion yn byw felly, fel ped fai na byddei dim or fath beth a *Thragywyddoldeb*; mal ped fai ef ddim ond hen: hwedl, neu beth gwedi ei ddychymmyg. Eithr i ba beth yr wyfi yn son wrthych am *Dudur*? A glywch chwi pa beth y mae St *Petr* yn ei
2 Pet. 3.10. ddywedyd, *Dydd yr Arglwydd a ddaw megis lleidr y nos, yn yr hwn y nifoedd a ânt heibio gydâ thwrwf, a desnyddiau gan wîr wrês a doddant; Ar ddaiar a'r gwaith a fyddo ynddi a losgir. A chan fód yn rhaid i hyn i gyd ymollwng, pa ryw fâth ddynion a ddylech chwi fód, mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb?* Eithr ym mha le y mae y dynion hynny yn y dyddiau hyn trwy ymarwedd ad sanctaidd yr rhai a'i duwioldeb y dichon gwr farnu eu bod hwynt yn coelio St *Petr* fod dydd yr Arglwydd yn dyfod, ac y dilyna *Tragywyddoldeb* ef o'i ol? Eithr Oni choeliwch chwi St *Petr*, clywch beth y mae 'r gwirionedd ei hun yn ei ddy-
Math. 7.13. wedyd, *Ehang yw r porth a llydan yw 'r ffordd, sydd yn arwain i ddistryw,*

ſtrwy, a llawer yw y rhai ſydd yn myned i mewn trwyddi. Yn ddiammeu nid âc dynion i mewn i'r porth ehang o ddiſtryw, ped faent hwy yn neddwl na ddoent yn ol allan drachefn, ped faent unwaith yn breuddwydio am *Dragywyddoldeb*. Eithr nid ydyw y rhan fwyaf o ddynion (megis y dywedais i o'r blaen) yn gwneuthur o *Dragywyddoldeb* ond peth gwedi ei ffugio, neu ond dychymmyg ſynhwyrgall i gadw dynion mewn ofn. Ac nior barod er hynny yw llawer i ddywedyd, eu bod yn credu fod *Dragywyddoldeb* bendigedig ar ol y bywyd hwn, eu bod hwy yn gobeithio cael cyfran yndda; eu bod hwy yn deiſyfu ac yn hiraethu am dano: Eithr, och! mor ſal yw eu ffydd! mor ofer yw eu gobaith! mor oer yw eu deiſyfiad! difyrrwch preſennol, arian mewn llaw, hudoliaethau y cnawd ynt yn lladratta ymmaith galonnau lawer, ac o feſur ychydig ac ychydig yn gwneuthur y deiſyfiad a'r ſerch i *Dragywyddoldeb* briſio yn llwyr oer ynddynt hwy, fel ped fuaſent yn ei ſoddi ac yn ei gladdu ynr nedd anghof. Yr ydym yn clywed darllain a phregethu hyn yn ty-

nych; *Fel hyn y dywed yr Arglwydd, dymma orchymmyn yr Arglwydd:* A chyn fyn ched ac yr ydym ni yn clywed hynny, cyn fynyched a hynny yn wastadol yr ydym yn ei esceuluso. Dyweded yr Arglwydd a fynno, gorchymynned ef a fynno, ein hen ffordd sydd yn rhyngu ein bodd ni oreu;

Iere. 18.12. *Yn ál ein dychymmygion ein hunan yr awn, a gwnawn bob un amcan ei*

13. *ddrwg calon ei hun. Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd, gofynnwch attolwg ym mysg y cenhedloedd, pwy a glywodd y cyfryw bethau?* Ped fuasei y bobl y rhai nid adwaenant un Duw, ond gwybod y dirgeledigaethau hyn o *Dragywyddoldeb*, yn ddiam. meu ni buasent hwy byth yn eu diystyru ac yn eu hesceuluso. Iddo yn

Dicha. 1.24. awr, o chwi feibion dynion, *Yn gymmaint ac i mi eich gwahodd, ac i chwithau wrthod, i mi estyn sy llaw a neb heb ystyried;* *Minneu hefyd a*

26 *chwarddaf yn eich dialedd chwi, ni a wawdiaf pan syrthio arnoch yr hyn yr*

27 *ydych yn ei ofni: pan ddel arnoch yr hyn yrydych yn ei ofni, megis destryw ac ydel eich dialedd arnoch megis cor-wynt; a dysod arnoch wasefa a chaledi,* pan orddiweso Tragywyddoldeb chwi yn ddisymmwth.

ddiſymmwth. Os deil marwolaeth chwi yri y cyflwr a'r yſtad greſynus hwn, ni bydd i chwi y pryd hynny obaith am drugaredd: Y drws a geuir ynddiſymmwth, nid oes mor agoryd arno: Y farn a gerddodd arnat gan dyfrw yn euog, nid oes moi galw hi yn ol, *Ewch oddi wrthyf vai melldigedig i'r tân tragywyddol, yr hwn a baratowyd i ddiafloc i'w Angylion.* *Math.* 25.41.

Gwiliwch gan hynny, Griſtionogion da, gwiliwch, meddaf: *y Barnwr ſydd yn ſefyll wrth y drws.* Dichon y peth a ddigwydda mewn munud, beri i un ddolurio tros holl *Dragywyddoldeb.* *Antoni* fawr mewn rhyw Bregeth a wnaethei ef i'w Lobl a leſarodd wrthynt hwy fel hyn, *Anwyl gariadus frodyr, mewn maſnach o'r bywyd hwn y mae gennem ni ofal am wneuthur marchnadon da, ni a ſyddwn yn ſicer o gael teiniogwerth am geiniog:* I ddwyn cyffelybiaeth o'r peth, rhoi yr wyfi allan hyn a hyn o arian, a mynnu y wnaf eu gwerth hwy mewn marſiandiaeth; rhoi yr wyfi hyn a hyn o goronau a mynnu y wnaf hyn a hyn o feſurau o wenith, hyn a hyn o bwyſau, a mynnu a wnaf hyn a hyn o

o frag. Eithr mewn materion Nefol nid ydym ni mor gall. Ni newidiwn ni mor perthau *Amserol* am y perthau *Tragywyddol*. Perth yw bywyd *Tragywyddol* ni thal edrych am dano, yr ydym ni yn ei ddibrisio yn ormod, ni rown ni ddim agos am dano, ni chymmerwn ni boen yn y byd na thrafferth i'w ynnill. Ac er hynny pa beth yw ein trafferth ni, bwrw di y mwyaf a allwn ni fyned tano? ni chyrraedd os cymmharir ef i wobrwy bywyd *Tragywyddol* cymmaint ag un ddimmai mewn golygiad a chyffelybiaeth i fyrddiwn o aur. Canys pa beth a ddywed y Psalmudd; *Ya ayddiau ein blynyddoedd y mae deng-mlhynedd a thrugain, ac os o gryfder y cyrheuddir pedwar ugain mlhynedd, etto eu nerth fydd loen a blinder.* Eithr i ddywedyd y mwyaf, bwrw a byddei i wr fyw gant o flynyddoedd, ac iddo wasanaethu Duw yn awyddus ac yn ffyddlon thyd yr holl amser hwnnw, i ynnill *Tragywyddoldeb*, onid amser gwedi ei threulio yn dda y fyddei? I bwrcasu teyrnas onid trafferth gwedi eu gwario yn dda y fyddei? Nid wyfi yn meddwl teyrnas i barhau tros gant o flynyddoedd

Psal. 90. 10.

flyny ddoedd yn unig, eithr hyd yr oesoedd oll; nid teyrnas ddaiarol eithr teyrnas nefol. Am hynny, frodyr Christianus, na falchiwch o ran gwâg ogoniant, na fydded gennich ormod chwant i urddas bydol, na fliwch yn gwneuthur daioni, na ymollwngh o ran bli[illegible]un Na suddwch tan, bwys y Gro[illegible]hr dy gwch hi yn ymmyneddus ac yn g ssurus, *gan orfoleddu* gydâ 'r Apostolion *fod yn eich cyfrif yn deilwng i ddioddef: Oblegid yr ydwyr yn cyfrif*, medd *St Paul, nad yw dioddefiadau yr amser presennol lwn yn naeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddatcuddir i ni.* Na fydded i undyn feddwl, pan ddarfyddo iddo ymwrthod a'r byd, ddarfod iddo ymwrthod a matter mawr yn y byd. Canys pa beth yw 'r ddaiar mewn cymmhariaeth i'r Nefoedd? Nid yw hi ond y *Cenolbwynt* wrth y *Cylch*, *munud* wrth *Dragywyddoldeb*, *defnyn* wrth y *môr*, *mymryn* o lwch wrth y *tir sych*. Pa beth yw ein cyfoeth ni? Pethau diflanedig ac ansicer ydynt a ellir eu symmud: Ni a gymmerir oddiwrthynt yn fuan, neu hwy oddiwrthym ni. Er ein bod ni yn cael yn llawn swydd yn eu cadw hwy

Rhuf. 5, 3.
Rhuf. 8. 18.

tra

tra bom ni byw: etto pa 'r un bynnag a wnelon ni a'i mynnu a'i peidio, rhaid i ni ymadael a hwynt pan fo'n ni marw. Nid allwn eu dwyn hwy i'n beddau. Pa ham gan hynny m wnawn ni rinwedd o angenrhaid: Pa ham nad yd ym yn ymadael a hwynt yn ewyllysgar, tra [illegible]ent yn ein meddiant: Gan [illegible] nia rhaid i ni ymadael a hwynt ar fyder, pa 'r un bynnag a wnelom a'i mynnu a'i peidio; pan ddalio marwolaeth ni am gyfiawn ddyled natur, ac yno nid allant fod ddim hwy yn ein meddiant? Pa ham nad ydym yn gyfelyb i'r Marsiandwr da yn eu rhoi hwy allan am y mwn gwerthfawr, neu 'r perl gwerthfawr o fywyd *Tragywyddol*.

Pachomius y fyddei yn arfer, Pa bryd bynnag y clywei feddyliau neu ddeisyfiadau anghyfreithlon yn y byd yn cyfodi yn ei feddwl, o'i gyrru hwy ymmaith a'r coffadwriaeth am *Dragywyddoldeb*: Ac os deallei ef drachefn eu bod hwy yn gwrthryfela un amser, efe a'i gyrrau yn ol yn wastadol trwy fyfyrio yn ddifrifol ar *Dragywyddoldeb*, ac ar gospedigaethau *Tragywyddol* y damnedig, ac ar

boenau

boenau didrangc y tan ni ddiffydd byth, ac ar y pryfyr hwn ni bydd farw byth. Ac yma mi a ddibennaf yr yſtyriaeth hon ag anghoriad yr unrhyw *Pachomius*; O ſlaen pob perh, medd ef, meddyliwn beunydd am y dydd diweddaf, cofiwn *Dragywyddoldeb* mewn amſer; bucheddwn ſelly ar bob munud a feddom ni i fyw, fel ped faem ni yn byw mewn ofn poenau tragywyddol, megis y gallom ni felly ddiangc rhagddynt yn dragywyddol trwy drugaredd Duw yn Jeſu Griſt.

Y nawfed yſtyriaeth.

A R

Dragywyddoldeb.

Y diben cyntaf, o ſaith o ddibennau ſydd yn canlyn.

NI ddichon un dyn yn fyw egluro mewn gair, neu ddeall yn y meddwl yſpaid annherfynedig *Dragywyddoldeb*. Y mae rhagor mawr jawn rhwng gwir ddyn a dyn paentiedig; gwir dân, a thân paentiedig: Ac er hynny y mae rhain mewn rhyw fodd yn gyffelyb yw gilydd. Eithr nid oes rhwng ein tan cyffredinol a than uffern, rhwng gofidiau 'r bywyd hwn a phoenau uffern ddim cyffelyb rwydd

cystelybrwydd na chysladdrwydd yn y byd. Canys yr ydys yn mesuro y bywyd hwn a gosidiau y bywyd yma wrth yspaid amser; Eithr nid ellir mesuro y bywyd sydd i ddyfod a'i osidiau wrth un rhyw beth ond wrth *Tragywyddoldeb* yn unig, yr hwn hefyd sydd yn ddifesur. Y mae ein Jachawdur yn egluro hyn yma yn hyawdl iawn yn yr Efengyl o eiddo St. *Joan*, trwy ddammeg cangen y winwydden, *Onid erys un ynosi, efe a daslwyd allan megis cangen, ac a wywodd, ac y maent yn eu casglu hwynt, ac yn eu bwrw yn tân a hwy o losgir.* Yr ydys yma yn eglur ar fyr eiriau yn portreiadu *Tragywyddoldeb*: Canys dal sulw yn dda nad yw 'r geiriau yn rhedeg yn ol amser i ddyfod, sef fel hyn, *efe a deslir allan, ac a wywa, a hwy a'i casglant, ac a'i bwriant yn tân, a chânt eu llosgi.* Nid ydynt, meddaf, yn rhedeg yn ol amser i ddyfod, eithr megis yn ol amser aeth heibio, sef fel hyn, *Efe a daslwyd allan ac a wywodd, ac y maent yn eu casglu hwynt, ac yn eu bwrw yn tân, a hwy a losgir. Hwy a losgir.* Dymma gyflwr ac ansodd y damnedig, *Hwy a losgir*, hynny yw, *yn llosgi yn wastadol.*

Ioan 15.6.

dol. Pan ddarfyddo mil o flynyddoodd, a'i myned heibio megis yr oedd yn y dechreudd, felly mae yn wastadol, *Hwy a loſgir*: A phan elo mil a mil ynghwaneg heibio megis yr oedd, felly y mae, *Hwy a loſgir*: Ac os goſynnyd y qweſtiwn, ar ol rhai myrddiwnau a th, nyddoedd, pa beth yr awrhon yw cyflwr ac anſodd y damnedig? Pa beth y maent hwy yn ei wneuthur? Pa beth y maent hwy yn ei ddioddef? Pa ſodd y mae arnynt hwy? Rhoi un atteb arall ond hwn nid ellyd, *Hwy a loſgir*, yn lloſgi yn wastadol, *yn ddioddef, yn arabaethol, yn Dragywyddol*; o'r naill ces i'r llall, ie byth ac yn *Dragywyddol*. Ar y man hwn mae St *Auguſtin* yn dywedyd yn rhagorol, Y mae yn angenrhaid, medd ef, mai un o'r rhai hyn yw cyflwr cargen y winwydden, rhaid iddi naill a'i aros yn y winwydden, ai cael ei thaflu i'r tan: Os nid yn y winwydden, gan hynny yn y tan yn ddiammeu. Eithr fel na thaflo hi ei thaflu i'r tan, arhoſed yn y winwydden yn wastadol.

Yr ail Diben.

PEd fai y dynion hynny y rhe-
ynt yn aros yn eu pechodau, on-
gwy bod nessed ydynt i *Dragywydd-
oldeb*, a phoenau *Tragywyddol*; pe-
faent hwy yn ystyrio rhyngddynt
a hwy eu hunain yn dda y modd
dichon Duw mewn moment, o fewn
t a bo un yn gollwng ei anadl, mewn
tarawiad llygad (fel y dywedden)
eu cymmeryd hwy ymmaith yn dd-
symmwth yn eu pechodau, a'i tra-
ddodi hwy i fynu i farwolaeth; yn
yn ddiammeu hwy a roent yr *Ysp*
oll, tryssorau *Asia* i gyd, holl au
yr *India*, ie 'r holl fyd (ped fai yn eu
meddiant) er cael un awr i gyfaddef eu
pechodau, ac i edifarhau a'm danynt;
ac i ofyn i Dduw bardwn a madde-
ant: Ni byddent, yn ddiammeu ni
byddent yn cofleidio eu pechodau yn
wastadol, ni amlhaent hwy monynt
beunydd fel y maent, ni lettyent
hwy monynt bob nos yn eu mynwe-
sau, ac ni orweddent yn chwyrnolad
ynddynt. *Canys pa leshâd i ddyn a*
Math. 16.26. *ynill ef yr hôll fyd, a cholli ei enaid ei*
hûn?

hun? Er co'li o honot bob peth yn y byd ond hynny, etto cymmer ofal, o ddyn, am gadw dy enaid. Afraid a fyddei i mi yma ſwrw ynghyd y Rheſtrau o henwau merth ron Chriſt ym mhob oes. Y mae o honynt lyfrau cyfan o ſaentioli mawr: mae i'r holl fyd a ddel ar ol gof-reſtrau o honynt, a'i henwau a fydd mewn coffadwriaeth tragywyddol. Eithr yr urddas mwyaf a allwn ni arneuthur iddynt hwy, ydyw dilyn eu ſampl dda, ddyſgu ganddynt wroldeb Chriſtianus a mawrfrydigrwydd, ofni Duw yn fwy na dyn; *Y Duw y bwn y ddichon ddiſtrywio enaid a chorph yn uffern, yn hytrach na dyn y bwn y ddichon ladd y corph, eithr nid all ef lâdd yr enaid*, garu Duw m fwy na'r holl fyd, i fod yn fodlon i ymadael a'r cwbl er mwyn Chriſt, i ri ein heinioes i lawr er mwyn Chriſt, i golli 'r cwbl i achub ein heneidiau, ac i ynnyll *Tragywyddoldeb*. Yma mi a ddibenna ag angboriad rhagorol St *Auguſtin*, Gan hynny, fi odyr, pa beth a wnawn ni? Pa beth? Pa beth yntau, medd ef, ond adnewyddu ein bucheddau tra caſſom ni amſer: Lle gwnaethom *Matth.* 10. 28.

ar

ar fai, gwneuthur felly byth ond hynny; bod yn ddynion newyddd. Fel na ddichon y peth a fygwthiwyd ac a ddaw yn ddiammeu ar y dynion drygionus annuwiol, syrthio arnom ni; nid o herwydd na bydd i ninnau fod, ond o herwydd na byddo i ni fod yn gyffelyb iddynt hwy. Pa beth bynnag y yscrifennwyd yn y ysgrythur, y yscrifennwyd er mwyn ein haddysg ni, lleferydd Duw ydyw Dal sulw, a gwna 'r goreu o'r hyn a ddarllennych. Beth bynnag a ddioddefom ni yn y bywyd hwn, nid yw ond gwialen esmwyth ein trugaroccaf Dad, yr hwn sydd yn ein ceryddu ni yma, megis eu blant anwyl, fel na byddo i ni yn ol hyn gael ein poeni gyda 'r damnedig. Pa ham gan hynny y mae ysgafn flinderau y bywyd hwn yn ymddangos mor ofidus i ni? Pa ham na byddwn ni, ie, yn brawychu ac yn crynu rhag ofn, pan fyddom yn clywed son am danynt? Y dioddefiadau mwya gofidus o'r bywyd hwn, os barnwn ni hwy yn iawn, ynt fychan ddigon, ie mewn gwirionedd, yn gwbl ddiddim, o'i cyffel, bu i'r tan tragywyddol.

Y trydydd Diben.

YMmysg Christionogion, Duw yn gwybod, y mae llawer iawn naill a'i yn credu nad oes na nef nac uffern, neu ped faent hwy yn gwir greduhynny, bucheddent yn ddiammeu yn amgenach nag i maent. Megis ymhylch y cyfryw ddynion, gellir gofyn yn gymmwys iawn y qweſtwn hwn; *Either Mab y dyn pan ddel, a* Luc. *taiff efe ffydd ar y ddaiar?* Y mae 18.8. rhai y chwennychant gael eu tybied yn wir ffyddloniaid; Hwy a gyfadefant a'i geneuau hynny yn ſicr, eithr lledrithio y maent yn eu calonnau dau-ddyblyg: Os coelir i'w geiriau, hwy a gerddant am wir ffyddloniaid; Eithr os holir eu buchedd au nid ellir eu hyſtyried hwy ddim gwell nac anffyddloniaid. Ni feddyliant hwy un amſer am *Dragywyddoldeb*, neu yn anfynych iawn, a phan feddyliant, nid ydynt hwy ond meddwl am dano yn unig, a dyna 'r cwbl; mewn un meddwl yr a ymmaithni iawn yſtyriant rhyngddynt a hwy eu hunain pa beth ydyw; ni

fyfyriant arno yn

yn ddifrifol un amser, ni chynhyr-
tant eu dalldwriaethau i osod
meddyliau arno un amser, ni ystwy-
thant eu hewyllys a thueddgarwch
eu meddyliau i ymofyn am dan
un amser, ni ddwys argraphant
ef yn eu meddyliau un amser, megis
gallent hwy felly ei gofio. Prin y de-
chreuant hwy feddwl am dano, na by-
ddo eu meddyliau yn rhyw le arall yn
ddiattreg, bwriad eu meddyliau sydd
yn gweithio ar ryw beth heb law
hynny. Ac os ar amser yn y byd
y cyfyd rhai gwreichion o ddefosiwn
a deisyfiadau duwiol yn eu calonnau,
hwy a ddiffoddir ac a degir yn ddi-
attreg a gofalon y byd hwn, a llian
o drafferthion, a budd neu a difyr-
rwch a'r cyffelyb. Ac mal hyn
(ddynion gresynus) y maent yn cau
eu clustiau a'i llygaid, ac yn rhedeg
megis gwedi eu mwgydu yn y ffordd
sydd yn arwain i farwolaeth *Drag-
wyddol* heb ofn na deall. Y Tadau
sanctaidd y ddaliasant sulw ar y
Glwth yn yr Efengyl, na chododd
ef i fynu ei lygaid un amser, nes iddo
fod niewn poenau: Yr oeddynt gwe-
di eu cau rhag y tlawd, a rhag pob
duwioldeb tra bu fyw; Nid ago-
rod

rodd ef monynt, nes iddo fod yn u-ffern, pan oedd hi yn rhy ddiweddar. Ac nid oes dim rhyfeddod fod cymmaint o ddynion yn rhedeg megis mewn mwgwd i dy y lladdedigion i gofid *Tragywyddol:* Canys y mae y ffordd yn ddigon chang a hyfryd, yn wastad ac yn deg; y mae yn anhawdd i un ei cholli, nid oes dim anfwyd myned ar gyfeilorn hyd oni ddelo i'w phen eithaf. Y pryd hynny feddeall ei fod yn llwyr allano'r iawn ffordd hyd yr amser yr oedd yn fiwrneio y pryd hynny, meddaf, pan nad mor dychwelyd yn ol drachefn. Llawer a tyddei yn ddigon bodlon i'r ffordd hon, pe dai hi heb ddiben i ddi. Canys er ei bod yn dd.fyr i'w bwrw, y mae ei diben yn refynus: Ac am hynny y maent hwy yn gwneuthur yn gall, y rhai ynt yn gadel y ffordd fathredig, ac yn fiwrneio rhagddynt yn y llwybr diffathredig; y rhai a ddewisant fyned yn hytrach trwy fieri a drain i *Baradwys Tragywyddol*, na thrwy *Baradwys* hyfryd i garchar *Tragywyddol*; y rhai ymroefant rhyngddynt a hwy ei hunain yn eu meddyliau, i dorri twy bob anhawsder, ac yn cyfrif

yn

yn well fyned rhagddynt tan wyl a galaru yn llwybr cyfyng iechydwriaeth, yn hytrach na chwerchin a gorfoleddu yn ffordd ehang distryw. Gwir iawn yw yr hyn y mae *Jch* yn ei ddywedyd, *Fel y derfydd y cwmmwl, ac yr â ymmaith, felly 'r hwn fydd, yn desgyn i'r bedd, ni ddaw i fynu mwyach. Ni ddychwel mwy iw dy, a'i lê nid edwyn ef mwy.*

Iob. 7. 9.

Y pedwaredd Diben.

PWy bynnag fydd yn arfer o ddesgyn i ddyfnder ystyriaeth, difrifol *Tragywyddoldeb*, fe fydd cyn belled oddi wrth fyw yn benrhydd ac yn nwyfus, ac y bydd yn anhawdd i weled ef yn chwerthin un amser o ddyfnder ei galon. Dalied sulw ac gymmaint ag y gyfodwyd oddiwrth y meirw, ac y dioed i fywyd diachefn, ni welwyd monynt un amser erioed yn chwerthin. Yn neilldual ar *Lazarus* o *Bethania* daliwyd sulw, yr hwn yr oedd Christ yn ei garu. Gallei ef a nhwythau cymmaint ag y gyfodwyd

gyfodwyd edddi-wrth y meirw ddywedyd gyda 'r Pregethwr y gwirioned, *Mi a ddywedais am chwerthin, ynfyd yw: Ac am lawenydd pa beth a wna?* Nid heb achos y mae *Cyril* o *Alexandria* yn cyfaddef ei hun yn hyn yma ei fod ef yn ofnus; Canys efe sydd yn dywedyd fel hyn, y mae arnaf ofn uffern a'i chospedigaethau, o herwydd nad oes diwedd iddyd. *Oh na baent ddoethion, na ddealent hyn, nad ystyrient eu diwedd!* Preg. 2.2. Deut. 32.29.

Y neb bynnag nid yw yn gwellhau wrth yr ystyriaeth ar *Dragywyddoldeb* (anturiaf ddywedyd yn hyf, ac yr wyf yn meddwl y gallaf ddywedyd hynny am wir) naill a'i nid oes ganddo ddim ffydd, neu os oes ganddo beth ffydd, nid oes ganddo ddim calon, neu (bwrw i'r goreu) nid yw hi ond calon gwedi marw, ac heb ddim ymwrandawiad. Gair digrifgall gwr dysged.g ydoedd hyn, *Mai cáa ferr felus oedd priodas, ond bód iddi bi ddiwedd hirllaes alaethus:* Felly am ddigon gwir, ni allwn ddywedyd am yr holl ddifyrrwch yr yd m yn ei gymmeryd mewn pechod,

mai cân ferr lawen ydyw, ond ei bod hi yn diweddu mewn galar a chwynfan; neu yn hytrach can ferr yw o ran yr amser, ac o ran y don yn felus tra parhao: Canys ar byngciau a gobyngciau plethedig o lawenydd a gorhoen y mae hi yn rhedeg. Eithr y mae yr amser yn newidio yn ddisymmwth, a newid a wna 'r dent Canys heb orphwyso un gronyn canlyn a wna cêd a hiraeth tristwch a galar; yr hyn nid ellir ei fefur ag amser yn y byd. O blegit poenau uffern ynt *Dragywyddol.* O *Tragywyddoldeb, Tragywyddoldeb, Tragywyddoldeb.*

Y Pummed Diben.

PA beth bynnag a fiaradwn ni am *Dragywyddoldeb*, ni a fiaradwn gydâ 'r lleiaf bob amser; Eithr nid allwn fiarad yn ormod am dano ef byth. Ni chyrraedd beth bynnag a ddywetpwyd am dano ef, ni ddichon geiriau yn y byd ei draethu, na fiigurau yn y byd ei fwiw, nac amser yn

y

y bydd ei fesur. Canys o'r anian hwn y mae *Tragywyddoldeb*, cymmerwch oddi-wrtho y maint y synnoch, yr un faint yw efe yn wastadol. Nid ydys nag yn ei angwhanegu ef trwy ddodi atto, nac chwaith yn ei leihau ef trwy dynnu oddi-wrtho. Bwrw po tynnyd oddiwrtho cymmaint o flynyddoedd ac sydd o fêr yn yr wybren, defnynnau yn y mor, tyfod ar lan y mor, dail ar y coed, gwellt yn y maes, mŷrrynnau ym mhelidr yr haul, llwch ar y ddaiar; Pa faint fyddei yn ymaros? cymmaint ag oedd cyn y tynniad oddi wrtho. Bwrw fod cymmaint a hynny o flynyddoedd gwedi eu dodi atto: Pa faint y fyddei y pryd hynny yn ymaros tros ben? Cymmaint ag oedd cyn y dodiad atto: Nid yw 'r swm o'r cwbl na mwy na llai, na 'r hyn ydoedd, hynny yw, *Tragywyddoldeb.*

Cyhyd ag y bo Duw, cyhyd a hynny y bydd i'r damnedig gael cu poeni. Mi a wasgodais allan o'r blaen hyn yma trwy rai cyffelybiaethau, a thebygoliaethau, ac y rhai mi a ddodaf un allan o *Bonauentur* angwhaneg. Ped fai un o'r damne-

dig, medd ef, yn wylo yn y modd yma, ac na byddei iddo ollwng i lawr ond un deigr mewn cant o flynyddoedd, ac i'r dagrau hynny gael eu cadw ynghyd cymmaint a hynny o gantoedd o flynyddoedd, nes y gwyth ddeddent ddefnynnau 'r Mor: Och! Och! (nid i grybwyll am y mor) Pa nifer o fyrddiwnau o flynyddoedd y fyddei yn angenrhaid eu myned heibio cyn y gallent hwy wneuthur un afon fechan? Neu a byddei iddynt o'r diwedd wneuthur o'r dagrau fôr hollhawl, etto y pryd hynny gellyd yn un wedd ddywedyd yn uniawn am hynny; *Mai yn awr y mae Tragywyddoldeb yn dechreu.* Ac os efe a wylei yn ol yr un modd drachefn nis iddo wneuthur ond arall: Etto hefyd y pryd hyn gellyd dywedyd am hynny drachefn mor uniawn ag o'r blaen, *Mai yn awr y mae Tragywyddoldeb yn dechreu:* Ac oddi yno yn myned ymhagddo yn dragywyddol. Na fydded i neb unwaith ammeu y gwirionedd o hyn: Ca. nys nid oes rhwng yr hyn fydd yn annherfynol g fladdrwydd yn y byd. Eithr hyn a ymddengys yn rhyfedd

ddol ac yn ddieithr ini o herwydd na ddichon bwriad ein meddyliau ei amgyffred: Ymeſtyn i'r hyn ſydd mor anghyſbell ni ddichon;na threiddio i'r hyn ſydd yn annherfynol; canys anhydraidd yw. A hyn yw rachos fod ein dalldwriaeth ni mor anhawdd ei dynnu i'r yſtyriaeth ar *Dragywyddoldeb:* Oblegid ei fod ef mewn modd yn gwladeiddio ac yn cywilyddio, neu onid yw hynny, nid yw yn gallu o ran digllonedd ddioddef blino ei hun yn ymoſyn am yr hyn ni ddichon gael ei hanes. Eithr bwriwn ymmaith y lledneiſrwydd ynfyd cywilyddus hwn,a chymmellwn ein dalldwriaeth i dayledus ddifrifol yſtyriaeth ar *Dragywyddoldeb*, ac aiferwn fyfyrio yn waſtadol ar y cyfryw gyſtelybiaethau, ac y ddichon mewn rhyw fodd ei waſgodi allan, a'i gynnyrcholi i ni: Ac ni wnawn ni byth felly ar fai. Dywedwn a allwn, meddyliwn a fynnwn, bwriwn yn ein meddyliau cymmaint a hynny o fyrddiwn o fyrddiwnau o flynyddoedd, ac y fo poſſibl i feddwl dyn eu hamgyffred; ni bydd i ni er

hynny gyrraedd hyd a mesur *Tragywyddoldeb:* Y mae blynyddoedd *Tragywyddoldeb* yn fwy o lawer, ie yn aneirif mwy.

Y Prophwyd *Daniel* sydd yn arwyddoccau mesuriad a hyd anfesuredig *Tragywyddoldeb* yn y geiriau hyn, *A'r doethion a ddisgleiriant fel*
Dan. 12. 3. *disgleirdeb y ffurfafen, a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder a fyddant fel y ser, byth yn dragywydd.* Dal di sulw ar y geiriau hyn, *Byth yn dragywydd.* Yr un modd a phed fuasai yn dywedyd, nad oedd geiriau yn y byd yn ddigon i egluro naturiaeth *Tragywyddoldeb. Byth yn dragywydd y mae.* Dyna'r cwbl a fedrai dywedyd am dano: Er bod o herwydd ei naturiaeth ef ei hûn fwy i'w dywedyd; er hynny nid ydwyf o'r gallu i adrodd angwhaneg. Dal di sulw ar ei *Anrefis* ef (sef ei angwhaneg iad) neu ei *gymyddiaeth* ef a mwyedigaeth;) *B, th* hynny yw, tros *Dragywyddoldeb:* Eithr nid yw ef yn tybied hynny yn ddigon, ac am hynny mae yn ei ddyblu, *Ag yn Dragywydd.* Ac etto mae yn ei egluro yn gyflawnach yn y Lladin, yn y geiriau hyn, *In perpetuas Æternitates,*

tes, Hyd tragywyddolderau Tragywyddol: Dal sulw yma nad yw ef yn dywedyd, *in Æternitatem*, hyd *Tragywyddoldeb* yn unig, yn y rhif unig; eithr *in Æternitates* hyd *Tragywyddolderau*, yn y rhif lliosog, fel pe na buasei un yn ddigon: Nid yw ef yma yn gorphywys chwaith mewn annhrefn yn dywedyd, hyd *Tragywyddolderau*, Ac etto nid yw ef yn angwhanegu neb ryw amser terfynol, o herwydd na ddichon neb ei ddatgan, eithr un annherfynedig, *Tragywyddol, hyd Tragywyddolderau Tragywyddol neu annherfynededig.* Yn awr os yw un *Tragywyddoldeb* yn ddi-ddiwedd, pa beth yw dau? Pa beth yw deg? pa beth yw cant? Pa beth yw aneirif? Pettem ni yn llios ddy blygu y flwyddyn fawr, neu flynyddoedd o'r unrhyw fil o weithiau, ni ddoe hynny i gyrraedd y corriad lleiaf y mmaith oddi wrth nifer aneirif *Tragywyddoldeb*, yr hwn nid ellir ei leihau. Y maent yn dywedyd fod yr wythfed nefol *Bêl* neu *Wybren* yn symmud yn araf ryfeddol allan o bob cyffelybiaeth: Canys er ei bod hi beunydd yn cael ei chwyldroi o amgylch trwy symmudiad cyflym y

Cyngynhyrfydd, er hynny nid yw hi yn gorphen ei chylch priodol ei hun ond unwaith mewn un mil ar bymtheg ar hugain o flynyddoedd, a'r yspaid hyn o amser y maent yn ei alw y flwyddyn fawr, neu flwyddyn *Plato*. Eithr cymmharwch hon a *Thragywyddoldeb*, a hi ni ymddengys ei bod ond moment, ond y dim lleiaf o amser, ond munud, ond diddim mewn gwirionedd. Ymadrodd gwir o eiddo *Boetius* yw hyn, fod y dim lleiaf neu 'r myrmyn o amser, a dengmil o flynyddoed yn cadw gwell cyfladdrwydd o'i cymmharu a'i gilydd, ne y mae dengmil o flynyddoedd a *Thragywyddoldeb*. Eithr gwrando beth y mae St *Joan* yn ei ddywedyd, *O blant bychain, yr awr ddiweddaf ydyw*. A hyn y ddywedodd ef er ys mil a chwechant a thri-ugain mhlynedd. Gan hynny mae 'r hyn y mae St *Augustin* yn ei ddywedyd yn ddigon gwir, beth bynnag fydd ag iddo ddiben, nid yw hwnnw ond byrr. Gair ydyw *Tragywyddoldeb* ni chynnwys ynddo ond pump o fillafau, er hynny peth diddiben ydyw. Gan hynny dyro dy serch ar *Dragywyddoldeb*,

Ioan. 2. 18.

gad

gad i Ghrist fod dy ddibē, a chei dey r. nasu gyda Christ yn ddiddiben.

Y chweched Diben.

NId peth i'w gredu yw, y dichon neb ryw ddyn y fyddo ganddo ddim blas ar wir grefydd gael ei ddwyn ymmaith felly cyn belled gan wynniau afreolus anllywodraethus (Oni bydd ef cyngddrwg ag anifail y reolir yn unig â rhefwm, ac y wasanaetho ei chwant anianol yn unig: Canys y dyn drygionus annuwiol, ie y pryd hynny pan fyddo agos gwedi ei lyngcu gan y pwll dyfn, yn yr hwn y tarawodd ei bechodau ef yn wysg ei ben tan y dwfr, ie, y pryd hynny, meddaf, nid yw ond chwerthin am ben hynny, nid yw yn prisio yn hynny) Nid peth i'w gredu ydyw meddaf, y dichon un dyn y fyddo ganddo neb ryw grefydd yn y byd o'i fewn, gael ei ddwyn ymmaith felly cyn belled gan ei bendew a'i benrhydd wynniau, na threuliai bob dydd ran awr yn myfyrio ar *Dragywyddoldeb*, ie o myfyriai ond unwaith yn yr wythnos yn ddifrifol ar hynny, efe a wellhau

ei foesau, efe a newidiai dresn ei fuchedd i well, efe yn ddiammeu a brisiai yn dda yn newydd: O ddyn balch a brisiau yn ddifalch ac yn ostyngedig; O ddyn diglion, efe a brisiau yn addfwyn ac yn hynaws; O ddyn aflan, efe brisiau yn ddiwair ac yn ymattalus; O ddyn meddw, fe brisiau yn sobr ac yn dymmherus. Efe ynwisgai oddi fewn nid oddi allan a gwisg gwir grefydd y gwr duwiol. Ef a brisiau yn gyfryw un nid mewn dillad ac ymadrodd oddi allan, eithr mewn calon a hoffedd oddi fewn. Ac nid ae yn fyrbwyll ac mewn gwall gyngor, yn ysgafn ag yn esceulus ar hyttynt oll ar unwaith ac yn ddisymmwth o'r naill eithaf i'r llall: (nid yw y cyfryw gyfnewidiad yn dda, na chwaith ni pharhant yn hir.) Eithr fe iawn holei 'r peth eilwaith a thracheſn, rhyngddo ag efei hun, ef a'i hystyriai yn dda, fe sefydlai ei feddyliau difrifol arno, fe ddadtreiglai *Dragywyddoldeb*, *Tragywyddoldeb*, *Tragywyddoldeb* yn fynych yn ei feddwl: Yr hwn ni therfyna byth, ni ddibenna byth, ni ddiweeda byth; yr hwn a barhâ trwy 'r oesau anterif, diamgfyffred, annherfynedig.

Hynny

Hynny a wnae gyd ag ystyriaeth ac ymwrandawiad; A chnoe hynny yn fynych, yn yr un modd a'r anifeiliaid yn cnoi eu cil. Bwyd er cystadl ac jachused byth fyddo, oni chnoir ef tan y dannedd, ei ddarparu yn y genau, ei dreulio yn y cylla, ei droi yn waed, a'i ddosparthu trwy 'r gwithi i holl rannau 'r corph, y diydd yn wenwyn yn hytrach nag yn faeth, i fagu pob math ar glefydau: Ei actal a wneir weithiau yn y corph ysgatfydd, ond mae hynny yn gwneuthur mwy o ddrwg nag o dda; Gwelly fyddei o lawer iawn ei fod allan nag i fewn. Yn unwedd felly y mae ymeddyliau am *Farwolaeth, Barn, Nef, ac uffern*, yn dda ac yn iachus, yn dduwiol ac yn sanctaidd: Eithr nid oes yr un cystadl a'r meddwl am *Dragywyddoldeb*, yr hwn y ellir yn deilwng ei alw y *Purion*. Eithr megis y mae gyda bwyd, nid yn unig y cymmeriad o honaw yn y genau, ond y treuliad da hefyd arno yn y cylla, ei droad yn waed da yn yr afu, a'i ddosparthiad i'r holl rannau trwy 'r gwithi, sydd yn maethu 'r corph: felly y mae gyda 'r meddyliau gwerthfawr yma am *Farwolaeth, Barn, Nef, Uffern, a Thragywyddoldeb*:

Nid y mytfyrdod yn unig arnynt, ond y difrifol fyfyrdod arnynt rhyngddom â ni ein hunain; gan oſod o'r neilldu bob gofalon a thrawſdynniadau bydol; yr iawn-yſtyriaeth arnynt yn ein calonnau, a'r mynych gnoi'r cil arnynt, dyna 'r hyn ſydd yn porthi ag yn maethu 'r enaid. Ond wneir hyn yma nid yw y relyw ond i ychydig amcan: Heb hyn yma mae 'r darllenniad o'r yſgrythur lan yn unwedd yn ddiſtiwyth; Y gwrandawiad o bregethiad y gair yn anfuddiol. Y mae llawer yn fynych yn gwrando pregethau, yn darllain yr yſgrythur lan troſti a throſti drachefn; Ac etto nid yw hynny yn gwellhau mor llawer arnynt, oblegid nad ydynt hwy yn myfyrio ar yr hyn y ddarllennaſant ac y glywſant. Pan fyddant yn gwrando, yr hyn ſydd yn dyfod i mewn i'r naill gluſt, ſydd yn myned allan i'r llall: Pan fyddant yn darllain, cyn gynted ag y bo yllygad oddi ar y llyfr, yr hyn y ddarllennaſant ſydd yn llithro yn fuan allan o'i cof. Cyn y gallant arfer yr hyn y ddarllennaſant neu y glywſant, byddant gwedi llwyr

anghofio

anghofio yr hyn y ddylaſſent ei wneuthur. Gan hynny os nyni y ddarllennwn neu y wrandawn yn fuddiol, rhaid i ni dreulio peth amſer yn myfyrio ac yn yſtyrio beth y ddarllennaſom ac y glywſom rhyngom a ni ein hunain. Gallwn ddyſgu 'r wers hon gan y forwyn ſendigedig Mam ein harglwydd, *Eithr Mair a gadwodd y pethau hyn oll, gan eu hyſtyried yn ei chalon.* Luc. 2. 19.

Y ſeithfed Diben.

YChydig neu neb y gredant, nen onid yw hynny, y ddeallant ac yſtyriant yn dda rhyngddynt a hwy eu hunain y geiriau hyn o eiddo Chriſt, *Ewch i mewn trwy 'r porth cyfing: Canys ehang yw 'r porth a llydan yw 'r ffordd, ſydd yn arwain i ddeſtryw, a llawer yw y rhai ſydd yn myned i mewn trwyddi. Oblegid cyfing yw 'r porth a chul yw 'r ffordd, ſydd yn arwain i'r bywyd, ac ychydig yw y rhai ſydd yn ei chael hi.* Y mae ein Jachawdur Matth. 7. 13. 14

yn

yn ail adrodd hyn drachefn trwy
Luc. 13. 24. enau St *Luc*, *Ymdrechwch am fyned i mewn trwy'r porth cyfyng. Canys llawer, meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant.* Y mae St *Auguſtin* yn dywedyd. Pwy bynag fydd yn gwatwar y ſtydd hon, ac am hynny ni chred oblegid nad yw ef yn canfod: Pan ddelo yr hyn nid oedd yn ei gredu i ben, ſe a gywilyddir ac a wradwyddir, efe a wradwyddir ac a ddidolir oddi wrth y bendigedig; efe a neillduir oddiwrth y gwynfydedig, ac i gyfran afydd gyda 'r damnedig.

Hieronymus Platus fydd yn ſon am ryw wraig oedd yn clywed *Bertoldus* gwr galluog yn y pulpyd, yn cabin yn groch iawn ac yn fuſtlaidd ar y pechod y gwyddei hi ei hod yn euog o honaw, a gwympodd i lawr yn farw yn yr Eglwys; Ac ymmhen ennyd trwy fendith Duw ar weddiau y gynnulleidfa (gwedi iddi ddyfod atti ei hun drachefn,) y adroddodd iddynt y peth y welſei hi yn ei llewig, gan ddywedyd fel hyn, Tybygwn fy mod yn ſefyll ger bron brawdle Duw, a thriugain mil o encidiau angwhaneg gyda mi, gwedi

eu

eu galw ynghyd o bob parth y byd, i dderbyn eu barn ddiweddaf: a'i bwrw hwy oll a wnaed yn euog, a'i barnu i boenau *Tragywyddol*, ond tri yn unig. Fe fyddei anhawdd gennif goelio adroddiad y wraig hon, oni bai fy mod yn credu gwirioned difrifol Chriſt yn yr Efengyl, *Ebang yw 'r porth, a llydan yw 'r ffordd ſydd yn arwain i ddeſtryw:* A thrachefn, *cyſyng yw 'r porth, a chul yw 'r ffordd ſydd yn arwain i'r bywyd, ac ychydig yw y rai ſydd yn ei chael hi.* Hyn y ddichon ymddangos yn ddieithr i gig a gwaed y byddei i Dduw. Tad y trugareddau roi barn a bwrw yneuog gymmaint a hynny, nid wyf yn dywedyd tri-ugain mil, eithr tri-ugain mil o filoedd. A pha ddyn y gredai hyn, oni bai i'r gwirioned o hynny ei annog ar yr yſtyriaeth o benllywodraeth a nawrhydi anfeidrol Duw yr hwn a anſoddhawyd, a malais annhraethol y pechod y wnaed; a'r tyſtiolaethau eglur o'r yſgrythur trwy rhai y mae hynny gwedi ei broſi yn oleu? Y mae *Job* yn crynu with hyn gan ddywedyd, *Tir tywyllwch fel y fagddu, a chyſgod angeu, a heb dreſn: lle y mae y goleuni fel y tywyllwch,* Matth. 7. 13. 14. Iob. 10. 22.

llwch, neu yn ol y lladin, *lle heb dresi, lle y mae trigfa gerwindod tragywyddol*. Cynny yn helaeth y mae St *Matthew* yn ei wirio yngeiriau ein Jachawdur, *Ewch oddi wrthyf rai melldigedig i'r tân Tragywyddol*. Gadewch i ni ystyrio y pethau hyn yn dda rhyngom a ni ein hunain, a golchwn ymmaith ein pechodau tra caffom ni amser â dagrau edifeirwch, rhag ofn i Dduw ein cippio ymmaith yn ddisymmwth, a rhoddi i ni ein cyfran gyda'r rhagrithwyr yn yr uffern bwll heb waelod, *lle nad oes dim ond wylofain a rhincian dannedd, lle na bydd y pryf farw byth, a'r tân ni ddiffydd*: O'r fan honno meddaf, nid oes un ymwared; a thracheſn meddaf, un ymwared, nac oes, na neb ryw gyſſur yn y byd, na chymmaint a defnyn bach o ddwfr oer. Os y duwiolaf un hunain y rhai ynt mewn cyſſur gras ac mewn ffafor a Duw; meddyliau a dymuniadau y rhai ynt dda, o's medrant hwy, meddaf, jawnddeall o ba poenau gorthrwm y bydd iddynt gael eu gwaredu a'r ddydd farn, ac i ba lawenydd annraethadwy

Math. 25.41.

dwy ac anneallddwy yr ant; yn ddiammeu ni arferent ddiweddarwch yn y byd, ni ollyngent un awr i fyned heibio, eithr cymmerent yn ddioed eu cennad oddi-wrth bob gwagedd, ymwrthodent a'r byd, *a gadawent i'r marw edrych am y marw*: Eithr byddent bob awr beunydd yn dda eu gwaith yngylch mafnach eu meiſtr, bob amſer yn aſtudio i ryngu bodd Duw, gan ei foli a'i glodfori bob amſer am ei ddaioni a'i drugaredd tu ag attynt, yn eu bendithio mewn rhan yma yn y byd hwn, ac yn rhoddi iddynt addewid ddinam o wynfyd tragwyddol yn y byd a ddaw, yn eu gwared oddiwrth boenau uffern, ac yn rhoddi iddynt ddyfodfa i lawenydd y nef.

Ymadrodd St *Gregori* yw, mai garwaf yr ymddengys drygau 'r byd preſennol hwn, pa leiaf y meddyliom am y daioni y ganlyn ar ol hyn. Ac oblegid nad ydym yn yſtyrio y gwobrwyon mawr iawn y rhai y roddwyd i gadw i ni, am hynny y cyfrifwn gyſtuddiau y byd hwn yn orthrwm i'w dioddef:

Pan

llwch, neu yn ol y lladin, *lle beb dreſs, lle y mae trigfa gerwindod tragywyddol*. Cymry yn helaeth y mae St *Matthew* yn ei wirio yngeiriau ein Jachawdur, *Ewch oddi wrthyf rai melldigedig i'r tân Tragywyddol*. Gadewch i ni yſtyrio y pethau hyn yn dda rhyngom a ni ein hunain, a gol-

Math. 25.41.

chwn ymmaith ein pechodau tra caffom ni amſer â dagrau edifeirwch, rhag ofn i Dduw ein cippio ymmaith yn ddiſymmwth, a rhoddi i ni ein cyfran gyda 'r rhagrithwyr yn yr uffern bwll heb waelod, *lle nad oes dim ond wyloſain a rhingcian dannedd, lle na bydd y pryf farw byth, a'r tân ni ddiffydd y tân yn dragywydd*: O'r fan honno meddaf, nid oes un ymwared; a thrachefn meddaf) un ymwared, nac oes, na neb ryw gyſſur yn y byd, na chymmaint a defnyn bach o ddwfr oer. Os y duwiol eu hunain y rhai ynt mewn cyfiwr gras ac mewn ffafor a Duw; meddyliau a dymuniadau y rhai ynt dda, o's medrant hwy, meddaf, jawnddeall o ba poenau gorthrwm y bydd iddynt gael eu gwaredu a'r ddydd farn, ac i ba lawenydd annraetha-

dwy

dwy ac anneallddwy yr ant; yn ddiammeu ni arferent ddiweddarweh yn y byd, ni ollyngent un awr i fyned heibio, eithr cymmerent yn ddioed eu cennad oddi-wrth bob gwaeddd, ymwrthodent a'r byd, *a gadawent i'r marw edrych am y marw*: Eithr byddent bob awr beunydd yn dda eu gwaith yngylch mafnach eu meiſtr, bob amſer yn aſtudio i rygu bodd Duw, gan ei foli a'i glodfori bob amſer am ei ddaioni a'i drugaredd tu ag attynt, yn eu bendithio mewn rhan yma yn y byd hwn, ac yn rhoddi iddynt addewid ddinam o wynfyd tragwyddol yn y byd a ddaw, yn eu gwared oddiwrth boenau uffern, ac yn rhoddi iddynt ddyfodfa i lawenydd y nef.

Ymadrodd St *Gregori* yw, mai garwaf yr ymddengys drygau 'r byd preſennol hwn, pa leiaf y meddyliom am y daioni y ganlyn ar ol hyn. Ac oblegid nad ydym yn yſtyrio y gwobrwyon mawr iawn y rhai y rodd'wyd i gadw i ni, am hynny y cyfrifwn gyſtuddiau y byd hwn yn orthrwm i'w dioddef:

Pan

Pan os ny ni a dderchafem ein calonnau, a chyfodi ein meddyliau i synniedigaeth y pethau hynny ynt *Dragywyddol*, ac heb fòd yn ddarostyngedig i neb ryw gyfnewidiad; os ein llygaid a fyddei gennem arnynt, a'n calonnau ynddynt, ni a furiem yn ddiammeu ddioddefiadau y bywyd hwn, a pha beth bynnag y mae diwedd iddo, eu bod megis diddim: A thrachefn llawenydd mewn cystudd sy 'n gan yn y nos: Canys er ein cystuddio o'r tu allan a'r ymwrandawiad â thrymfryd tros amser, etto yr ydys yn ein cyssuro ni oddi fewn a'r gobaith o lawenydd *Tragywyddol*.

Ynghylch yr un fath yn agos iawn y mae St *Augustin* yn ymresymmu, ped fait ti yn disgwyl, medd ef, wrth yr hyn a dderbynni yn ol hyn, di a gyfrifit ddioddefiadau y bywyd presennol hwn oll yn salw, ac yn annhei, lwng i gyd oll o'r gogoniant a ddarcuddir. Canys frodyr, (i lefaru am werth pethau) dylei ddyn fod yn ewyllysgar i fyned tan boen *Dragywyddol* am esmwythdra *Tragywyddol*, ac i ddioddef o'i wirfodd dristwch *Tragywyddol* am lawenydd *Tragywyddol*.

Eithr

Ebr os y boen a'r triſtwch y fyddei yn *Dragywyddol*, pa bryd y byddei ddyn ddyſod i eſmwythdra a llawenydd *Tragywyddol*. Gan hynny me yn angenrhaid i'th gyſtudd fod ymſerol mal y gallech o'r diwedd derbyn y gwobrwy y fydd yn Dragwddol. Canys crog i ſ. nu y cloian, a dyro *Dragywyddoldeb* yn y mill ben, a mil o flynyddoedd yn y lall: I ba beth yr wyſ yn dyweyd, mil o flynyddoedd? Je, dengmil, ie can mil, ac etto yn angwhaneg mil o filoedd, y maent yn rhy y ſgafn ell i gydbwyſo â *Thragywyddoldeb*; nid oes dim cyſtaddrwydd rhyngddynt. Ac ym mhellach etto i'w gwneuthur hwy yn y ſgafnach, megis y maent yn amſerol; felly y maent yn fyrr heſyd ac yn ddiddim eu pa. n, ni pharhânt ond tros y chydig au. ddyddiau, y pryd y byddont fyiraf, neu yn hytrach ond tros un diwrnod, a hwnnw yn un byrr: ſef diwrnod y bywyd hwn, yr hwn a heibio yn fuan, a nhwythau fyddant gwedi myned ymmaith. Gan hynny er dioddef o ddyn hyd ei holl fywyd, ie hyd y ſiun ddiweddaf, er iddo ddioddef, meddaf, poen, gofid, triſtwch, carchar, flangellau,

flangellau, newyn, syched hyd ei holl
fywyd, ie hyd ei ffun ddiweddaf,
etto nid yw ei ddioddefiadau ond
byrrion, oblegid nad yw ei fywyd
Gen.47 9. ond byrr. Canys *dyddiau blynyddoedd*
ein hymdaith ynt ond ychydig, er eu bod
yn ddrwg, megis y dywedodd *Jacob*
i *Pharao*. *A dyn a aned o wraig sydd*
Iob.14. 1. *fyrr o ddyddiau*, er eu bod megis y
mae *Job* yn achwyn, yn *llawn o helbul*.
Psal 39.5. Ac *wele*, medd *Dafydd*. *Gwnaethost*
fy nyddiau fel dyrnfedd a hyn nid
yw ond mesur byrr, ac etto mae yn
myened ym mhellach) *a'm beinioes*
sydd megis diddim yn dy olwg di.
Ac megis y mae ein *beinioes* yn *ferr*,
felly y mae ein *cystudd* yn *ysgafn*,
2Cor. 4.17. eithr *y mae yn odidog ragorol yn gwei-*
thredu tragywyddol bwys gogoniant i
ni: Pan ddarfyddo y *bywyd* a'r
boen ysgafn hon, ni a gawn etifeddu
bywyd tragywyddol a *Theyrnas Dra-*
gywyddol a gwynfyd *Tragywyddol*:
Rhu. 8.17. fe an gwneir yn gydradd a'r An-
gylion, *etifeddion i Ddaw* a chyd-
etifeddion a Christ. Oh! mor fawr yw
ein gwobrwy am cyn lleied o boen! A
thrachefn, medd *Augustin* mewn
man arall, *Meddyliau Duw ynt*
ddwfn

dwfa irwn. Ym mha le y mae meddwl Duw? A pha beth yw ei amcan? Y mae yn gadael yr awennau yn llacc tros yr amſer preſennol, a chwedi hynny ef a'i deil hwy ei dynn. Na ymlonna ac na ddiſgwra dy hun fel y pyſgodyn yn y dwfr, yr hwn gwedi iddo gaffael yr abwyd yn ei ſafn ſ, dd yn chwannu i fynu ac i wared: Eithr gwedi ei daro yn ei fant a'r bach dichon y pyſgodwr ei dynnu i fynu pan fynno. Yr amſer yr hwn ſydd yn ymddangos i't yn hir, nid yw mewn gwirionedd ond byr, ie byr iawn. Canys pa beth yw einioes dyn gwedi eu cymmharu a *Thragywyddoldeb?* A chwenychit fod yn ddioddefgar, ac yn dda dy ymmynedd? Yſtyria dthau *Dragywyddoldeb* Duw: Wyt ti yn yſtyrio dy ddyddiau dy hun yn unig, y rhai yn t ychydig a byrrion, ac wyt yn meddwl mai ynddynt hwy y cyflawnir y pethau oll? Y byddei i'r drygionus gael ei gondemnio, a'r duwiol ei goroni? A ſinnit gael cyflawni y pethau hyn oll yn dy ychydig a'th fyrrion ddyddiau? Duw a'i cyflawna yn ei amſer ei hun.

Duw

Duw sydd *Dragywyddol*, Duw sydd ddioddefgar, a da ei ymmynedd: Ac yr wyt ti yn dywedyd, ond ni fedraf mor bod yn ddioddegfar ac yn dda ei ymmynedd, oblegit nad wyf *Dragywyddol*, Eithr di elli fod os mynni, ond cyssylltu dy galon wrth *Dragywyddoldeb* Duw, a bydd i tithau fod yn *Dragywyddol* gydag ef. Oy dwyt Gristion da gwedi dy athrawiaethu yn jawn yn ofn yr Arglwydd, yn ddiammeu di a ddibenni ddarfod i Dduw rag cadw 'r cwbl i'w farnedigaethau ei hun. Trallodir a chystuddir y gwyr da a duwiol: Canys mae Duw yn eu ceryddu megis ei blant ei hun. Eithr ni ddaw y cyfryw drallod a chystudd ir gwyr drygionus annuwiol: Canys mae Duw yn eu taflu hwy ymmaith, ac yn eu condemnio megis estronniaid. Gan ryw wr bydd dau fab, y naill y sydd ef yn ei geryddu, a dioddef y bydd ir llall fyned yn ddigerydd: efe a gernodia 'r naill, ac a i chwistringa, ac ai fflangella yn ebrwydd, er nad elo yn neppell allan o'r ffordd; gwnaed y llall waetha gallo, ni chlyw ef son am hyn, ni cheryddir monan cymmaint ag un waith am hynny.

Pa

Pa beth yw 'r achos? Etifedd y tâd yw 'r hwny gospir; a dietifeddu y mae ef yr hwn sydd yn myned yn ddigosp. Canys pa beth a wnae 'r tad? Gweled y byddei nad oedd dim gobaith o honaw, a'i fod wedi myned yn rhybell o ras, ac am hynny yr oedd ef yn ei adael yn llonydd i wneuthur y peth a fynnei. Eithr etto er hynny i gyd, y mab y gospir yn fynych am y camwedd lleiaf, sydd yn barod i alaethu ac i gwynfan ei gyflwr ei hun, a ei gyfrif ei frawd yn ddedwydd sydd yn myned yn ddigosp. Fe sydd, meddaf, oddieithr i Duw roddi iddo galon gall ddeallus, i adnabod yr hyn a weithia i'w ddaeoni: Bydd yn gymmwys ganddo, meddaf, ddywedyd yn ei galon, bydd fy mrawd yn dilyn pob trefn ddrwg, yn cymmeryd ei ddifyrrwch, yn afradloni 'r hyn sydd ganddo i fyw, yn gwneuthur yr hyn sydd dda yn ei olwg ei hun; fe sydd yn torri gorchymynion fy nhad yn wastadol, ac efe ni ddywed un amser air hagr wrtho am hynny. Eithr yn y gwrthwyneb y mae 'r matter gyd a'm fi, os asi allan o'r golwg dippin bach, os af ond i'r ty nessaf, os lled trof gam, neu syflyd ond troedsedd, neu fodsedd allan o'm ter.

ſynau, ſe'm geilw i mewn qweſtiwn yn eberwydd, ſyrra, ym mha le bu, och chwi? Ni bydd i mi obaith am bardwn, caf yn ficer ddolurio am hynny. Dyna ſ. nghyflwr i. Ac, meddafi, yr wyt ti mewn gwell cyflwr nath frawd o lawer; ac onid ydwyt yn angall, dithau a feddyli felly hefyd: Canys gan dy fod yn cael dy gervddu, arwydd yw mai anwylach wyt ti. Os meddyli yn unig am dy gyflwr preſennol, ni ddichon ef na ynddangoſo i't yn ofidus: Eithr os ydyw dy lygad ar yr etifeddiaeth yr hon a rag-cadwyd iti, drachefn nid all ef na ymddangoſo i't yn llawenydd. Canys y ficerwydd am dy wobrwi ddyfod a'i wyr gymmer ymmaith yr ymwrandawiad o'th ofid preſennol.

Gellir angwhanegu yma allan o'r un tad cref ddus yr hyn ſydd yn canlyn, megis yn ſwm o'r cwbl a ddywedpwyd hyd yn hyn. Mor fawr a rhyfeddol yw trugaredd Duw! Nid yw ef yn dywedyd cymmer boen tros ddeg can mil o flynyddoedd tuntu; nac etto, un mil o flynyddoedd; nac etto bum cant o flynyddoedd. Eithr pa faint? cymmer boen tra byddych

fyw:

ſyw: Nid yw hynny ond tros ychydig ſlynyddoedd; A chwedi hyn di a gei eſmwythdra: y cyfryw eſmwythdra ac na bo iddo ddiwedd. Yſtyria hyn yn dda rhyngot a'th di dy hun, nad ydys ond rhoi a nat gymmeryd poen tros ychydig ſlynyddoedd, ac nid wyt ti ynghanol dy boen heb beth llawenydd, nid oes un diwrnod yn myned heibio yn yr hwn nas gelli gaffael cyſſur a diddanwch. Eithr na lawenha yn ol dull y byd; ond fel y mae 'r Apoſtol yn cynghori, *Llawenhewch yn yr Arglwydd yn waſtadol: A thrachefn, Meddaf, llawenhewch*: Llawenha ynGhriſt, Llawenha yn ei air, llawenha yn ei gyfraith. Canys gwir yw 'r hyn y mae 'r Apoſtol yn ei ddywedyd, *Ein hyrr yſgafn gyſtudd ni ſydd odidog ragorol ya gweithredu Tragywyddol bwys gogoniant i ni.* Yſtyria pa brîs ſalw yr wyt ti yn ei roi, nid amgen na chibyn meſen am *Dragywyddol* dryſorau: Cibyn by boen ferr, am eſmwythdra *Tragywyddol.* Oes gennit lawenydd tros amſer? Na ymddiried yn ormod iddo; wyt ti tros amſer yn drwm ac yn driſt? Na anobeithia am lawenydd a chyſſur. Na âd i

Phil. 4. 4.

2 *Cor.* 4. 17.

hawddfyd dy falchio, na chwaith i adfyd beri i ti ymollmwng. Fe addawodd Duw i ti fywyd *Tragywyddol*: Am hynny dirmyga wynfyd amserol. Fe a fygwthiodd dan *Tragywyddol*: Am hynny dirmyga bob tristwch amserol.

I ddibennu am hyn gydâ 'r un awdur crefyddus, Gadewch i mi gan hynny fod mewn cariad â bywyd *Tragywyddol*; a thrwy hyn ni a ddown i wybod pa faint o boen a gymmerem ni i'w ynnill: Canys yr ydym yn gweled fod y dynion hynny y rhai ynt yn hoffi y bywyd presennol hwn, yr hwn sydd yn amserol, ac a ddibenna ar fyrder, yn cymmeryd poen a'i holl egni, grym a gallu i'w gadw, ac i'w estyn cyhyd ag a gallant. A diangc rhag marwolaeth nid allant er hynny: Canys hi a'i deil hwy ryw amser neu ei gilydd. Y cwbl a allant hwy obeithio ydyw, cael ei throi hi heibio tros ychydig amser. Pan nessao Marwolaeth, yno y bydd pob dyn yn cymmeryd poen yn cefsio ei guddio ei hun yn barod i roi ac i ymadael ad 'r peth a fynnyd a feddai i brynu ei fywyd. Denfyn am y pysygwr, cael

a

a wna ef ei reoli ym mhob peth, efe a gymmer ar ei law ef y peth a fynnir, efe a ddioddefa y peth a fynnir ſef earthu 'r corph, gollwng gwaed, ei Gwppanu, ei yſcraffinnio, a pha beth ni ddioddefa? Chwi a welwch i ba goſt yr a ef, a pha boenau yn ewyllyſgar a ddioddefa, i fyw ymma ond tros amſer byrr: Ac etto nid a ef agos i goſt yn y byd, na chymmeryd neb ryw boen i fyw yn dragywyddol. Od oes y cyfryw boen ac anhunedd, y cyfryw ddanſon a chyrchu, y cyfryw redeg a marchogaeth, y cyfryw dreulio ac arofyn, y cyfryw waith a dioddefaint i fyw ymma ennyd yn hwy: Pa beth na ddioddefem ac na wnaem yn ewllyſgar i fyw yn dragywyddol? Ac os ydys yn ei cyfrif hwy yn gall y rhai ynt yn cymmeryd cymmaint ag allant ym mhob modd o boen i droi marwolaeth heibio ennyd yn hwy, am ſod yn anhawdd ganddynt golli ychydig ddyddiau: Pa ynfydion ydynt hwy y rhai ynt yn byw felly, i golli o'r diwedd y dydd o *Dragywyddoldeb*!

Yſtyriwch y pethau hyn yn dda thyngoch a chwi eich hunain, (o

ddynion marwol, a rhag welwch y dydd o *Dragywyddoldeb*, pa 'r un bynnag a'i o lawenydd neu o boen, cyn iddo ddyfod. Canys er bod pob peth arall yn myned ymmaith, er hynny mae *Tragywyddoldeb* yn waſtadol yn ymaros, ac nid yw ef yn cael byth fyned ymmaith.

BEN. I.

Y bennod gyntaf yma ſydd yn byſpyſu y Goſpedigaeth o farwolaeth Dragywyddol.

YR oedd gan y *Meſſeniaid* ryw garchar neu ddaiardy tan y ddaiar yn wag o awyr a goleuni, ac yn llawn o erwindod uffernol: Yr hwn megis ac yr ydoedd yn lle anghenol iawn, felly hefyd iddo 'r oedd er hynny enw ardderchawg, canys ef a elwid y Tryſordy. Nid oedd i'r carchar neu i'r daiardy hwn ddiyſau yn y byd, yn unig un genau oedd iddo: trwy 'r hwn y gollyngyd i lawr y carcharorion wrth raſt, ac felly

felly fe ai ceuid i fynu drachefn â maen mawr. I'r Tryſordy hwn y taflwyd *Philopæmen* yr Ymherawdr mawr hwnnw o *Roeg*, ac yno trwy wenwyn fe ddibennodd ei oes. Y mae gan Dduw yntef (Os yw rydd i ni ddywedyd felly) ei Dryſordy tan y ddaiar: Ond yn rhodd, o ba ſath ydyw? O ddynion drygionus y mae, annuwiol, annobeithiol a damnedig.

Yr ydoedd gan *Alciolinus Gornaſdeyrn* o *Padua* (megis ac y mae *Jovius* yn rhoi allan) lawer o garchardai mor anenwog o ran pob math ar aflwydd ac arteithiau, ac y byddei y rhai bynnag a deflyd iddynt yn cyfrif eu bywyd yn adfyd, ai marwolaleth yn wynfyd. Gallei marwolaeth ddyfod i mewn yno heb guro 'r ddor; yr oedd hi iddynt hwy mor groeſawus, ac yr ydoedd yn hir ganddynt am dani. Canys eu triniad caled hwy oedd fel hyn, yr oeddyd yn eu llwytho â heiyrn, yn eu llewygu a newyn, yn eu gwenwyno a drygſawr, a phryfed yn eu hyſſu: Ac felly 'r oeddynt yn byw mewn modd grieſynus iawn, ac or diwedd o hir nychdod marw a

wnaent. Bernyd pawb y neyn druan jawn, ond yr hwn a fuaſei farw, ac nis gallei ymwrando a thrueni yn y byd. Coſpedigaeth waeth na marwolaeth oedd hyn iddynt, fod eu preſwylfod yni mhlith y meirw tra byddent byw. Canys y cyrph meirw oedd yn gorwedd ym mhlith y bw yn bentyrrau yn pydru yn y cyfryw fodd ac y gellyt dywedyd yn lle gwir am hyn, fod y marw yn lladd y byw.

Eithr y gwaethaf i gyd o'r carchardai hyn, Paradwys yw a lle hyfryd iawn, os cymmharir ef a charchardy uffern iſod. Pa drueni bynnag a ddioddefyd yngharchar *Athelinus* oedd oddefadwy yn yr yſtyriaeth yma, oblegid nad oedd o hir barhaad, gan nad oedd i barhau ddim yn hwy nag oes ferr, ac yn diflannu ymmaith yn llwyr yn awr marwolaeth. Eithr T(yſordy'r damnedig, yr hwn yw carchardy Duw, fydd yn wag o bob cyffur: Arteithiau yr hwn yntt annioddefadwy, oblegid eu bod yn *Dragymyddol*: Ni ddichon marwolaeth ddyfod i mewn yno, ni ddichon y rheini ychwaith elo i mewn gael dyfod allan drachefn. Eithr eu harteithio hwy

wneir byth bythoedd. Byth bythoedd? Mor ofnadwy yw hyn o beth! Eu harteithio hwy a wneir byth bythoedd. Ymadrodd gwir iawn oedd hyn o eiddo *Caſſiodorus*, megis ag nas dichon un dyn marwol amgyffred neu ddeall pa beth yw gwobrwy *Tragywyddol*, felly ychwaith ni ddichon un gwr ddeall neu ddychymmyg pa beth yw artaith *Tragywyddol*.

Gan y *Perſaid* yr oedd Carchardy i'r hwn y gallei ddyn yn hawdd fyned i mewn, ond ar ol iddo unwaith fyned i mewn, nid allei gwedi hynny ddyfod allan, neu os doe, ni ddoe ond yn anhawdd iawn. Ac am hynny fe a'i gelwyd *Lethe*, ſef *Angof*. Hawdd o beth ydyw diſgyn i uffern; eithr y mae yn ammhoſſibl i gyd oll eſgyn drachefn i fynu. A glywed ſon am neb erioed a ddychwelodd yn ol o uffern? Nid ydys heb achos yn galw y carchardy hwn o eiddo uffern, *Lethe*, ſef *Angof*. Canys y mae Duw mor anghofus am y damnedig, ac nid yw un amſer yn eu coſio i gymmeryd trugaredd arnynt. Yr ydys yn galw uffern *tir Angof* neu *ebargofiad*, a hynny o tan dau achos

(megis y mae yscrifennydd duwiol dysgedig yn dal sulw) Yn gyntaf, medd ef, o herwydd nad ydynt gwedi hynny yn cofio Duw er eu daioni, ac nid oes ganddynt chwaith goffadwriaeth yn y byd am bethau aethant heibio; on d y cyfryw ac ynt yn eu cystuddio ac yn eu poeni. Eu rhwysg oll a'i gogoniant, eu difyrrwch a'i digrifwch a anghofiasant yn llwyr, neu onid yw hynny, nid yw eu coffadwriaeth iddynt heb ofid a thristwch. Yn ail, tu ag at y rheini ynt yn y wlad erwin hon, a'r pwll o dan yr anghofiodd Duw fod yn rasusol, ac yn drugarog, na danfon eu Angylion chwaith i roddi iddynt un amser y cyssur lleiaf: Os i mewn unwaith, nid oes mor dyfod allan drachefn. Canys pa beth a ddywedodd *Abraham* wrth y Glwth goludog oedd yn ffrio yn uffern, ac yn deisyf arno ddanfon *Lazarus* i oeri ei dafod a defnyn o ddwfr? *Rhyngom ni a chwithau y siccrhawyd Gagendor mawr: Fel na allo y rhai a fynnent drammwy oddi yma attoch chwi, na 'r rhai oddi yna, drammwy attom ni.* Oh gagendor yn llawn gerwindod! Oh *Tragywyddoldeb*

Luc. 16.26

o

o boenau! yr unig feddwl am danynt ſydd yn ddigon i beri i wr dewr gythruddo a chrynu rhag ofn! Cloddio eu beddau eu hunain y mae 'r dynion drygionus annuwiol, ac yn preſwylio ynddynt yn dragywyddol: Eithr pa fath feddau y maent yn eu cloddio? Maent yn cloddio beddau dyfnion cyn ddyfned ag uffern, lle claddwyd y Glwth goludog, o'r fan *efe a gododd ei olwg ac efe mewn poenau, ac a ganfu Abraham o hirbell, a Lazarus yn ei fynwes*, i'w ddirfawr boen. Oh pa ddyfnder erchyll yw hwn! Oh pa fedd ofnadwy yw hwn! Pwy ſydd yn gorwedd yma? Efe yr hwn a adawodd i *Lazarus* orwedd wrth ei borth heb doſturio arno ddim. Pa fodd y mae arno yntef yr awrhon? Gorwedd y mae mewn ſflammau tan yn lle ei wely eſmwyth: ei ddyddfu yr ydys a ſyched, ei gwppaneidiau melus a gymmerwyd o'i enau, ei fwrddd a ſymmudwyd, ac nid oes ganddo ymborth arall yn y byd, ond tan a brwmſtan; Nid yw yr awrhon yn dawnſio ac yn llemmain o lawenydd, eithr rhingcian ei ddannedd y mae o ran anobaith uffernol. Y mae gan y rhai a gauwyd i fynu

Luc. 16.23.

yma yngharchar yn y byd hwn o baith am eu cyssur; ysgatfydd y cant eu gwared, a'i tynu allan o garchar: Eithr nid oes o uffern un gwared ad nag achubiaeth, nac na chymmaint a neb ryw obaith yn y byd, ond *Tragywyddol* anobaith.

Pregeth ferr, eithr un ofnadwy oedd yr hon a bregethodd Duw trwy 'r Prophwyd *Ezeciel* yn y geiriau hyn, *Dywed wrth goed y dean, gwrando air yr Arglwydd, sel hyn y dywed yr Arglwydd Duw, wele si yn cynneu ynot ti dân, ac efe a yssa ynot ti bob pren ir, o phob pren sych, ffagly fflam ni ddiffydd.* Pa sawl cedrwydden fawr, pa sawl gwr drygionus annuwiol sydd yn blaendarddu ac yn myned yn irlas o herwydd rhwydddeb llwyddiannus yn y pethau oll oddiallan, ac er hynny maent gwedi sychu a chrino o ran diffyg rhinwedd! Gwrandewch pob pren ir ac etto yn sych ac yn grin, *mi a gynneuaf dan, medd yr Arglwydd, ffagly fflam ni ddiffydd.* Nid oes yn uffern, y man lle 'r ydych chwi yn prysuro iddo cyn gynted, na dyddiau gwyliau, nac uchel wyliau, nac amserau gosodedig yn y thai y bydd ir tan beldio

Ezeci. 20.47.

dioa lloſgi. Yno mae gofid *Tra-gywyddol*, marwolaeth *Dragywyddol*, triſtwch *Tragywyddol*, heb gymmyſ-gedd o'r cyſſur lleiaf: Nid oes dim eſmwythdra yno na dydd na nos, na dim cwſg, ond gwiliadwriaeth ac anhunedd gwaſtadol o herwydd gofid, a phoenau anniodefadwy mewn tân tragywyddol. Yno y cewch chwi fod yn waſtadol, fel y caffoch eich poeni yn waſtadol: yno y cewch chwi fyw yn waſtadol, fel y galloch farw yn waſtadol. Oni choeliwch chwi fi, coeliwch *St Auguſtin*, geiriau yr hwn yw rhain, *bydd i'r annuwiol*, medd ef, *fyw mewn poenau*: Eithr y rhai ynt yn byw mewn poenau a chwenychent, pe fai poſſibl, fod ei bywyd gwedi ei ddibennu. *Eithr nid yw marwolaeth yn ei clywed, nid oes neb i gymmeryd ymmaith eu bywyd*: Eu bywyd ni ddibenna byth, oblegid eu poenau ni ddibennant byth. Eithr pa beth y mae 'r yſgrythur lan yn ei ddywedyd? Nid yw 'r yſgrythur lan yn gwneuthur cymmaint a'i alw yn fywyd, canys enw cyſſur yw bywyd: Eithr pa gyſſur a ddychymygir ei fod mewn arteithiau a phoenau, ffrio a rhoſtio, mewn tân

tragywyddol?

tragywyddol? Eithr pa henw y mae 'r ysgrythur lan yn ei roi arno? *Yr ail farwolaeth*, hynny yw, y farwolaeth yr hon sydd yn canlyn ar ol y gyntaf, sef y farwolaeth anianol, yr hon sydd yn gyffredinol i bob dyn. Eithr pa fodd a gellir galw yr ail farwolaeth yn farwolaeth, gan weled nad yw yr hwn a gafodd gyfran ynddi yn marw byth? Mewn gwirionedd ni a allwn yn well ddat, gan pa beth nid yw, yn hytrach na pha beth yw hi. Megis ag nas gellir yn briodol ei galw marwoleth, felly yn wir gellir dywedyd am dani nad yw hi fywyd yn y byd: Ac am y rheini ac sydd ganddynt gyfran ynddi, megis ac nas gellir yn briodol ddywedyd am danynt eu bod yn marw un amser, felly gellir yn wir iawn ddywedyd am danynt drachefn nad ydynt yn byw un amser. Canys byw felly, ac y byddo i wr fyw bob amser mewn tristwch a phoenau, *nid byw yw*. Gan hynny *nid bywyd yw 'r bywyd hwnnw*: Eithr mewn gwirionedd yr unig fywyd yw 'r bywyd hwnnw yr hwn sydd yn sendigedig; a'r bywyd hwnnw yn unig sydd yn sendigedig yr hwn sydd

yn

yn *Dragywydol*. Mae gennem fan arall yn yr unrhyw Dad i'r amcan hwn. Os yr enaid ſydd yn byw mewn artaith *Tragywyddol* yn poeni gyda 'r ysprydion aflan, y mae honno i'w galw yn farwolaeth *Dragywyddol*, yn hytrach nag yn fywyd *Tragywyddol*. Canys nid oes marwolaeth yn y byd cymmaint neu cynddrwg ar farwolaeth honno yr hon nid yw yn marwolaethu byth.

Y mae St *Gregori* hefyd yn tyſtiolaethu yn yr un modd. Yn uffern, medd ef, y bydd marwolaeth heb angeu, diwedd heb ddiben, oblegid byw a wna marwolaeth yno byth, a'r diwedd yn dechreu yn dragywyddol. Marw ni wna marwolaeth yno byth. Oh Angeu, pa faint meluſach fyddit ped fait ti yn dwyn bywyd ymmaith, ac heb gynnmeil i'r rheini fyw, y rhai a ewyllyſiant fatw! Eithr y mae 'r matter fel hyn, fod nifer y blynyddoedd yn uffern yn aneirif. Duw ei hun ni wyr un diwedd arnynt. Ar ol i fil o o filoedd o fyrddiwnau o flynyddoedd fyned hebio, y mae cymmaint arall angwhaneg i ddyfod yn waſtadol; a phan elo y rheini hefyd heibio, y mae etto cymmaint arall angwhaneg i ddyfod;

ac maent eto cyn belled oddi wrth y rhai diweddaf ac yr oeddynt ar y cyntaf. Y mae yr awrhon ſwy na phum mil a phedwar ar hugain o flynyddoedd er pan daflwyd *Cain* (yr hwn a laddodd ei frawd *Abel*) i'r pwll ſydd yn lloſgi o dan a brwmſtan: Ac er hynny y nifer o'i flynyddoedd trwy y rhai y bydd iddo gael ei boeeni, ynt fyth cymmaint ag oeddynt y dydd cyntaf o'i boen ef; ac ar ol rhai miloedd o flynyddoedd ni leiheir dim ar rif blynyddoedd eu boenau: Yr un modd a fydd a phei fuaſyd yn ei daflu i'r tan yr awr breſennol yma. Ac er bod y Glwth goludog a grybwyllwyd yn yr Efengyl, yn cael ei boeni ddwy fil o flynyddoedd tunty; etto lloſgi y mae yn waſtadol, a bydd iddo loſgi yn dragywyddol, ac ni bydd iddo gael chwaith cymmaint a defnyn bychan o ddwfr er iddo arfer gymmaint fyth ag allo o daerder, na fydd cymmaint a defnyn bach o ddwfr i oeri ei dafod tragwreſog.

Yr ydym ni yn fynych yn clywed ſon am y pethau hyn, a phan fyddom yn eu gwrando ni wnawn ond chwerthyn am eu pennau. Yn ddiau nid

nid ydym yn cyfrif yn nhan uffern losgi ond matter eimwyth. Ymma un a ddichon yn dda ofyn y qwestiwn, *Tu mha le y mae eich dragrau chwi i ddynion marwol, y chwi y rhai ydych yn gymmaint gwedi ymroi i chwerthyn?* Dymma ein dull ni: Colled fechã ped fai ond matter tair dimmai a hidla oddi wrthym lawer o ddagrau: Eithr am golled anfeidrol anescorol; ni a fedrwn gyd-ddwyn a honno yn hawdd, ni a fedrwn dreulio honno tan chwerthyn. Pan ddyfynnir ni i ymddangos ger bron brawdle barnwr daiarol, y pryd hynny ni a ofnwn ac a grynwn; Eithr fel yr ydym yn myned tua gorseddfaingc Duw (canys marchogaeth peth o'n ffordd yr ydym bob dydd, o fesur cam a cham ym mlaen yr ydym yn myned, pa 'r un bynnag a wnelom, a'i mynnu a'i peidio, ac fel yr ydym yn myned) cymmeryd ein pleser yr ydym rhyd y ffordd. Pan elom i fordwyo bydd arnom ofn torri o'r llong: Eithr yr ydym heb nag ofn na phwyll yn treiddio i ddwfnfor *Tragywyddoldeb*, ac o hynny ni wnawn ni ond masnach o ddigrifwch.

Dymuned

Dymuned St *Bernard* yw, oh na byddei ddynion yn ddoethion! oh na byddent yn ddoethion! Beth gwedi hynny *Bernard* lan? Oh! yno dechreuau ddelw *Trugywyddoldeb* gael ei ádffurfio ynddynt. Yno y gosodent mewn tresn yn synhwyrol bethau presennol, barnent o bethau aethant heibio yn ddealldwrus, a rhag-welent pethau i ddyfod yn ddarbodus.

Yma mae gennem orchymmyn St *Paul* i'r Ephesiaid, ac nid yn unigol ei ddymuned, canys ei eiriau ydynt yn rhedeg mewn dull gorchymmyn, ac nid mewn dull dymuned: Frodyr *gwelwch gan hynny, pa fodd y rhodioch yn ddiesceulus: Nid fel annoethion, ond fel doethion; Gan brynu 'r amser, oblegid y dyddiau sydd ddrwg.* Fe ddylei masnach mawr ein iechydwriaeth gael ei ystyried yn ddiesculus, yn ddyfal ac yn ofalus gennem. Y peth ynfyttaf yn y byd i wr ydyw, a chanddo ond ychydig amser wedi ei rhoddi iddo yn ei ran, dreulio hynny yn afradlon mewn disyrrwch ofer, lle dylei fel marsiandwr cynnil yn hytrach roi hynny ar waith am ei fantais ereu, i bwrcasu cyfran

Ephes. 5. 15. 16.

yn

yn y *Tragywyddoldeb bendigedig*. Os meddyliwn ni ynnill y Nefoedd trwy chwerthyn, cellwair, chwarau, segura, rydym yn camgymmeryd ym mhell. Bod yn dywedyd chwedlau, neu glustymwrando a hwynt pan fyddys yn eu hadrodd; Bod gwedi ymroi i'n hes. mwythdra, a threulio ein hamser mewn seguryd; Bod yn galw am ein cwppaneidiau, Bod yn eistedd wrthynt cyhyd tan na fedrom sefyll, nid prynu 'r amser yw hynny. Eithr hyn yma mewn gwirionedd yw prynu 'r amser, i ni ymroddi ein hunain i boen ac astudrwydd, gweddi a myfyrdod, nid tros hettynt ac i fordd, eithr i ddal rhagom yn y dresn hon yn ddianwadal hyd y diwedd; Hyn yma, meddaf, mewn gwirionedd yw prynu 'r amser. Cyngor St *Augustin* yw, i ni ladratta peth amser oddi ar ein nasnach fydol. A hola neb di yn y gyfraith gyffredinol? Bydd fodlon, medd ef, i golli rhyw beth fel y gallech di gael hamdden i wasanaethu Duw, ac nid canlyn holion: Oblegid yr hyn yr ydwyt yn ei golli pryniad amser yw. Canys megis ag yr wyt ti yn fodlon i roi dy arian i brynu bara,

selly

felly bydd i golli dy arian fel y gellych brynu llonyddwch, amser cyfaddas i wasanaethu Duw: oblegid mewn gwirionedd hyn yma yw prynu 'r amser.

Felly ni ddylem arbed cost yn y byd, eithr ymadael yn ewyllysgara phob peth i brynu yr amser cyfaddas i wneuthur daioni, gan weled fod y dyddiau yn ddrwg. Dyddiau 'r bywyd hwn ynt yn llawn tristwch, gofid, enbydrwydd, a phrofedigaethau, y rhai ynt yn fynych wastad yn cymeryd ymmaith oddi arnom y cyfaddasrwydd i wneuthur daioni; Felly y mae *Anselm* yn dywedyd. Eithr os gollyngwn ni pan ei cynnhygir i ddiange y cyfaddasrwydd i wneuthur daioni, a gadael yngwir fwriad o newydd-deb buchedd i'n dyddiau dreulio ymmaith, heb ddyfod ag ef i ben da: O hynny allan ofer yw edrych am un cyfaddasrwydd i wneuthur daioni; ni chawn ni un munud o amser, yn gwbl anesgorol oll yw ein colled ni. Ein bywyd ni, medd *Nazianzen*, sydd yn debyg i farchnad fawr neu stair: Pan elo 'r dydd gosodedig heibio unwaith, nid oes dim prynu gwedi hynny bethau llesol.

Os

o prynwn ni neb ryw beth yn hyn amſer, rhaid i ni wneuthur hynny yn ſuan tra parhao 'r ffair. Rhaid ini tra caffom amſer i fyw, fyw yn ddiwiol. rhaid i ni tra byddom yn gyſion ac yn abl, waſanaethu Duw. Mynych y mae 'r *Pregethwr* yn taro yn hyn yma, *Beth bynnag a ymafael dylaw yddo i'w wneuthur, gwna a'th holl egni.* Mynych y mae 'r Apoſtol yn ein hyſparduno ni ym mlaen i gymmeryd gafael ar gyfaddaſrwydd, ac i wneuthur o'n hamſer fwyniant da. *Am hynny tra ydym yn cael amſer cyfaddas gwnawn dda i pawb:* Oblegid *ei bod hi weithian yn bryd i ni ddeffro o gyſgu.* Yr wyt ti yn cyſgu, medd St *Ambros*, dy amſer *di nid yw yn cyſgu*, mae hi yn myned ar gamre, ie mae hi yn ehedeg ag aden dd. Gwyn ei fyd ef, gwyn eu byd hwy, y rhai ynt yn myfyrio ar y pethau hyn i'w gwneuthur o hyn allan; y rhai ſy 'n byw felly, megis y byddant ar drangcedigaeth mewn awydd na buaſent yn cael hoedl i wneuthur y cyfryw bethau ac y gorfoleddent eu gwneuthur y pryd y byddant gwedi eu troſglwyddo i *Dragywyddoldeb.* Eſcculuſtra bychan yr awrhon

Eccleſ. 9. 10.

Galat. 6. 10. Rhuf. 13. 11.

awrhon a brisia yn golled *Dragywyddol.* Beth bynnag a feddyliom, a lefarom, neu a wnelom, gwedi unwaith ei feddwl, ei lefaru, neu ei wneuthur; *Tragywyddol* yw, aros a wna byth.

BEN. II.

Yr ail bennod yma sydd yn hyspysu gwobrwy y bywyd Tragywyddol.

Bywyd yn sicer yw 'r bywyd sydd yn y nefoedd, a'r perffeithiaf a'r cyflawnaf fywyd o'r rhai eraill oll, o ran ei fod yn eneidiol, o ran ei fod yn ddynol, o ran ei fod yn Angylaidd; Je o ran ei fod yn fywyd duwiol. Yno mae 'r cof yn byw drwy 'r coffadwriaeth berffaith am y pethau oll aethant heibio: Yno mae 'r dalldwriaeth yn byw, trwy 'r gwybodaeth a'r weledigaeth o Dduw: Yno mae 'r ewyllys yn byw, ac yn mwynhau pob math ar ddaioni yn ddiofn ei

ei golli. Yn yr un modd byw yno mae 'r chwant; Byw yno mae 'r holl ſynhwyrau, a chwedi eu llenwi a diſyrrwch. Yno ni chlywir un ochenaid, dim galar, dim gofid, neu driſtwch, na chymmaint ar arwydd lleiaf o honynt. Yno mae 'r gan burlan iawn o lawenydd, heb gymmyſgedd o'r defnyn lleiaf o ſuſtl chwerwder, neu driſtwch. Llonydded dy lygaid, ni welſant erioed y fath; Llonydded dy gluſtiau, ni chlywſant erioed y fath; Llonydded dy galon; nid allodd hi erioed amgyffred tebyg i'r bywyd hwn. Mae 'r bywyd hwn yn cynnhwys ynddo ei hun bob digrifwch, cyfoeth, rhoddas, a chwbl ddiſyrrwch y bywiothau oll y ſynnhwyrau a'r cynneddfau. St *Auguſtin* fel ped fai gwedi ei ennyn â deiſyfiad yr hwn bywyd, ſydd yn torri allan yn y geiriau hyn, mor fawr a ſydd y gwynfyd yno, lle ni bo yn ein gwydd ni ddrwg yn y byd, na daioni yn y byd allan o'n gwydd? Lle cawn foli Duw yn waſtadol, yr hwn *ſydd oll yn* Pſal. *oll. Gwyn fyd preſwyl-wyr dy dy: yn* 84.4. *waſtad i'th foliannant.* Cynneddfau ein henaidiau ac aelodau ein cyrph gan

eu

eu gwneuthur yn anllygredig y bo ddant yn gosod allan foliant Duw. Yno bydd gwir ogoniant a moliant yn sicr, lle nas dichon yr hwn sydd yn rhoi moliant a gogoniant gael ei siommi, nac i'r hwn yr ydys yn e roi chwaith gael ei weneithio. Yno bydd gwir urddas yn sicr, yr hwn ni ommeddir i'r neb sydd deilwng, ac ni roddir i'r neb sydd annheilwng, Je, yr hwn ni bydd i neb annheilwng ei ddeisyfu neu ei ymgais, lle na chafo neb annheilwng ei oddef i aros. Yno yr hwn yw 'r rhoddwr o rinwedd, y fydd y gwobrwy am dani: Canys ef a addawodd ei hun; **A** pha beth mwya gwella allei fe addo na'i hun? Y mae 'r Propwyd *Jeremi* yn dyst o'r addewid hon o'i eiddo, yn yr hyn eiriau, *mi a fyddaf iddynt hwy yn Ddduw, a hwythau a fyddant yn bobl i mi.* Mi a fyddaf iddynt beth bynnag a chwenychant gyfag oneſtrwydd; mi a fyddaf iddynt yn fywyd, ac yn iechyd, ac yn ymborth, ac yn llawndra, ac yn ogoniant, ac yn urddas, ac yn heddwch, ac yn bob daioni: Canys meddwl y geiriau yma yw hyn, *Duw fydd oll yn oll*, diben

Jeremi. 31. 33.

cia

ein deisyfiadau oll a fydd ef. Ac un daioni mawr sydd i'w gael yn y ddinas sendigedig honno o eiddo Duw, yr hyn nid yw yn un lle arall i'w gael, a hynny yw hyn yma; Na bo i neb a fo is gensigennu ei uwch, eithr hwy a fyddant yn aelodau o'r un-radd o'r corph anianol, gwedi eu cyssylltu ynyhyd mewn cariadus hebeddychol fodd, lle na byddo 'r bys yn chwennych bod yn llygad, na 'r troed yn ben: Eithr pob aelod yn fodlon i'w le ei hun. Ac ychydig ar ol hynny (medd yr unrhyw Dad) cawn gadw yno *Saboth Tragywyddol* o orphywyssdra, ac yno y cawn brofi a gweled mor felus yw 'r Arglwydd, ein llenwi a'i ddaioni a gawn, pan fyddo ef *oll yn oll*. Oh Duw fy Nuw! Serch a chariad perffaith wyt ti, gwiredd a gwirionedd, gwir *Dragywyddoldeb*, a gwynfyd *Tragywyddol*.

Un arall sydd yn llefaru am y bywyd yma mewn tfordd gwrthdro yn y modd hyn, nid oes ynot ddim llygredigaeth, nac angen, na henaint, nac irlonedd; ond heddwch didrangc, a gogoniant cynnefinol, a llawenydd tragywyddol, ac uchelwyl gwastadol.

dol. Yno y mae llawenydd a gorfoledd, mae ffynnon dragywyddol yno. Yno y mae blodau a thegwch ieuengctyd bob amser, ac iechyd perffaith.

Gydâ thi ni bu ddoe 'n un oed;
Ond heddyw yn dy wydd erioed:
Mae gennit heddwch pavhaus bara,
Ie hyd, bywyd byth ni threulia:
Duw ſydd oll yn oll.

Pſal. 87.3. *Gogoneddus bethau a ddywedir am danat ti, o ddinas Dduw.* Ynot ti y mae preſwylfod y cyfryw oll ac ynt yn gorfoleddu. Ynot ti nid oes dim ofn, dim triſtwch ynot ti. Y deiſyfiadau oll a droed yn llawenydd. Beth bynnag y ddichon dyn ei ddymuno mae ſe gyda thi yn preſennol: Beth bynnag a ellir ei ddei-

Pſal. 36.6. ſyfu mae ſe ynot tiyn ddigonol. *Llawn ddigonir hwynt a braſder dy dy: At ag afon dy hyſrydwch y diodi hwynt. Canys gydâ thi y mae ffynnon y bywyd: yn dy oleuni di y gwelwn oleuni*, pan gaffom ni dy weled ynot dy hun, ac ynom ninnau, a ninnau ynot tithau yn byw mewn gwynfyd tragywyddol, acyn mwynhau y gwyn-

fyd dedg

fydedig weledigaeth o honot yn dragywyddol.

Ac er bod y gwynfyd hwn yn dragywyddol, er hynny gellir ei ynnill mewn amſer byrr, ac ag ychydig boen. *Yr wyfi yn toſturio wrth y dyrſa*, medd ein Jachawdwr, *Oblegid y maent hwy dridiau weithian ya aros gydâ mi, ac nid oes ganddynt ddim i'w ſwytta.* Jachawdur addfwyn, wyt ti yn cyfrif yn gyfryw fatter i ni aros gyda thi dridiau, heb fwytta dim? A pha ham, Jeſu addfwyn, nad wyt yn ſon wrthym yn hytrach am y dyddiau o *Dragywyddoldeb*, a'r hyfrydwch tragywyddol a'r hyn a'n digonir ni yn helaeth yn dy deyrnas nefol? Y mae Duw yn dal ſulw ar y gwaſanaeth lleiaf y gyflawnom, ac y mae yn werthfawr yn ei olwg; Y mae yn cyfrif hyd yn oed gwallt ein pennau; A pha faint mwy gan hynny y cyfrif ef y defnynnau o waed y gollwyd gr ei fwyn ef, gan eu rhoi hwynt i gadw yn y bottel o'i gofiadwriaeth. *Mare.* 8. 2.

Gallwn yn dda iawn gan hynny lefaru gyda St *Jerom.* Oh! mor fawr yw'r gwynfydedigrwydd hwn, i dderbyn pethau mawrion am rai

bach, a phethau *Tragywyddol* am rai *Amserol*, a chyda hynny i gael yr Arglwydd yn ddyledwr i ni! Eithr di a fyddi yn barod i ddywedyd, y mae 'r peth yn myned yn dost fod mewn dioddefiadau beunydd, ac er gallu dioddef y pethau eraill oll yn hawdd, er hynny ofnadwy yw marwolaeth. Frawd Cristianus, y mae arnaf gywilydd dy glywed yn dywedyd felly: ynfyd y dywedaist, ac yn gyffelyb i fachgen. Oni wyddost gymmaint a hyn? Yr wyti yn gwybod y dyrchafaf i ddisgyn, y blodeuaf i wywo, fy nod yn ievange i fyned yn hen: Bydd fyw i farw, a bydd farw i fyw yn fendigedig yn dragywyddol. *Ymddiriedwch gan hyny yn yr Arglwydd byth: o herwydd yn yr Arglwydd Ddiw y mae cadernid tragywyddol.*

Esay 26.4.

Yr wyti drachefn yn cofio St. *Augustin*, yr hwn ar eiriau ein Harglwydd sydd yn dywedyd fel hyn, ein Harglwydd a'n Jachawdwr a ddibennodd ei adroddiad ar y geiriau, yma, *At rhai hyn a ant i gosfedigaeth tragywyddol: ond y rhai cyfiawn i fywyd tragywyddol.* Yr hyn a addawyd yma by wyd *Tragywyddol* yw. Canys y mae

Matth 25.46.

mae yn hoff gan ddynion fyw yma ar y ddaiar, gan hynny gaddawyd iddynt fywyd: Ac oblegid eu bod yn ofni marw yn fawr; am hynny gaddawyd iddynt fywyd *Tragywyddol*. Pa beth a fynnit ti gael? Bywyd? dia'i cei. Ofn pa beth sydd arnat? A'i marwolaeth? Onid ni bydd i't ei dioddef: Eithr y rheini a hoenir yn nhân uffern, y ddeisyfant farwolaeth a marwolaeth a ffy ymmaith. *I fyw yn hir* gan hynny, nid yw fatter mawr yn y byd: Je etto *I fyw bob amser* nid yw fatter mawr yn y byd; Eithr *I fyw yn sendigedig* peth i'w ddeisyfu yw hynny, matter mawr yw hynny yn siccr.

Am hynny cei fyw yn y nefoedd, ac ni chei farw byth; cei fyw yno yn fendigedig yn dragywyddol: Canys ni chei ddioddef neb rhyw ddrwg, ni bydd arnat chwaith ofn cael ei ddioddef: Canys ammhossibl yw dioddef neb rhyw ddrwg yno. Cei feddiannu yno beth bynnag a fedri ei ddeisyfu; a'r hyn a feddienni, a ddeisyfi ei feddiannu yn wastadol. Nid ellir dy fwrw allan o feddiant, a hynny ath ddigona. Yn y fan honno yr oedd *Dafydd* yn disgwyl

cael rorri ei ſyched, a digoni ei newyn. *Digonol bwydd llawenydd ſydd*
Pſal. 16.11 *ger dy fron: Ac ar dy ddeheulaw y mae digrifwch yn Dragywydd.* A
Pſal. 63.1. thrachefn *ſychedodd fy enaid am danat:* A thrachefn etto, *Myfi a*
Pſal. 17.15. *edrychaf ar dy wyneb mewn cyfiawnder: Digonir fi, pan ddiburwyf, a'th ddelw di.* Dyna lais newydd a dieithr i Frenin: Yr oedd ei fwrdd ganddo gwedi ei ddiwallu yn ddigon o phob math ar fwydydd; Ac er hynny yr oedd ef fel ped fuaſei yn llewygu o newyn, yn gobeithio cael ei lenwi ar fwrdd arall: Ni wafanaethau ei fara ei hun, na'i win ei hun mo'i dio i ddigoni ei newyn neu i dorri ei ſyched. Yr oedd bara arall yr oedd ef yn ei ewyllyſio, a diod arall yr oedd ef yn ſychedu am dani, *Eva 'r Nefoedd a dwfi y bywyd.* Canys pa beth yw amldra a helaethrwydd holl Frenhinoedd y ddaiar? Nid yw ddim amgen na gwit eiſiau. A pha beth yw 'r dainteithfwyd ſydd ar eu byrddau mawr? Nid ydyw ond cyffelyb i biſer cardotyn, os cymmharrir ef a bwaſder y Ddûw, a'i fwrdd nefol ef. Brenin y nefoedd y ddywed, *Tyred bwyta ac*

yſ

ſ, a llenwir di ſy anwylyd. Ni
dderfydd y wledd hon o'm heiddo
byth; Ni ddaw ar ei hol driſtwch
yn y byd: Megis y mae hi *heddyw*,
felly y bydd hi *byth*, ac *yn Dragywyddol*. St *Auguſtin* ni fedrei chwaith
ymla attal ei hun, eithr dracheſn tor-
i allan y mae 'r waedd yma ganddo,
oh fywyd y bywyd yn rhagori ar bob
math ar fywyd! Oh fywyd tra-
gywyddol! Oh fywyd yn fen-
digedig yn dragywyddol! Lle
mae llawenydd heb driſtwch,
gorphywyſdra heb lafur, cyfoeth heb
golled, iechyd heb glefyd (nid oes
dim o'r fath beth yn y bywyd yma)
mldra heb eiſiau, bywyd heb farwo-
aeth, tragywyddoldeb heb lygredi-
aeth, gwynfydedigrwydd heb ad-
ddwch; lle mae 'r holl bethau da
newn cyflawn gariad perffaith, lle
nae ym mhob peth a thrwy bob peth
bob math ar wybodaeth, lle mae
Mawrhydi Duw i'w weled ger bron,
lle llenwir eneidiau 'r edrychwyr a
Bara 'r Neſoedd: Preſennoldeb
Duw y maent hwy yn ei weled bob
amſer, ac edrych arno yn waſtadol
addeiſyfant, maent yn deiſyfy ei we-
ld, ond etto yn ddidrymfryd, maent

yn cael eu d goni ag ef, ac ettu heb ddigonolrwydd.

Ac fel y gallech di ddeall a gwybod (Frawd da Christianus) fod y gogoniant tra ragorol hwn, y cyfoeth Nefol yma, y deyrnas Nefol hon iw phrynu: Gwrando beth y mae 'r un *Augustin* yn ei ddywedyd; y mae ar werth gennyf, medd Duw, y mae ar werth gennif; deuwch a phrynwch ef. Arglwydd, pa beth yw 'r hyn sydd gennit iw werthu? Mae gennif orphywysdra; Deuwch a phrynwch ef. Pa beth yw ei bris ef? Ei bris ef i'w poen. A pha faint o boen a dâl gorphywysdra *Tragywydol*? Os di a ddywedi y gwirionedd a barnu yn uniawn, fe dâl gorphywysdra *Tragywyddol*, boen *Tragywyddol*. Yn ddiau mae hynny yn wir; Nag ofna: Oblegid mae Duw yn drugarog. Canys o byddei dy boen di yn *Dragywyddol*, ni chyrhaeddit byth orphywysdra *Tragywyddol*. Eithr fel y gallech di o'r diwedd gyrraedd gorphywysdra *Tragywyddol*, am hynny ni bydd i'th poen fod yn *Dragywyddol*; Nid oblegid na thal ef cymmaint a hynny, ond fel y gallech di o'r diwedd gael meddiant

ddiant o honaw. Yn wir fe dal y pris pes poen *Tragywyddol* fyddei ; eithr fel y gallit ti ei bwreasu a'i feddiannu, angenrhaid yw na byddei ei bris ef ond poen amserol. Am hynny (frodyr Christianus) bydded i ni ein destroi ein hunain ac annog eu gilydd a'r anghoriad hwn sydd yn caniyn o eiddo *St Augustin.*

Gosodwn o flaen ein llygaid y byd sydd *Dragywyddol*, ac ystyriwn ti anian ef yn dda, ni a ddown i'w ddeall yn well, trwy symmud oddi mtho beth bynnag yr ydym yn ei gyfrif yn gythryblus yn y byw'd hwn. Canys mae yn hawsach dysod o hyd i't hyn nid yw, yn hytrach na'r hyn yw. Ac yr ydys er hynny yn ei gynnyg ar werth. Gelli ei brynu os mynni. Nid rhaid i't mor ymdrallodi nac ymgythryblio llawer yn ti gylch, o ran mawredd y pris. Y pris yw pa beth bynnag sydd gennit, na dim angwhaneg. Na hola pa beth sydd gennit un amser, eithr ystyria pa beth wyt ; fe dal i ti ei brynu, pe bai i ti roi dy hun am dano. Dyro dy hun, ac di a'i cei ef. Pa beth ? wyt ti i'th geisio dy hun ?

Wyt

Wyt ti i'th brynu dy hun? Wele, yn gyfryw ac ydw'd, os gelli fod yn fodlon i'th rhoddi dy hun, dia'i cei ef. Eithr yſgatfydd di a fyddi yn barod i ddywedyd, Och! drygionus wyfi; Ac mae yn debyg na chymmerir y cyfryw ddyn am daledigaeth da: Os dy di nid wyt yn dda yr awrhon, na wna ond rhoi dy hun, a di a brifi yn dda, ac yn gymmeradwy trwy wneuthur fellv. Na wna ond gwneuthur addewid ffyddlon i'th rhoddi dy hun; a hyn a'th bair di yn dda: A chwedi dy wneuthur yn dda, yr wyt ti o honot dy hun yn bris digon da: Ac di a gei ſel a dywedais, nid yn unig iechyd, diogelwch, bywyd, a'r cyfryw, yr rhai ni bydd iddynt ddiwedd; eithr hefyd dy ryddhau a gei oddi wrth lawer o drueni: Ni chei fod yn lluddedig, na chwaith ſefyll mewn diffyg gorphywyſdra, ni chei chwaith na newynu na ſychedu, na chwaith gynnyddu na lleihau. na chwaith brifio yn ievange na myned yn hen; canys nid oes yno un genedigaeth, oblegid llawn dwf a chorpholaeth ſydd yno, a'r cyfan berffaith nifer o flynyddoedd. Nid oes nyfer yn y byd yn gyffelyb

ſielyb iddo: Canys megis nad rhaid iddo gael ei fwyhau, felly, nid oes dim ofn a bydd iddo leihau. Wele pa bethau rhagorol a ddywetpwyd am dano! Ac er hynny nid allaf dueddu dywedyd i't pa beth ydyw, neu pa bethau da ſydd gwedi ei tryſori i fynu ynddo: Canys fel y mae yn yſcr. ſennedig, *Ni welodd llygad ac ni chlywodd cluſt, ac ni ddaeth i galon dyn.* A pha fodd y byddeu i'm genau i fod o'r gallu i adrodd yr hyn ni ddichon calon dyn ei ddeall. 1 Cor. 2. 9.

Ac oblegid ddarfod i ni fyned o hyd trwy lyfrau St *Auguſtin*, fel ped fai trwy gymmaint a hynny o erddi para dwyſedd, a'n hebrwng bellach o'r diwedd i'r Baradwys Nefol, gadewch i ni ſelio a ſicrhau yr hyn a ddywetpwyd hyd yn hyn trwy dyſtiolaeth yr un Tad. Ped faem ni bob dydd, medd ef, i ddioddef pob math ar poenau, Je, poenau uffern ei hun a hynny trwy hir amſer tuntu, i'r perwyl ac y gallem weled Chriſt yn ei ogoniant a chael eyfundeb a chyfeillach gydâ 'r Seinctiau: Oni thalei hyn ein poen a'n dioddefiadau? Pwy ni ddioddefai unrhyw ofid, er cael i

ei wneuthur yn gystrannog o gymmaint daioni, ac o gymmaint gogoniant a hynny: Gan hynny bydded i'r Cythreuliaid gynilwyn am danaf, bydded iddynt a'i profedigaethau ofod arnaf: bydded i ddirwest ostwng fy nghorph, bydded i orthrymder ddal fy nghnawd yn isel, bydded i lafur fy mlino, bydded i'm irder fy chu gan anhunedd, bydded i un ddadwrdd yn fy erbyn, aflonydded y llall arnaf; bydded i oerni fy ngyrru yn fy nghwrrwm, bydded i mi ymfflammychu gan wres; bydded i'm cydwybod fm mur, bydded i'm pen ddolurio, bydded i'm dwyfron losgi, bydded i'm cylla gael ei blino â gwyntoedd, bydded i'm hwyneb pryd lasu, a gorwynnu; bydded i'm fod yn llawn o wendid; bydded i'm hoes dreulio ymmaith gan ofid, a'm blynyddoedd gan alar; bydded i bydrm ddyfod i mewn i'm hefgyrn, a bydded iddo darddellu yn fy ngwaednau fel fynnhonnell: bydded i'r holl drueni ymaddyfod arnaf, trwy i mi gael gorphywysdra a diddanwch yn myddy trallod, a dyrchafu i fynu at bobl yr Arglwydd. Canys mor fawr a fydd gogoniant y cyfiawn, ac mor fawr a

fydd

fydd llawenydd y Seinctiau pan ddiſcleirio pob wyneb fel yr haul! Pan ddechreuo 'r Arglwydd gyfrif ei bobl yn eu dosparthedig dreſn, yn nheyrnas ei dad; a phan dalo ef y gwobrwyon addawedig i bob dyn yn ol eu gweithredoedd, hynny yw, *Nefol* am *Ddaiarol*, a *Thragywyddol* am *Amſeral*.

Joan Moſchus ſydd yn ſôn am un *Olympius*, henafgwr o ymmynedd digymmar, yr hwn oedd yn byw mewn Mynachlog yn agos i afon yr *Iorddonen*, fod gofodiad ei feddwl ef ar *Dragywyddoldeb*, ac nad oedd ganddo agos un amſer nêb ryw yſtyriaeth neu ymwrandawiad ag un rhyw amſerol ofid neu drueni. Canys (ac yn nyned a'i hiſtori rhagddo) ar amſer fel y digwyddodd, rhyw wr crefyddol a droes allan o'i ffordd i fyned i edrych am dano, a chan ei gael ef mewn cell dywyll, a lle fel y meddyliodd ef anhydrig, o achos gwres, a heidiau o ednog, a gwybed craill, aid heb ryfeddu yn aruthr a lefarodd wrtho fel hyn, Ac a fedri di, *Olympius*, aros byw yn y fath le caeth mor dragorthrwmmedig: Eithr pa beth oedd atteb *Olympius*? A'i rhyfedd

gennit

gen nit hyn yma? Yr wyf yn dywe-
dyd i ti, fy mab, nad yw y rhain oll
ond materion esmwyth, eu cyfrif hwy
yr wyf yn oddefadwy, fel y gallwyf
felly ddiangc rhag poenau *Tragywy-
ddol*, yr rhai ynt yn annioddefadwy.
Medraf ddioddef i ednog fy mra-
thu, fel na byddo i'm gael ymwran-
do a brath cydwybod, ac yssa 'r pryf
yr hwn ni bydd farw byth. Me-
draf yn hawdd ddioddef y gwres yma
yr hwn yr wyt ti yn achwyn felly
rhagddo. pan feddyliwyf am dan
Tragywyddol uffern yr hwn sydd yn
annioddefadwy. Nid yw y trallodau
hyn (os rhydd i mi eu galw hwy fel-
ly ond byrrion, a bydd iddynt ddi-
wedd: Eithr poenau uffern ynt ddi-
ddiwedd. Ar hynny dywedodd y
llall, yn ddiammeu, *Olympius*, y mae
yspryd doethineb a gwirionedd yn
dy arwain, gan atteb o honot mor
wir ddoeth. Mi a ddymunwn fod
mwy o'r un meddwl a feddyliai-nior
ddifrifol a hyn am y pethau hyn.
Yna yn ddiau fe fyddei mwy nac sydd
yr awrhon yn y dyddiau yma yn dda
eu ymmynedd, ac yn dioddef pob peth
yn ol dy esampl di.

BEN.

BEN. III.

Y drydydd bennod yma ſydd yn cynhwyſo y dibenniad o'r cwbl.

Zeuxis enwediccaf a glywſom ni ſon am dano ym mhlith yr holl baentwyr gynt oblegid ei gelfyddyd, y ddaliwyd arno ei fod yn ei waith yn arafaidd iawn, ac na adawei i un darn o'i eiddo fyned allan i'r byd i olwg dynion heb i droi troſto a throſto, o'r tu yma i'r tu accw, eilwaith a thrachefn, i edrych y fedrai ganfod bai yn y byd ynddo: A chwedi gofyn iddo ryw aniſer yr achos pa ham yr oedd ef mor fanwl, pa ham cyhyd yn tynnu ei linellau, ac mor araf yn y trimiad o'i buntr; Ei attcb oedd hyn, beth bynnag a gymmerwyf mewn llaw, yr wyf yn hir yn ei wneuthur, oblegid yr hyn a baentiwyf, ei baentio yr ydwyf tros *Dragywyddoldeb*. Ac felly mae 'r matter gyda phawb yn ſefyll, ninnau ydym yn paentio tros *Dragywyddoldeb* hefyd. Beth bynnag a wnelom, y mae ſe felly yn perthynu i *Dragywyddoldeb*, ac y dichon

dyn

dyn iawn ddywedyd am dano fel hyn, yr wyf yn yſcrifennu, yn darllain, yn canu, yn gweddio, yn ymdraffer-thu, beth bynnag a wnelwyf, beth bynnag a ddywedwyf, beth bynnag a feddyliwyf, fod y cwbl tros *Dragywyddoldeb*. Yr awrhon os hyn yw anian ein meddyliau, geiriau a gweithredoedd, os arhoant tros *Dragywyddoldeb* oll, byddei raid i ni gymmeryd gofal pa beth a feddyliom, a ddywedom, neu a wnelom; Y mae yn perthynu i ni edrych o'n hamgylch feddwl am ein maſnach, nid myned ynghylch ein gwaith yn ddiofal athrwy ein hun, na gollwng i ddim fyned allan o'n dwylaw yn aflathraidd, acyn ammherfaith: Eithr a'n holl ofal, ceflyddyd a'r yſtyryw a fedrom ni arfer ei lathru a'i berfeithio. Yr ydym yn paentio gyda *Zeuxis* tros *Dragywyddoldeb*. Pan orphennom ni ein holl weithredoedd, hwy a ddanfonir oddi yma yn y man i *Dragywyddoldeb*, i'w golygu gan lygad cyflawn ddigon craff, ac yn canfod pob peth, fel na ddichon bai yn y byd ddiangc; a chwedi eu golygu a'i barnu, maent hwy naill a'i yn cael eu hwrw i'w coſpi yn *Dragywyddol* a'i

i'w

i'w gwobrwyo yn *Dragywyddol*. Yr hyn a ddywedais i o'r blaen, mi a'i dywedaf eilwaith yma, o blegid nas gellir ei ddywedyd yn rhy fynych, pe byddei i'm ei ddywedyd fil o weithiau; Beth bynnag a feddyliom a ddywedom, neu a wnelom, wedi unwaith ei feddwl, ei ddywedyd, neu wneuthur *Tragywyddol* yw, aros a wna byth.

A wrandewch chwi beth y mae St *Gregori* yn ei ddywedyd? Fod yn rhaid i ni arfer yn ein holl weithredoedd ofal mawr a chraffder; rhaid i ni ddyfal fyfyrio ac yſtyried ynom ein hunain yn iawn pa beth yw 'r hyn yr ydym ni yn ei gymmeryd mewn llaw; Ac i ba ddiben yr ydym ni yn ei wneuthur: fel na roddom mo'n meddyliau ar neb ryw beth ac y fyddo yn amſerol, onid ar y pethau hynny y fyddo yn *Dragywyddol*. Am hynny cymmer boen yn dy weithredoedd oll i fod yn berffaith. *Gweddia am Dragywyddoldeb*, Aſtudia am *Dragywyddoldeb*, dioddef am *Dragywyddoldeb*, ymdrecha am *Dragywyddoldeb*, cymmer poen am *Dragywyddoldeb*. Felly, bydd fyw i Dduw, megis y gallech di fyw gyda Duw; Felly,

Felly, bydd fyw ar y ddaiar, megis y gallech di fyw yn y nefoedd; felly, bydd fyw am *Dragywyddoldeb*, megis y gallech di fyw i *Dragywyddoldeb*.

Cwrandewch hefyd beth y mae St *Bernard* yn ei ddywedyd. Nad yw ein gweithredoedd ni yn myned ymmaith cyn gynted ac a gwnelom hwy, (megis ag y tebygid eu bod) eithr maent megis had a hauwyd, yn yr amser yn torri allan i *Dragywyddoldeb* oll. Bydd yn rhyfedd gan yr ynfyd, yr hwn nid oes dim deall ynddo weled y cyfryw gynnyrch toraethawg yn torri allan o gyfryw hadau bychain, byddent dda, byddent ddrwg, yn ol anian yr hedyn a hauwyd. Eithr yr hwn fydd ddoeth a ystyria y pethau hyn, ac ni chyfrif bechod yn y byd yn fychan: Canys nid oes moi lygaid ef ar yr hyn fydd yn bresennol, ond ar yr hyn fydd i ddyfod yn wastadol; nid ar yr hyn a hauwyd, ond ar yr hyn a fedwyd; nid ar yr hyn a wnaed yn yr amser, ond ar yr hyn fydd yn ymaros i *Dragywyddoldeb* oll.

Oh enbyd a gresynus ynfydrwydd meibion *Adda*! Duw a'n creawdd ni i'r meddiant o anfeidrol a *Thragywyddol* olud: A pham gan hynny yr

ydys yn ein dwyn ni gan gyfan yſtlyſi lad tuedd ein meddyliau, ar y pethau hynny ynt anſafadwy a diflanedig? Duw a'n gwnaeth ni yn etifeddion y nefoedd, a meddiannau *Tragywyddol:* A pha ham yr ydym yn ein maglu ein hunain mor reſynus yn ein gwagedd, ac yn rhedeg yn wyſg ein pennau i ddiniſtr? Gadewch i ni fod yn ddoeth mewn amſer, gadewch i ni wilied yn jawn ar ein camrau, ſtryſtiwn ar ffordd *Tragywyddoldeb:* Gadewch i ni fyw felly megis y gallom ni fyw i *Dragywyddoldeb*. Nid yw 'r llwybr iddo ond byrr a chyſyng; Eithr hir-faith yw 'r amſer ſydd iddo.

Eithr o ni ddynion ynfyd a greſynus fel yr ydym! ewyllyſio 'r ydym gael bywyd *Tragywyddol*; Eithr mae yn anhawdd gennem droedio 'r llwybr ſydd yn arwain iddo: Ni a ewyllyſiem fod yno; eithr nid ydym yn cymmeryd mo'r boen i fyned yno. Pob dyn ſydd yn ewyllyſio bod yn fendigedig. Nid oes un dyn medd St *Auguſtin*, o ba gyflwr neu radd bynnag y byddo, nad oes arno chwant y bywyd hwnnw ſydd yn fendigedig yn dragywyddol. Gan hynny y bywyd hwn yw 'r hafn cyffredinol y mae

mae pawb yn deisyfu iddo: Eithr ni wyr pawb pa foddi i lywo ei gyrch yn union. Peth ydyw, y mae pawb yn ewyllysio ei feddiannu yn ddiddadl: Eithr y modd i amgylchu hynny, y dresn i'w chymmeryd, pa ffordd i tyned, dyna 'r pwngc yr hwn ni fedrant gyttuno arno. Gallwn fod yn hir ddigon yn ceisio hynny ar y ddaiar, a dadl yw pa 'r una wnawn ni, a'i gael ef byth a'i peidio. Nid o ran fy mod yn anghanmol ymgais am dano, Eithr am na byddyd yn ei geisio yn ei iawn le. Y mae un o'r opiniwn mai buchedd y milwr yw 'r ddedwyddaf: Eithr un arall a wad hynny, ac a ddywed mai buchedd y llafurwr yw 'r ddedwyddaf. A thrachefn un arall a wad hyn yma, ac a ddywed mai buchedd y cyfreithiwr yw 'r ddedwyddaf; ac fe rydd ei resym am hynny: Oblegid fod y bobl yn anrhydeddu 'r cyfreithiwr, ac yn ymbil llawer ag ef, ei fod ef yn derbyn cyflog yn wastadol, ac yn dadleu dadleuon.

A thrachefn un arall a wad hynny, ac y ddywed, mai buchedd y barnwr yw 'r ddedwyddaf: Canys y mae ganddo allu i wrando dadleuon ac

ac i'w dibennu. Ac etto drachefn un arall a wad hyn yma, ac a ddywed, mai buchedd y Marſiandwr yw 'r ddedwyddaf: Canys y mae ef yn gweled amryw wledydd, yn dyſgu llawer o arferion, ac yn caſglu ynghyd gyfoeth mawr. Fy anwyl gariadus, chwi a welwch mewn cymmaint a hynny o amryw fath ar fucheddau, nad oes yr un yn rhyngu bodd pawb. Eithr y fuchedd ddedwydd yn dragywyddol, honno yw hi ſydd yn rhyngu bodd pawb.

Nid yw dedwyddwch gan hynny i'w diſgwyl yma; eithr mewn man arall y mae ymofyn am dano; ac nid oes monaw i'w gael un amſer, ond trwy farwolaeth dda dduwiol. Y dynion anmuwiol nhwythau a ewyllyſſient farw o farwolaeth y duwiol: Eithr ni fucheddant fuchedd y duwiol. Canys y llwybr i ddedwyddwch yw marw yn dda; Eithr matter o boen yw bucheddu yn dda. Ac etto heb hyn yma ni chei mo hynny. *Tragywyddoldeb* ſydd yn ymddibennu ar farwolaeth: Ac nid oes mo'r marw yn dda heb fucheddu yn dda. Dewis yr un a fynnych a'i *bywyd*, a'i *Marwolaeth*. Os wyt ti

yn

yn dda dy fuchedd, nis gelli oed marw yn dda; a hynny a fydia yn dda gydâ thi yn dragywyddol: Onid wyt ti yn bucheddu yn dda, nid oes i ti obaith marw yn dda, a drwg a bydia hynny gyda thi yn dragywyddol.

Gwr oedd, yr hwn oedd a'i hanfod o dy da, ac nid oes mo'r llawer o flynyddoedd er pan fu ef, yr hwn oedd ganddo fwy o ſynwyr yn ei ben, nac oedd o grefydd yn ei galon, gofynnwyd iddo, pa beth yr oedd ef yn ei dybied o fuchedd gaeth y crefyddol, ac o fuchedd ehud y penrhydd, pa'r un yr oedd ef yn e gyfrif oreu? Atteb odd fel hyn, mi a ddymunwn fyw fel y penrhydd, eithr marw fel y crefyddol. Gallei peth ſynwyr fod yn yr atteb hwn, eithr y mae yn ſicr gennif nad oedd ynddo ſawr grefydd. Dywedaſei fel dyn Chriſtianus, pe dywedaſei fel hyn, yr wyf yn deiſyfu bucheddu buchedd y crefyddol, fel y byddo fy niwedd fel yr eiddo ynteu.

Num. 23.10. Medreu *Balaam* ddywedyd, *Marw a wnelwyf o far wolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo ynteu.* Eithr efe a ddywedaſei yn well o lawer iawn, pe dywedaſei fel hyn, *Buchedda*

a

awnelwyf fuchedd yr uniawn, fel y byddo i'm farw o farwolaeth yr uniawn, ac fel y byddo fy niwedd fel yr ciddo yntef. Pwy bynnag a fuchedda fuchedd y duwiol, y fydd yn ſicr i farw o farwolaeth y duwiol: A phwy bynnag a fuchedda fuchedd yr annuwiol: y fydd yn ſicr i farw o farwolaeth yr annuwiol: Unwaith y mae yn rhaid iddo farw, eithr rhaid i'r unwaith honno fod bob amſer, a'r bob amſer hwnnw yn *oes oeſoedd.* Rhyw ſilwr gwedi ei alw mewn cweſtiwn gan *Lamachus* y Canwriad, am wneuthur rhyw ddrwg weithred neu ei gilydd yn y fyddin, y ddeiſyfodd yn ddifrifol bardwn am yr unwaith honno, gan addaw na throſeddei byth yn y cyffelyb fodd drachefn: Eithr y Canwriad a wnaeth yr atteb yma iddo, *In bello bone vir non licet bis peccare; O ſyr, gwybyddwch, nid ywrydd i chwi ddwywaith droſeddu mewn rhyfel.* Eithr, och! ym marwolaeth os troſeddir unwaith: Nid oes gobaith pardwn! *unwaith yn farw, ac yn farw yn waſtadol.* Yr hwn a ſo farw yn frwnt unwaith y ddamnir yn dragywyddol.

Nid

Nid oes mor dychwelyd drachefn i fywyd, i wellhau yr hyn a wnaed ar fai. Os rhoir y farn o gondemniad unwaith, nid oes mor appelio oddiwrthi. Megis y gadawodd marw laeth ddyn, felly bydd barn yn ei gael, ac megis y gadawo barn ef, felly y bydd *Tragywyddoldeb* yn ei gael ef.

Ymadrodd *Iphicrates* yw, mai cywilydd i ymmerawdr ddywedyd ar amser yn y byd gydâ 'r ynfyd; *Nid oeddwn i yn meddwl am hyn*: Eithr mwy cywilydd yw i ddyn Chriſtianas yn y byd ddywedyd, *Nid oeddwn i yn meddwl* fod cymmaint rhagor rhwng buchedd ddiwair a buchedd ddiwala o drythyllwch. *Nid oeddwn i yn meddwl* mai *Tragywyddoldeb* oedd i ddyfod ar ol y bywyd hwn. *Nid oeddwn yn meddwl* y byddei i mi farw cyn gynted. Och! Och! Mor gyſgadur yr ydym ni yn myned ynghylch maſnach *Tragywyddoldeb*! Gan fod anian y bywyd marwol hwn o'n heiddo yn g. fryw, fel nas gallwn fod yn ſicer ar neb ryw amſer y bydd i ni fyw tros amſer yn y byd, cymmaint a rhos un munud: Gan ein bod ni yn gwybod am ſicerwydd fod

yn

yn rhaid i ni ymadael oddi yma; ac yn ddigon anſiccr er hynny ar ba awr y bydd i ni ymadael; a phan ddelo 'r awr honno, byddwn yn gweled y pryd hynny, na ddarfu i ni fyw yn hynny o amſer, ond darfod i ni Bryſuro i farw. Nid ydym ni yma ond mewn gwlad ddieithr megis gwyr dyfodiad, ac nid yn ein gwlad ein hunain megis dinaſyddion; Nid ydym ond tenantiaid wrth ewyllys, ac nid uchelwyr: y mae yn rhaid i ni ymadael o'n bodd neu o n hanfodd. *Canys nid oes i ni yma ddinas barhaus,* Hebr. *Eithr un i ddyfod yr ydym ni yn ei ddiſgwil.* 13.14.

Y prophwyd ſanctaidd *Baruch* ſydd yn gofyn y cweſtiwn hwn, *Pa le mae Tywyſogion y cenhedloedd, a llywodraethwyr yr anifeiliaid ſydd ar y ddaear, a dyrrodd arian ac aur, ac ni wnaent ddiben ar geiſio?* Ydynt hwy yn dal ac yn cadw eu teyrnaſoedd a'i gogoniant yn waſtadol? Nid felly y mae: Canys fel hyn y dywed y prophwyd gan attreb ei gweſtiwn ei hun, *Hwy a ddiflannaſant, ac a ddeſcynnaſant i'r bedd, a rhai eraill a gododd yn eu lle hwynt. Hwy a ddiflannaſant,* medd y prophwyd; Ca- Baru. 3.16. 17. 19

nys

nys nid oeddynt ond gwyr dyfodiad, ac nid dinasyddion: *hwy a aethant ymmaith, a rhai eraill a gododd yn ei lle hwynt:* gosodwyd eu tai hwy i eraill, a nhwythau a fwriwyd allan, a descynnasant i'r bedd. Eithr pe gofynnid y qwestiwn drachefn, *Pa le mae Tywysogion y Nefoedd*, preswylfod yr rhai sydd uwch law y seithfed wybren? Pa le maent hwy gellir atteb yn yr un modd, ddarfod *iddynt hwythau ddiflannu, a rhai eraill a gododd yn eu lle hwynt:* Eithr hwy a drosglwyddwyd i deyrnas Nefoedd, yno i aros yn dragywyddol, yn ddiofn oll o golli eu meddiant.

Gwisgwn goron o flodau rhos, yw cerdd y dynion penrhyddaf ac anobeithiol eu buchedd. Pa ham o flodau rhos? Oblegid bod eu tegwch a'i harogl yn myned ymmaith mewn un diwrnod: A'r cyfryw goronau diflanedig sydd harddaf ar y rheini ynt ym mron methu yn llwyr. Ond am y bendigedig nid felly mae gydâ hwy, eithr maent hwy gwedi eu coroni a thlysau, ac a meini gwerthfawr, tegwch y rhai ni ddiflanna byth. Yr oedd gan y wraig a grybwyllwyd yn y *Datcuddiad am ei*

Doeth. 2.8.

phta

ben goron, nid o flodau rhôs yr ardd, nac o dlysau 'r mor, eithr o *Serr* y Nefoedd. Gan hynny megis y mae y globynau nefol yn anllygredig; felly maent hwythau y rhai ynt yn preswylio ynddynt yn anllygredig: *I mae y cyfiawn yn byw byth.* Y pethau dnarol oll ynt yn drangcedig, ond mae 'r pethau nefol yn dragywyddol. Yr ydys yma yn ein blino ni â llafur, eithr yno ni a gawn ein gwneuthur yn ddiflinedig â gorphywysdra *Tragywyddol.* Pa ham yr ydym yn ymgais am orphwysdra cyn dibennu o honom ein llafur? Yr ydym ni etto yn y chwarwyddfa? Am hynny mae yn rhaid i ni chwasau ein rhan: Yr ydym i drin gelynion galluog; Am hynny rhaid i ni fod yn barod i ymdrechu bob amser: Yr ydym ni ar ein gyrfa yn wastadol, am hynny rhaid i ni barhau hyd y diwedd. Gan hynny chwarawn ein rhan felly, megis y gallo yr angylion orfoleddu o'i bod yn edrychwyr; ymdrechwn, fel y gallom ynnill y goron; Rhedwn felly, megis y gallom gaffael gafael. Doeth. 5.15.

R Da

Da y mae St *Gregori* yn dywedyd, ped faem ni yn ystyrio yn dda rhyngom a ni ein hunain pa beth a pha bethau mawr addawyd i ni yn y Nefoedd, gwael yr ymddangosei pob peth ar y ddaiar i ni: Canys pa dafod y ddichon adrodd, neu pa galon ddeall, cymmaint yw 'r llawenydd sydd yn y ddinas honno oddi uchod? Lle cawn ni ran yn y cor nefol gydâ 'r Angylion i glodfori ac i foli Duw yn Dragywyddol; lle cawn ni weled goleuni nid ellir ei amgyffred; lle na bydd arnom ddim arswyd marwolaeth; lle cawn uchelfraint seinctiau nefol a Dinasyddion; i fod yn anllygredig byth. Mi a debygwn fy mod yn clywed fy nghalon yn tragwresogi, ac yn ennyn ynof tra 'r wyf yn llefaru am y gorfoledd hwn; Ac mi a debygwn yr ennynnei hi gan bawb a glywei hyn. Mi a debygwyn y dylei hyn weithio felly gyda ni oll; ac y byddei i ni yn awr, ie, yn ddifrifol ac yn wresawglym iawn ddeisyfu ein bod yno, lle 'r ydym yn gobeithio bod yn ol hyn byth. Eithr rhaid i ni wybod cymmaint a hyn, nad oes mor myned yno hebgymmeryd llawer o boen. Nid y si,

eithr

eithr St *Paul* y pregethwr sydd yn dywedyd hynny, *Ni choronir neb, onid yndrech yn gyfreithlon.* Bydded i fawredd y gwobrwy gan hynny ein cyffuro a'n hysparduno ym mlaen; ac na fydded i lafur a phoen, byrr lafur, a phoen bychan, ein lluddias, neu ein cadw ni yn ol. Rhaid i ni fyned thagom, rhaid i ni barhau i fyned thagom, nid rhaid i ni feddwl cymmaint am arwder y ffordd, ag am y *Dragywyddoldeb* bendigedig, yr hyn yw ei diben hi. A hyn y mae yr un Tâd duwiol yn ei ddatgan yn drathagorol, gan ddywedyd, Nod ac amlygyn hyspys yr Etholedigion yw hyn, eu bod hwy yn gwybod pa sut i ymddwyn eu hunain yn ffordd y bywyd presennol hwn yn y cyfryw fodd, ac y ficcrhair hwy trwy obaith ddinam gyrhaeddyd o honynt uchder mawr: Yn gymmaint a'i bod hwy yn gweled y pethau trangcedig oll ym mhell îs eu llaw; ac o serch ar *Dragywyddoldeb* yn mathru y pethau daiarol oll tan eu traed. A hyn yma yw 'r hyn y mae 'r Arglwydd yn ei lefaru trwy enau ei brophwyd sanctaidd, gan ddywedyd wrth bob enaid sydd yn ei ddilyn ef, *Mi a'th ddercha-*

2 Tim. 2.5.

fof uwch law uchelderau y ddaiar: Canys am golledion, gwradwyddiadau, clodi, ammarch a'r cyffelyb, y cyfryw ynt ac y gallaf eu galw hwy yn y modd hyn, iſelderau y ddaiar, y rai nid yw anwyl ddynion y byd hwn, tra byddant yn rhodio gwaſtadedd y ffordd ehang yn hoffi dyfod yn agos attynt; Eithr dal oddi wrthynt cyn belled fyth ag allant. Eithr am elw a budd, yſpleddach a gwenieithy rhai y fo gwaelach, amſder o gyfoeth, urddas a lleoedd o barch, hwy ydynt uchelderau y ddaiar. Yr hwn pwy bynnag ſydd o feddwl bydol, ac yw gwedi ſefydlu ei amcannion ar y pethau iſod hyn, efe, meddaf, ſydd yn gwneuthur mawr gyfrif o honynt; o ran maent yn ymddangos yn fawr iddo ef: Eithr pwy bynnag ſydd o feddwl nefol, ac yw gwedi ſefydlu ei amcannion ar y pethau oddi uchod, efe, meddaf, ni wna bris o honynt; o ran maent yn ymddangos iddo ef, fel y maent, (hynny yw,) yn wael ac yn ddiyſtyr. Canys megis ac y mae gydâ gwr y fo yn eſcyn i fynydd uchel, pa uchaf yr eſdynno, iſach iſach yn waſtadol y gwel ef y ddaiar oddi tano: Felly

mae

mae gydag ef yr hwn ſydd a'i ymarweddiad yn y Neſoedd; pa uchaf yr ymgodo ef oddi ar y ddaiar ag adenydd meddyliau duwiol, bellach bellach yr hêd ef oddi wrth y ddaiar ag adenydd ei amcannion; efe a wyr nad yw holl ogoniant y byd hwn ddim, ac am hynny mae ei feddyliau a'i amcannion ef ar ſyd arall yn gwbl oll. Dyna 'r gwr *a dderchaſwyd uwch law uchelderau y ddaiar.*

Chwi glywſoch yr hyn y mae St *Gregori* yn ei ddywedyd: Ni byddei ar fai yn y ſan neſaf wrando pa beth y mae St *Auguſtin* yn ei ddywedyd yn yr un modd. Pa beth yw hynny? Gwers yw a dal ei dyſgu. Yr hyn ſydd rhaid i'n ei golli o angenrhaid, (medd ef) iyw amſer neu ei gilydd, doethineb yw, gwneuthur doſparth a honaw mewn amſer; Megis y gallom ni wrth hynny bwrcaſu gwobrwy *Tragwyddol.* *Moſes* y fu f,w yn hir yn ficer, efe a fu fyw mewn iechyd; Ond o'r diwedd *efe a fu farw*: *Methuſelah* a fu fyw yn hwy nag ef, ond y mae yn canlyn, *Ac efe a fu farw.* Hyn yw, neu ſydd fedd argraph pob dyn, *ac efe a fu farw.* Canys gan farw yr

Deut. 34.5. Gen. 5. 27. 2 Sam

24.24. *ydym ni yn marw, ac ydym fel dyfrodd wedi eu tywallt ar y ddaiar.* Eithr anfarwol yw 'r enaid, *Tragywydd* yw, bydd iddo fyw byth naill a'i mewn *gogoniant Tragywyddol*, onide, mewn *poenau Tragywyddol*. Ein coelbren ni a fwrrir yma; ym mha *Dragywyddoldeb* a bydd i ni gael ein rhan: Ac nid oes mor ail fwrw arno. Oh *Tragywyddoldeb* bendigedig! Oh gwynfyded grwydd *Tragywyddol*! Pa fodd y mae hyn yn dyfod i ben, nad ydym ni odid o amser, neu un amser yn myfyrio arnat? Neu o ydym ni ryw amser, nid ydym ni yn gwneuthur hyn, ond ag ystlys amcan? Pa fodd y mae hyn yn digwyddo, nad ydym ni yn llafurio mwy am danat, nad ydym yn ymofyn am danat, nad ydym yn erlyn am danat, O Arglwydd Ddduw egor ein llygaid, fel y gallom weled a gwybod pa beth yw *Tragywyddoldeb*, y *ddau*, sef, y naill hwnnw o ogoniant, a'r llall hwnnw o boenau: ac mor annherfynedig yw 'r ddau: Mor fendigedig y naill, ac mor refynus y llall. Fe ddarfu i ti ein creu ni i ti dy hun, darfu i ti ein creu ni i *Dragywyddoldeb*: Canys ty di yw *Tragywyddoldeb*. Di a ewyllyfir

lyfiit ein bod ni yn gyfrannogion o'th *Tragywyddoldeb*, Arglwydd bydded hynny yn ol dyewyllys di a'i dywedaiſt. Arglwydd, bydded hynny yn ol dy air: Di ai gaddewaſt, Arglwydd, cywirady addewid; gwna ni yn gyfrannogion o'th *Tragywyddoldeb* di. Caniatta i ni fedru treulio y moment byrr o amſer y roddwyd i ni yma yn hyn o fywyd yn y fath fodd dduwiol a chreſyddol, ac y bydd dynion a ſo yn llafurio am *Dragywyddoldeb*, yn ymryſſon am *Dragywyddoldeb*, yn dioddef am *Dragywyddoldeb*. I'r diben y mia par i'th Weinidogion gofio i ni yn fynych fyfyrio yn waſtadol ar *Dragywyddoldeb*; par i ni gofio i'w gilydd ym mhob man fyfyrio ar *Dragywyddoldeb*, fel y gallom ni felly trwy dy drugaredd gael teyrnaſu gyda thi, O *Tragywyddoldeb*; ac i gymmaint ag y fo poſſibl gael eu cadw rhag darfod am danynt yn *Dragywyddol*. Clywch hyn chwi griſtionogion oll, clywch hyn chwi Anghriſtionogion, clywch hyn chwi frenhinoedd, a thywyſogion, clywch hyn chwi *Ellmyn*, clywch hyn chwi *Ffrancod*, clywch hyn chwi *Saeſon*; clywch hyn chwi 'r *Cymru*, ie bydded

i'r holl fyd glywed hyn, *nad all sicrwydd yn y byd sod yn ddigon lle byddo 'r perigl am golli Tragywyddoldeb.*

Oh hir! oh dwfn! oh difeisiedig! Oh *Tragywyddoldeb Tragywyddol!*
Psl. 84.4. *Gwynfyd, ô Arglwydd preswylwyr dy dy: Yn wastad i'th foliannant.* Hwy a'th foliannant rhyd myrddiwnau aneirif o oesau.

Moses yn agos i'w farwolaeth, yn gorchymmyn i Dduw yn ei weddiau bobl Israel, ac yn eu bendithio, cymmerodd ei gennad fel hyn gan lwyth
Deut. 33.24. 25.26. *Aser*, ac y ddywedodd, *Bendithier Aser â phlant. Bydded gymmeradwy gan ei frodyr, ac efe a wlych ei droed mewn olew. Haiarn a phres fydd tan dy esgid ti: A megis dy ddyddiau y bydd dy nerth. Nid oes megis Duw Israel, yr hwn sydd yn marchogaeth y Nefoedd yn gymmorth i't; a'r wybrennau yn ei fawredd. Dy noddfa yw Duw tragywyddol, ac oddi tanodd y mae y breichiau tragywyddol.* Yn anfeidrol fel hyn y mae Duw yn lledu allan freichiau ei gadernid trwy 'r Nefoedd oll: A thrwy ei freichiau ef y mae 'r byd oll, yr amser oll. a'r pethau oll sydd yn y byd yn cael eu cyfarwyddo,

cyfarwyddo, eu harwelnio a'r Rheoli. Duw o'r dechreuad yn y modd hyn, Je o *Dragywyddoldeb* ei ragluniaeth, a ddygodd yn ei ddwyfron y thai duwiol oll, ac sydd yn eu hamddiffyn hwy beunydd, a phob awr, ac fel ped fai yn eu cofleidio hwynt a'i freichiau. Escyn gan hynny, o fy enaid, ac na fydded i ti a wnelych ond hynny â daiar a chlai. Ymestyn dy hun o hyd, ac escyn i fynu atto ef yr hwn sydd yn marchogaeth y Nefoedd, escyn i fynu at dy Dduw, preswylfod yr hwn sydd yn y mynyddoedd uchaf, y mynyddoedd hynny o *Dragywyddoldeb*. Yno di a eisteddi mewn diogelwch, a chei weled y ddaiar isod: Ac felly y deelli yn eglur mor goeg ac anghymmeradwy yw 'r pethau ynt isod yma, y thai ynt yn awr naill a'i gyrru arnat a chariad, neu yn dy frawychu ag ofn: deelli yn eglur pa beth salw yw hynny, pa beth bynnag a gynhwyfir o fewn perffedd bwynt y byd, y Glohyn bychan y ddaiar; deelli yn eglur fel y mae pob peth yr ywt ti yn i ddymuno yn ofer, yn wael, ie yn wagedd ei hun, ie yn hytrach yn wir anoberi mewn cyftelybiaeth i Dduw ac i *Dragywyddol-*

deb. Gan hynny ymofyn di am y gwir ddaioni pennaf, ac na fyddod gennit fatter am bethau eraill: Ymddiried yn Nuw, egor dy galon yn llydan i'w groesawu, mathra tan dy draed pa beth bynnag sydd tan yr haul a'r lleuad, pa beth bynnag sydd yn dy hudo di â gwên, neu yn dy frawychu di a gwg; Meddwl am *Dragywyddoldeb*, a dal yn dy gof bob amser yr ymadrodd godidog hwnnw o eiddo St *Hierom*, na fyddled i lafur yn y byd ymddangos yn hir, rhyd yr amser y byddwn ni yn ymgais ar ol gogoniant *Tragywyddol*.

St *Hierom* sydd yn thoi allan, fod ar amser ryw Gamel wedi ei gyrchu gan yspryd drwg. yr hwn gwedi ei ddwyn ger bron *Hilarion* gwr duwiol crefyddol, a ddechreuodd ymgynddeiriogi yn y cyfryw fodd ofnadwy a rhyfeddol, fel ped fuasei yn ei fryd i ddifa ef yn ddiattreg: Eithr y gwr duwiol o lefarodd fel hyn yn ddiatswydd wrth yr yspryd drwg, *Ty di yspryd drwg, na feddwl sy uychrynu i: er cael o honot Gamel am dy gefn: Pa 'r un bynnag a'i mewn croen Camel a'i mewn croen llwynog y de-*

lych,

lych yr un modd gen i. Ar camel cynddeiriog a ſyrthioddi lawr ger ei fron ef yn ddioed, ac y briſiodd yn llonydd ac yn hywedd iawn, i ddigriſwch pawb oedd yn ſefyll o'i amgylch. Pob gweniaith yſpleddach, hudoliaeth a phroſedigaethau y byd hwn ynt gyffelyb; Pob ofn, gwg, braw a dychrynedigaethau yn gyffelyb: A pha beth yr wyt ti yn ei obeithio? Pa beth yr wyt ti yn ei ofni? Pa beth yr wyt ti yn ei garu? *Yr hwn ſydd yn marchogaeth y Nefoedd yw dy gymmorth, efe a'th gofleidia a'i freichiau Tragywyddol.* Efe y ddichon ar breichiau hynny o'i ciddo laſſetheirio dy holl elynion, Pa 'r un bynnag a wnant a'i gwneuthur gwen a'i gwg arnat: Ar amnaid efe y ddichon eu gwaſgu hwynt yn dippynnau yn gyſſelyb i gymmaint a hynny o wybed, a'i dryllio hwynt yn gregyn fel lleſtr y crochenydd. Ynteu yw difyrrwch, trachwant glothineb, neu anardymheruſrwydd yn gyrru arnat? Nid yw hynny ddim na chynhyrfa wrth hyn, bwrw hyn heibio, na wna gyfrif o bonynt; myfyria yn hytrach ar y difyrrwch yr hwn ſydd yn *Dragywyddol.* Ydys

yn

yn dy ddychrynu di a bygwthion, yn dy orthrymmu di a thriſtwch, bwrw hynny heibio yn ddiyſtyr: Ydys yn dy gyſtuddio di a chlefyd, yn dy ſlino di yn lan a thlodi? Nid yw rhain oll fatter dim; y rhain pan angerddolaf y bont, byrrach y bydd yr amſer y parhant. Bydded yn ddiyſtyr gennit hwy; derchafa i fynu dy olygon tu ar mynyddoedd o rlle y daw dy gymmorth, edrych i fynu tu ar Neſo-

Dahar. edd, *Myfyria ar Dragywyddoldeb*
12. 21. *ni ddigwydd i'r cyfiawn ddim blinder.*

Si fractus illabatur orbis,
Impavidum ferient ruinæ.
Ni bydd i'r cyfiawn ofni er ſythio,
Ar ei ben yr wybren dewdo.

Am hynny nid yw 'r cyfiawn driſt un amſer: Ni bydd blinderau yn y byd yn goſod arno un amſer. Eithr onid yw blinderau y cyfiawn yn amſ? Ydynt: eithr er hynny ni wnant hwy ddim o honynt. Hyn yn unig y maent hwy yn ei gyfle yn ddrwg, ſef, yr hyn ſydd yn *Dragywyddol*, y peth a neilldua ddyn oddi wrth Dduw, megis y mae pechod yn gwneuthur, a marwolaeth *Tragywyddol*; *Yr hyn*

yn

yw cyflog pechod. Y mae Pregethwr y cenhedloedd yn erchi i ni *na edrychom ar y pethau a welir, ond ar y pethau ni welir.* Pa ham hynny. Canys, medd ef, *y pethau a welir sy tros amser, ond y pethau ni welir sy dragywyddol*; y pethau ni welir, y pethau sy dragywyddol, pethau mawr yw y rheini yn ſicer, pa 'r un bynnag fyddant ai da a'i drwg. 2 Cor. 4. 8.

Eithr tra 'r ydym ni yn edrych yn unig ar y pethau a welom, ac yn anfynych neu un amſer ar y pethau ni welom, pa beth yr ydym yn ei wneuthur o honom ein hunain ond bechgyn mawr ynfyd? Mawr, ond er hynny yn ynfyd; (a bwrw 'r goreu;) ond bechgyn. Os y pibonwy a fyrth o'n dwylo, ni a ymollyngwn i wylo yn ddiattreg. ac ettto y cyfi yw beth yw hwnnw nad allwn ei ddal yn hir: yr ydym yn ofni cyfgodau, ac yn breuddwydio am faterion mawr: yr ydym yn treulio ein hunain ar y c fryw bethau ac y fyddo iddynt, nid yn unig fyned heibio ar fyrder yn ddiammeu: Eithr ynt yn mynedheibio yn barod. Canys nid ydys yn dywedyd dull neu wedd *y byd hwn a heibio* yn yramſer a ddaw. Eithr y *mae dull y byd hwn*

yn

yn myned heibio, yn yr amser presennol. Y mae fe yn myned heibio yn barod. Megis nad yw 'r holl gyfoeth a feddom ni ond trangcedig; felly nid yw 'r holl ddrygau a ddioddefwn ni yma ond trangcedig, nid allant barhau yn hir. Gan y pethau hynny ni welir, y mae y cyflwr parhaus yn unig, nid adwaenant hwy un diwedd, ni feddant un amser, nid ydynt yn ddarostyngedig i neb ryw gyfnewidiad, maent yn gadarn, maent yn safadwy, maent yn *Dragywyddol*. Mi a ail adroddaf drachefn yr hyn a ddywedais i ychydig ym mlaen; Canys fe ryglyddeiei ail adrodd fil a mil o weithiau; na fydded i lafur yn ybyd ym ddangos yn anhawdd, nac i amser yn y bydym ddangos yn hir, rhyd yr amser ybyddom yn ymgais ar ol gogoniant tragywyddol.

Symphorianus gwr ievango Christianus, ar ol darfod agos ei ftlangellu i farwolaeth, fel yr oeddid yn ei lusgo i'w ddihenydd yn *Augustodunum*, cyfarfu a'i fam ar y ffordd; eithr mewn pa agwedd? Nid yn tynnu ei gwallt, neu yn rhwygo ei dillad, neu gwedi eu dattod hwy ar ei dwyfron, neu yn gwnenthur gorthrwm alarnad; fel y bydd gwragedd ynfyd yn arfer o

wneuthur: Eithr yn ymddwyn ei hunan yn gyffelyb i Arglwyddes arwraidd Ghriſtionogawl: Oblegid hi a waeddodd ac a alwodd ar ei mab, ac y ddywedodd, *fy mab, ſy mab, coſia, meddaſ, fywy l Tragywyddol, edrych i ſynu tu ar neſoedd, derchaſa i ſynu tu ar neſoedd, derchaſa i ſynu dy olygon at yr hwn ſydd yn teyrnaſu yno. Nid ydys yn dwyn hywyd oddi arnat, eithr ei gyfnewid ef yr ydys am un arall.* Ar y geiriau hyn o eiddo ei fam y gwr ievangc a gymmerodd y fath gyſſur rhagorol, ac yr aeth ef yn ewyllyſgar i'w ddihenydd; ac fel ymdrechwr gwrolwych rhoes ei ben i lawr yn ſiriol ar yr vſcymmydd, ac y lwyr roddodd i wddf i'r ſwyall anghenol.

Clywch hyn ô Ghriſtionogion oll, a meddyliwch am danoch eich hunain, dyna gyſlwr pob dyn bywi yr ydym ni ar ein ffordd i farwolaeth: Nid ydym ni yn myned cyn gynted, yſgatſydd, ac yr oedd *Symphorianus*; ond er hynny myned yr ydym ni oll, ac nid oes i ni nemmawr i ſyned. Yr ardderchog lu o Ferthyron y rhai aethant o n blaen ni, ynt yn galw o'r neſoedd arnom ac yn dywedyd fel y dywedodd y fam Ghriſtianus wrol galon

lon wrth ei mab ac efe yn ninyned i'w ddihenydd, *cofia fywyd Tragywyddol, edrych i fyny tu ar Nefoedd, derchafa i fyny dy olygon at yr hwn ſydd yn teyrnaſu yno.* Gan hynny pwy bynnag wyt ac ſydd yn proffeſu dy fod yn Griſtion ymddwg dy hun yn gyffelyb i *Symphorianus.* Na fydd yn pwyſo yn ol, nac yn anhawdd gennit fyned, na thyn ymmaith dy wadd oddi tan yr iau, nath yſgwyddau, oddi tan y groes; na arſwyda ddioddefer mwyn Chriſt: nac ofna farwer mwyn Chriſt, na arſwyda fwyta tan, new lyngcu 'r cleddyf er mwyn Chriſt. Dangos yma dy fod yn wr, cymmer g, ſlut a chalon dda.

A phan dempeir di un amſer, pan orthrymmir di, pan wneir di yn driſt, pan drallodir di, pan ddirmygir di, pan wneir di yn watwargerdd, pan wradwyddir di, pan yſpeilir di o'th dda. oedd, pan fyddo i ti fel y bu i *Job* ar y donmen, neu os gallei fod yn waeth, yno galw i'th gof *Symphorianus*, a mil or Griſtionogion dewrwych cyffelyb iddo ynteef, a dyſg gandynt wroldeb Chriſtianus a mawrfrydigrwydd, a thor allan yn hyf ac yn rhwydd i'r geiriau hyn, ac ail adrodd liwy yn fynch; y

nych; beth bynnag a ddioddefwyf yma, nid yw ond ychydig, nid yw ond byrr. Am hynny canaf yn iach i'r holl fyd, ac i bob peth fydd ynddo: Croesaw attafi, y mae i ti groesaw *Tragywyddoldeb.*

Ar
Dragywyddoldeb nid oes un
TERFYN.

Boreuol Weddi.

O Dragywyddol Ddvw, a Thrugaroccaf Dâd. yr ydym ni yma yn cyfaddef, ac yn cydnabod o flaen dy ddwyiol fawrhydi, ein bod ni yn bechaduriaid truain wedi ein cael a'n geni mewn pechod, ac anwiredd; fel nad oes ynom ddim daioni: Canys y mae 'r cnawd yn wastadol yn gwrthryfela yn erbyn yr yspryd, trwy 'r hyn yr ydym ni yn tvoscddu beunydd dy sanctaidd eirchion a'th orchymynion: ac felly yn pwrcasu trwy dy gyfiawn farnedigaeth, farwolaeth a damnedigaeth i ni ein hunain. Etto er hyn i gyd (ô Nefol Dad) ac yn gymmaint a'n bôd ni yn ddig wrthym ein hunain am y pechodau a wnaethom ni yn dy erbyn, a'n bod ni yn wir ediseiriol am danynt, yr ydym yn ddaroslyngedig yn adolwg i ti er mwyn Jesu Grist gymmeryd trugaredd arnom, a maddeu i ni ein holl bechodau; ac angwhanegu dy yspryd sanctaidd ynom, megis yn cydnabod o eigion

eigion ein calonnau éin anghyfiawnder ein hunain, y gallom o hyn allan nid yn unig farweiddio ein trachwantau a'n meddyliau pechadurus; Eithr dwyn y fath ffrwythau, ac y syddo yn cyttuno a'th ewyllys trabendigedig: nid er mwyn teilyngdod hyn yma; eithr er mwyn teilyngdod dy anwyl gariadus fâb Jesu Grist ein hunig jachawdwr, yr hwn a roddaist di yn barod yn offrwm ac yn aberth tros ein pechodau; ac yr ydym yn credu yn ddiau na ommeddi monom er ei fwyn ef o ddim ar a ofynnom yn ei enw ef yn ol dy ewyllys di: Canys y mae dy yspryd yn siccrhau ein cydwybod, mai dy di yw ein Tad trugarog, a'th fôd di yn ein caru ni dy blant felly trwyddoeff, ac nas dichon dim dynnu ymaith dy Nefol Ras, a'th cariad oddiwrthym. O Arglwydd cryfhâ ein ffydd ni, ac ennynna ynddi awydd a chariad i ti, ac i'n cymmydogion er dy fwyn di. Na chynnwys i ni un amser O anwylaf dad dderbyn dy air yn ofer: Eithr caniatta i ni gymmorth dy ras a'th yspryd sanctaidd fel y gallom ni yn ein calonnau ein geiriau an gweithredoedd sancteiddio ac addoli dy enw. Dyro Borth ĩ angwhanegu ac i amlhau dy deyrnas a pha beth oynnag a ddansonech

i ni fod yn wir ſodlon yn ein calonnau i'th arfaeth a'th ewyllys bendigedig. Na fydded amom, ô Dad, ddiffyg y peth, heb yr hwn nid allwn ni dy wasanaethu di: eithr bendithia ſilly holl weithredoedd ein dwylo ni y dydd heddyw a holl ddyddiau ein bywyd fel y gallom gael digonolrhwydd, ac na byddom yn pwyſo ar neb; eithr yn hytrach yn rhoddi porth i eraill. Ac yma beſyd, O Arglwydd yr ydym yn diolch i ti am dy holl drugareddau a'th garedigrwydd y ddangoſaiſt i ni, ſôd yn wir gennit o'th raſol addwynder yn rhwydd ac o bonot dy hyn ein hetbol ni a'n dewis i jechydwriaeth eyn dechreuad y byd: dr cyffelyb ddiolch gwaſtadol a roddwn ni i ti am ein creu ni ar dy ddelw dy anwyl fîb, pan oeddem ni yn amrygoll; Am i ti trwy ffydd yng Hriſt ein cyfiawnhau ni y rhaio herwydd naturydym blant i ddigoſaiat; Am ein ſanctteiddio ni a'th lân yſpryd yn y datcuddiad a gwybodaeth o'th ſanctaidd air; a'm ein cymmorth a ſefyll gydâ ni yn ein holl anghennion ac angenrheidiau: am ein heddwch a'n hawddfyd; a'm ein cyſſaro ai mor Dadol yn ein blinderau oll ac erlidiau; am gyd-ddwyn â ni cybyd, ac am roddi i ni cybyd o amſer i

edifarhau;

edifarhau. Megis yr ydym yn cydnebod, Drugaroccaſ Dad, ddarſod i ni dderbyn y doniau ymma o'th unig addwynder, felly hefyd yr ydym yn adolwg i ti er mwyn dy anwyl fab Jeſu Griſt ganialau i ni bob amſer dy yſpryd glan megis y gallom ni gynyddu mewn diolchgarwch yn waſtadol tu ag attad i, i'n harwain i bob gwirionedd, i'n cyſſuro ym mhob gwrthwyneb. Yr ydym yn diolch i ti hefyd, ô Arglwydd, am ymddiffyn ein eneidiau ni a'n cyrph y nos hon aeth heibio rhag ei holl beryglon a neweidiau, ac a'm ein cadw ni yn ddiangol hyd yn hyn o'r dydd heddyw: Ac megis y daſu i ti ddeffroi ein cyrph ni o gwſg, felly ni adolygwn i ti gynhyrfu a chyffroi ein heneidiau rhag iddynt gyſgu mewn pechod, ac mewn angof diſynniol am y byd a ddaw, ſeſy Tragywyddoldeb. Dyroi ni ras i feddwl a'm ein diwedd a'r cyſrif ſydd raid i ni ei wneuthur i ti y pryd hynny. Planna yn ein calonnau ni y difrifol fwriad o wneuthur y dydd heddyw yn gyntaſ o'n buchedd newydd, fel yn rhodio rhag llaw megis plant y goleuni mewn diweirdeb a diniweidrwydd ger bron dy wyneb, y caffom yn niwedd ein bywyd etiſeddu dy Dragywyddoldeb

bendi-

bendigedig.. Ac i'r perwyl yma rhyglydded bodd i ti, ô Arglwydd hollaltuog, ddiddymmu bwriadau, dichellion, a ſiomedigaethau Sathaa, y rhai ynt beunydd yn ein hudo ni i ddrygioni, rhag ein gwneuthur ni un amſer yn anghymmeradwy yn dy wydd di. O ein Duw dyro i ni dy holl arſogaeth, uwch law pob dim tarian y ffydd, fel y gallom ni ddiffoddi holl biccellau Tanllyd y fall; a gorchymmyn ein eneidiau a'n cyrph; ein meddyliau, geiriau an gweithredoedd i'th cadwraeth ath lywodraeth di y dydd heddyw a phob dydd o'n Bywyd. O Arglwydd bendithia yr eglwys â chyfundeb, a llywodraeth y deyrnas bon â thangneddyf, cyſiawnder a threfydd dda. Hyſſordda weinidogion yr eglwys mewn gwir ffydd i draethu dy air yn ddyfal, heb oſn nag arſwyd. Bydd drugarog wrth ein holl frodyr yr rhai a'th oſnant ac a'th wir anrhydeddant, a chyſſura bawb o honynt ac ſydd yn glaf neu yn ddigynnorthwy mewn corph neu feddwl: Bydd drugarog wrth y rhai ſydd yn dioddef cyſtudd a charchar er mwyn tyſtiolaeth i'th wirionedd. Pryſura ddyfodiad ein harglwydd ni Jeſu Griſt, a bydd drugarog wrthym ni, a chan weled fod ein

dyled

dyled ni yn fawr yr hon yn Jesu Grist a saddeuaist i ni. Par i ni dy garu di, a'n Cymmydogion yn swy o aros hynny; bydd di yn Dad i ni, yn arweinydd, ac yn ymddisynnwr ym mhob profedigaeth: Cynnal ni a'th law rasusol, fel y cassom ni ein gwared rhag pob tramgwydd, a diweddu ein bywyd yn bendithio ac yn anrhydeddu dy enw sanctaidd trwy Jesu Christ ein harglwydd a'n hunig Jachawdur, yn enw er hwn y terfynwn yr ammherffaith weddi hon yn y berffaith weddi sanctaidd a ddysgodd ef ei hun i ni gan ddywedyd. Ein Tad &c.

Bydded dy *Alluog law, a'th estyngedig sraich, ô Arglwydd, ein wastadol ymddiffyn ni:* Dy *drugaredd a'th caredig ada'wynder yn Jesu Grist dy anwyl fab ein* Jachawdwr *ein Conffordd: dy wir a'th sanctaidd air ein* Athrawiaeth: Dy *Râs a'th sanctaidd yspryd ein cyssur, a'n diddanwch, byd y diwedd ac yn y diwedd.*

Pryd-

Prydn-hawnol weddi.

NY ni, Oh! Greaduriaid truain tragresynaf, a ostyngwyd i lawr (O Arglydd) gan gymmant a hynny o ddrygau, gan gyfryw hynod bechodau, camweddau gorthrwm, beiau ffiaidd, ac aml anwireddau; fel yr ydym ni yn cyfaddef ddarfod i ni trwy lawer mil o foddion dy anfoddhau di, ac a haeddasom fwy o gospedigaethau nag ydym ni abl i'w dioddef: O Arglwydd y cyfryw yw ein cyndynrhwydd ein truein melldigedig, a'n rhediad disynniol yn wysg ein pennau o wagedd i wagedd, o ddrwg i ddrwg; yn gymmaint a hynny a darfod i ni ddilyn y tywyllweh yn lle goleuni, croesawu amryfuseddau yn lle gwirionedd; drygioni yn lle rhinwedd; a darfod i ni yn lle gwneuthur daioni ie a mawrchwant ddilyn anwiredd. Fe ddarfu i waelodion troseddiad Sathan ein tra gorchsygu ni (O Arglwydd) a dwfn wreiddio yn ein calonnan, a chymmeryd y fath afael siccr yn ein cnawd llygredig; fel y mae yn dwyn ffrwythau buchedd ddrwg yn wastadol: Y mae ein cy-

dwybod yn ein cyhuddo ac yn ſefyll megis llawer o dyſtion i'n herbyn, yr ydym yn clywed yn hunain yr ethrymedig gan lawer o bechodau, gan droſeddiadau aneirif yn erbyn dy fawrhydi; yr ydym yn cydnabod fod y lleiaf o'r rhai hyn, o'r gallu, yn gyfiawn, i'n condemnio: O Arglwydd ein taſolau, ein gwefuſau, a'n calonnau a wthryſelaſant yn dy erbyn; ein meddylian ſwnt ddrwg, ein geiriau yn ddrygionus, a'n gweithredoedd yn ffiaidd o'th flaen di: ie, o'n pen hyd ein traed, nid oes un rhan (ô Arglwydd) a ddichon ddiheuro dy anſodahau di. Am hynny yr ydym yn cydnabod, nid yn unig a'n lleferydd oddi allan, eithr ag ymwrandawiad yn ein calonnau ddarſod i ni dy ddigio yn ormod; a gwneuthur yr hyn oedd ffiaidd yn dy olwg di; trwy 'r hyn yr hadeſom dy dramawr ddigoſaint i'n herbyn: Yn gymmaint a hynny, ac y gelli yn gyfiawn ein troi ni ymmaith, yn taſlu oddi wrthit, a'n gwrthod, nad ydym deilwng i'n galw yn blant i ti. O Arglwydd, yr ydym yn cydnabod yr awrhon ein trueni ein hunain, a chyfiawnder yr ydym ſod ſymmedigaethau y cnawd a Satan yn hyn a briſſiaſom ac a gyfrifaſom yn

gu, i gyd oll yn dwyllgar ac yn ddrygionus; a chydnabod yr ydym ſod y gwirioneddoll, y porth oll, y comſfordd, y cyſſur, a'r gwir ddiddanwch yn deilliaw oddi wrthit ti, ſynnon yr holl wynfyd: Yr hwn yn arhueni mwyaf dynion, ie, o'th wir gariad a'th Zêl ddiffuant i'n iechydwriaeth, a ddanſonaiſt ſeddyginiaeth i iachau ein melldigedigrwydd, dy Fab dy hun Jeſu Ghriſt; yr hwn a gymmerodd ymmaith y diaſledd a baeddaſom am droſeddu dy ewyllys: Yn enw yr hwn ac er ei fwyn, cymmer drugaredd arnom, na ddyro mo'n pechodau yn ein herbyn, trwy yr rhaiſ yr baeddaſom ddamnedigaeth Dragwyddol. Rhyngod bodd i ti (ô Arglwydd) er dar ſod i ni yn gyfiawn baeddu marwolaeth o ran ein gorthrwm bechodau dros dy wyneb mewn trugaredd nid mewn cyfiawnder, tu ag attom: Na ddal ſulw ar ein camweddau, Eithr dal ſulw ar yr Aberth, a'r offrwm a offrymmwyd ar y Groes am ail gymmod y theini drachefn a thy di, a ddeuant attad drachefn trwyddo ef: Trwy yr hwn, ô Arglwydd, yr ydym ninnau yn dyſod attad, ac er mwyn ei baeddedigae-

thau ef yr ydym yn erfyn maddeuant, gan ymwrthod yn gwbl a'n hacddedigaethau ein hunain. Oh! cofia dy garediccaf addewid, a bydded yn gymmeradwy gennit ei farwolaeth a'i chwerw ddioddefaint ef yn daledigaeth gyflawn am ein holl gamweddau, ac yn gwbl ddiegonol bridwerth am ein holl ddrygioni a fuo'r blaen: Bydded i'th ddigofaint, o Arglwydd, gael ei ddihuddo, a'th tra mawr ddigllonedd oeri, ac i'th gariad adnewyddu trwyddo ef: felly ga'llom ni o hyn allan mewn gwir ffydd ddiammeu gymmeryd gafael trwyddo ef yn y maddeuant o'n pechodau; a chredu yn ddiffuant mai ufudd-dod dy fab Jesu Grist a wnaeth ein cymmod ni gydâ thi, ac mai trwy ei farwolaeth ef a gwnaed ni yn fyw, ac mai trwy ei atgyfodiad ef y cyfiawnhawyd ni yn dy olwg di. Bydded i'th yſpryd glân, (O fendigedig Arglwydd Ddaw) ein ſicrhau trwy 'r unrhyw ffydd ein bod ni yn ddiammeu gwedi ein derbyn i'th ffafor a'th gariad dracheſn; mal trwy hyn yn cael ein gwir ddiddanu, y gallom ſwynhau rhyddid meddwl digaeth, trwy yr hyn y gallwn dy waſanaethu, trwy

trwy yr hyn y gallwn fod yn ufudd i ti, a thrwy 'r hyn y gallwn brifio mewn cafineb duwiol i'r benddyn: ac mewn gwir ferch diffuant i gyfiawnder: mal y gallom o hyn allan ymarfer eir hunain yn ddyfal mewn newydd-deb buchedd i waeuthur ac i gyflawni yn waftadol y pethau hynny y ddichon dyftiolaethu oddi allan yn efampl i ddynion eraill, yr hyn yr ydym ni yn ei gredu o'ldi fewn; trwy daflu ymmaith bob lledrith, a rhagrith, gorchgadd pechod; gan dreulio yr hyn fydd yn ol o'n dyddiau mewn pur a pherffaith-lawn ymarweddiad, yn dwyn ffrwythau addas i newydd-deb buchedd; mal pan ddarfyddo 'r bywyd yma, y gallom trwy ei haeddedigaethau ef dy Fab ein hunig Fachawdur a'n dadleuwr Jefu Ghrift berchennogi llawenydd y bywyd Tragywyddol yn ocs oefoedd. Ac yma (ô Arglwydd) rhoddwn i ti yn ddifrifol ddiolch ewyllysgar o eigion ein calonnau am dy holl donniau a th fendithion y rhai a rhagluniaift i ni yma yn y byd hwn, ac yn y byd a ddaw: Yn bendifaddeu am ein Etholedigaeth, prynedigaeth, galwedigaeth, cyfiawnhad, fanctteiddiad, am ein

hamdiffynniad ynghroth ein mammau; ac er pen aned ni hyd yr awr bresennol yma, ac am y dinam obaith a roddaist i ni o'n gogoneddiad: Hefyd am ein hiechyd, ein golud, ein llunniaeth, ein dillad, ein hawddfyd; ac yn enwedig am ddarfod i ti ein hamddiffyn ni y dydd hwn aeth heibio rhag pob peryglon a neweidian; ac am ein bendithio ni yn ein llafur a'n gweithredoedd: felly, (ó Arglwydd) o'th hynawsedd a'th arferol geidwadigaeth; yr ydym, yn adolwg i ti o'th ras fendithio i ni ein cwsg, a'n cadw ni y nos hon rhag pob perigl enbydrwydd, colledion tân, yspail, neu ryw wrthwyneb arall; a bod yn amddiffynfa i'n heneidiau rhag dyshrynedigaethau, budoliaethau, a phrofedigaethau Sathan, yr hwn ddydd a nos sydd a'i ddichellion i'n cynllwyn; A rhoddi i'n cyrph y cyfryw esmwythdra, ac a byddant yn gymmesurach i th wasanaethu di, ac i wneuthur gweithredoedd ein galwedigaeth y bore nesaf. Dyro dy ras i bob un o honom i fod yn barod beunydd i farw, ac i ymwrthod a'r byd trangcedig hwn; trwy roddi ein serch ar dy deyrnas nefol, a myfyrio yn wastadol ar y Tragywyddoldeb

bendigedig

bendigedig sydd gennit ti yno; sef yn y byd a ddaw, yr hwn ni ddersydd byth yn dragywydd: A *hyn a'n gwna ni o'r gallu i* barhau hyd y diwedd, i ddeisyf ein hym datt odiad, ac i fod gyda Christ, *Ehang iachusol achles ein heneidiau rhag gorthrymder pechod: Lle cawn ni yn ddiofn bob math ar ryddid byth bythoedd. O Arglwydd, yr ydym yn ersyn arnat sendithio o honot yr Eglwys a chysundeb, a holl swyddogion y deyrnas yma â rhadau angenrheidiol i'w galwediga-ethau; a chadw weinidogion yr eglwys ym mhurdeb dy wirionedd: Cyssura bawb ac sydd yn glaf ac yn ddigynnorthwy; a phob un ac sydd yn dioddef adfyd, a blinder am iawn dystiolaeth gwirionedd dy efengyl sanctaidd. Golch ni, ô arglwydd, golch ni, a gwna ni yn lan erbyn dysodiad ein Harglwydd Jesu Christ; a gosod ym mhell oddi wrthym bob annuwiol feddyliau, geiriau, a gweithredoedd, trwy farweiddio holl drachwantau ein cnawd, ein llygaid, an calonnau, trwy roddi i ni berffaith ammynedd ynghyd a ffydd ddiammeu, fel y gallom wneuthur sail dda erbyn yr amser a ddaw.* A *hynny er mwyn Jesu Grist ein hunig Jachawdur,*

a'n cyfryngwr, yn enw yr hwn i galwn arnat fel i'n dyſgodd yn y weddi ſanctteiddiodd ef a'i weſuſan ei hun ga ddywedyd. Ein Tad, *&c.*

Bydded dy Allwog law, *a'th eſtyngdig ſraich, ô Arglwydd, ein gwaſtadol ymddiffyn ni: dy drugaredd a'th garedig addwynder yn Jeſu Chriſt dy anwyl fab ein Hiachawdwr ein cymfforddi: dy wir a'th ſanctaidd air ein athrawiaeth: dy ras a'th ſanctaidd yſpryd ein cyſſur a'n diddanwch, hyd y diwedd acyn y diwedd.* AMEN.

TERFYN.